

Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

ADRODDIAD BLYNYDDOL am 2021/2022

ar Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018–2023

'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda,
byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel
a llewyrchus'

Hydref 2022



Gair o groeso gan Arweinydd y Cyngor i'n Hadroddiad Blynyddol am 2021-2022

Wrth ysgrifennu'r cyflwyniad hwn, rwyf wedi achub ar y cyfle i adolygu ein blwyddyn ac i fwrw golwg yn ôl ar ein perfformiad a'n llwyddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Fel Arweinydd newydd Cyngor Sir Caerfyrddin, rwy'n sylweddoli bod gen i sylfaen gadarn i adeiladu arni, ond mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol iawn, ac mae heriau sylweddol yn ein wynebu ar hyn o bryd. I mi, 2021/2022 yw'r flwyddyn sy'n dynodi diwedd y pandemig a dechrau'r argyfwng costau byw. Er gwaetha'r heriau, cymerwyd camau breision mewn sawl maes, yn cynnwys adfer ac adfywio, a gwnaethom gynlluniau ar gyfer addysg ein plant yn y dyfodol, adeiladu mwy o gartrefi, a pharhau i weithio tuag at fod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030.

Ar ddechrau'r pandemig, roeddem yn deall, ochr yn ochr â wynebu'r heriau o ddydd i ddydd, fod angen i ni roi cynllun adfer ar waith. Gwelsom gyfleoedd a daethom o hyd i uchelgeisiau newydd a allai sicrhau ein datblygiad a'n twf yn y dyfodol. Cyflwynwyd cynllun adfer cynhwysfawr gennym i gael Sir Gaerfyrddin yn ôl ar ei thaith tuag at dwf a nodwyd blaenoriaethau ar gyfer cefnogi busnesau, pobl a chymunedau. Rydym wedi parhau i weithio ar y cynllun hwnnw ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld cyfleoedd eraill ar gyfer twf. Yr hyn sy'n allweddol i'r cynllun yw cefnogi economi sylfaenol y sir a chefnogi pobl leol i ddatblygu sgiliau a thalent mewn meysydd sydd wedi'u targedu er mwyn creu gweithlu lleol cryf a gwydn. Yn y dyfodol, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gallu helpu ein hunain a chefnogi busnesau lleol.


Rydym wedi parhau i edrych ar gynlluniau adfer canol trefi ar gyfer Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin, yn ogystal â'n menter deg tref, gan barhau i ysgogi newidiadau ar gyfer yr holl drefi dan sylw a'u cymunedau ehangach.

Eleni, lansiwyd strategaeth ddeng mlynedd uchelgeisiol gennym yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer addysg yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn nodi dyheadau'r cyngor ar gyfer dysgwyr a staff am y 10 mlynedd nesaf. Nod y strategaeth yw adeiladu ar y gwaith da sydd wedi'i wneud hyd yma er mwyn darparu canlyniadau rhagorol yn gyson i bob dysgwr.

Cawsom wybod yn hydref 2021 fod prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi wedi derbyn £16.7 miliwn fel rhan o gronfa Ffyniant Bro newydd Llywodraeth y DU. Rydym wedi bod yn ymgyrchu i ddechrau gwaith ar y llwybr ers cryn dipyn o flynyddoedd ac mae'n wych gweld uchelgais arall yn cael ei gwireddu. Bydd prosiect Llwybr Dyffryn Tywi yn creu llwybr cerdded a beicio 20km oddi ar y ffordd sy'n cysylltu Caerfyrddin â Llandeilo wrth ochr Afon Tywi gan fynd drwy olygfeydd godidog sy'n cynnwys cestyll, parciau gwledig ac ystadau hanesyddol yn ogystal ag atyniadau gan gynnwys Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru a Gerddi Aberglasne.

Un arall o'n prosiectau a dderbyniodd arian drwy'r gronfa Ffyniant Bro oedd creu Hwb Caerfyrddin. Mae'r prosiect hwn yn defnyddio hen siop Debenhams unwaith eto, fel hwb canolog a fydd yn dwyn ynghyd ystod o wasanaethau cyhoeddus allweddol o dan yr unto a darparu mynediad cyfleus a lle i bobl ymlacio a mwynhau. Mae yn ei gamau datblygu cynnar o hyd, ond gallai'r fenter gyffrous gynnwys gofod hamdden, diwylliant ac arddangos o'r radd flaenaf ochr yn ochr â chyfleusterau iechyd ac addysgol, gwybodaeth i dwristiaid, gwasanaethau cwsmeriaid a mwy.

Fel y soniais yn gynharach, rydym wedi gallu tyfu er gwaethaf heriau'r pandemig, ond nawr rydym yn wynebu heriau'r argyfwng costau byw. Rydym yn wynebu cyfnod ansicr ac mae'r blynyddoedd nesaf yn siŵr o fod yn rhai anodd. Fodd bynnag mae gennym seiliau cryf, ac fel sy'n digwydd bob amser, byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i ganfod y ffordd orau o gamu ymlaen.



Rydym yn croesawu sylwadau adeiladol ar ein strategaethau a'n gwasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran clustnodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych â ni os ydych o'r farn y byddant o gymorth. Cysylltwch â ni yn **Rheoli Perfformiad Corfforaethol**, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP neu anfonwch e-bost at performance@sirgar.gov.uk

Cynnwys

COVID-19 ac Adfer

Tudalen

4

Cyflwyniad

8

Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin

Dechrau'n Dda	1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd.	19
	2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	26
	3. Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau i'r holl ddysgwyr	31
Byw'n Dda	4. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	39
	5. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	45
	6. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	53
	7. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	56
Henei ddio'n	8. Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthedd a diogelwch	62
	9. Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny	67
Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus	10. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol	73
	11. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	80
	12. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	84
	13. Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well	89

Atodiadau

100

COVID-19 AC ADFER

*Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda,
byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach,
diogel a llewyrchus*

DECHRAU'N DDA

PLANT AC YSGOLION



Mae'r deuddeg mis diwethaf, oherwydd COVID-19, wedi parhau i fod yn heriol i'r holl wasanaethau. Fodd bynnag, gwnaethom barhau i weithio drwy'r cyfnod adfer fel un tîm Addysg a Gwasanaethau Plant, er mwyn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael cefnogaeth lwyddiannus i gael mynediad i'w haddysg a'r holl wasanaethau oedd eu hangen arnynt.

Fe wnaeth yr Adran gydlyn cynlluniau i gynnal ysgolion a dysgwyr drwy gyfnodau clo drwy gwricwlwm cenedlaethol diwygiedig. Tarddodd y rhaglen yn gynnar, yn dilyn mewnbwn amlddisgyblaethol hanfodol gan yr holl dimau adrannol, gan ganolbwyntio ar lesiant dysgwyr ac ailymgysylltu mewn dysgu.

Mae pob ysgol wedi defnyddio eu cyllid grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau dirprwyedig i gefnogi dysgwyr. Mae arweinwyr ysgolion wedi trafod ffocws ac effaith y cyllid hwn gyda'u Ymynghorydd Cymorth Addysgol, gan ganolbwyntio ar y cymorth a'r ddarpariaeth ychwanegol y gallant eu darparu ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd, gan gynnwys y rhai hynny sydd fwyaf agored i niwed, gan ddefnyddio'r grant hwn.

Rydym wedi parhau i sicrhau bod ysgolion yn amgylcheddau diogel rhag COVID-19 gan gynnwys cefnogi Arweinwyr Ysgolion gyda diweddarau Asesiadau Risg, gan sicrhau ymlyniad wrth ganllawiau Iechyd a Diogelwch sy'n newid. Rydym hefyd wedi parhau i ddarparu glanhau ar lefel uwch ac wedi darparu adnoddau ychwanegol fel hidlyddion aer yn ôl y galw.

Er i wasanaethau plant barhau drwy gydol y cyfnod clo er mwyn sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc, bu'n rhaid addasu'r gwaith yn unol â'r trefniadau cadw pellter cymdeithasol. Mae eleni wedi bod hyd yn oed yn fwy heriol oherwydd Covid-19, gan roi pwysau sylweddol ar deuluoedd ac arwain at gynnydd yn y galw am ein gwasanaethau. Mae nifer y cysylltiadau â'r adran wedi cynyddu i 11,379 o gymharu â 9,498 y llynedd. Mae'r cynnydd hwn, ynghyd ag absenoldeb staff oherwydd COVID-19 a salwch, cyfyngiadau COVID-19, ac anawsterau recriwtio i gyd wedi bod yn heriau ychwanegol, gan roi mwy o bwysau ar dimau gofal plant. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae gweithwyr wedi bod yn ddyfeisgar trwy ddod o hyd i ffyrdd ystyrlon ac arloesol o wneud gwaith uniongyrchol, ac mae plant, teuluoedd a gwasanaethau wedi parhau i berfformio'n dda. Mae 90.2% o'r holl asesiadau newydd wedi eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.

Mae'r Tîm Cynhwysiant wedi parhau i ddarparu pob maes gwasanaeth drwy gydol cyfnod COVID-19. Mae dulliau darparu wedi'u haddasu yn dilyn ymgynghori â theuluoedd, ysgolion, y Gwasanaeth Addysg a Seicolegydd Plant, ac Iechyd gan sicrhau y gwneir pob ymdrech i barhau i ddarparu prosesau statudol a gwasanaethau cymorth.

Mae prosesau ymgeisio ar-lein newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim a Mynediad i'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n rhoi gwasanaeth llawer gwell i'n trigolion. Mae parhau â'r taliadau Prydau Ysgol Am Ddim wedi bod yn heriol.

BYW'N DDA



ECONOMI

Mae pandemig COVID-19 a Brexit wedi effeithio'n sylweddol ar economi Sir Gaerfyrddin. I gael dealltwriaeth dda o'r sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin, fe wnaethom ymgysylltu â thros 1,000 o fusnesau i gasglu tystiolaeth am effaith y pandemig ar ein busnesau, ar ddiweithdra, ac ar economïau ein trefi gwledig a'n prif drefi. Fe wnaeth hyn ein helpu i sefydlu [Cynllun Adfer Economaidd](#) clir (ni oedd y cyntaf yng Nghymru i wneud hynny) gan roi blaenoriaeth yn syth i ddiogelu swyddi a chefnogi ein mentrau bach a chanolog i gynyddu.


Mae busnesau wedi gwneud yn dda i 'fownsio'n ôl' – roedd y cyfyngiadau a osodwyd ar fusnesau yn creu ystod o heriau gweithredol a oedd yn rhwystr i greu incwm a chynhyrchiant. Roedd galw gan ddefnyddwyr a newid yn arferion gwario defnyddwyr yn bryder sylweddol, ond mae'r ymyriadau ariannol a'r gefnogaeth gan y Cyngor wedi cynorthwyo busnesau i weithredu ac arallgyfeirio mewn economi ôl-bandemig, sydd wedi'i hategu gan ymgyrch i feddwl a phrynu'n lleol dwy fenter '100% Sir Gâr'.

Beth ydym wedi'i gyflawni?

<i>Mae dros 1,100 o swyddi eisoes wedi'u creu a thros 700 o swyddi wedi'u diogelu.</i>	<i>Rydym wedi darparu dros £66 miliwn o Gronfeydd Adfer Busnes COVID-19 ar ran Llywodraeth Cymru</i>
<i>Rydym wedi dyfarnu contractau i fusnesau lleol, gan ddarparu cyfleoedd gwaith medrus yn yr economi leol a diogelu swyddi.</i>	<i>Rydym wedi llwyddo i ddarparu chwe ffair swyddi ym mhob un o'r prif drefi, i gefnogi sectorau sy'n profi heriau recriwtio difrifol.</i>
<i>Rydym wedi ymgysylltu ag ymhell dros 3,200 o fusnesau lleol ac wedi darparu cymorth hyfforddi i bron 900 o bobl.</i>	

Byddwn hefyd yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau tymor hwy sy'n cyfyngu ar dwf yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys cynhyrchiant a chyflogau isel, diffygion sgiliau, nifer rhy fach o fusnesau sy'n datblygu, a'r angen i fuddsoddi mewn seilwaith a safleoedd busnes modern. *Byddwn yn helpu economi Sir Gaerfyrddin i ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, a chyda chymunedau mwy cynaliadwy.*

HENEIDDIO'N DDA



GOFAL CYMDEITHASOL

O safbwynt gofal cymdeithasol, daeth rheoli'r heriau mae'r pandemig wedi'u creu yn rhan o'r gwaith arferol o ddydd i ddydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae llwyddiant y rhaglen frechu a'r niferoedd uchel iawn o oedolion agored i niwed a staff gofal cymdeithasol sydd wedi'u brechu, wedi golygu bod effaith trosglwyddiad yn y gymuned wedi bod yn wahanol iawn. Ac eithrio un digwyddiad ynysig yn yr haf, mae rheoli clystyrau o achosion mewn cartrefi gofal wedi dod yn haws, ac er bod COVID-19 dal wedi cyfrannu at absenoldeb staff, maent wedi dychwelyd i'r gwaith llawer cynt am eu bod, yn amlach na pheidio, yn ddigon iach i ddychwelyd i'r gwaith ar ddiwedd y cyfnod ynysu. Felly, mae COVID-19 wedi dod yn rhywbeth i ni ei reoli'n rhagweithiol, yn hytrach na gorfod ymateb yn adweithiol drwy'r amser i faterion brys a gwahanol. O ganlyniad i'r uchod, rydym wedi cael cyfle i ganolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n greiddiol i'n gwaith, ac i edrych ar sut rydym yn datblygu a llunio ein gwasanaethau fel eu bod yn addas i'r dyfodol.

Fodd bynnag, ein her fwyaf yw'r problemau recriwtio a chadw staff sylweddol sy'n bodoli o ran gweithlu gwaith cymdeithasol cymwys a gwaith gofal sydd heb gymhwyso. Nid oes digon o weithwyr cymdeithasol cymwys a staff gofal heb gymhwyso yn y farchnad swyddi i lenwi'r holl swyddi gwag yn y sir, ac rydym yn cystadlu ag asiantaethau sector cyhoeddus cyfagos a darparwyr sector annibynnol yn yr un gronfa gyfyngedig o weithwyr. Mae'r sefyllfa hon yn adlais o'r hyn sy'n digwydd yn genedlaethol, ac o ganlyniad, nid oes gennym ddigon o weithwyr cymdeithasol ar gael i asesu pawb sydd angen asesiadau mor gyflym ag yr hoffem, yn ogystal â chefnogi pobl agored i niwed. Yn ogystal, nid oes digon o weithlu wedi bod ar gael gennym i ddarparu'r holl ofal sydd ei angen. Felly, mae pobl yn gorfod aros yn hirach i gael asesiad nag yr hoffem, ac rydym yn gorfod blaenoriaethu'r rhai sydd angen cymorth fwyaf. Mae hyn yn golygu bod risg

sylweddol nad yw pobl yn cael yr help sydd ei angen arnynt mor gyflym ag y maen nhw ei angen, ac rydym yn gorfod rheoli'r risg honno'n effeithiol er mwyn cadw pobl yn ddiogel.

AMGYLCHEDD IACH, DIOGEL A LLEWYRCHUS




Yn ystod y cyfnod clo, fe wnaeth pobl ailddarganfod yr amgylchedd. Yn fwy nag erioed o'r blaen rydym wedi sylweddoli bod ein hamgylchedd naturiol yn hanfodol i'n llesiant. Roedd mwy o bobl yn defnyddio llwybrau troed a beicio.

O ganlyniad i'r cyfnod clo, roedd gwelliant mewn Ansawdd Aer yn ystod y flwyddyn oherwydd bod llai o deithiau cerbydau ar y ffordd. Y prif lygrwr sy'n peri pryder i Sir Gâr yw Nitrogen Deuocsid.

Roedd casgliadau gwastraff ac ailgylchu yn hanfodol i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn ystod argyfwng COVID-19, ac ystyriwyd gweithwyr gwastraff yn 'weithwyr allweddol' gan y Llywodraeth a gwnaethant barhau i gyflawni gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig. Parhaodd yr ystod lawn o wasanaethau casglu gwastraff o ymyl y ffordd drwy gydol y pandemig, er gwaethaf rhai o'r heriau logistaidd ac o ran adnoddau a ddaeth yn sgil COVID-19 ar adegau; roedd hyn yn dyst i ymrwymiad a phenderfyniad yr holl dimau gyfrannodd at sicrhau bod y gwasanaethau pwysig hyn yn parhau. Roedd yn amlwg bod ein trigolion yn ddiolchgar am hyn.

Rydym wedi ei gweld hi'n anoddach cadw a recriwtio staff mewn sawl maes gwasanaeth ar draws yr adran, yn enwedig lle mae angen arbenigedd penodol ac mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa'n genedlaethol. Yn amlwg, mae cyfleoedd yn deillio o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig i ni edrych ar ail-lunio ein modelau darparu gwasanaethau a sicrhau ein bod yn parhau i ysgogi trawsnewid digidol i ateb gofynion cynyddol y cyhoedd.

LLYWODRAETHU



O ganlyniad i bandemig COVID-19, a rheolau newydd yn llacio'r gofynion ynghylch y ffordd mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal, mae Proses Ddemocrataidd Sir Gaerfyrddin wedi newid yn sylweddol ers mis Mehefin 2020, gyda phob cyfarfod ar hyn o bryd yn cael eu cynnal yn rhithwir. Mae hyn yr un peth yn achos gweithwyr swyddfa. Wrth inni gyrraedd 2022/23, ac wrth i reolau COVID-19 ganiatáu, rydym yn rhagweld byddwn yn symud i gyfarfodydd hybrid, lle bydd rhai aelodau'n mynychu cyfarfodydd mewn person ac eraill o bell, gyda'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu mewn person neu o bell. Mae gennym eisoes systemau ar waith yn barod ar gyfer hynny.

Technoleg Gwybodaeth

Mae penderfyniad y Cyngor, cyn y pandemig, i fuddsoddi £1.9m mewn mentrau gweithio ystwyth, gan gynnwys rhoi'r offer cywir i staff i'w galluogi i weithio mewn ffordd fwy hyblyg, ynghyd â gwelliannau i'r rhwydwaith TG, wedi helpu i gefnogi symud yn gwbl ddidrafferth bron i drefn o weithio gartref. Roedd cael yr offer cywir yn ei le yn golygu y gallai staff weithio o gartref yn syth, heb fod tarfu i gwsmeriaid.

Mae defnyddio technoleg, yn enwedig Microsoft Teams, wedi bod yn elfen hanfodol o ymateb y Cyngor i'r pandemig, ac mae'n helpu i gefnogi mabwysiadu ffordd fwy deinamig a chynhyrchiol o lawer o weithio. Mae wedi hwyluso gwell cyfathrebu a gwaith tîm ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae wedi gwella cynhyrchiant, lleihau teithio a thrwy hynny allyriadau carbon, a chynyddu hyblygrwydd o ran cyrchu gwybodaeth a dysgu.

Mae gweithio Ystwyth a Hybrid yn fwy cynhyrchiol a bydd yn lleihau ein costau adeiladau a faint o amser rydym yn ei dreulio yn teithio ac yn cymudo, a bydd hyn o gymorth mawr o ran cefnogi ein nod o fod yn garbon niwtral. I gefnogi ein strydoedd mawr a helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr, rydym yn adolygu sut rydym yn defnyddio adeiladau yng nghanol ein trefi ac yn bwriadu creu mannau y gall ein staff eu defnyddio i wneud eu gwaith a chyfarfod â chydweithwyr.

Mae pob sefydliad sector cyhoeddus yn wynebu heriau tebyg. Rydym am weithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus i rannu'r cyfleusterau sydd gennym i gyd. Bydd yr ymagwedd hon yn ein galluogi i gynyddu'r opsiynau sydd ar gael i'n staff o ran adeiladau, ac yn lleihau nifer yr adeiladau rydym yn eu cynnal ein hunain. Dyma gyfle i ni gael gwell gwerth am arian o'n cyfleusterau presennol neu newydd yng nghanol trefi. Mae Llywodraeth Cymru'n annog cynnydd mewn gweithio aml-leoliad a'i huchelgais hirdymor yw gweld 30% o weithlu Cymru'n gweithio gartref neu'n agosach i gartref. Bwriad yr uchelgais hwn yw helpu canol trefi, lleihau tagfeydd a lleihau allyriadau carbon.

Ar hyn o bryd mae gennym dros 40 o wasanaethau ar gael i'r cyhoedd ar-lein, a ddatblygwyd dros y 5 mlynedd diwethaf a thros gyfnod Strategaeth Trawsnewid Digidol flaenorol am 2018-2021. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn benodol, rydym wedi gorfod gweithredu a datblygu atebion yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig, i'r argyfwng costau byw ac i'r rhyfel yn Wcráin. Mae gennym raglen barhaus i gyflwyno rhagor o wasanaethau ar-lein.

Y Gweithlu

Parhaodd COVID-19 i gyflwyno heriau i'n gweithlu yn ystod 2021. Fodd bynnag, parhaodd ein gweithwyr i gamu i'r adwy i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl, gyda bron i fil o weithwyr yn barod i ailhyfforddi a chamu i mewn a helpu eu cydweithwyr, gan wneud swyddi gwahanol iawn mewn modd cadarnhaol a hynod gefnogol. Mae'r adborth gan drigolion Sir Gâr wedi bod yn hynod gadarnhaol.

Yn 2022 bydd yr holl gyfyngiadau'n cael eu codi a bydd ein gweithlu'n dechrau dychwelyd i ffordd arferol "newydd" o weithio, ar ôl dysgu llawer o'r pandemig. Bydd ein rhaglen Trawsnewid yn cefnogi ein gweithlu ac yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau drwy leihau gwastraff, gan arbed arian ac ar yr un pryd helpu ein staff i weithio mewn ffyrdd clyfrach.

Gwelodd staff newidiadau yn eu bywydau personol a'u bywydau gwaith yn ystod y pandemig ac rydym am ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i sicrhau ein bod yn adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a mynd i'r afael ag unrhyw heriau y gallent fod wedi'u hwynebu, i wella eu bywydau gwaith.

Rydym hefyd am sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith. Mae hyn yn ymwneud â'n holl staff felly, p'un a ydych yn gweithio mewn swyddfa neu'n gweithio yn ein cymunedau, y nod yw gwella eich bywyd gwaith.

Mae iechyd a llesiant ein staff yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i ni. Er mwyn cefnogi llesiant ariannol ein gweithlu, yn enwedig wrth i'r argyfwng costau byw daro, lansiwyd cynllun Buddion Staff newydd yn ystod 2021, sy'n rhoi cynigion a gostyngiadau gan fanwerthwyr cenedlaethol a lleol i gannoedd o'n staff. Byddwn yn parhau i ddatblygu mentrau sy'n blaenoriaethu iechyd a llesiant ein gweithlu. Bydd angen i ni hefyd ddatblygu strategaeth gweithlu newydd sy'n mynd i'r afael â'r broses o recriwtio a chadw staff mewn meysydd allweddol, yn ogystal â chefnogi datblygiad y sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y byd fydd yn bodoli ar ôl Covid.

CYFLWYNIAD I'N HADRODDIAD BLYNYDDOL

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan y Cyngor oherwydd rydym yn credu y dylem ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Hefyd mae'n ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (*Gweler Atodiad 1*).

Mae'r adroddiad blynyddol hwn a'r hunanasesiad yn mynd i'r afael â dwy ddyletswydd gyfreithiol:

 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015		Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 	
Gofyniad	Sut ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol		Gofyniad
Dangos i ba raddau mae'r amcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant	Bydd hyn yn cael ei amlinellu yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer pob Amcan Llesiant ac yn cael ei amlinellu yn Atodiad 1b	Wedi mynd i'r afael â'r adroddiad cynnydd amgaeedig ar gyfer pob Amcan Llesiant. Dechrau gyda dyfarniad asesu a'i gefnogi gan dystiolaeth i fesur llwyddiant a chynnydd a wnaed, gan rannu tystiolaeth i gefnogi'r asesiad. Nodi mewn astudiaethau achos 'Oes unrhyw un ar eu hennill'	Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob cyngor yng Nghymru yn parhau i adolygu, trwy hunanasesiad, i ba raddau y mae'n bodloni'r 3 ' <u>gofyniad perfformiad</u> ', hynny yw'r graddau y mae'n:
Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion llesiant	Rydym yn nodi camau ar gyfer pob Amcan Llesiant gyda thargedau a chamau gweithredu. Nodir y cynnydd ar yr ymrwymadau hyn ym mhob Amcan Llesiant		1. Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol
Dangos bod yr amcanion llesiant yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy	Rydym yn cynnwys Astudiaeth Achos o fewn pob Amcan Llesiant		2. Defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol
		Bydd ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cefnogi hyn	3. Ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod
		Gweler y dyfarniadau cryno ar gyfer pob Amcan Llesiant	Casgliadau ynghylch i ba raddau y cafodd y gofynion perfformiad eu bodloni yn ystod y flwyddyn ariannol honno
		Mae pob Amcan Llesiant yn cloi gyda Chynllun Gweithredu	Unrhyw gamau sydd i'w cymryd, neu sydd eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu i ba raddau y bydd gofynion perfformiad yn cael eu bodloni

Mae ein Hymagwedd at hunanasesu drwy ein Hamcanion Llesiant

Mae defnyddio amcanion llesiant i fframio'r hunanasesiad yn galluogi'r Cyngor i integreiddio gofynion adrodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) mewn un adroddiad.

Mae'r ymagwedd hon yn rhoi'r cyd-destun yr ydym yn arfer ein swyddogaethau ynddo, yn defnyddio adnoddau, ac yn sicrhau bod llywodraethu'n effeithiol:

- Mae'n sicrhau bod yr hunanasesiad yn strategol, gan ganolbwyntio ar y sefydliad, yn hytrach na gwasanaethau unigol ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion llesiant a'i ganlyniadau bwriadedig.
- Mae'n caniatáu inni fyfyrto ar lefel strategol ar sut mae ein holl swyddogaethau (gan gynnwys gweithgareddau corfforaethol) yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion llesiant, sut rydym yn gweithredu a pha gamau y mae angen i ni eu cymryd i wella ymhellach a pharhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol nawr ac yn y tymor hir.
- Mae defnyddio amcanion llesiant fel y fframwaith cyffredinol yn annog golwg fwy cyfannol ar berfformiad y Cyngor, gan gydnabod bod llawer o wasanaethau'n 'cydlynu' ac yn cyfrannu at un neu ragor o amcanion llesiant.
- Rydym yn parhau i reoli perfformiad gwasanaethau unigol drwy Gynlluniau Busnes Rhanbarthol ac Is-adrannol.

Rheoli Perfformiad yng Nghyngor Sir Gâr

Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn seiliedig ar gylch Cynllunio/Gwneud/Adolygu ac rydym wedi ei gryfhau i wella hunanasesu a byddwn yn ei ddatblygu ymhellach i adlewyrchu disgwyliadau'r Ddeddf a chanllawiau statudol.

- Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad - 'Y Gacen Briodas'



Gwelliannau a wnaed yn ystod 2021/22

Gweler *Atodiad 1b* i weld sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol

Fe wnaethon ni gryfhau'r modd rydym yn monitro ein Strategaeth Gorfforaethol yn chwarterol, drwy gael cyfarfodydd perfformiad uwch-swyddogion penodol a gwybodaeth berfformiad fwy integredig am adnoddau a pherfformiad

[!\[\]\(47734e4656765d20df4fdbd5b7aff048_img.jpg\) Gweler Amcan Llesiant 13 ynghylch Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn Well.](#)

Rydym hefyd wedi sefydlu tîm *Data Insight* i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau gwybodus.

Er mwyn sicrhau bod ein swyddogaethau'n effeithiol fe wnaethom gyflwyno sesiynau Ymgysylltu a Sicrwydd Cyfoedion newydd i sicrhau bod cynlluniau busnes yn cael eu cefnogi, eu herio a'u hasesu'n effeithiol i helpu i ddarparu goruchwyliaeth gorfforaethol.

Cydnabod/Tyfu/Gyda'n Gilydd

Mae swyddogion unigol yn nodi sut maen nhw'n cyfrannu at yr uchod ac yn cael llais.

Llywodraethu

Rydym hefyd wedi ailwampio ein hymagwedd at y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol. Yn y blynnyddoedd a fu, amlinellwyd gennym pa drefniadau oedd ar waith ond ar gyfer 2021/22 ystyriom pa mor dda mae'r trefniadau hyn yn mynd, sut rydyn ni'n gwybod a sut gallwn ni wella?

① Datganiad Llywodraethu Blynnyddol

Y CYNLLUN GWEITHREDU – MATERION LLYWODRAETHU			
CYF Y MATER	Y MATERION LLYWODRAETHU NEWYDD A NODWYD YN NATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (DLIB) ELENÍ		
	CAMAU GWEITHREDU	Y SWYDDOG CYFRIFOL	Y DYDDIAD TARGED
DLLB 2021/22 Rhif 1	Datblygu strategaeth recriwtio a chynllun gweithlu ochr yn ochr â chyflwyno meddalwedd recriwtio newydd i sicrhau y gellir symleiddio a chynnal y gwasanaeth recriwtio.	Rheolwr y Gwasanaethau Pobl	Mawrth 2023
DLLB 2021/22 Rhif 2	Sefydlu grŵp llywodraethu i oruchwylio datblygiad yr hwb Gwobrwy a Buddion	Rheolwr y Gwasanaethau Pobl	Mai/Mehefin 2022
DLLB 2021/22 Rhif 3	Adolygu'r fframwaith diogelu cyflogaeth a datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer recriwtio rheolwyr	Rheolwr y Gwasanaethau Pobl	Mawrth 2023

Gweithio gyda Phartneriaid

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD) yn fuddsoddiad na welwyd ei debyg o'r blaen o hyd at £1.3 biliwn ar draws portffolio sy'n cynnwys naw o brif raglenni a phrosiectau sy'n cyflawni cyfanswm o 35 o brosiectau unigol ledled Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro.

Yn unol â thair thema cyflymu economaidd, ynni a gweithgynhyrchu clyfar, a gwyddor bywyd a llesiant, dechreuodd y flwyddyn ariannol gyda phump o'r naw achos busnes yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU - Yr Egin, Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau, Ardal Forol Doc Penfro, Pentre Awel a Seilwaith Digidol. O fewn naw mis, cafodd y pedwar achos busnes arall i gyd eu cymeradwyo - Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel, Sgiliau a Thalentau a Champysau. Roedd hon yn garreg filltir bwysig i'r Fargen Ddinesig ym mis Rhagfyr 2021, gyda'r portffolio cyfan yn cyrraedd y cam cyflawni; y cyntaf o blith y Cytundebau Bargeinion Dinesig a Thwf i gyrraedd y garreg filltir hon.

Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd mewn meysydd eraill dros y flwyddyn. Mae gwaith wedi dechrau ar bum prosiect ac mae tri arall wedi cwblhau ymrwymadau contractiol. Mae'r tair rhaglen ranbarthol hefyd yn prysur ddatblygu wrth i gynlluniau pilot a chyfleoedd ariannu gael eu cyhoeddi.

Gan fod y portffolio i gyd yn cael ei gyflawni'n llawn, mae hyn wedi rhoi'r Fargen Ddinesig mewn sefyllfa gref iawn i allu cyflawni'r buddsoddiad amcangyfrifedig gwerth £1.3 biliwn erbyn 2033 a chreu dros 9000 o swyddi. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i lawer o fusnesau rhanbarthol presennol a newydd, yn ogystal â thrigolion ar draws y rhanbarth

PARTNERIAETH

Sefydlwyd PARTNERIAETH ar ôl diddymu ERW, fel gwasanaeth rhanbarthol i gefnogi ysgolion. Cafodd hyn ei wneud mewn partneriaeth â Chynghorau Abertawe a Sir Benfro. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor newydd, a datblygwyd Cytundeb Cyfreithiol i reoli gwaith yr endid newydd. Mae staff craidd wedi cael eu hailstrwythuro i greu tîm o swyddogion i gefnogi ac ategu gweithgareddau gwella ysgolion yn y tair sir. Penodwyd Prif Swyddog ac Uwch-dîm Rheoli i arwain ar weithio mewn partneriaeth ac i weithio i ddiwallu anghenion penodol y partneriaid a Llywodraeth Cymru. Mae gwaith yn parhau i gryfhau'r gwaith o lywodraethu, monitro a dwyn PARTNERIAETH i gyfrif am ei gyfraniad at wella ysgolion yn y rhanbarth.

Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru (CJC)

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru (CJC) fel corff corfforaethol rhanbarthol gan Weinidogion Cymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys arweinwyr gweithredol cynghorau Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ynghyd ag aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn arwain ar ymyriadau polisi sy'n seiliedig ar 'Lle' sy'n cwmpasu rhanbarth gofodol Cynllun De-orllewin Cymru ym meysydd y Cynllun Datblygu Strategol, Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a llesiant economaidd.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Cafodd Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ei gwblhau yn ystod y flwyddyn. Cafwyd cydweithio â chydweithwyr rhanbarthol yng Ngheredigion a Sir Benfro a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yn y camau ymgysylltu a dadansoddi data. Datblygwyd arolwg rhanbarthol a oedd yn fyw rhwng dechrau Awst a dechrau Hydref. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein gyda ffurflenni printiedig hefyd ar gael a fersiwn hawdd ei darllen. Roedd ar gael mewn ieithoedd eraill fel Pwyleg, Rwmaneg, ac Arabeg. [Y Sir Gâr a Garem](#)

Cynhaliwyd sawl digwyddiad ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Sefydlwyd Grŵp Data Rhanbarthol i gymryd agwedd gydweithredol at gasglu a dadansoddi data lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol i rannu arbenigedd ac osgoi dyblygu. Yn dilyn y camau ymgysylltu a dadansoddi data, datblygwyd yr Asesiad Llesiant drafft, a'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd. Aeth yr Asesiad drafft allan i ymgynghoriad cyhoeddus rhwng dechrau Rhagfyr a chanol Ionawr. Ystyriwyd yr holl adborth a chymeradwyodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fersiwn ddiwygiedig derfynol a dogfennau ategol gan gynnwys proffiliau cymunedol, adroddiad Ymgynghori a Chyfranogi, dogfen Ffynhonnell Data a dadansoddiad Newid yn yr Hinsawdd ar 8 Mawrth. Bydd yr Asesiad Llesiant terfynol a'r ddogfennaeth ategol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai/Mehefin 2022. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus nawr yn gweithio tuag at gyhoeddi ei Gynllun Llesiant ar ei newydd wedd erbyn Mai 2023.

Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Cyngor

Mae gan y Cyngor ddull sydd wedi'i sefydlu ers tro ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae nifer o grwpiau rhwydwaith yn cynrychioli amrywiaeth o ddiddordebau o'r fforwm ieuenctid i'r rhwydwaith heneiddio'n dda yn ogystal ag ar gyfer fforymau rydym yn ymgysylltu gyda nhw i geisio barn y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodedig fel y cydnabuwyd gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP): Derbyniodd ymgynghoriad WESP dros 854 o ymatebion sy'n gynydd sylweddol o gymharu â'r tro diwethaf ymgynghorwyd ynghylch WESP yn 2017.

Gwelliannau Coridor Heol y Sandy A484: Rydym wedi ymgynghori ynghylch cyfres o ddewisiadau i wella Coridor Heol y Sandy yr A484 a nodwyd ac a aseswyd yn unol ag Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WeTAG). Oll yn oll, cymerodd 334 o drigolion lleol a rhanddeiliaid allweddol ran yn yr ymgynghoriad.

Strategaeth Casglu Gwastraff y Dyfodol Sir Gaerfyrddin: Buom yn ymgynghori â thrigolion Sir Gaerfyrddin i gasglu barn ar gynigion ar gyfer dyfodol casgliadau ailgylchu o aelwydydd. At ei gilydd, cymerodd 4,034 o drigolion ran yn yr ymgysylltiad a fydd yn arwain ein strategaeth ailgylchu yn y dyfodol.

Prif Gynllun Tai ac Adfywio: Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd sicrhau ein bod yn deall anghenion, safbwyntiau a blaenoriaethau'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid allweddol, ac yn adlewyrchu'r gofynion hyn yn y Prif Gynllun Tai ac Adfywio newydd. At ei gilydd, cwblhaodd 2,522 o drigolion yr ymgynghoriad.

Holiadur Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin: Fe wnaethom ymrwymo i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin er mwyn datblygu Strategaeth Farchogaeth ar gyfer y Sir. Er mwyn llywio a llunio'r strategaeth, fe wnaethom ymgynghori gyda'r cyhoedd, grwpiau, clybiau, sefydliadau, busnesau lleol ac aelodau etholedig ar ddarpariaeth farchogol bresennol y Sir. Fe wnaeth yr ymgynghoriad ennyn llawer o ddiddordeb gan farchogion a rhai nad ydynt yn farchogion a arweiniodd at 502 o gyfranogwyr yn cymryd rhan. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi ein helpu i greu darlun o alw ac anghenion marchogion y Sir ac i achub ar gyfleoedd ar gyfer datblygu marchogaeth yn unol â'r anghenion hynny.

Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin: Gan weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cynhaliwyd Asesiad o Lesiant Lleol gennym. Roeddem am gael gwybodaeth am lesiant pobl a chymunedau lleol, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. At ei gilydd, cymerodd 609 o drigolion ran yn yr ymgynghoriad.

Adolygiad Polisi Gamblo 2021: Rhoddodd yr ymgynghoriad hwn gyfle i bobl y sir a rhanddeiliaid allweddol gyfrannu at yr adolygiad o Bolisi Gamblo Sir Gaerfyrddin. At ei gilydd, cafwyd 72 o ymatebion a fydd nawr yn cael eu defnyddio i gynnal system drwyddedu effeithiol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cynnydd wedi bod yn nifer yr ymgynghoriadau ar-lein. Yn benodol, wrth werthuso ymgynghoriadau cymaradwy. Er enghraifft, cafwyd 21 o ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch cynllun strategol y Gymraeg mewn Addysg yn 2017 ond yn 2021 cafwyd 854 o ymatebion. Yn ogystal, cyflwynwyd 2522 o arolygon wedi'u cwblhau fel rhan o brif gynllun tai ac adfywio diweddar o gymharu â 189 a gyflwynwyd mewn arolwg tebyg a gynhaliwyd yn 2018. Priodolir y cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan i'r berthynas agosach a ddatblygwyd gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau gan sicrhau bod ymgynghoriadau'n cael eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan gorfforaethol a'u bod yn cael eu hanfon at yr holl rhanddeiliaid allweddol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol - maent yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ddatblygu ein proses Asesu Effaith Integredig, sy'n sicrhau sylw dyladwy a diwydrwydd pan fydd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau allweddol. Mae'r broses hon yn cynnwys ein cyfrifoldebau o ran **Neddf Cydraddoldeb 2010** a'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021. Prif nod y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yw annog gwell penderfyniadau ac yn y pen draw sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sydd dan anfantais yn gymdeithasol-economaidd.

Dylid defnyddio'r ddyletswydd i sicrhau bod lleihau anghydraddoldebau canlyniad nawr ac i genedlaethau'r dyfodol yn ffactor ganolog wrth wneud penderfyniadau. Dylai sefydliadau ystyried yr anghydraddoldebau presennol a thueddiadau'r dyfodol wrth benderfynu sut y gallan nhw gael yr effaith fwyaf. Ac mae'n rhaid i sefydliadau gael eu llywio gan leisiau pobl dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol wrth wneud hyn.

Yr iaith Gymraeg *(hefyd, gweler Amcan Llesiant 12)*

Rydym yn parhau i weithredu **Safonau'r Gymraeg** ar draws y Cyngor a chafwyd trafodaethau rheolaidd gyda Swyddog Comisiynydd y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi targedu negeseuon gyda gwasanaethau'r Cyngor ar nodi a chofnodi dewis ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth, yn dilyn adborth o ymchwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd. Cafodd negeseuon am y Safonau eu cyfleu i staff drwy gyflwyniadau gan y Tîm Polisi a Chyfranogiad, drwy ffrydiau cyfathrebu Marchnata a'r Cyfryngau, a thrwy Arweinwyr Iaith yr Adrannau.

Mae **Fforwm Strategol Sirol yr Iaith Gymraeg**, sy'n parhau i gael ei arwain gan y Cyngor ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau hybu iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus gyda swyddogion iaith, hefyd wedi parhau â'i rôl o ddatblygu rhaglen o hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir ac wedi cychwyn llawer o gynllunio ar y cyd ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Hybu Sir Gaerfyrddin, sy'n unol â'r safonau Hybu. Fe wnaeth y fforwm gwrdd bedair gwaith a rhoddwyd sylw penodol i brentisiaethau ac addysg ôl-16, yr iaith yn ein cymunedau, meysydd blaenoriaeth a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Sut rydym yn mesur llwyddiant ein Hamcanion Llesiant

Mesurau Llwyddiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyrwyddo newid mewn ffocws o gynhyrchiant gwasanaethau, i bob corff cyhoeddus yn cydweithio i ddatblygu canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Mae gennym gyfres o ddangosyddion rydym yn eu defnyddio i fesur llwyddiant ein Hamcanion Llesiant; gellir gweld rhestr o'r mesurau hyn yn *Atodiad 2*.

Gwybodaeth Asesu Arall

Bodlonrwydd Dinasyddion




Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn feincnod defnyddiol o ran bod yn sampl o safbwyntiau trigolion y gellir eu cymharu ledled Cymru. Cyhoeddwyd prif ganlyniadau 2021/22 ar 14 Mehefin 2022, a chyhoeddir gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru pan fydd ar gael. Mae'r arolwg yma yn seiliedig ar ryw 12,000 o arolygon dros y ffôn gafodd eu cynnal ledled Cymru gyda dros 500 yn cael eu cyfweld yn Sir Gaerfyrddin.


Ers dechrau pandemig y coronafeirws (COVID-19) yn 2020, mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi digwydd dros y ffôn yn lle wyneb yn wyneb fel o'r blaen. Mae rhai canlyniadau o flynyddoedd blaenorol wedi'u cynnwys i ddarparu cyd-destun, felly dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol.

Gwasanaethau Awdurdod Lleol



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru - Maint sampl 12,050

Pan ofynnwyd i gyfranogwyr am eu cyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch rhedeg eu gwasanaethau lleol, rhoddodd mwy o bobl ymateb cadarnhaol na chyn y pandemig. **Roedd 35.5% yn cytuno yn 2021/22, o gymharu â dim ond 9% yn 2019/20**, roedd hyn hefyd wedi cynyddu ledled Cymru gyda chyfartaledd Cymru yn mynd o 17% i 33.8%



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 - Maint sampl 12,100

Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr *a oeddent yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu hardaloedd lleol*, rhoddodd mwy o bobl ymateb cadarnhaol na chyn y pandemig, gyda **31.6% yn cytuno yn 2021/22, o gymharu â dim ond 18.8% yn 2019/20**, roedd hyn hefyd wedi cynyddu ledled Cymru gyda chyfartaledd Cymru'n mynd o 18.8% i 29.7%.

Rydym wedi mynd â'r canlyniadau sydd ar gael ar hyn o bryd ar lefel Awdurdod Lleol ac wedi trefnu'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod o'r safle gwaethaf (22ain) i'r gorau (1af) - **Gweler Atodiad 3**. Cofiwch mai nid perfformiad y Cyngor sydd i gyfrif am bob un o'r canlyniadau hyn



[Dolen i Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru](#)

Canlyniad Rheoleiddio

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd ein Rheoleiddwyr nifer o adroddiadau a chaiff y rhain eu rhestru yn **Atodiad 4**



<https://www.audit.wales/cy>



<https://www.estyn.gov.wales>



<https://www.arolygiaethgofal.cymru/>

Mae'r Adroddiad Blynnyddol hwn yn edrych ar ystod eang o dystiolaeth i wneud hunanasesiad o sut rydym yn perfformio, ac mae hyn hefyd yn un o ddisgwyliadau *Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*.

Mae bywyd ar gyfer byw, gadewch i ni ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus



Amcanion Llesiant

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.

2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

3. Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau i'r holl ddysgwyr.

4. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

5. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.

6. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

7. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).

8. Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthedd a diogelwch.

9. Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny.

10. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

11. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.

12. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

13. Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well

Aelodau'r Cabinet a'r Amcanion Llesiant

ARWEINYDD Y CYNGOR



Amcan Llesiant 5 - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Amcan Llesiant 13 - Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well

Y Cyngorydd Darren Price
ARWEINYDD

YR AELOD CABINET DROS GARTREFI



Amcan Llesiant 4 - Trechu tlodi

Amcan Llesiant 6 - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Amcan Llesiant 8 - Cefnogi cydlyniant cymunedol, gwydnwch a diogelwch

Y Cyngorydd Linda Evans
DIRPRWY ARWEINYDD

YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG



Amcan Llesiant 1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd

Amcan Llesiant 2 - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw (Gordewdra ymysg Plant)

Amcan Llesiant 3 - Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau i'r holl ddysgwyr

Amcan Llesiant 12 – Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Y Cyngorydd
Glynog Davies

AELOD CABINET DROS IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



Amcan Llesiant 1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd

Amcan Llesiant 7 - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra ymysg oedolion)

Amcan Llesiant 9 - Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny

Y Cyngorydd
Jane Tremlett

AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH



Amcan Llesiant 2 - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw (Gordewdra ymysg Plant)

Amcan Llesiant 5 - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Amcan Llesiant 7 - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra ymysg oedolion)

Amcan Llesiant 12 – Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Y Cyngorydd
Gareth John

AELOD CABINET DROS ADNODDAU



Amcan Llesiant 13 - Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well

Y Cyngorydd
Alun Lenny

AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO



Amcan Llesiant 5 - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Amcan Llesiant 8 - Cefnogi cydlyniant cymunedol, gwydnwch a diogelwch

Amcan Llesiant 10 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

Y Cyngorydd
Ann Davies

AELOD CABINET DROS NEWID HINSAWDD, DATGARBONEIDDIO A CHYNALIADWYEDD



Amcan Llesiant 7 - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra ymysg oedolion)

Amcan Llesiant 8 - Cefnogi cydlyniant cymunedol, gwydnwch a diogelwch

Amcan Llesiant 10 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

Y Cyngorydd
Aled Vaughan Owen

AELOD CABINET DROS DREFNIADAETH A'R GWEITHLU



Amcan Llesiant 5 - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Amcan Llesiant 8 - Cefnogi cydlyniant cymunedol, gwydnwch a diogelwch

Amcan Llesiant 13 - Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well

Y Cyngorydd
Philip Hughes

AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH



Amcan Llesiant 10 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

Amcan Llesiant 11 - Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Y Cyngorydd
Edward Thomas

Dechrau'n Dda





Amcan Llesiant 1

Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

Yn 167, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru

Mae effaith COVID-19 wedi rhoi pwysau sylweddol ar deuluoedd, ac yn sgil hynny mae'r galw am ein gwasanaethau wedi cynyddu. Mae hyn ynghyd ag effeithiau absenoldeb staff ac anawsterau recriwtio wedi creu mwy o heriau. Ond er gwaethaf hyn mae'r pandemig hefyd wedi creu cyfleoedd a ffyrdd mwy arloesol o weithio er mwyn cynyddu ymgysylltiad gyda'r rhai a oedd yn arfer bod yn anoddach eu cyrraedd. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod ymysg yr isaf yng Nghymru, ac ar y cyfan mae'r canlyniadau a gyflawnwyd gan blant a rhai sy'n gadael gofal wedi aros yn gadarnhaol.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- Gan fod rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd
- Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i iechyd a llesiant hirdymor. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd
- Gan fod Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy tebygol o fod wedi bod yn agored i risgiau niferus sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwael yn y tymor hir cyn dechrau derbyn gofal.



Pa mor dda rydym yn ei wneud (a sut ydym yn gwybod)? ① Ffynonellau gwybodaeth



Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



Mae % y plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy wedi gostwng i **6.6%**

O'r 167 o blant oedd yn derbyn gofal hyd at 31 Mawrth 2022, roedd 11 o blant wedi symud lleoliad 3 gwaith neu fwy. Mae hwn yn ganlyniad ychydig yn uwch na'r llynedd, sef 4.7% lle roedd 7 o'r 148 o blant oedd yn derbyn gofal wedi bod mewn 3 neu fwy o leoliadau. Roedd y plant oedd wedi symud wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod, yn llai sefydlog, ac yn meddu ar anghenion heriol a chymhleth. Roeddem wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnal sefydlogrwydd lleoliadau gan gynnig cymorth lleoliad da ar draws y gwasanaeth i gyflawni hyn.

(Gweler Siart 1)



Rydym wedi parhau i weithio'n galed ar draws timau i gynnal sefydlogrwydd lleoliad, sydd dal yn rhagorol er gwaethaf effeithiau ychwanegol COVID-19. Rydym wedi llwyddo i gadw'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn y sir ac yn yr un ysgol, sy'n bwysig wrth helpu i wella canlyniadau. Bu i saith o blant (allan o 105) newid ysgol yn ystod 2021/22. Gellir priodoli'r cynnydd yn y niferoedd o gymharu â'r llynedd (sef 3 allan o 96) yn rhannol i grwpiau o frodyr a chwiorydd sydd angen newid ysgol. Cynhelir sefydlogrwydd lle bynnag y bo'n bosibl, fodd bynnag nid yw hyn bob amser er budd y plentyn e.e. pellter i deithio neu anghenion academaidd plentyn ddim yn cael eu diwallu (**Gweler Siart 2**).

Ein nod yn y tymor hir yw atal yr angen i blant dderbyn gofal. Mae systemau cadarn ar waith i helpu i gyflawni hyn gan gynnwys Panel Llety a darparu gwasanaethau ataliol, gan ganolbwyntio ar gyfarfodydd rhwydwaith teuluol o ansawdd da. Mae ymyrraeth gynnar gan weithio mewn partneriaeth â theuluoedd trwy gynlluniau gofal a chymorth yn allweddol er mwyn cyflawni hyn.

Cynnydd rydym yn ei wneud ar y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Cefnogi Teuluoedd

ARCHWILIO	DIOGELU - PLANT	GRADDAU Y SICRWYDD						
MEWNOL  Yn ystod y flwyddyn, edrychodd Archwilio Mewnol ar atgyfeiriadau Diogelu, er mwyn sicrhau y sefydlir polisïau a gweithdrefnau perthnasol a chydymffurfir â'r ddeddfwriaeth berthnasol. SYLW Cytunwyd ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion a nodwyd ac mae'r rhain yn cael eu monitro ar PIMS. Bydd adolygiad dilynol yn cael ei gynnal yn y flwyddyn cynllun archwilio nesaf.		<table border="1"> <tr> <td>UCHEL</td> <td></td> </tr> <tr> <td>DERBYNIOL</td> <td>✓</td> </tr> <tr> <td>ISEL</td> <td></td> </tr> </table>	UCHEL		DERBYNIOL	✓	ISEL	
UCHEL								
DERBYNIOL	✓							
ISEL								

- ⊙ Mae gwasanaethau plant wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau a chefnogaeth gyda nifer y **cysylltiadau** â'r adran yn parhau i godi. Fodd bynnag, maent yn parhau i berfformio'n dda er gwaethaf y pwysau ychwanegol hyn.

Y Galw	2020-21	2021-22	Sylw
Cysylltiadau	7644	9625	Yn cynyddu
Atgyfeiriadau	1854	1754	Yn gostwng
Cyfanswm	9,498	11,379	Cynnydd cyffredinol

- ⊙ **Cwblhawyd 90.2% o'r asesiadau newydd o fewn yr amserlenni statudol.**
 - Mae tystiolaeth dda o hyd **mewn asesiadau o farn plant a sut beth yw bywyd iddyn nhw.**
 - Fel rhan o'r broses asesu, mae gweithwyr cymdeithasol yn siarad â'r ddau riant pa un ai ydynt yn gofalu am eu plentyn o ddydd i ddydd ai peidio.
 - Yn gynyddol, mae asesiadau'n cyfeirio at y cyfraniad y mae cyfarfod rhwydwaith teulu wedi'i wneud at yr asesiad o ran nodi ffynonellau cymorth ac wedi helpu i lunio cynllun diogelwch.
- ⊙ Mae'r ymagwedd seiliedig ar berthnasoldd at ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol i blant a theuluoedd, sy'n cynnwys meddwl systemig ac egwyddorion *Signs of Safety*, yn rhan greiddiol o'r holl dimau gofal plant gan gynnwys y tîm anabled 0-25. Mae cyfraniadau gan y Gwasanaethau Oedolion wedi cynnwys safbwyntiau gwahanol am deulu mewn trafodaethau pod a gweithredoedd a chynlluniau dilynol.
- ⊙ Rydym yn parhau i sicrhau bod trothwyon rhanbarthol yn gweithio'n effeithiol o ran trefniadau amddiffyn plant aml-asiantaethol, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt sydd wedi'u cynllunio i gadw plant yn ddiogel ac sydd wrth galon arferion a phenderfyniadau.
- ⊙ Drwy gydol pandemig COVID-19 mae pob plentyn agored i niwed wedi parhau i gael cymorth drwy'r timau gofal plant a'r tîm Rhianta Corfforaethol i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u bod yn gallu cyrraedd eu potensial. Mae'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sy'n gadael gofal yn cael eu monitro'n rheolaidd hefyd.
- ⊙ Mae'r Ap Dechrau'n Deg wedi parhau i fod yn hollbwysig o ran cyrraedd teuluoedd, gan ddarparu negeseuon a chysylltiadau allweddol i wasanaethau cymorth a chefnogi ymgysylltu â theuluoedd, yn enwedig y rhai anoddach i'w cyrraedd. Rydym ni wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru i werthuso llwyddiant yr Ap, yn enwedig yn ystod COVID-19, gyda'r nod o'i gyflwyno i awdurdodau lleol eraill fel arf i gyfathrebu ac ymgysylltu â theuluoedd.
- ! Bu i nifer y plant ar y gofrestr **amddiffyn plant** gynyddu'r llynedd - 102 (ar 31/3/22) o gymharu â 78.
- ! Mae nifer y plant sy'n **derbyn gofal hefyd wedi gweld cynnydd** eleni, 167 (ar 31/3/22) o gymharu â 148 yr un pryd y llynedd. Fodd bynnag, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod, yn gyfatebol, ymhlith y siroedd sydd â'r boblogaeth leiaf o Blant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru.

- ⊙ Mae'r dewis o **ofalwyr maeth** sydd ar gael yn rhywbeth rydym yn parhau i wneud cynnydd cyson arno. Rydym wedi recriwtio 12 o ofalwyr maeth newydd yn ystod 2021/22, sy'n welliant oherwydd yn flaenorol roedd y pandemig wedi effeithio ar recriwtio.
- ⊙ Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwasanaethau ar gyfer **plant anabl rhwng 0 a 25** oed ers gweithredu'r strwythur newydd yn ystod 2020/21, gan ddod â'n timau statudol ac anstatudol i blant a phobl ifanc at ei gilydd.

Canfyddiadau Rheoleiddio Allanol

 ADRODDIAD RHEOLEIDDIO	Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ei lythyr Gwiriad Sicrwydd 2021 ar Gyngor Sir Caerfyrddin I grynhoi: Sicrwydd Gofal Cymdeithasol i Blant • <i>Arweinwyr agos-atoch a chefnogol</i> • <i>Diwylliant o gyd-gynhyrchu a chanlyniadau personol yn cael eu datblygu gyda phobl</i> • <i>Eglurder mewn methodoleg weithredol</i> • <i>Cydweithrediad aml-asiantaeth cryf</i> • <i>Ymagwedd integredig gadarnhaol at ddiwylliant o atal drwy gydweithio</i> • <i>Poblogaeth fach o blant sy'n derbyn gofal</i> • <i>Gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant pobl yng nghyfnod y pandemig</i>
---	---

Anghenion Dysgu Ychwanegol

- ⊙ Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru drwy gefnogi ysgolion ac ystod amrywiol o randdeiliaid i weithredu'r holl gynlluniau trawsnewid ag amserlen barhaus o waith sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn cael diweddariadau gan Lywodraeth Cymru.

Y SYSTEM ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL NEWYDD

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd yng Nghymru yn newid.

Ers mis Medi 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno system newydd fwy hyblyg ac ymatebol ar gyfer diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau ac mae'n ymdrechu i gyflwyno system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr Cymru.

Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau ac Anableddau Dysgu (AAD).
- Mae'r system raddedig bresennol o Weithredu gan y Blynnyddoedd Cynnar/Ysgol, Gweithredu gan y Blynnyddoedd Cynnar/Ysgol a Mwy a Datganiadau yn cael ei disodli. Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd ag angen dysgu ychwanegol (ADY) a nodwyd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a fydd yn cymryd lle'r holl gynlluniau unigol eraill.
- Bydd mwy o gyfleoedd i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr gyfrannu at greu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol trwy gyfrwng Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Y broses o dderbyn plant i'r ysgol:

Mae Dysgwr A ar hyn o bryd yn ddisgybl cyfnod sylfaen sy'n mynychu ysgol gynradd brif ffrwd yn Sir Gaerfyrddin. Cyn cychwyn yn yr ysgol, roedd angen pecyn pontio wedi'i gynllunio'n ofalus oherwydd anghenion corfforol a symudedd sylweddol a difrifol.

Roedd Dysgwr A yn mynychu Ysgol Feithrin leol cynt. Roedd hi'n amlwg bod Dysgwr A wedi setlo, yn gwneud cynnydd, ac yn mwynhau ei amser yno'n fawr. Daeth Dysgwr A yn adnabyddus i'r Adran Cynhwysiant drwy'r system Mynediad i Addysg lle nodwyd bod angen am broses bontio oedd wedi'i chynllunio'n ofalus. Trefnwyd cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle roedd gwasanaethau roedd y teulu'n gwybod amdanynt yn gweithio mewn partneriaeth â'r teulu i gynllunio ar gyfer pontio, gan gynnwys cynrychiolaeth o'r Ysgol Feithrin, yr ysgol gynradd, cydweithwyr ieuchyd arbenigol, a thîm cynhwysiant yr awdurdod lleol. Rhannwyd gwybodaeth allweddol gyda'r holl gyfranogwyr a thrafodwyd yr achos gan ddefnyddio proses gwneud penderfyniadau glir, gyda Dysgwr A yn ganolog i bob trafodaeth a phenderfyniad. Daeth i'r amlwg bod Dysgwr A yn blentyn ifanc cymdeithasol, hyderus a phenderfynol a fyddai'n ffynnu o fewn lleoliad cynradd prif ffrwd, er gyda'r lefel gywir o gefnogaeth i sicrhau ei diogelwch a phontio llwyddiannus oherwydd ei hanghenion ychwanegol cymhleth. Yn dilyn y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, casglwyd barn yr holl fynychwyr mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a oedd yn cynnwys y canlyniadau penodol a chyraeddadwy ar gyfer Dysgwr A, ynghyd â'r lefel arfaethedig o ddarpariaeth. Yna, bu i Banel Cynhwysiant Sir Gaerfyrddin ystyried y Cynllun Datblygu Unigol a chytuno i gyflwyno a sicrhau'r ddarpariaeth arfaethedig. Cyn hir, gwnaed addasiadau i'r adeilad yn barod ar gyfer pontio.

Cynnydd yn yr ysgol? Beth maent wedi'i gyflawni?

Bu i Dysgwr A bontio'n dda i'r ysgol. Mae'r cynnydd yn amlwg gan fod Dysgwr A yn teimlo ei fod wedi'i gynnwys, mae pob rhwystr wedi'i waredu, ac mae'n gallu cael mynediad at yr holl ddysgu. Anogir annibyniaeth pryd bynnag y bo modd a defnyddir cefnogaeth benodol, yn ôl yr angen. Er gwaethaf anghenion corfforol a symudedd cymhleth, mae Dysgwr A wedi pontio i amgylchedd prif ffrwd prysur gyda'i chyfoedion lle mae'n hapus, wedi setlo ac yn gwneud cynnydd. Nid yw'n teimlo'n wahanol i bawb o'i chwmpas diolch i bontio a gynlluniwyd yn ofalus a gweithredu darpariaeth gynhwysol addas - a ddatblygwyd ac a gytunwyd mewn partneriaeth â phawb sy'n adnabod y dysgwr orau.

Sut roedd pawb a gymerodd ran, yn deulu ac yn weithwyr proffesiynol, yn teimlo am y broses?

Roedd pob un yn hynod gadarnhaol am y broses. Proses newydd i bawb gyda nifer yn gwneud sylwadau ar fanteision llai o fiwrocratiaeth. Pob un â'r grym i gael llais cyfartal yn y trafodaethau pwrpasol a'r cynllunio o gwmpas y dysgwr. Roedden nhw'n teimlo bod amser wedi'i dreulio'n ddoeth, a bod llai o rwystrau i'w goresgyn. Pwrpasol, effeithlon, ac effeithiol.

Y Ddarpariaeth Anhwylder Sbectrwm Awtistig

Ar hyn o bryd, mae gan yr Adran Addysg a Phlant (blwyddyn academiaidd 21/22) y lleoedd canlynol ar draws y sir er mwyn hwyluso darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag Awtistiaeth:

- Cynradd - 64
- Uwchradd - 84

! Ers Medi 2021, bu cynnydd sylweddol yn y galw am ddarpariaeth Anhwylder Sbectrwm Awtistig, ac yn ystod blwyddyn academiaidd 2021/22 roedd diffyg o 30 o leoedd, sydd 20% yn fwy na'r capasiti.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r adran wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am leoedd Anhwylder Sbectrwm Awtistig arbenigol am flwyddyn academiaidd 2022/23, ac mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer Medi 2022 fel a ganlyn:

- Cynradd – Nifer y lleoedd sydd ei angen / sydd ar gael - 20
- Uwchradd - Nifer y lleoedd sydd ei angen / sydd ar gael - 10

Bydd diffyg parhaus hefyd ar gyfer blwyddyn academiaidd 23/24, a hynny o 26 o leodedd o leiaf fel y mae ar hyn o bryd, nad yw'n ystyried disgyblion sy'n dod i mewn a disgyblion prif ffrwd sydd ag anghenion a nodwyd dros flwyddyn academiaidd 22-23.

Mae'r cynnydd sylweddol yn y galw o ganlyniad i:

- Mewnlfriad – teuluoedd yn symud i Sir Gaerfyrddin
- Cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n cael diagnosis o anghenion ychwanegol/diagnosis Anhwylder Sbectwm Awtistig meddygol sy'n cael ei gydnabod fel tuedd genedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu capasiti'r tîm niwroddatblygiadol i brosesu'r ôl-groniad o atgyfeiriadau ASD, gan arwain at gynydd mewn diagnosis ASD. Dros y 3 blynedd diwethaf mae hyn wedi gweld dros 100 o blant yn Sir Gaerfyrddin â diagnosis ASD yn ein hysgolion.
- Capasiti'r ysgol - twf ym mhoblogaeth ysgolion lleol/addasrwydd adeiladau
- Covid yn amharu ar brosesau adnabod cynnar sefydledig
- Prosesau adnabod cynnar wedi'u hailsefydlu

Mae gan yr Awdurdod Lleol rwymedigaeth gyfreithiol i wneud darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn erbyn Medi 2022 a gallent wynebu her gyfreithiol gostus sydd â'r potensial i gostio hyd at £30,000 mewn ffioedd cyfreithiol fesul achos. Os na chaiff angen ei ddiwallu'n lleol gallai hyn arwain at rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau lleoliadau annibynnol drud tu allan i'r sir sy'n costio dros £150,000 am flwyddyn benodol.

Mae rhieni eisoes wedi rhoi gwybod i'r Adran os na chaiff darpariaeth arbenigol ei darparu, byddant yn cymryd camau cyfreithiol trwy'r prosesau apeliadau AAA.

- ⊙ Wrth edrych tua'r dyfodol rydym wedi cael ein dewis fel awdurdod “braenaru” gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu gwell integreiddiad ar draws gofal plant, iechyd ac addysg blynnyddoedd cynnar.

Darpariaeth gofal plant

- ⊙ Mae [Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Sir Gâr 2022-27](#) wedi'i ddrafftio'n ddiweddar ac wedi cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi trosolwg ar y farchnad gofal plant ac effaith COVID-19. Fe wnaethon ni ymgynghori'n helaeth ac roedd y cyfraddau ymateb yn eithriadol. Dyma rai casgliadau allweddol:-
 - Ers ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn diwethaf (2017-2022), mae nifer y lleoedd a'r darparwyr gofal plant wedi cynyddu ac wedi aros yn weddol sefydlog er gwaethaf heriau pandemig COVID-19.
 - Mae nifer o warchodwyr plant wedi dadgofrestru ers ein Hasesiad diwethaf a bydd angen i ni recriwtio, hyfforddi a chefnogi darpar warchodwyr plant i lenwi'r bylchau hyn.
 - Mae fforddiadwyedd gofal plant i'r teuluoedd hynny na allant gael gofal plant a ariennir yn parhau i fod yn broblem sylweddol.
 - Mae gofal plant yn rhwystr i gyflogadwyedd rhai rhieni, ac nid yw'n ddigonol ar gyfer anghenion rhai o'r rhieni hyn
 - Mae ymestyn y Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed (y cynnig 30 awr o ofal plant am ddim) yn awgrymu bod disgwyl bydd mwy o alw am ofal plant sydd wedi cofrestru'n rhan-amser.
- ⊙ Mae bron i draean o blant yn byw mewn tlodi. **Gweler Amcan Llesiant 4**

Oes unrhyw un ar ei ennill?



GORFFENNAF I FEDI 2021



HYDREF '21 TAN FAWRTH '22

Rhoddodd Llywodraeth Cymru £270,00 i Sir Gaerfyrddin tuag at Haf o Hwyl a £434,689 tuag at Gaeaf Llawn Lles i gefnogi plant a theuluoedd fel rhan o'u hadferiad yn dilyn y pandemig a'i gyfyngiadau, ac i sicrhau nad oedd yr un teulu na phlentyn yn cael ei adael ar ôl oherwydd y pandemig. Mae tua 15,000 o blant a phobl ifanc wedi elwa o'r gweithgareddau hyn ar draws y sir o 0-25 oed. Darparwyd pecyn sylweddol o gefnogaeth i ariannu mentrau sydd wedi'u cynllunio i helpu plant, pobl ifanc, teuluoedd, a'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio i adfer a symud ymlaen. Roedd sawl sefydliad a gwasanaeth yn Sir Gaerfyrddin wedi derbyn arian. Roedd y rhain yn cynnwys Canolfannau Teulu, Canolfannau Plant, y Gwasanaeth Ieuenctid, Menter, Urdd, Actif, Parc Gwledig Pen-bre a theatrau lle gallai plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau rhad ac am ddim a gynlluniwyd i gael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Roedd rhai o'r gweithgareddau'n cynnwys clybiau gwyliau, sesiynau nofio, beicio mynydd, gwersi marchogaeth, sesiynau chwarae meddal, dosbarthiadau coginio, grwpiau tylino babanod a gweithgareddau chwarae awyr agored mewn ardaloedd gwledig. Roedd y gweithdai'n cynnwys cerddoriaeth, ysgrifennu a datblygu podlediad, ynghyd â theithiau i Fferm Folly, chwarae meddal, parc trampolinau, yr ardd fotaneg, ac ymweliadau i weld Siôn Corn a sioeau Nadolig.

Crëwyd blychau llesiant a gweithgareddau a phrynwyd amryw o offer synhwyrdd a TG o'r radd flaenaf sy'n dal i gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc.

Dywedodd rhai o'r rhieni a'r plant wnaeth elwa ar y rhaglen:

"Jyst gweld fy mhlentyn i'n mwynhau ei hun, ac o'n i'n mwynhau bod gyda rhieni eraill"

"Roedd yn anhygoel - Diolch. Roedd dim ond gweld rhieni eraill a chymdeithasu mor dda i fy ieuchyd meddwl."

"Mae mor cŵl cael chwarae beth dwi eisiau"

"Allwn ni ddod yma bob dydd?"



Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun gweithredu i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Cefnogi Teuluoedd		
1	Byddwn yn parhau i drawsnewid arferion gwaith cymdeithasol plant drwy ymagwedd seiliedig ar berthnasoedd sy'n cynnwys meddylfryd systemig ac egwyddorion <i>Signs of Safety</i> . (PIMS cyf. 15351)	Mawrth 2023	John Fleming
2	Byddwn yn parhau i oruchwyllo a herio Asesiadau a Chynlluniau Gofal a Chymorth yn effeithiol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn dangos tystiolaeth o lais y plentyn, ac yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. (15352)	Mawrth 2023	John Fleming
3	Byddwn yn adolygu ac yn monitro gweithrediad y Strategaeth Rhianta Corfforaethol , gan sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rôl Rhianta Corfforaethol a bod ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael cyfle i wireddu eu potensial llawn. (15368)	Mawrth 2023	Rebecca Robertshaw
4	Byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno'r gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar (0-25) ar gyfer plant difreintiedig, pobl ifanc, a theuluoedd ledled y sir yn unol â'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd, gan ddefnyddio cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau ar draws y Grant Plant a Chymunedau a chyfleoedd ariannu hyblyg gyda'r Grant Cymorth Tai. (15356)	Mawrth 2023	Noeline Thomas
5	Byddwn yn cadw i ganolbwyntio ar gynyddu'r ystod o leoliadau i sicrhau sefydlogrwydd o ran lleoliadau a sefydlogrwydd mewn addysg mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys llety drwy weithredu gwasanaeth llety mewnol a gynhelir. (15375)	Mawrth 2023	Jayne Meredith
6	Byddwn yn parhau i geisio lleihau nifer y plant sy'n dechrau Derbyn Gofal a nifer yr achosion gofal yn unol â'n targed lleihau plant sy'n Derbyn Gofal, fel y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'n briodol Ar Ffiniau Gofal, y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Tîm Ymyrraeth i Deuluoedd. (15364)	Mawrth 2023	Jayne Meredith
B	Anghenion Dysgu Ychwanegol		
1	Byddwn yn parhau i sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i ofynion rhaglen drawsnewid yr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw. (15453)	Mawrth 2023	Rebecca Williams
2	Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu hymagweddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion i nodi angen, cyflawni darpariaeth dysgu ychwanegol bersonol a darparu ymatebion integredig cyfannol drwy waith amlasiantaeth. (i'w gadarnhau)	Mawrth 2023	Rebecca Williams
C	Darpariaeth gofal plant		
1	Byddwn yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn ein pumed Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (2022-27) a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, ac rydym yn parhau i hyrwyddo a datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg ymhellach o fewn y sir. Byddwn yn cefnogi'r sector gofal plant i adfer wedi'r Pandemig ac i barhau i fod yn gynaliadwy. (15357)	Mawrth 2023	Noeline Thomas
2	Byddwn yn rhannu canfyddiadau'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae newydd (2022-27) gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol ac yn cytuno ac yn rhoi ar waith Gynllun Gweithredu 2022/2023, i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc lleol yn gallu cael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau chwarae eang ac amrywiol. (15359)	Mawrth 2023	Noeline Thomas



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl ar gyfer ymrwymadau a thargedau](#) o ran yr amcan hwn am 2021/22.



Amcan Llesiant 2

Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw

Mae lefelau gordewdra plant yn Sir Gaerfyrddin ymhlith y gwaethaf yng Nghymru

Mae data Rhaglen Mesur Plant 2018/19 a gyhoeddwyd ym Mawrth 2021 yn dangos bod dros 30% o blant rhwng 4 a 5 oed yn Sir Gâr dros bwysau neu'n ordew, y ffigwr pumed uchaf yng Nghymru.

Yn anffodus, mae'r pandemig wedi tarfu ar y broses o gasglu data ledled Cymru ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru - Rhaglen Mesur Plant. Mae casglu data bellach yn ôl ar y trywydd iawn a bydd data'n cael ei adrodd ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 ym mis Ebrill neu fis Mai 2023.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- Mae gordewdra'n achosi afiechyd gan gynnwys clefydau o ran y galon a chylchrediad, yn ogystal â rhai mathau o ganser, ac yn achosi marwolaeth gynnar. Mae cyfradd uwch o ddiabetes Math 2 ymhlith plant gordew. Dengys tystiolaeth fod 80% o blant sy'n ordew yn 4-5 oed dal yn ordew wrth dyfu i fod yn oedolion.
- Un o'r prif ddulliau o fynd i'r afael â lefelau cynyddol o ordewdra ymysg plant yw drwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.
- Mae angen i ni geisio meithrin perthnasoedd, teuluoedd a chymunedau iach. Yn ystod blynyddoedd ysgol, mae plant sy'n cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gallu dangos mwy o orbryder o ran eu cyflwr emosiynol, ac, o ganlyniad, gall eu sylw gael ei dynnu oddi wrth eu haddysg.
- Canfu'r arolwg rhieni a gofaluwr, a gynhaliwyd yn 2021, sy'n cefnogi Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022, fod 61% o deuluoedd yn gwerthfawrogi chwarae yn fwy o ganlyniad i'r pandemig, gyda thrafodaethau mewn grwpiau ffocws yn tynnu sylw at rôl bwysig chwarae mewn iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant plant. Ond dywed 64% fod COVID-19 wedi arwain at eu teulu'n chwarae llai.
- Mae byw bywydau iach yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial a gwireddu eu dyheadau o ran addysg.
- Mae arferion a sefydlir yn gynnar mewn bywyd yn aros gyda phobl i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.



Pa mor dda rydym yn ei wneud a (sut rydym yn gwybod)? ① Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

30.4% o blant dros eu pwysau neu'n ordew(2018/19)


(Mae hwn yn gynydd ar ganran y flwyddyn flaenorol sef 26.6% 2017/18)



Cyflawnir y rhaglen mesur plant gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) gyda phlant sy'n mynychu dosbarth derbyn mewn ysgolion yng Nghymru.

Sir Gâr yw'r sir 5ed waethaf yng Nghymru ar gyfer gordewdra ymysg plant. Roedd y ffigurau diweddaraf oedd ar gael yn dangos cynnydd pryderus mewn gordewdra ymhlith plant, yn dilyn tuedd ar i lawr ers 2014/15. Yn 2018/19, roedd bron i draean plant rhwng 4 a 5 oed dros bwysau neu'n ordew. Roedd ein ffigwr o 30.4% ar gyfer y cyfnod hwn yn dangos cynnydd o 4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 3.5% yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig.

Plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew tuedd dros y 5 mlynedd diwethaf



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cynnydd rydym yn ei wneud ar y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Gweithgaredd Corfforol

- ⊙ Llwyddodd y Gwasanaethau Hamdden i sicrhau *Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan*, i aildatblygu a gwella cynnig meysydd chwarae cwbl hygyrch ym Mharc Gwledig Pen-bre.
- ⊙ Rydym wrthi'n datblygu gŵyl *Chwaraeon Ysgol* i gyd-fynd â'r sir yn cynnal Cam 5 ras Feicio Taith Merched Prydain ddydd Gwener, 10 Mehefin 2022 o Barc Gwledig Pen-bre i ben y Mynydd Du yn Llangadog. Nod yr ŵyl fydd ceisio dod â phartneriaid ac ysgolion allweddol ynghyd i roi hwb i chwaraeon a chyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol.
- ⊙ Yn ystod Haf 2021, derbyniodd ein Tîm Cymunedau Actif £50,000 drwy *grant Haf o Hwyl* Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen gynaliadwy o weithgareddau am ddim yn y 10 ardal fwyaf difreintiedig yn y sir. Roedd y prosiect yn cynnwys 2 gam
 1. darparu gweithgareddau chwaraeon yn y cymunedau bob dydd drwy gydol gwyliau'r haf
 2. recriwtio gwirfoddolwyr o'r cymunedau i barhau â'r gweithgareddau hyn adeg gwyliau ysgol yn y dyfodol. Roedd y pecyn o gefnogaeth yn cynnwys uwchsgilio a mentora, offer amlsgilio a beicio a chymorth marchnata. Roedd y dull hwn wedi bod yn gyfrifol am weld dros 2,000 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y gweithgareddau gan roi gwaddol i'r dyfodol.
- ⊙ Ym mis Ionawr 2022, cawsom £46,000 trwy *grant Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru* i gyflawni amrywiaeth o brosiectau cynaliadwy, gan gynnwys Beicio, Padlfyrddio, Canŵio a Gweithgareddau Awyr Agored, SENSEsport, Ailgychwyn Actif a Llythrennedd Corfforol.
- ⊙ Mae'r Cynllun Llysgenhadon Ifanc yn parhau i fod yn llwyddiant mewn 96% o ysgolion ledled y sir, gan ddatblygu sgiliau arwain plant a phobl ifanc, hyder a darparu dros 50,000 o gyfranogiadau mewn sesiynau chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- ⊙ Gweithredwyd prosiect ymyrraeth gweithgarwch corfforol gennym, a oedd yn targedu disgyblion oed cyfnod sylfaen mewn 10 ysgol gynradd sydd â'r ganran uchaf o Brydau Ysgol Am Ddim. Nod y prosiect yw datblygu cymhwysedd o fewn lefel sgiliau corfforol plant gan sicrhau bod ganddynt yr hyder a'r cymhelliant o oedran ifanc, i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon gydol oes.
- ⊙ Prosiect *Ready Set Ride* - Mae 9 Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn Ysgolion Cynradd wedi derbyn cyfarpar, hyfforddiant a chefnogaeth barhaus gan ein Tîm Cymunedau Actif i ddarparu cyfleoedd cynhwysol hygyrch i bob disgybl fagu hyder pan ar feic a symud ymlaen o feic balans i feic pedal.
- ⊙ Ers mis Medi 2021, mae'r Tîm Cymunedau Actif wedi gweithredu prosiect ymyrraeth gweithgarwch corfforol sy'n targedu disgyblion oed cyfnod sylfaen o fewn 10 ysgol gynradd sydd â'r ganran uchaf o Brydau Ysgol Am Ddim. Nod y prosiect yw datblygu cymhwysedd o fewn lefel sgiliau corfforol plant gan sicrhau bod ganddynt yr hyder a'r cymhelliant o oedran ifanc, i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon gydol oes.



Iechyd Meddwl

- ⊙ Rydym wedi bod yn cefnogi Ymagwedd Ysgol Gyfan at Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n helpu 8 ysgol i gwblhau Cam 1 y Prosiect Pilot.
- ⊙ Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu er mwyn cynhyrchu Pecyn Cymorth Gwrth-fwlio i ysgolion lleol. Bydd y pecyn cymorth yn hyrwyddo a chefnogi Iechyd Meddwl ac Emosiynol disgyblion ysgol.
- ⊙ Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Cynllun wedi codi ymwybyddiaeth o nifer o Ymgyrchoedd Iechyd Meddwl Cenedlaethol ac wedi rhoi set o adnoddau Addysgol a Chyffredinol i ysgolion i gefnogi'r ymgyrchoedd hyn.
- ⊙ Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi trefnu cyfres o gyrsiau i staff ysgol fynd i'r afael â materion Iechyd Meddwl ymhlith ein dysgwyr gan gynnwys; Gwella Iechyd Meddwl a Llesiant Plant a Phobl Ifanc LGBTQ+; Delwedd Corff Positif a Hunan-barch; Strategaethau i gefnogi Person Ifanc Pryderus a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i'r leuenctid.

Bwyta'n Iach

- Defnyddir y Cynllun Ysgolion Iach fel llwyfan i atgoffa ysgolion o'r *Rheoliadau Bwyta'n Iach* presennol e.e. hysbysu ysgolion o doriadau amlwg i'r Rheoliadau Statudol megis gwobrwyo disgyblion â danteithion nad ydynt yn iach a rhoi arweiniad statudol pellach i ysgolion.
- Mae Arlwy ysgolion wedi ymateb yn dda i ffyrdd newydd o weithio oherwydd COVID-19 ac wedi parhau i ddarparu gwasanaeth pryddau poeth ym mhob ysgol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ystyried cydymffurfiaeth o ran diogelwch bwyd ac alergenau yn flaenoriaeth uchel.
- Wynebodd y Gwasanaeth Arlwy a Brecwast Ysgolion broblemau staffio sylweddol ar adegau drwy gydol y flwyddyn. Cafodd ceginau ysgolion eu cau dros dro os nad oedd modd cael digon o staff i sicrhau bod pethau'n gweithio'n ddiogel.

Cynyddu Ymwybyddiaeth

- Fe wnaethon ni godi ymwybyddiaeth o amryw o ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn gan gynnwys Diwrnod Ffitrwydd Cenedlaethol; Mis Ymwybyddiaeth o'r Awyr Agored; Diwrnod Ystafell Ddosbarth Awyr Agored; Wythnos Beicio i'r Ysgol; Wythnos Cerdded i'r Ysgol ac Ymgyrch Miliwn Munud Actif; Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd; Wythnos Iechyd Meddwl Plant; Mis Ymwybyddiaeth o Straen; Wythnos Gwrth-fwlio; Y Cinio Mawr; Eat Like a Champ; Wythnos Bwyta'n Iach Sefydliad Metheg Prydain; Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Ordewdra ac Anhwylderau Bwyta.
- O ran Arolwg Iechyd a Llesiant Disgyblion Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion Cymru, mae 11 o'r 12 Ysgol Uwchradd yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cofrestru gyda'r Rhwydwaith ac wedi cwblhau Arolygon. Bu i bob un o'r 11 o'r Ysgolion Uwchradd hyn hefyd gwblhau Holiadur Amgylchedd yr Ysgol.

Dechrau'n Deg

- Mae **Dechrau'n Deg** wedi parhau â gwaith cydweithredol gan ddarparu ymagwedd gyfannol at gefnogi teuluoedd sy'n rhannu syniadau ac adnoddau. Mae'r *Ap Dechrau'n Deg* wedi bod yn allweddol o ran cyflawni gwasanaethau, rhannu negeseuon allweddol, a darparu gwybodaeth i deuluoedd. Pan oedd cyfyngiadau Covid dal mewn grym, aeth **Dechrau'n Deg** allan i'r gymuned leol i weld teuluoedd dros yr haf. Gan weithio gyda Chymunedau am Waith a Mwy, Legacy, Fusion, Actif a Llyfrgelloedd Sir Gâr, cynhaliwyd sesiynau chwarae awyr agored mewn parciau lleol. Roedd gallu gweld teuluoedd wyneb yn wyneb yn fuddiol iawn o ran hyrwyddo'r holl wasanaethau oedd ar gael, a nawr bod y cyfyngiadau bellach wedi llacio, mae Dechrau'n Deg yn gallu darparu rhagor o gymorth wyneb yn wyneb yn y cartref neu mewn lleoliadau (sy'n cydymffurfio â rheolau covid).

Rhaglen Trawsnewid Blynyddoedd Cynnar

- Gan weithio gyda phartneriaid rhanbarthol, mae Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar yn cael ei datblygu. Mae'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu gwasanaethau Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar mwy integredig, mwy effeithiol, a mwy effeithlon i filoedd o deuluoedd yng Ngorllewin Cymru.
- Bellach mae tîm Integredig Cwm Gwendraeth wedi hen ennill ei blwyf ac yn nodi teuluoedd sydd mewn angen mor gynnar â phosibl trwy'r gwasanaeth Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd. Cyfeirir teuluoedd at y Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd i gael cefnogaeth 1:1 ac maent yn cael eu cyfeirio at y gwahanol grwpiau sydd ar gael.

DYSGU YN YR AWYR AGORED

Mae defnyddio mannau awyr agored i gyfoethogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm a chefnogi llesiant pob dysgwr yn parhau i fod yn flaenoriaeth ym mhob ysgol yn Sir Gaerfyrddin. Mae cael mynediad i'r awyr agored i gael cysylltiad a dealltwriaeth ddyfnach o'u hamgylchedd lleol yn rhoi cyfle i'r holl ddysgwyr ddod yn aelodau gweithredol o fewn eu cymunedau.



Mae nifer o fentrau gardd gymunedol a chynlluniau bwyd ar y gweill. Mae dwy o ysgolion Sir Gâr, sef Ysgol Gynradd Llandeilo ac Ysgol Bro Banw ar hyn o bryd yn rhedeg cynllun 'Big Bocs Bwyd' a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r model rhannu bwyd hwn yn gweithredu system 'talwch fel y mynnwch' sydd ar gael i deuluoedd o fewn yr ardal leol. Mae dwy ysgol arall, sef Ysgol Gymraeg Dewi Sant ac Ysgol Trimsaran hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn ddiweddar.



Fel rhan o'r rhaglen hon mae pob ysgol yn darparu arweiniad maethol a chardiau rysâit i deuluoedd. Bydd y dysgwyr yn cael sesiynau coginio ymarferol lle byddant yn edrych ar ryseitiau newydd maent yn eu rhannu â'u teuluoedd. Mae hon yn ffordd wych o hyrwyddo bwyta'n iach a chynyddu dealltwriaeth o werth maethol bwydydd.

<https://llyw.cymru/cyllid-gan-lywodraeth-cymru-ar-gyfer-gweithredu-prosiect-bwyd-llwyddiannus-mewn-ysgolion-yn-y>

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun gweithredu i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Gweithgaredd Corfforol		
1	Helpu plant i fyw bywydau iach gan ganolbwyntio ar ein gwaith gydag ysgolion a phobl ifanc yn y gymuned	Mawrth 2023	Ian Jones
2	Datblygu model newydd ar gyfer cynnig addysg awyr agored preswyl a di-breswyl ar draws y Sir (15073)	Mehefin 2022	Ian Jones
3	Byddwn yn datblygu a gweithredu Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin a fydd yn cynnwys parhau i weithio mewn partneriaeth â Llesiant Delta i gefnogi ein trigolion.	Mawrth 2023	Rhian Dawson
4	Byddwn yn parhau i gynyddu lefel y gweithgarwch corfforol drwy ddatblygu cynlluniau megis Prosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Gaerfyrddin, ein Her Pedomedr flynyddol, ac yn parhau i ymgorffori pwnc lechyd Bwyd a Ffitrwydd mewn Ysgolion. (15102)	Mawrth 2023	Louise Morgan
B	Iechyd Meddwl		
1	Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion wrth iddynt weithredu pwnc lechyd Meddwl ac Emosiynol ac Iechyd Llesiant, yn cynnwys strategaethau Gwrth-fwllo a dulliau ymdopi iach megis ymwybyddiaeth ofalgar a Speaker. (15443)	Mawrth 2023	Louise Morgan
2	Parhau i ddatblygu a defnyddio ystod o Strategaethau, megis y Strategaeth Ecwiti, i sicrhau llesiant emosiynol ac iechyd meddwl yr holl dysgwyr. (15427)	Mawrth 2023	Aeron Rees
C	Bwyta'n Iach		
1	Byddwn yn parhau i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013. (15419)	Mawrth 2023	Louise Morgan
2	Cefnogaeth gydag adolygiadau'n ymwneud â Darpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim a Threchgu Tlodi (i gynnwys Rhaglen Gwella'r Gwyliau Haf). (15382)	Mawrth 2023	Helen Bailey
D	Cynyddu Ymwybyddiaeth		
1	Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd sy'n benodol i fwyta'n iach, gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl ac yn hyrwyddo Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. (15443)	Mawrth 2023	Louise Morgan



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl ar gyfer ymrwymadau a thargedau](#) o ran yr amcan hwn am 2021/22.



Amcan Llesiant 3

Dechrau'n Dda - Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniadau a deilliannau'r holl ddysgwyr

Er gwaethaf heriau eithafol pandemig COVID-19, rydym wedi gweithio'n effeithiol fel un tîm Addysg a Gwasanaethau Plant i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n llwyddiannus er mwyn cael mynediad i'w haddysg a'r holl wasanaethau oedd eu hangen arnynt i sicrhau bod cyflawniad a chanlyniadau'n parhau'n bositif.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- Rydym eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon.
- Rydym am wella canlyniadau i bobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes, i'w galluogi i ffynnu yn yr 21ain Ganrif ac ym myd gwaith.
- Mae ymchwil gan *Y Sefydliad Addysg* yn awgrymu bod mynychu cyn-ysgol dda ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academiaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol (Taggart, 2015).
- Mae ein gwasanaeth wedi ymroi o hyd i'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen strategol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#).
- Mae lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn lleihau effaith tlodi a'r gost ehangach i gymdeithas o wasanaethau cymorth, dibyniaeth ar fudd-daliadau a throseddau.
- Mae mwyhau cyfleoedd bywyd plant yn hanfodol, a sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu camu ymlaen i'r chweched dosbarth mewn ysgolion, i Golegau Addysg Bellach, i gael prentisiaethau, neu i gael hyfforddiant neu waith.
- Mae'n galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol.



Pa mor dda rydym yn ei wneud (a sut ydym yn gwybod)? ① Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

367.2 yw'r sgôr gyfartalog (y 9 canlyniad arholiad gorau) ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 2019/20 (Blwyddyn Academaidd



6^{ed} uchaf yng Nghymru
Ffynhonnell: StatsCymru



93.9% Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd

93.5% Presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd
Ffynhonnell: StatsCymru

95%

yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn




(Gwelliant ar ganran y flwyddyn flaenorol sef 84%)
89% yng Nghymru

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

1.1% o ddisgyblion Blwyddyn 11 a

2.7% o ddisgyblion Blwyddyn 13 heb fod

mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant



(Y flwyddyn flaenorol – BI 11: **1.8%** & BI 13: **3.5%**)

- Does dim canlyniadau ar gyfer y **cyfraddau Cyrhaeddiad Addysg na Phresenoldeb** wedi cael eu cyhoeddi ers 2019/20 (Blwyddyn Academaidd 2018/19) oherwydd pandemig COVID-19, gan nad oedd myfyrwyr wedi gallu sefyll arholiadau terfynol. Yn hytrach, bydd eu graddau'n adlewyrchu canlyniadau rhagweledig ar sail gwaith cwrs a chanlyniadau arholiadau ffug. Ni chyhoeddwyd canlyniadau fesul sir ac ni fyddai modd eu cymharu â blynnyddoedd blaenorol pe baent yn hysbys. Mae arholiadau haf 2022 yn mynd i fynd ymlaen fel y trefnwyd.
- Mae **95% yn fodlon ar Ysgol Gynradd eu plentyn** yn ôl data diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019/20).
- Mae % y disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) wedi gwella yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae % y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n NEET wedi gostwng o 1.8% (32/1,181) i 1.1% (21/1,885) a Blwyddyn 13 wedi gostwng o 3.5% (23/652) i 2.7% (18/678). Mae gwaith yn

cael ei wneud o hyd i fynd i'r afael â'r rhai sy'n gadael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant gan ganolbwyntio'n benodol ar brosiectau a ariannwyd yn flaenorol gan yr UE. Mae gan y Gwasanaeth Cymorth Ieuencid staff penodedig i gefnogi pobl ifanc ym mhob ysgol uwchradd ac mewn lleoliadau allgymorth cymunedol ôl-16. Mae'r gwaith yn parhau i nodi cyllid newydd ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac rydym yn cysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Cynnydd rydym yn ei wneud ar y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Gwelliant o ran cynnydd, llesiant a chanlyniadau disgyblion a phobl ifanc.

- Oherwydd pandemig COVID-19, mae proses asesu a chymwysterau blwyddyn academiaidd 2020-21 wedi bod yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol gan fod arholiadau'r haf wedi'u canslo. Yn hytrach, cafodd system newydd ei chynllunio a'i chyflwyno gan ysgolion a cholegau yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth asesu i benderfynu ar radd dysgwr. Mae'r canlyniadau terfynol yn dangos bod dros chwarter (28.7%) myfyrwyr TGAU wedi ennill graddau A*-A yn genedlaethol. Mae bron i dri chwarter (73.6%) wedi derbyn graddau A*-C, ac yn gyffredinol, mae 98.5% o fyfyrwyr wedi pasio eu TGAU gyda graddau A*-G. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau ar lefel awdurdod lleol, gan na ellid cymharu'r rhain â'r blynyddoedd blaenorol, a rhoddodd gyfarwyddyd i awdurdodau lleol beidio â chyfuno data ysgolion ar lefel sirol. Mae disgwyl i arholiadau Haf 2021-22 fynd yn eu blaenau fel y trefnwyd.
- O ran Safon Uwch, enillodd 99.1% o fyfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru raddau A* - E a chafodd 21.3% o ddysgwyr radd A*. Eleni, o ran Safon UG, roedd 37.1% o'r holl raddau a ddyfarnwyd yng Nghymru yn radd A, gyda 96.7% o'r ymgeiswyr yn ennill graddau A - E.

Mynd i'r afael â phresenoldeb ysgol isel

- Oherwydd y pandemig, ni chafodd data presenoldeb ysgolion blynyddol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020-21 ei gasglu na'i gyhoeddi.

Ysgol ragorol yn y lle cywir

- Mae Cynghorau Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe wedi ffurfio partneriaeth ffurfiol, '*Partneriaeth*', i ddarparu gwasanaethau i ysgolion yn y rhanbarth newydd. Mae Cytundeb Cyfreithiol newydd sy'n amlinellu rôl y Consortiwm newydd, sut mae'r gyllideb a'r cynllun busnes i'w datblygu, a threfniadau llywodraethu. Mae'r Strwythur Staffio newydd fel y cytunwyd arno gan y Cyd-bwyllgor wedi ei gwblhau ac mae Swyddog Arweiniol wedi'i benodi. I ddechrau, bydd y consortiwm yn canolbwyntio ar gyflawni datblygiad proffesiynol o ansawdd da i gefnogi diwygio'r cwricwlwm ac arweinyddiaeth. Mae gwaith y consortiwm yn cael ei lywio a'i fonitro gan gyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion allweddol yr Awdurdod Lleol a Phartneriaeth. Mae'n amlwg bod rolau a chyfrifoldebau clir, a phennir cyfrifoldebau rhwng yr Awdurdod Lleol a Phartneriaeth a phwy sydd yn y sefyllfa orau i arwain ar fenter. Mae gwefan newydd a chyfathrebu rheolaidd gydag ysgolion. Yr arwyddion cynnar yw bod y ddarpariaeth newydd yn canolbwyntio llawer mwy ar anghenion lleol ac ar ymateb iddynt.
- Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnal adolygiad o'n Rhaglen Moderneiddio Addysg. Fodd bynnag, mae'r rhaglen bresennol y cytunwyd arni yn parhau ac rydym wedi cwblhau'n ddiweddar brosiectau yn [Ysgol Rhys Prichard](#), [Ysgol Pum Heol](#) ac [Ysgol Llangadog](#), ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn Ysgol y Castell ac Ysgol Gors-las. Mae'r gwaith ar [Ysgol Pen-bre](#) wedi dechrau ym mis Ionawr 2022.

! Mae cynnydd mawr iawn wedi bod mewn costau deunydd adeiladu ac mae'n achosi her sylweddol o ran cyflawni'r Rhaglen Moderneiddio Addysg gyda rhai cynlluniau eisoes ar y gweill.

- Cysylltwyd eisoes Adran yr Amgylchedd eisoes wedi ymgysylltu a gweithio i fyny cynlluniau ar draws pum safle ysgol:
 - Ysgol Gymunedol Porth Tywyn (Cynradd)
 - Ysgol Gynradd Gymunedol Llangennech
 - Ysgol Gynradd Gymunedol Y Bedol
 - Ysgol Glanymôr (Uwchradd)
 - Ysgol Heol Goffa (Arbennig)

Cyfanswm cost gwneud y gwaith brys hwn erbyn Medi 2022 yw £1.76 miliwn. O ystyried bod costau'r gyllideb yn sylweddol, mae angen cymeradwyo hawl trosglwyddo arian.

Datblygu'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth

- Mae ymgynghorwyr cymorth addysgol yn gweithio'n rheolaidd ochr yn ochr â'n penaethiaid, eu huwch-

dimau arwain, staff addysgu a chymorth, gan sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau eu hysgolion a'r meysydd sydd angen ffocws neu ddatblygiad pellach. Mae'r cymorth a ddarperir wedi'i deilwra i anghenion yr ysgol ac rydym yn sicrhau capasiti ychwanegol i bob ysgol sydd angen mewnbwn mwy rheolaidd. Mae'r tîm yn monitro'r cynnydd ochr yn ochr ag uwch-arweinwyr, gan sicrhau cefnogaeth addas; mae hyn wedi dod yn fwyfwy posibl wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio.

- ⊙ Mae ymagwedd golegol yr adran o wella ysgolion, yn ogystal ag ymagwedd strategol y grŵp ffocws wedi sicrhau defnydd mwy effeithlon o amser a ffocws gwell ar yr heriau y mae ysgolion yn mynd i'r afael â nhw, gan lywio rhaglen dysgu proffesiynol y gwasanaethau. Cafodd gwaith yr adran ei ddiweddarau'r tymor hwn, yn unol â chynllun 10 mlynedd y Gwasanaethau Addysg a Phlant a chanlyniadau arolwg y penaethiaid ac ymgynghoriadau Siarter Llesiant y penaethiaid.
Yn ogystal, mae'r adran yn parhau i ganolbwyntio ar arweinwyr ysbrydoledig ar gyfer y dyfodol, cynllunio olyniaeth ac uwchsgilio drwy raglen ddatblygu broffesiynol gynhwysfawr sy'n ategu strategaethau a gyflwynir yn genedlaethol. Mae'r rhaglen hon wedi hen ddechrau, fodd bynnag, mae angen marchnata'r cyfle ychwanegol hwn ymhellach er mwyn denu rhagor o gyfranogwyr.
- ⊙ Mae prosesau recriwtio diwygiedig yn gadarn ac yn asesu galluedd, sgiliau a phrofiadau ymgeiswyr yn fwy cywir. Rhennir y disgwyliadau hyn yn glir drwy ein rhaglen ddatblygu ac mae hyn wedi cael ei werthfawrogi gan benaethiaid y dyfodol.
- ⊙ Mae'r adborth ynghylch y dull diweddaraf o gefnogi llywodraethwyr ysgol yn hynod gadarnhaol. Mae cyfarfodydd ar-lein rheolaidd yn bwysig ac yn gwella sgiliau arwain a llywodraethu ar draws ystod o faterion strategol, gweithredol a chysylltiedig â COVID-19.
- ⊙ Mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarn i geisiadau gan ysgolion am fynd i'r afael â llesiant staff a llunio siarter llesiant i roi sylw i lwyth gwaith a chydbwysedd bywyd gwaith ein gweithlu addysg. Camau cysylltiedig sy'n ategu cynllunio busnes adrannol.

! Oherwydd effeithiau'r pandemig mae prinder athrawon yn genedlaethol.

Datblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau i gyd

- ⊙ Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn Hydref 2021 rydym wedi llunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig. Mae'r cynllun wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith o 1 Medi 2022.
- ⊙ Rydym yn cynyddu nifer yr athrawon a staff cymorth sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus. Mae cyrsiau hyfforddi ar draws pob lefel ieithyddol yn ogystal ag ar gyfer Gloywi Iaith, yn cael eu cynnig i bob ysgol. Mae archwiliad iaith yn rhoi gwybodaeth fanwl am lefelau iaith staff ysgol ac felly gellir eu targedu ar gyfer cyrsiau iaith penodol. Mae dysgu iaith a chysiau ar-lein ynghyd ag Addysgeg yn y Cyfnod Sylfaen, yn ffordd gadarnhaol o weithredu dysgu Cymraeg.


Canolbwyntio ar y gofynion o ran sgiliau a chyflogadwydd i sicrhau bod gofynion lleol a rhanbarthol yn cael eu bodloni

- ⊙ Rydym wedi parhau i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ynghylch dylunio'r cwricwlwm newydd. Rydym yn cynnal prosiect ar y thema 'Dadwladychu'r Cwricwlwm' mewn partneriaeth â Dr Kirsti Bohata o Brifysgol Abertawe, sef Pennaeth y Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol ar Gymru yn Saesneg (CREW). Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar brofiad a dealltwriaeth Dysgwyr Sir Gâr o gysyniadau gan gynnwys 'hunaniaeth' a 'gor-boblogaeth' yng nghyswllt y syniad o ddadwladychu. Bydd ysgolion yn rhoi eu hadborth yn ystod tymor yr haf. Gwnaethom gydweithio â'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol sy'n cynhyrchu eu baromedr sgiliau ym mis Chwefror 2022, gyda'r bwriad o weithio gydag ysgolion i nodi sut y gallwn ddatblygu llwybrau a chysiau sy'n bodloni'r sgiliau a'r galluedd sydd eu hangen ar yr 8 ardal datblygu busnes a diwydiant Rhanbarthol. Gyda chyhoeddi'r Baromedr Sgiliau rydym wedi dechrau ar ein hymarfer cwmpasu ein hunain o'r llwybrau a'r profiadau a gynigir yn ein hysgolion ac a gefnogir gennym drwy [arolwg ar-lein](#) a thrafodaethau wyneb yn wyneb. Byddwn yn llunio cynllun sy'n deillio o hyn.

Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

- ⊙ Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn parhau i gael ei weithredu yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n cyfrannu at ddeilliannau gwasanaeth gwell o ran ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n NEET. O'r deilliannau rydym yn gwybod amdanynt, arhosodd 98.9% o ddisgyblion mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Data ar gyfer disgyblion B11 Sir Gaerfyrddin (Blwyddyn Academaidd 2020-21)



Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop

- Rydym yn parhau i edrych ar ffynonellau ariannu eraill yn lle prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan ddatblygu cynigion cyllid. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant at Lywodraeth Cymru i godi pryderon ynghylch cyflawni gwaith NEET i'r dyfodol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru ei bod dal i aros am gynlluniau Llywodraeth y DU ynghylch arian i gymryd lle arian yr UE.

ADRODDIAD RHEOLEIDDIO


Sicrwydd ac Asesiad Risg – Risgiau sy'n Dod i'r Amlwg a'r Camau Nesaf (3 Chwefror 2022)

Sicrwydd:

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o faterion yn yr awdurdod gan gynnwys ynghylch ysgolion sy'n achosi pryder.
- Cynhaliodd arweinwyr y cyfathrebu da rhwng adrannau drwy gydol y pandemig i sicrhau bod cefnogaeth i ysgolion a darparwyr eraill ar gael yn gyflym.
- Mae nifer sylweddol o ysgolion cynradd wedi eu tynnu o Adolygiad Estyn.
- Mae adroddiadau cyn-arolwg yn dangos bod yr awdurdod, ar y cyfan, yn adnabod ei ysgolion yn dda.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn rhagweithiol o ran cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector cynradd.
- Mae'n ymddangos bod gan swyddogion yr Awdurdod Lleol gynlluniau addas mewn lle i ddelio â'r materion sy'n ymwneud ag arwain ysgolion llai, er enghraifft drwy eu ffedereiddio neu eu huno.
- Mae'r awdurdod wedi cefnogi ysgolion a darparwyr i ddeall a gwreiddio'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.
- Trefniadau craffu effeithiol.

Pryderon:

- Mae nifer fach iawn o ysgolion cynradd mewn categori statudol.
- Gan fod yr awdurdod lleol wedi gadael ERW, mae ansicrwydd ynglŷn â rhai trefniadau gyda Partneriaeth.
- Mae recriwtio penaethiaid i arwain rhai ysgolion cynradd yn achosi pryder.
- Er bod nifer y disgyblion nad aethant ymlaen o flwyddyn 10 i 11 yn Sir Gaerfyrddin ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol am y ddwy flynedd ddiwethaf ar y cyfan, mae cyfraddau'r disgyblion na ellir eu paru â chyrchfan yn uchel mewn lleiafrif o ysgolion dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Balansau'r gyllideb mewn ysgolion



ADRODDIAD GRŴP GORCHWYL A GORFFEN PWYLLGOR CRAFFU – YR AMGYLCHEDD



Adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg blynnyddoedd cynnar, gofal plant a chyfluoedd chwarae. Mae'r adroddiad yn amlinellu 20 argymhelliaid. Yng nghyfarfod y Cabinet ar 31 Ionawr 2022, cymeradwywyd argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i adolygu Polisi Derbyniadau Addysg Sir Gaerfyrddin.

Gerddi Ysgol Cynaliadwy

Mae gerddi ysgol a chysylltiadau cymunedol hefyd yn ennill momentwm ar draws Sir Gaerfyrddin. Yn Ysgol Pen-bre ceir enghraifft ardderchog o weithio gyda'r gymuned ehangach a chysylltu â sefydliadau fel *Incredible Edibles*. Mae'r ysgol wedi datblygu gardd gynhyrchol a chynaliadwy sy'n cynnwys nifer o welyau blodau a pholidwnnel llawn stoc. Mae llwyddiant yr ardd o ganlyniad i'r holl ddysgwyr sy'n cymryd rhan yn y gwaith plannu, dyfrio a chwynnu. Rhaglen ysgol gyfan o gynnal a rheoli, gyda chynnyrch blasus ar gael ar gyfer y gymuned leol.



Mae Ysgol Bro Dinefwr wedi sefydlu ardal ddysgu awyr agored drawiadol. Mae gan yr ysgol faes dysgu awyr agored amlbwrpas i hwyluso dysgu ymarferol a galluogi cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Maent wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau, busnesau lleol ac elusennau ar nifer o brosiectau gan gynnwys ardal ddysgu awyr agored fawr, ardal berfformio awyr agored a gardd heddwch.

Angharad, disgybl Blwyddyn 13, "Rwy'n credu, yn enwedig yn sgil y mudiad amgylcheddol cynyddol y mae ein grŵp oedran wedi bod mor gysylltiedig ag ef, ei bod hi'n braf iawn cael rhywbeth lle mae gyda ni ymdeimlad gwirioneddol o frys, a gallwn ni gyfrannu ar lawer o wahanol lefelau."



Cerys, Blwyddyn 12, "Rydyn ni'n siarad am ein bywydau ni fan hyn nawr. Rwy'n credu y dylai fod yn bwysig i bawb, a dyma pam rydym wedi dechrau'r ardal ddysgu awyr agored, fel y gallwn ddiogelu'r amgylchedd a cheisio brwydro yn erbyn newid hinsawdd."

Chloe, Blwyddyn 9, "Mae'r ardd gyfan i fod i ganolbwyntio ar yr amgylchedd ac ar werthfawrogi'r byd o'n cwrpas ac rwy'n credu bod disgyblion yr ysgol yn sylweddoli hynny - oherwydd mae cael yr ardal hon sy'n llawn harddwch naturiol, yn gwneud i ni werthfawrogi beth sydd gyda ni yma."



Ysgolion Awyr Agored
Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire
Outdoor Schools

Climate change: Carmarthenshire school's zero-carbon secondary bid - BBC News



Ysgolion Awyr Agored Sir Gaerfyrddin

Lansiodd Cynllun Ysgolion Awyr Agored Sir Gâr (CODS) ei raglen ar gyfer 2022-23 ddiwedd mis Mawrth fel rhan o Wythnos Dysgu Awyr Agored, Cymru. Mae rhaglen CODS yn cynnig cyfle i bob ysgol yn Sir Gâr rannu arferion da, adnoddau a gwaith ar y cyd. Trafodaeth broffesiynol i sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael eu cefnogi ac yn hyderus i ddatblygu dysgu pwrpasol yn yr awyr agored. Nod y rhwydwaith yw cynnig cyfleoedd i'r holl ddysgwyr werthfawrogi a chysylltu â natur a dod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus heddiw ac yn y dyfodol. Mae grŵp o chwe ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth gref â Chyfoeth Naturiol Cymru a Chwmni Fferm Wynt Brechfa ar hyn o bryd. Mae'r chwe ysgol yn ymweld â safle Coedwig Brechfa bob tymor. O ganlyniad i'r prosiect hwn, mae'r ysgolion wrthi'n datblygu ystod o adnoddau'r cwricwlwm fydd ar gael ym mis Medi 2022.

Grŵp Ymgynghori Gweithredu er budd yr Hinsawdd

Lansiwyd y Grŵp Ymgynghori Gweithredu er budd yr Hinsawdd ym mis Tachwedd 2021 yn ystod wythnos COP26. Ffurfiwyd y grŵp i weithredu Maniffesto Gweithredu er budd yr Hinsawdd wyth pwynt, a ddatblygwyd fel rhan o'r rhaglen dinasyddiaeth fyd-eang, *Walk the Global Walk*. Cafodd y Maniffesto Gweithredu Hinsawdd ei gymeradwyo yn unfrydol gan y Bwrdd Gweithredol llawn ym mis Hydref 2021. Mae cyfarfod ymgynghori ffurfiol yn cael ei gynnal bob tymor sy'n cynnig cyfle i'r grŵp, gwahoddedigion, cynghorwyr lleol a swyddogion y cyngor i drafod materion yn ymwneud â newid hinsawdd a gweithredu argymhellion eu maniffesto. Mae cyfarfodydd y grŵp ymgynghori'n cael eu cadeirio gan y myfyrwyr ac yn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u pryderon ar faterion ynghylch yr hinsawdd yn cael eu rhannu ar draws platfform eang. Yn ystod y cyfarfod diwethaf, bu myfyrwyr yn cwrdd â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters, i dynnu sylw at sut y gallwn leihau'r defnydd o blastig untro. Bydd trafodaethau'r dyfodol yn cynnwys lleihau gwastraff bwyd mewn ysgolion, garddio newid hinsawdd, a mentrau cludiant ysgol cynaliadwy. [Erthygl Newyddion](#)

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun gweithredu i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Gwelliant o ran cynnydd, llesiant a chanlyniadau disgyblion a phobl ifanc.		
1	Gan ystyried effaith COVID-19, byddwn yn cefnogi ein hysgolion i sicrhau llesiant a chynnydd pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed, y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai sy'n derbyn gofal. (15459)	Mawrth 2023	Elin Forsyth
2	Byddwn yn seilio cyfres newydd o fesurau ar fesurau newydd Llywodraeth Cymru pan gânt eu cyhoeddi. (15415)	Mawrth 2023	I'w gadarnhau
B	Mynd i'r afael â phresenoldeb ysgol isel		
1	Gwella systemau adrodd presenoldeb er mwyn galluogi her i ysgolion. (16127)	Mawrth 2023	Allan Carter
C	Ysgol ragorol yn y lle cywir		
1	Byddwn yn adolygu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, gan gofio goblygiadau COVID-19 ac yn cychwyn rhaglen newydd. (14998)	Mawrth 2023	Sara Griffiths
D	Datblygu'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth		
1	Byddwn yn sicrhau mwy o ymgysylltu â phenaethiaid wrth gydweithio ar ein datblygiad strategol ac yn adolygu'r cynnydd. (16128)	Mawrth 2023	Elin Forsyth
2	Cryfhau ymhellach ein hymagwedd at ddatblygu'r ysgol 'hunan-wella', gan hwyluso cydweithio a rhannu arferion effeithiol, a seilio'n hymagwedd ar egwyddorion ysgol fel sefydliad dysgu. (16129)	Mawrth 2023	Elin Forsyth
3	Datblygu ymgyrch recriwtio newydd gyda chymorth cydweithwyr o Adnoddau Dynol a Chyfathrebu er mwyn denu mwy o ymgeiswyr ar gyfer swyddi gwag presennol, bydd hyn yn rhan allweddol o'r Strategaeth Gweithlu newydd sy'n cael ei llunio ar gyfer y Cyngor. (16130)	Mawrth 2023	Elin Forsyth
E	Datblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau i gyd		
1	Ymdrechu i weithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd pwrpasol a phendant ar gyfer yr holl randdeiliaid. (15434)	Mawrth 2023	Catrin Griffiths
2	Byddwn yn gweithio gydag ysgolion y Sir i'w symud ar hyd y continwrm iaith Gymraeg a hefyd i sicrhau bod disgyblion unigol mewn ysgolion perthnasol yn cael cyfleoedd i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol. (15433)	Mawrth 2023	Catrin Griffiths
3	Byddwn yn cynyddu nifer yr athrawon a'r staff cynorthwyol sy'n gallu addysgu'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg. (15032)	Mawrth 2023	Catrin Griffiths
F	Canolbwyntio ar y gofynion o ran sgiliau a chyflogadwydd i sicrhau bod gofynion lleol a rhanbarthol yn cael eu bodloni		
1	Byddwn yn parhau i lunio Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin mewn partneriaeth ag ysgolion a darparwyr eraill, wedi'i fframio o fewn y cyd-destun cenedlaethol. Byddwn yn mynd ar drywydd cyfleoedd i gysylltu strategaeth gorfforaethol ac economaidd â dyluniad y cwricwlwm newydd. (15424)	Mawrth 2023	Aeron Rees
2	Byddwn yn asio cyfleoedd lleol i gyfoethogi ac ymestyn y cwricwlwm gyda'r bensaernïaeth genedlaethol gyda'r nod o ddatblygu Cynnig Dysgwr Sir Gaerfyrddin. (15425)	Mawrth 2023	Aeron Rees
G	Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid		
1	Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed fel ffordd o ymgysylltu'n effeithiol â'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n NEET/mewn perygl o fod yn NEET. (15408)	Mawrth 2023	Gill Adams
H	Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop		
1	Byddwn yn sicrhau parhad y gwaith o gynllunio a chyflawni elfennau lleol prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). (15441)	Mawrth 2023	Gill Adams



Cliciwch [yma i gael ein cynnydd manwl ar gyfer ymrwymadau a thargedau](#) o ran yr amcan hwn am 2021/22.

Byw'n Dda





Amcan Llesiant 4


Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

Nifer yr aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin sy'n byw mewn tlodi wedi cynyddu

Yn ystod 2021, dosbarthwyd **29,444** o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn rhai oedd yn byw mewn tlodi, ac mae hwn yn gynydd o'r nifer ar gyfer y flwyddyn flaenorol sef 27,691.

Mae Tlodi mewn Gwaith yn broblem gynyddol.

Mae tlodi yn cael ei ddiffinio fel pan fo "incwm aelwydydd yn llai na 60% o incwm canolrif Prydain" (yn 2021 llai na £19,642)



Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant.
- Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn niweidio ansawdd bywyd pawb. Mae adroddiad y Cenhedloedd Unedig [Gadael neb ar ôl](#) yn amlinellu'r rheidrwydd o ddatblygiad cynhwysol.
- Yn rhy aml o lawer mae tlodi'n brofiad sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n peri bygythiad sylweddol i lesiant cadarnhaol yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae gan Sir Gaerfyrddin 5 ardal yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru (mae yna 191 yn y categori hwn - hynny yw o fewn y 10% mwyaf difreintiedig). [Myneqai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC 2019\) - StatsCymru](#)
- Bellach mae Sir Gaerfyrddin yn gweld ei lefelau uchaf o dlodi plant yn y blynyddoedd diwethaf (31.3%), sydd yn batrwm tebyg ar draws Cymru. [Llywodraeth y DU Plant mewn teuluoedd incwm isel \(Mawrth 2021\)](#)



Pa mor dda rydym yn ei wneud (a sut ydym yn gwybod)? ① Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

35.6% o aelwydydd yn byw mewn tlodi



34% o'r blaen (2020)
Ffynhonnell: CACI
Paycheck

Llwyddwyd i atal **50.5%**

o aelwydydd yr oedd digartrefedd yn fygythiad iddynt rhag mynd yn ddigartref

Y flwyddyn flaenorol - 46.4%



Bwlch o **17.9%** yng

nghanlyniadau disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim a'r rheiny nad ydynt (2019/20)

(bwlch o 19.7% yn y flwyddyn flaenorol - 2018/19)

Ffynhonnell: Stats Cymru



12% o'r aelwydydd yn byw mewn

amddifadedd materol (2021/22)

Gostwng o'r flwyddyn flaenorol 11.3% (2019/20)

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Yr Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi

- Mae ymhell dros draean (35.6% neu 29,444) o'n haelwydydd yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn peri pryder ac mae wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf, hwn yw'r ganran 8^{fed} uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 34%. Mae 24 ward yn arddangos cyfraddau uwch na chyfartaledd Sir Gaerfyrddin, sy'n awgrymu nad yw effeithiau tlodi i'w teimlo'n gyfartal ar draws y sir. Wrth i brisiau bwyd, biliau ynni a chostau cyffredinol barhau i godi ar draws y DU, mae'n mynd yn anoddach i aelwydydd gadw uwchben y llinell dlodi. Nid yw cyflogau'n codi i dalu'r costau ychwanegol. Mae hyn yn golygu bod mwy o aelwydydd sy'n gweithio yn dlawd. Gwnaed y sefyllfa'n waeth gan effaith Covid wrth i swyddi gael eu colli, yn enwedig yn y sector twristiaeth a lletygarwch. Nid oedd pawb yn teimlo effeithiau'r pandemig yn gyfartal, awgryma tystiolaeth fod yr effeithiau'n cael eu teimlo'n anghymesur gan y genhedlaeth iau a'r rhai o aelwydydd incwm isel.

Tlodi Plant

- ⊙ Mae 30.6% o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi, sef cynnydd o 1.6% dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ffigyrau ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn dangos cynnydd o 2% dros yr un cyfnod, gyda 31.3% o blant yn byw mewn tlodi.
- ⊙ Dyma'r 10fed lefel uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru a'r gyfradd newid pumed uchaf ar y cyd dros y pum mlynedd diwethaf.
- ⊙ Ar lefel Cymru, mae'r gyfran fwyaf o blant sy'n byw mewn tlodi yn byw ar aelwydydd heb waith. Fodd bynnag, testun mwy o bryder yw'r ffaith fod mwyfwy o blant o aelwydydd sy'n gweithio yn byw mewn tlodi.
- ⊙ Ar lefel Cymru gyfan mae 17% o blant mewn tlodi yn byw mewn cartrefi lle mae pob oedolyn yn gweithio, sef cynnydd o 5% dros y deng mlynedd diwethaf, a hynny o 12%.

Atal Digartrefedd

- ⊙ O ganlyniad i adolygu arferion gweithredol (a restrir isod), rydym wedi mabwysiadu ymagwedd newydd at achosion a dynnwyd yn ôl, gan adlewyrchu'n well y canlyniadau cadarnhaol i ymgeiswyr. Rydym wedi sicrhau yr atgoffir staff o'u hadrannau priodol i ddod â'n dyletswyddau i ben, fel y gallwn gasglu gwell gwybodaeth ynghylch y gwaith atal llwyddiannus rydym yn ei wneud. Bydd datblygu *Power Business Intelligence (BI) Dashboard* yn ein galluogi i reoli'n well a dadansoddi achosion o fewn pob dyletswydd. Mae effaith rhoi ein ffordd newydd o weithio ar waith yn ystod y flwyddyn yn dangos gwelliant o berfformiad Chwarter 1 o 43.16% i 52.73% yn chwarter olaf y flwyddyn, gan roi canlyniad blynyddol cronus o 50.5%. Mae'r camau rydym wedi eu cymryd yn cynnwys:
 - Adolygu ein gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf a datblygu Hwb Tai i ddarparu cymorth a chynghor ar gyfer atal digartrefedd yn gynnar.
 - Dadansoddi pwy sy'n cyflwyno i ni, o ble a pham, er mwyn nodi pa gefnogaeth sydd angen i ni ei ddarparu a pha hyfforddiant sydd ei angen ar staff er mwyn bod yn gymwys ac yn gysurus o ran ymateb i bobl ac achosion heriol.
 - Adolygu ein harferion er mwyn sicrhau bod adnoddau yn y lle cywir i ymateb i'r gwaith achos cynyddol.
 - Adolygu sut rydym yn defnyddio'r polisi dyraniadau a deddfwriaeth presennol i helpu i atal digartrefedd mor gyflym ag y gallwn, gan edrych at Gynghorau eraill am arfer gorau.
 - Datblygu ymhellach ac awtomeiddio'r *Power Business Intelligence Dashboard* i alluogi arweinwyr tîm i fonitro perfformiad yn rheolaidd.
 - Parhau i fonitro a sicrhau bod staff yn defnyddio'r ddyletswydd briodol ar gyfer atal.

Bwlch yng nghanlyniadau arholiadau disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn eu derbyn

- ⊙ Mae'r bwlch rhwng canlyniadau arholiadau disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt wedi gostwng 1.8 pwynt canran ond hwn yw'r 7fed bwlch lleiaf yng Nghymru o hyd.
Y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y mesur hwn yw 2019/20 (Blwyddyn Academaidd 2018/2019)
- ⊙ Yn y pum mlynedd diwethaf mae cynnydd nodedig wedi bod yn y niferoedd yn Sir Gaerfyrddin sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o 16% ym mlynnyddoedd academaidd 2016/17 i 20% ym mlynnyddoedd academaidd 2020/21. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o 3% rhwng 2019/20 a 2020/21. Mae hyn 1% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer De-orllewin a Chanolbarth Cymru ac 1% yn is na chyfartaledd Cymru.

Byw mewn amddifadedd materol

- ⊙ Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22, roedd **12%** o'r aelwydydd a gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin yn rhai oedd yn **byw mewn amddifadedd materol***, ac mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 11.3% ac yn gynnydd ar y canlyniad blaenorol sef 11.3%.

**Mae amddifadedd materol yn cyfeirio at anallu unigolion neu aelwydydd i fforddio'r nwyddau a'r gweithgareddau hynny sy'n nodweddiadol mewn cymdeithas ar bwynt penodol mewn amser, beth bynnag yw dewisiadau pobl mewn perthynas â'r eitemau hyn.*

- ⊙ Nodir bod pump o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Sir Gaerfyrddin yn y 10% uchaf yng Nghymru o ran amddifadwch, ac yn uchel eu safle hefyd o ran nifer o ffactorau eraill sy'n perthyn agosaf at dlodi, sef incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg a thai. Yr ardaloedd hyn yw; Tyisha 2, Glan-y-môr 4, Bigyn 4, Tyisha 3, Llwynhendy 3.
- ⊙ Ers 2011 mae nifer yr ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u cynnwys yn y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi cynyddu 25% sy'n ategu ymhellach y cyfraddau tlodi cynyddol sy'n amlwg yn y sir.
- ⊙ Mae modd gweld dadansoddiad manylach o ddata WIMD 2019 ar gyfer Sir Gaerfyrddin [yma](#).

Adolygiad o'n hymagwedd at Drechu Tlodi

- ⊙ Mae'r gwaith ar ddatblygu *cynllun trechu tlodi* y Cyngor wedi symud ymlaen ac mae nifer o sesiynau traws-wasanaeth wedi'u cynnal i wella aliniad a dealltwriaeth o wasanaethau cymorth y mae'r Cyngor yn eu darparu ar hyn o bryd. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddealltwriaeth a chydweithio ar draws gwasanaethau ac adnabod meysydd ar gyfer datblygiad pellach o ran ymateb cyfannol gan y Cyngor tra'n gweithio gydag ystod o bartneriaid allanol hefyd.
- ⊙ Bydd hon yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor wrth symud ymlaen gyda datblygiad rhagor o weithio traws-wasanaeth er mwyn symleiddio mynediad at wasanaethau cymorth a thargeddu ymyriadau ac ymgyrchoedd penodol yn seiliedig ar yr angen a nodwyd yn y sir.

Atal Tlodi

- ⊙ Rydym wedi parhau i ddatblygu a darparu gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar (0-25 oed) ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd dan anfantais. Mae prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn darparu ystod eang o gefnogaeth i deuluoedd/pobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysgolion, swyddfeydd/yn y gymuned, a chartrefi teuluoedd yn ogystal â pharhau i ddarparu cymorth yn rhithiol:
 - 6792 o unigolion wedi'u cefnogi gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ac o'u plith roedd 4876 (72%) yn unigolion newydd.
 - 3569 o deuluoedd wedi'u cefnogi gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ac o'u plith roedd 2683 (75%) ohonynt yn deuluoedd newydd (o ganlyniad i weithio gyda phobl ar sail un i un.)
- ⊙ Yn ystod y flwyddyn rydym wedi treialu datblygu model Ymgynghorydd Hwb sy'n gweithio drwy Wasanaeth Cwsmeriaid a Chanolfannau Cyswllt y Cyngor. Byddwn yn gobeithio datblygu a gwella'r ddarpariaeth hon ymhellach wrth i ni anelu at weithio tuag at ddarparu gwasanaeth cymorth cyfannol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Mae'r Hwb yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli yn cynnig apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw a chynghor galw heibio i 8,000 o breswylwyr y mis ar gyfartaledd, yn ogystal â rhoi cynghor a mynediad i gymorth hyfforddiant a chyflogaeth. Ar gyfer trechu tlodi, ers mis Mai 2021 pan gafodd y staff eu penodi, rydym wedi helpu a chynghori mwy na 528 o achosion.
- ⊙ `Mae gwefan y Cyngor wedi ei diweddarau i ddarparu amrywiaeth o wybodaeth a chynghor i drigolion fel rhan o ymgyrch genedlaethol [Hawlio beth sy'n ddyledus i chi](#). Nod y cynnwys yw ei gwneud hi'n haws i drigolion wybod pa gymorth sydd ar gael, gydag opsiwn i hunan-gyfeirio i gael cynghor pellach. Bydd hyn yn rhan o ymgyrchoedd yn y dyfodol i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a'r cynghor sydd ar gael.



Cyhoeddodd yr Ombwdsmon ei ymchwiliad cyntaf erioed o'i ben a'i bastwn ei hun i brosesau adolygu digartrefedd yng Nghymru [Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol](#). Ni oedd un o'r tri chynghor yn yr adroddiad sampl. Bu i'r adolygiad nodi bod rhai pryderon ac enghreifftiau o arferion da.

- ⊙ Mae ymateb cynllun gweithredu i argymhellion yr Ombwdsmon ar gyfer gwella wedi cael ei baratoi a bydd yn cael ei weithredu fel rhan o ddatblygiad pellach o fewn y gwasanaeth.
- ⊙ Mae'r '*Hwb Tai*' Blaen Tŷ wedi cael ei weithredu ac mae blaenoriaethau newydd wedi'u nodi o ran Atal Digartrefedd fel rhan o Strategaeth y Rhaglen Cefnogi Tai sy'n disodli'r Strategaeth Ddigartrefedd.
- ⊙ Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i warantu tâl cyfwerth â'r 'cyflog byw gwirioneddol' ac mae ein gweithwyr sydd ar y cyflog isaf yn parhau i dderbyn tâl cyfwerth â'r Cyflog Byw Gwirioneddol sef £9.90 yr awr ar hyn o bryd. Rydym wedi cyflawni hyn drwy dâl atodol y Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae hyn yn golygu bod pob gweithiwr, pa un a ydynt dros yr oedran statudol o 25 oed ai peidio, yn cael ei dalu ar y gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol gwirfoddol o leiaf. Rydym hefyd yn talu taliadau atodol am weithio ar y penwythnos (8%) a gweithio yn ystod y tymor yn unig (4%) sy'n cynyddu cyflog gweithwyr sy'n derbyn y cyflogau isaf yn bennaf. Golyga hyn, gyda'r taliadau atodol uchod, fod llawer o'n swyddi sydd ar raddau is bellach ac iddynt gyfanswm cydnabyddiaeth ariannol sy'n uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol o £9.90 yr awr.

Helpu Pobl i gael Gwaith

- ⊙ Mae nifer yr oedolion sy'n cael cymorth drwy Raglenni Cymorth am Waith yn ystod 2021/22 yn ôl i'r ffigyrau cyn COVID, ac mae dros 1,000 o oedolion yn derbyn naill ai cymorth cyflogadwydd neu gynhwysiant digidol. Roedd pob un (100%) o'r oedolion sy'n cymryd rhan yn teimlo'n fwy cadarnhaol a hyderus ynghylch chwilio am waith neu'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur ac wedi ennill sgiliau TG.
- ⊙ Cyflawnwyd 271 o gymwysterau achrededig gan drigolion oedd yn mynychu cyrsiau cysylltiedig â Chyflogaeth yn y rhaglenni Cymunedau am Waith yn ystod 2021/22.

Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi

CYMORTH CYN-DENANTIAETH

- ⊙ Ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2021/2022, rydym wedi **cefnogi 438 o denantiaid newydd** (gan helpu gydag **arbedion â chymorth o £200k+**). Mae hyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol oherwydd y cyfyngiadau Covid oedd mewn grym ar gyfer 2020/21.
 - Helpodd Staff y Tîm Cyn-Denantiaeth i fwyhau incwm a chwblhau sawl cais am fudd-dal gwahanol a effeithiodd yn ariannol ar y tenantiaid.
 - Rydym yn bartneriaid dibynadwy i wneud cais am grantiau ar gyfer nwyddau gwyn, tanwydd oddi ar y grid, a Thaliadau Cymorth mewn Argyfwng.
 - Rydym yn rhoi talebau Banc Bwyd ac yn gwneud atgyfeiriadau yn ôl y galw ar gyfer achosion mwy cymhleth.
- ⊙ Mae cymorth cyn-denantiaeth wedi'i ymestyn i'r Sector Rhentu Preifat (PRS) ac rydym hefyd wedi cefnogi 103 o denantiaethau newydd yn y Sector Rhentu Preifat, drwy gyllid y Grant Cymorth Tai. Mae ein Swyddog Cyn-denantiaeth ar gyfer y Sector Rhentu Preifat bellach yn gweithio yn y 3 prif swyddfa Canolfan Waith, gan gymryd atgyfeiriadau ar gyfer unrhyw un sy'n gwneud cais am Gredyd Cynhwysol ac sydd â chostau tai yn y Sector Rhentu Preifat.
- ⊙ Rydym hefyd yn y broses o ail-ddechrau ein cyrsiau hyfforddi Cyn-denantiaeth nawr bod cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu llacio. Yn ogystal â hyn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â thimau eraill megis hyfforddiant Cyn-denantiaeth ar gyfer gofawyr maeth a'u lleoliadau.

HELPU TEULUEDD I HAWLIO'R HOLL GYMORTH ARIANNOL MAE GANDDYNT HAWL I'W DDERBYN

- ⊙ Ers mis Tachwedd 2021 rydym wedi gweinyddu'r cynllun cymorth tanwydd gaeaf ac wedi prosesu 9,480 o achosion ac wedi talu £3,409,200.
- ⊙ Rydym wedi talu £397,584 o daliadau tai dewisol a hyd at ganol mis Mawrth wedi derbyn 10,754 o geisiadau am daliadau cymorth hunan-ynysu ac wedi talu dros £4 miliwn.
- ⊙ Rydym yn prosesu'r taliadau costau byw i tua 63,000 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin, sydd werth tua £9.5 miliwn, i gefnogi trigolion Sir Gâr yn ystod y cyfnod heriol hwn.
- ⊙ Tra'n prosesu hawliadau a delio ag ymholiadau cwsmeriaid, mae staff budd-dal tai yn aml yn gallu gweld a oes angen cyfeirio pobl i gael cyngor mwy manwl am fudd-daliadau, cyllidebu personol neu gyngor am ddyled. Byddant yn cyfeirio unigolion i gael cefnogaeth neu grantiau a budd-daliadau.
- ⊙ Rydym wedi sefydlu Tîm Trawsnewid Tyisha i arwain ar weithgaredd penodol i gefnogi datblygiad cymunedol a ffisegol yn Tyisha, sef y Ward mwyaf difreintiedig yn y Sir.
 - Bydd prif gynllun uchelgeisiol i drawsnewid yr ardal yn darparu datblygiadau tai defnydd cymysg newydd, datblygu mwy o gyfleusterau cymunedol, a defnyddio safleoedd busnes gwag unwaith eto; gwella'r amgylchedd a mynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; a darparu cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
 - Mae pedair fflat wedi eu dymchwel er mwyn clirio safle i'w ddatblygu; mae mynegiannau o ddiddordeb wedi'u cyflwyno gan ddarpar bartneriaid datblygu, ac mae astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei pharatoi ar hwb cymunedol posib.



Mae Archwilio Cymru yn cynnal Adolygiad Cenedlaethol ar hyn o bryd ynghylch 'Ydy awdurdodau lleol yn gwneud popeth yn eu gallu i helpu i fynd i'r afael â thlodi a'i liniaru?'. Disgwylid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022. Byddwn yn cloriannu'r canfyddiadau ac yn sicrhau ein bod ni'n cynnwys unrhyw argymhelliad perthnasol yn ein cynllun trechu tlodi.

Cymorth Cyn-denantiaeth i JG

- Cafodd JG ei gyflwyno i ni ym Mawrth 2021. Roedd wedi cael ei gicio mas gan ei deulu oherwydd ei ymddygiad gwrthgymdeithasol ac nid oedd ei deulu'n teimlo bellach eu bod yn gallu ymdopi. Wedi hynny, rhoddwyd JG yng ngofal yr awdurdod lleol, ac ar adeg yr atgyfeiriad nid oedd mewn Addysg na Hyfforddiant, felly roedd yn cael ei ystyried yn NEET.
- O fewn tri mis i gyflwyno'i hun yn ddigartref, roedd JG wedi cael ei gyfeirio at Gyn-denantiaeth gyda'r bwriad o gael ei roi mewn tŷ hyfforddiant. Bu i'r swyddog Cyn-denantiaeth wrando ar ddymuniad JG i beidio â chwblhau'r cwrs fel rhan o grŵp mwy oherwydd ei orbryder ac fe wnaeth JG ei gwblhau ar sail un i un.
- Cyn dyrannu lle i JG yn y fflat hyfforddiant, fe wnaethom gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y preswlydd presennol yn cwrdd â JG cyn symud i mewn. Yna daeth JG yn breswlydd yn yr eiddo ym mis Awst 2021. Yn ystod ei amser yn yr eiddo, cwblhaodd JG sawl model o hyfforddiant gyda'i Weithiwr Cymorth Ieuenctid. Nod yr hyfforddiant hwn yw darparu'r sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen i gynnal tenantiaeth lwyddiannus.
- O ganlyniad i ymyrraeth gynnar a thrwy ddarparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn, mae JG bellach nid yn unig wedi sicrhau cyflogaeth ond ar hyn o bryd yn llwyddo i gynnal tenantiaeth tu allan i'r sir. Yn ogystal â llwyddiant ar lefel tai, bellach mae ganddo bartner hirdymor a chefnogol.
- Mae'r hyfforddiant a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a'r gefnogaeth gan y Swyddogion Tai wedi caniatáu i JG ffynnu a datblygu i fod yn ddyn ifanc anhygoel sy'n gweithio ac yn byw'n annibynnol.

Help gan Ymgynghorydd Hwb i Mrs H

- Galwodd Mrs H yn yr Hwb gan ei bod wedi derbyn gwŷs ar gyfer ei threth gyngor, ac wrth siarad â hi, roeddwn i'n gallu gweld bod trafferthion ariannol eraill ganddi, ac fe wnes gynnig fy ngwasanaeth fel Ymgynghorydd Hwb ac fe gytunodd.
- Roedd hi'n rhiant sengl i 3 ac yn berchennog tŷ. Ei hunig incwm oedd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Anafiadau Diwydiannol, Taliad Annibyniaeth Personol (cyfradd is) a budd-dal plant, ac roedd yn cael trafferth talu biliau o ddydd i ddydd a thalu am ginio ysgol. Roedd wedi gwneud cais am Brydau Ysgol am ddim ond roedd hwnnw wedi'i wrthod.
- Fe wnaethon ni helpu drwy -
 1. Rhoi ffurflen Gostyngiadau'r Dreth Gyngor iddi a dweud wrthi am wneud cais am i'r gostyngiad gael ei ôl-ddyddio
 2. Gwirio'r dreth gyngor a gweld nad oedd yn cael gostyngiad person sengl; roedd ei gŵr wedi gadael 2 flynedd ynghynt a rhoddwyd ffurflen gostyngiad person sengl iddi
 3. Ei chynghori i wneud cais am Gredyd Cynhwysol
 4. Ei chynghori i apelio yn erbyn y Taliad Annibyniaeth Personol a gwneud cais am gyfradd uwch
 5. Ei chynghori i wneud cais am fathodyn glas oherwydd cyflwr iechyd
 6. Ffonio Prydau Ysgol am ddim a wnaeth ddweud y dylai wneud cais eto pe bai Credyd Cynhwysol yn ei ddyfarnu

Canlyniad

1. Gostyngiad y Dreth Gyngor yn cael ei roi ac wedi'i ôl-ddyddio 3 mis
2. Gostyngiad Person Sengl yn cael ei roi ac wedi'i ôl-ddyddio – ad-dalwyd £1200
3. Dyfarnwyd Credyd Cynhwysol
4. Dyfarnwyd cyfradd uwch y Taliad Annibyniaeth Personol
5. Dyfarnwyd bathodyn glas
6. Dyfarnwyd Prydau Ysgol am ddim

Roedd Mrs H ar ben ei digon ynghylch yr help a'r gefnogaeth a gafodd gan yr Hwb a dywedodd ei bod erbyn hyn tua **£800 y mis yn well ei byd** ac nad oedd yn straffaglu.

Trefniadau Llywodraethu

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi, mae gennym weithgor o swyddogion traws-adrannol a Phanel Cyngori o aelodau etholedig.

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun gweithredu i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad / Targed	Perchennog / Swyddog Cyfrifol
A	Adolygu ein hymagwedd at drechu tlodi		
1	Byddwn yn gweithredu ac yn diweddarau'r Cynllun Trechu Tlodi er mwyn ymateb i'r heriau presennol y mae trigolion a chymunedau yn eu hwynebu.	Mehefin 2022	Gwyneth Ayers
B	Atal Tlodi		
1	Adolygu digartrefedd a gwasanaethau llety dros dro	Medi 2022	Jonathan Morgan
2	Gwella % yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref (gwaelodlin 50.5% yn 2021/22)	60%	Angela Bowen
3	Datblygu Hwb Caerfyrddin i gynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda phrosiectau cyflogadwyedd ac asiantaethau eraill.	30/06/2023	Eifion Davies
4	Datblygu a hyrwyddo'r fenter <i>Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi</i> er mwyn cefnogi menter trechu tlodi'r Cyngor, sy'n ymateb i'r heriau presennol sy'n wynebu trigolion a chymunedau.	31/03/2023	Deina Hockenhull
C	Helpu pobl i gael gwaith - Hefyd gweler Amcan Llesiant 5		
1	% yr oedolion sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus ynghylch ceisio gwaith ar ôl cael cymorth cyflogadwyedd drwy Raglenni Gweithffyrdd, Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy (<i>EconD/020</i>) - Targed 2021/22: 100	100%	A. Wakefield /S. Williams
2	% y trigolion sy'n teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur ac yn ennill sgiliau TG ar ôl derbyn cymorth cynhwysiant digidol drwy raglenni Gweithffyrdd, Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy (<i>EconD/021</i>) - Targed 2021/22: 100	100%	A. Wakefield /S. Williams
3	Nifer y cymwysterau achrededig a gyflawnir gan drigolion sy'n mynychu cyrsiau cysylltiedig â Chyflogaeth yn rhaglenni Gweithffyrdd, Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy (<i>EconD/022</i>) - Targed 2021/22: 200	200	A. Wakefield /S. Williams
D	Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi		
1	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ystod o wasanaethau cefnogi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a thyfu trydydd sector yn y Sir	Mawrth 2023	Helen Morgan
2	Byddwn yn parhau i dynnu i lawr cymaint â phosibl o gyllid o ffynonellau allanol drwy'r rhaglenni cyllido newydd ac i gefnogi/sicrhau gweithrediad hynny, e.e. y dyfarniad o £2.9m gan Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU.	Mawrth 2023	Helen Morgan
3	Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull cydgysylltiedig o nodi, cynorthwyo a datblygu gwirfoddolwyr ledled y sir.	Mawrth 2023	Helen Morgan



Cliciwch [yma i gael ein cynnydd manwl ar gyfer ymrwymadau a thargedau](#) o ran yr amcan hwn am 2021/22



Amcan Llesiant 5

Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Yn economaidd, nid yw pethau wedi bod cynddrwg ag yr oeddem yn ei ofni gyntaf, mae ein hymyriadau wedi helpu ond mae heriau'n parhau

Tua dechrau'r pandemig, roedd y wybodaeth a gasglwyd yr adeg honno'n dangos yn glir ein bod yn wynebu cyfnod eithriadol o anodd yn ystod y 24 mis nesaf wrth i effeithiau argyfwng COVID-19 roi pwysau enfawr ar swyddi a galw.

Fel ymateb i'r pandemig ac i Brexit, mewn ymgynghoriad â busnesau, fe wnaethom gyflwyno [Cynllun Adfer Economaidd](#) a nododd ein camau ymyrraeth sy'n flaenoriaeth ar gyfer cefnogi *Busnes, Pobl a Lle* i gryfhau adferiad economi Sir Gaerfyrddin yn dilyn effeithiau cymdeithasol ac economaidd. Gyda'r cymorth hwn yn ei le nawr, mae economi Sir Gaerfyrddin wedi gwella'n gyffredinol o ble roeddem ni a gall ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, yn iachach, a chydychymunedau mwy cynaliadwy.

Fodd bynnag mae rhai heriau'n parhau:

! Gostyngodd y cyfraddau cyflogaeth o 71.7% ym mis Mawrth 2020 i 68.6% ym mis Mawrth 2021, gan olygu bod gennym y drydedd gyfradd gyflogaeth isaf o gymharu â gweddill Cymru *StatsCymru* - mae sawl diwydiant (yn fwyaf arbennig y sectorau lechyd a Gofal Cymdeithasol, Twristiaeth a Lletygarwch a Chludiant) yn wynebu heriau recriwtio difrifol.

! Mae gennym fwlch mawr a pharhaus o hyd o ran cynhyrchiant gyda gweddill y DU *Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru*

! Mae'r galw am ein cronfeydd busnes llawer mwy na'r cyllidebau sydd ar gael i gefnogi'r sector preifat *ERP*

! Mae problemau cadwyn gyflenwi yn bryder difrifol i nifer o sectorau, ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu o ganlyniad i gostau'n cynyddu a mwy o fiwrocratiaeth o ran mewnfario ac allfario yn sgil Brexit *ERP*

! Awgrymodd tystiolaeth nad oedd effeithiau COVID-19 yn cael eu teimlo'n gyfartal gan bawb, gydag effaith anghymesur ar y genhedlaeth iau a'r rheiny o aelwydydd incwm isel (cyflwynwyd cynllun Kickstart ar gyfer cefnogaeth) *ERP*

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- ⊙ Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni.
- ⊙ Mae cynyddu cyflogadwydd yn hanfodol i drechu tlodi a lleihau anghyfartaledd ac yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas.
- ⊙ Mae angen i ni greu economi hynod wybodus a chreadigol trwy fwyhau lleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol, a hynny drwy greu swyddi a darparu prentisiaethau o safon, cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith, er mwyn sicrhau bod y gweithlu bob amser yn gymwys ac yn meddu ar y sgiliau priodol er mwyn wynebu'r dyfodol.



Pa mor dda rydym yn ei wneud (a sut ydym yn gwybod)? Ⓜ Ffynonellau gwybodaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



Y Ffigwr cyflogaeth

yw **69.5%**

(Ebrill 21 – Mawrth 22)

Y gyfradd 3^{edd} isaf yng Nghymru

(71.7% o'r blaen)

Ffynhonnell: Stats Cymru

Yn ôl StatsCymru, ym mis Mawrth 2022 Sir Gaerfyrddin oedd â'r gyfradd drydedd isaf o ran cyflogaeth o gymharu â gweddill Cymru. Mae cyfraddau cyflogaeth wedi gostwng o 68.17% ym mis Mawrth 2021 i 69.5% (y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2022). Roedd y gyfradd hon ymysg yr isaf yng Nghymru ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 73.6%.

**37.7% â****chymwysterau hyd at
NVQ Lefel 4 neu uwch**

@ Rhagfyr 2021

(39.9% o'r blaen ym mis Rhagfyr 2020)

Ffynhonnell: Stats Cymru

I'r rhai sy'n cyrraedd NVQ Lefel 4 neu uwch yn Sir Gaerfyrddin, mae'r ffigyrau wedi gostwng am yr ail flwyddyn yn olynol o 41.4% yn 2019 i 39.9% yn 2020, a 37.7% yn 2021. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 41.6% sy'n parhau i gynyddu. Mae'r nifer sydd heb gymwysterau hefyd wedi cynyddu ychydig yn 2021 i 7.8% o 6.7% yn y flwyddyn flaenorol.

**78.9% yn fodlon****ar eu swyddi**

yn ystod 2019/20

(82.5% o'r blaen)

17^{eg} uchaf yng Nghymru (11^{eg} o'r blaen)

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae bod yn hapus yn y gwaith yn bwysig o ran llesiant a dangosodd y ffigyrau diweddaraf yn Ebrill 2019 fod canran y bobl oedd yn eithaf bodlon neu'n fodlon iawn ar eu swyddi yn 79% - ond roedd hyn dros 3% yn is na'r ffigwr ddwy flynedd ynghynt a'r cyfartaledd Cymreig. Cyfradd Sir Gaerfyrddin yw'r 17^{eg} uchaf yng Nghymru. Gall nifer o ffactorau effeithio ar foddhad rhywun yn y gwaith felly mae'n anodd penderfynu ar yr union reswm mae'r cyfraddau'n gostwng yn y sir.

**Gros Canolrifol****Y Tâl Wythnosol yw****£566.9** (2021)(I lawr o £574.5 yn 2020, o'r 4^{ydd} uchaf yng Nghymru i'r 11^{eg} safle)

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o oriau ac enillion

Mae'r tâl wythnosol gros canolrifol o £566.90 ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn is na ffigwr Cymru o £570.6. Ffigyrau Sir Gaerfyrddin yw'r 11^{eg} uchaf yng Nghymru gyfan, o gymharu â'r 4^{ydd} uchaf yn 2020.

Cynnydd rydym yn ei wneud ar y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Ym mis Ionawr 2022, mabwysiadwyd [Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru](#) gennym yn ffurfiol fel polisi adfywio economaidd cyffredinol y Cyngor, a ddisodlodd Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe (2013). Mae'n adeiladu ar ein cryfderau a'n cyfleoedd penodol i ddatblygu economi fwy ffyniannus a gwydn i Dde-orllewin Cymru (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe). Ynghyd â'n Cynllun Adfer Lleol rydym yn anelu at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a gynhwysir yn y polisi.

Ein Cynllun Adfer Economaidd

Yn dilyn ein hasesiad yn 2020 o'r effaith gafodd COVID-19 ar fusnesau Sir Gaerfyrddin, a'r hyn oedd yn bwysig iddynt yn y tymor byr, canolig a hir, sefydlwyd grŵp busnes, economi ac adfer cymunedol i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a darparu'r camau thematig. Ynghyd â'r grŵp cynghori cyffredinol (a oedd hefyd yn cynnwys arweinwyr diwydiant allweddol yn y sector preifat), mabwysiadwyd [cynllun adfer a chyflawni economaidd](#) yn ffurfiol ym mis Mehefin 2021 ar ôl adolygiad annibynnol.


Yr hyn sy'n allweddol i'r cynllun yw cysylltedd digidol hynod ddibynadwy, camau gweithredu sy'n cefnogi economi sylfaenol y sir ac yn cefnogi pobl leol i ddatblygu sgiliau a thalent mewn meysydd sydd wedi'u targedu er mwyn creu gweithlu lleol cryf a gwydn.

Mae ein heconomi yn cynnwys nifer fawr o fentrau hunangyflogedig a microfentrau ynghyd â chyflogaeth sylweddol o fewn yr [economi sylfaenol](#) (gweithgareddau busnes yr ydym yn eu defnyddio bob dydd ac yn eu gweld o'n cwrdd ym mhob man e.e. diwydiannau manwerthu, gofal a bwyd). Felly mae ein llwybr adfer wedi canolbwyntio ar: Lleoliaeth – cefnogaeth o fewn ein heconomiâu lleol a chynyddu gwariant lleol; a Chystadleugarwch - cynyddu cynhyrchiant a chystadleugarwch.

Gyda'r cynllun cymorth/ymyrraeth, mae economi Sir Gaerfyrddin wedi dechrau adfer cyn gynted â phosib i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag o'r blaen. Nid ydym yn gallu cyflawni popeth, felly mae gweithio ar draws pob adran, gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, sefydliadau allanol, gan gynnwys y sector preifat, yn sicrhau cydlyniant o weithgarwch lle bynnag y bo modd i gefnogi ein Cynllun ar gyfer adfer a thwff.

Canlyniadau ein Cynllun Adfer Economaidd

Yn erbyn ein targedau 2 flynedd



Sylwer: Mae ein Cynllun Adfer Economaidd wedi bod ar waith ers Gorffennaf 2021, felly mae ein cynnydd yn erbyn ein targedau dros gyfnod o 9 mis nid 12. Priodolir ein canlyniadau i'n holl feysydd gwasanaeth ar draws yr Awdurdod sy'n cyfrannu tuag at ein hadferiad economaidd.

Mae'r Cynllun Adfer yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi Busnes, Pobl a Lleoedd:

BUSNES:

Mae yna bron 8,000 o fusnesau yn Sir Gaerfyrddin ac mae dros 90% ohonynt yn ficrofusnesau (h.y. gyda llai na 10 o weithwyr), felly mae angen i ni gefnogi'r busnesau hyn er mwyn cynnal, uwchraddio a thyfu ein heconomi. Mae gennym hefyd dros 10,000 o bobl hunangyflogedig y mae angen cymorth arnynt i oroesi a ffynnu mewn busnes. O ganlyniad, mae'n hollbwysig ein bod yn diogelu ein busnesau presennol, cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn ein sectorau sylfaenol a thwf i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol.


- Drwy gydol y pandemig fe wnaethom ddarparu *dros £66 miliwn o Gronfeydd Adfer Busnes COVID-19* ar ran Llywodraeth Cymru, a oedd yn achubiaeth i fusnesau mewn cyfnod a oedd yn heriol, gan alluogi'r busnesau i ddiogelu swyddi. Cwtogwyd ar y £66 miliwn i:

Grantiau Adfer Busnes	£586k	Grantiau Dewisol	£265k	Grantiau Busnes Ardrethi Annomestig	£65.1m
-----------------------	-------	------------------	-------	-------------------------------------	--------

- Buom hefyd yn cefnogi busnesau i *ddiogelu 717 o swyddi* drwy Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a'r grantiau llifogydd brys (a sefydlwyd mewn ymateb i'r tywydd garw a gafwyd yn y Sir ac a effeithiodd yn uniongyrchol ar fusnesau).
- ! Mae'r galw am ein cronfeydd busnes llawer mwy na'r cyllidebau sydd ar gael i gefnogi'r sector preifat ledled Sir Gâr. Yn dilyn cylch newydd o arian grant busnes gwerth £500K ar gyfer grantiau cychwyn busnes a thwf sy'n cael ei lansio yn Ionawr 2022 bu'n rhaid i ni gau'r cyfle oherwydd bod cymaint o ddiddordeb, ac felly bydd nifer o geisiadau na fydd modd eu hariannu.
- Helpu'r DU i baratoi ar gyfer cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (o rhaglen ariannu yn lle cyllid yr UE), cyhoeddodd Llywodraeth y DU raglen ariannu newydd, sef **Cronfa Adfywio Cymunedol** y DU. Cafodd Sir Gaerfyrddin 12 o'r 13 cais oedd ar restr fer y Gronfa Adfywio Cymunedol ym mis Tachwedd 2021, a ddaeth i gyfanswm o £2.97 miliwn.
- ! I'r gwrthwyneb, bydd y gwasanaethau a ariennir gan yr UE yr ydym yn eu darparu ar hyn o bryd yn dod i ben y flwyddyn nesaf (e.e. Gweithffyrdd+; Cymunedau am Waith, Di-waith Tymor Byr, Cynnydd, LEADER ac ati), ond rydym wedi derbyn bron i £37m trwy gyllid olyniaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer gweithgareddau hyd at fis Mawrth 2025.
- Drwy ein rhaglenni Moderneiddio Addysg a Thai a Phrifyrdd, dyfarnwyd contractau gennym i fusnesau lleol, gan ddarparu cyfleoedd gwaith medrus yn yr economi leol a swyddi diogelu.
- Cafodd chwe uned ddiwydiannol newydd yng Nglanaman eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2022 fel rhan o fuddsoddiad gwerth £2.5 miliwn. Mae'r hen weithdai gwag wedi cael eu trawsnewid ac yn cael eu defnyddio unwaith eto fel rhan o Gam 2, wedi i arian gael ei neilltuo o'n Rhaglen Gwaith Cyfalaf Pum Mlynedd yn 2017. Mae disgwyl i'r gweithdai dur newydd gynnwys chwe busnes bach gyda 15-20 swydd ychwanegol.
- Caffael Blaengar: Fe wnaethom gymryd camau sylweddol o ran deall meithrin cyfoeth cymunedol drwy wariant lleol i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd tendro i gefnogi busnesau lleol. Lansiwyd arolwg busnes gennym er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o'r gefnogaeth sydd ei hangen ar fusnesau lleol i fod yn 'barod i

dendro' – byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ymgysylltu â busnesau ar sail un i un ac i ddarparu'r cymorth sydd ei angen.

- ! **Cynyddu Costau Cyfalaf:** Mae cynnydd amlwg wedi bod mewn cost darparu cynlluniau adfywio cyfalaf dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cynnydd hwn ar draws y diwydiant a chredir iddo gael ei sbarduno gan nifer o ffactorau gan gynnwys Brexit, COVID-19, ac yn fwy diweddar, y gwrthdaro yn Wcráin. Mae'r cynnydd hwn yn rhoi pwysau ar yr hyn all gael ei gyflawni gyda'r cyllidebau a bennwyd ar gychwyn y prosiect. O'r herwydd, mae'n rhaid newid prosiectau lle bo modd yn wyneb y pwysau hwn.
- ⊙ Talwyd dros 97% o'r 342,000 o anfonebau a dderbyniwyd gan yr Awdurdod o fewn 30 diwrnod, gan gadw ein perfformiad gorau erioed sef llynedd er gwaethaf cynnydd o 15% yn nifer yr anfonebau. Mae talu'n brydlon yn hanfodol i fusnesau, yn enwedig ar adeg pan fo ansicrwydd parhaus.



Twf Economaidd Digidol Bydd y rhaglen Seilwaith Digidol gwerth £55 miliwn o fudd i breswylwyr a busnesau ym mhob rhan o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe, sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Amcangyfrifir y bydd y rhaglen werth £318m i'r economi ranbarthol dros y 15 mlynedd nesaf.

- ⊙ **Rhaglen Seilwaith Digidol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe:** Sefydlwyd Achos Busnes y Rhaglen Ddigidol, y Bwrdd, a'r Llywodraethiant; Sicrhawyd mynediad i arian y Fargaen Ddinesig ar gyfer y Rhaglen Ddigidol ynghyd ag arian ychwanegol gan y sector cyhoeddus ar draws y ranbarth; Sefydlwyd tîm canolog ar gyfer y Rhaglen Ddigidol hefyd
- ⊙ **Ein Rhaglen Adfywio Digidol:** Bu buddsoddiad masnachol sylweddol mewn ffibr Gigabit yn Cross Hands, Llangennech, Porth Tywyn, Llanelli, a Chaerfyrddin, ac mae buddsoddiad Cyflymu Cymru 2 wedi ei sicrhau i gysylltu 3,300 o adeiladau gwledig Sir Gaerfyrddin sydd â'r gwasanaeth gwaethaf.
- ⊙ Rydym wedi hyfforddi a chefnogi mwy na 330 o bobl trwy wella eu sgiliau digidol (un o feysydd allweddol myrraeth a dargedwyd), er mwyn iddynt oll gael gwell rhagolygon cyflogaeth.

POBL:



Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol Sir Gaerfyrddin yw'r Corff Arweiniol ar gyfer y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol. Mae'r Bartneriaeth yn arwain ar gyflwyno Rhaglen Sgiliau a Talentau Rhanbarthol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe dros y 5 mlynedd nesaf. Prif nod y rhaglen yw darparu anghenion sgiliau'r 8 prosiect sy'n rhan o'r Fargaen Ddinesig a chefnogi anghenion sgiliau'r ranbarth.

- ⊙ Mae'r [Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol](#) wedi gweithio gyda chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i fesur a deall effaith pandemig COVID-19 ar yr economi a sgiliau, ac mae'r gwaith hwn wedi arwain at lunio adroddiad sydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.



David TC Davies AS yn cwrdd â myfyrwyr

- ⊙ Lanswyd y Rhaglen Sgiliau a Talentau ar gyfer Rhaglen Bargaen Ddinesig Bae Abertawe'n swyddogol ym mis Mawrth 2022, pan wnaeth Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru - David TC Davies (AS) gyfarfod â myfyrwyr y Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Gŵyr Abertawe i glywed sut y bydd o fudd i bobl ifanc ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

- ☉ Fe gymerom yr awenau ar Warant i Bobl Ifanc y rhanbarth – menter gan Lywodraeth Cymru i helpu pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i gael y sgiliau, profiad a'r gefnogaeth gywir i gael gwaith – gan weithio gyda Gyrfa Cymru, Cymru'n Gweithio, Cymunedau am Waith a rhanddeiliaid eraill i nodi eu hanghenion a darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen.
- ☉ Mae ein tîm cyflogadwyedd penodol wedi gweithio gydag unigolion di-waith yn y tymor byr a'r tymor hir yn Sir Gaerfyrddin i'w helpu i gael cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy.
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cydweithio gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol i gynnal *chwe ffair swyddi* ym mhob un o'r prif drefi, i helpu sectorau sy'n profi heriau recriwtio difrifol.



Cefnogi Pobl mewn ffair swyddi

Y LLEOLIAD:

Sir Gaerfyrddin drefol, arfordirol a gwledig Ledled y canol trefi i gyd, cefnogir busnesau i wneud y defnydd gorau o gyfathrebu digidol i dyfu cyrhaeddiad eu marchnad, trosiant a nifer yr ymwelwyr; anogir datgarboneiddio drwy seilwaith carbon isel sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a datblygiadau cynaliadwy, a chefnogir a hyrwyddir yr iaith a'r diwylliant Cymraeg i ddathlu hunaniaeth Sir Gâr.



Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad cenedlaethol ar [Adfywio Canol Trefi Cymru](#) (Medi 2021) a daeth i'r casgliad bod **canol trefi wrth galon bywyd Cymru** ac yn gallu bod yn lleoedd bywiog a chynaliadwy, ond bod angen penderfyniadau dewr ac arweinyddiaeth uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r heriau niferus sy'n eu hwynebu. Yn y byd digidol hwn, gall buddsoddi mewn seilwaith digidol a sgiliau sylfaenol chwarae rhan hanfodol wrth adfywio'r stryd fawr.

Fe wnaethon ni gydnabod bod ein strategaeth adfer Ailgychwyn, Adfywio, Adnewyddu, a ddatblygwyd mewn ymateb i effaith economaidd COVID-19, yn rhoi crynodeb da o'r heriau 'byw' sy'n wynebu trefi'r sir. Roedd ymateb ein cynllun gweithredu i'r adolygiad a'r newidiadau presennol sy'n digwydd o fewn canol trefi eisoes wedi cael eu cydnabod trwy ein cynlluniau adfer ar gyfer canol ein trefi, sydd wedi cael eu cyflymu gan y pandemig, Brexit a grymoedd eraill y farchnad.

- ☉ Roedd Cynlluniau Adfer ein tair prif dref (Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) wedi'u llunio'n benodol ar gyfer y dref ac yn nodi'r effaith roedd COVID-19 wedi'i chael ar ganol trefi o ran colli gwariant, cynnydd yn nifer y siopau gwag, a gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Wrth ddatblygu'r Cynlluniau, buom yn gweithio'n agos gydag aelodau allweddol o blith rhanddeiliaid y trefi. Roedd y Cynlluniau'n tynnu sylw at faterion a chyfleoedd allweddol ac yn darparu fframwaith o ymyriadau penodol ar gyfer y canol trefi unigol. Rhagwelir taw rhanddeiliaid fydd yn gyfrifol am ddatblygu'r Cynlluniau hyn yn eu trefi eu hunain, a hynny gyda'n cymorth ni i'w helpu i sicrhau cyfleoedd cyllido a cyfrannu at gyllid cyfalaf.
- ☉ Ochr yn ochr â'r tair prif dref, darparwyd gennym raglen fuddsoddi i gefnogi twf ein 10 tref farchnad wledig. Cafodd cynlluniau pwrpasol eu datblygu er budd trefi ac ardaloedd cyfagos Cross Hands, Cwmaman, Cydweli, Talacharn, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf. Cyllidir y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau twf yn rhannol drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.
- ☉ Yn 2021/22 fe gyflwynon ni 2 gais grant o dan raglen Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a llwyddom i gael cyllid ar gyfer Llwybr Dyffryn Tywi (bron i £17 miliwn), a chais cydweithredol ar gyfer Hwb Caerfyrddin (bron i £16 miliwn) a Hwb Penfro (dros £4 miliwn). Bydd prosiect Llwybr Dyffryn Tywi yn darparu llwybr cyd-dddefnyddio parhaus rhwng Llandeilo a Chaerfyrddin.

Hwb Caerfyrddin: Rydym yn symud ymlaen ar garlam gyda chynlluniau i gyflawni'r prosiect £18.5 miliwn (cyllid cyfatebol ychwanegol o £3.5 miliwn o'n rhaglen Gyfalaf) yn hen siop Debenhams. Mae'n cael ei thro'i'n ganolfan Hwb a fydd yn dod ag amrywiaeth o wasanaethau ieuchyd, llesiant, dysgu a diwyllianol at ei gilydd. Cafodd ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid hefyd ei symud i'r Hwb.



Siopau yn siopau sionc 100% Sir Gâr

- Yn dilyn llwyddiant ein platfform ffenestr siop rithwir 100% Sir Gâr, sy'n hyrwyddo dros 300 o fusnesau annibynnol o Sir Gâr, gan dynnu sylw at eu cynnyrch, lansiwyd gennym ym mis Awst 2021 ein menter Siopau Sionc 100% Sir Gâr. Aeth hyn ymlaen am bythefnos yn yr hen Topshop yng Nghaerfyrddin, ac yna am wythnos arall wedyn ym Mharc Gwledig Pen-bre. Cafodd ei ail-lansio ym mis Rhagfyr 2021, gyda Siop Sionc yn Llanelli ac yn yr hen Debenhams, Caerfyrddin - a denu bron 22,500 o ymwelwyr i'r siop, er budd yr economi ehangach yng nghanol y dref. Roedd y rhan fwyaf o fusnesau (83%) wedi gwneud mwy o incwm na'u targedau disgwylidig.

- Mae sefydlu tîm Rheoli Datblygu penodol i ganolbwyntio ar 'Brosiectau Mawr' wedi bod yn allweddol o ran ysgogi blaenoriaethau sy'n darparu swyddi a thwf i gefnogi'r Cynllun Adfer Economaidd. Mae cynnydd parhaus wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r ôl-groniad o Geisiadau Cynllunio a symud Ceisiadau Cynllunio Mawr yn eu blaenau. Ceisiadau nad oes penderfyniad wedi'i wneud yn eu cylch (ceisiadau cynllunio mawr ac eraill sy'n creu swyddi) wedi gostwng o 133 (Gorffennaf 2021) i 42 erbyn diwedd y flwyddyn.



Mae Pentre Awel a ariennir yn rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe yn dwyn ynghyd fusnes, ymchwil, addysg, gofal iechyd cymunedol a chyfleusterau hamdden modern mewn un lleoliad gwych ar hyd arfordir Llanelli. Dyma'r datblygiad cyntaf o'i gwmpas a'i faint yng Nghymru a fydd yn cynnig darpariaeth o'r radd flaenaf ym maes ymchwil meddygol a gofal iechyd gan gefnogi ac annog pobl i fyw bywydau egniol ac iach.

Yn ogystal â gwella iechyd a llesiant, bydd y prosiect yn creu bron 2,000 o swyddi (750 i 950 ym Mharth 1), cyfleoedd hyfforddi/prentisiaethau, a disgwylir iddo roi hwb o £467 miliwn i'r economi leol dros y 15 mlynedd nesaf.

- Gwaith wedi dechrau ar y safle:** Yn ystod 2021, aeth Pentre Awel o'r cam cynllunio strategol i'r cam gweithredu a chyflawni. Mae gwaith clirio a gwaith ymchwilio tir wedi dechrau ar safle Llynnoedd Delta i helpu i ddatblygu gwaith dylunio manwl ac i ganiatáu i'r prif waith adeiladu ddechrau ar Barth Un yn ddiweddarach eleni, gyda'r bwriad i gwblhau'r gwaith erbyn dechrau 2024.

Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu fesul cam ar draws Pedwar Parth ac fe benodwyd Bouygues UK gennym ni i ddylunio ac adeiladu Parth Un, yn dilyn proses dendro helaeth trwy Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De Orllewin Cymru - un o'r mwyaf a gyhoeddwyd erioed gan yr Awdurdod. Mae'r contract yn rhoi ffocws allweddol ar werth cymdeithasol i sicrhau bod pobl leol a busnesau yn elwa ar fanteision y cynllun uchelgeisiol. Dechreuodd y gwaith hefyd ar gaffael ymgynghorwyr ar gyfer dylunio Parth Tri.

Cryfhau'r Economi Sylfaenol / Economi Wledig a Chydnherthu Cymunedol

Mae'r cyd-destun economaidd a pholisi wedi newid yn sylweddol ers 2013 ar lefel Cymru a'r DU, yn enwedig yn sgil penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, effaith y pandemig a newidiadau'n rhanbarthol.

- Mae effaith economaidd pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r angen am fwy o dai fforddiadwy. Wrth i ragor o bobl weithio gartref a cheisio gadael ardaloedd trefol prysur, mae'r galw am gartrefi mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol wedi cynyddu prisiau eiddo, gan ehangu'r bwlch fforddiadwyedd i lawer o bobl leol. O ganlyniad, i gefnogi'r galw hwn fe wnaethom gyhoeddi'r [Cynllun Cyflawni - Adfywio a Datblygu Tai \(Rhagfyr 2021\)](#) a oedd yn nodi ein cynlluniau i helpu i adeiladu dros 2,000 o dai ychwanegol ar draws y Sir yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae hefyd yn cefnogi twf economaidd trwy fuddsoddi dros £300 miliwn yn ein cymunedau ac yn cefnogi'n uniongyrchol y camau gweithredu yn ein Cynllun Adfer Economaidd - gan gefnogi busnesau, pobl a lleoedd.



Mae canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Materion Gwledig a Chynlluniau Twf y Deg Tref yn cefnogi'n glir yr angen am fwy o dai mewn ardaloedd gwledig. Mae'r cynlluniau hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol i helpu pobl iau a phobl oed gweithio i aros yn ein cymunedau gwledig. Trwy helpu pobl leol i aros, rydym yn helpu i ddiogelu diwylliant ein trefi a phentrefi gwledig a gwarchod yr iaith Gymraeg.

Mae gwelliant sylweddol wedi bod o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio a phenderfynu ar brosiectau mawr sydd wedi arwain at greu cannoedd o swyddi llawn a rhan-amser dros y 12 mis diwethaf.

Oes unrhyw un ar ei ennill?



Steven Avery yw perchennog Craizie Crepes a oedd yn arfer masnachu o fan ar Harbwr Porth Tywyn, yn gwerthu crepes, wafflau, ysgytlaeth, diodydd poeth ac oer a llawer mwy. Wrth i'w henw da dyfu, felly hefyd gwnaeth nifer eu cwsmeriaid ac o'r herwydd roeddent eisiau safle newydd, mwy o faint, a mwy parhaol i weithredu ohono.

Er mwyn ceisio cadw eu lleoliad delfrydol yn Harbwr Porth Tywyn, cafodd Steven y brydles ar gyfer yr hen doiledau ac ar ôl derbyn cymeradwyaeth cynllunio, adnewyddwyd yr adeilad. Yn 2019 cafodd y busnes grant o £

10,000 gan Gyngor Sir Gâr, a helpodd y busnes i brynu nifer o eitemau megis oergelloedd, rhewgelloedd, byrddau, cadeiriau, peiriannau crepe ac offer cegin i sicrhau bod y busnes yn gweithredu mor effeithlon â phosib ac i gynnal ansawdd ei gynnyrch.

Ond oherwydd pandemig COVID-19 cafodd eu cynlluniau i agor eu gohirio ond fe wnaethon nhw barhau i fasnachu o'r uned symudol pan oedd cyfyngiadau'r Llywodraeth yn caniatáu. Yn ystod heriau'r pandemig cafodd Steven gefnogaeth gan ein llinell gymorth COVID-19 pryd cynigiwyd cefnogaeth a chymorth i'r busnes, ac o ganlyniad llwyddodd Steven i gael grantiau dewisol Llywodraeth Cymru yn y cyfresi gwahanol o gyllid a gafwyd yn ystod 2020 - 2022.

Ers hynny, mae Craizie Crepes wedi agor y caffi newydd a'r cyfleuster cludfwyd yn ei safle newydd, ac mae'r busnes yn mynd o nerth i nerth ac yn gyfleuster sy'n ategu Harbwr Porth Tywyn fel cyrchfan i ymwelwyr.

Dywedodd Steven 'Mae Craizie Crepes Cafe yn hynod ddiolchgar am y grant a gafwyd. Fe'n galluogodd i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer yr harbwr. Heb y grant byddem wedi ei chael hi'n anodd cwblhau'r prosiect. Fe wnaeth ei galluogi i brynu offer o safon sy'n ein galluogi i wneud y gwaith hyd eithaf ein gallu. Bu i'r Swyddog o'r Cyngor wnaeth ein tywys drwy'r broses wneud gwaith anhygoel. Rydym yn hynod ddiolchgar am yr amser a dreuliodd yn sicrhau bod yr holl waith papur yn gywir a bod yr holl weithdrefnau'n cael eu dilyn yn gywir. Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi dwbl yr hyn roeddem yn ei ddisgwyl. Bellach mae gennym fusnes llewyrchus ar yr harbwr sydd ag enw da am fwyd o safon am brisiau rhesymol, glendid eithriadol a gwasanaeth cwsmeriaid anhygoel. Ar hyn o bryd rydym yn brysurach nag y gallem fod wedi dychmygu ac rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ymestyn yr adeilad i ateb y gofynion. Diolch o waelod calon.'



Llywodraethu

Sefydlwyd grŵp busnes, economi ac adfer cymunedol i gydlyn datblygiad a darparu camau gweithredu wedi'u halinio â'n cynllun adfer a chyflawni economaidd, a sefydlwyd hefyd grŵp cynghori cyffredinol, sy'n cynnwys arweinwyr diwydiant allweddol yn y sector preifat.

Yr Heriau o'n Blaenau: Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod 50 o Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at gyflawni nodau llesiant. Mae'r dangosyddion hyn yn seiliedig ar boblogaeth. Ym mis Rhagfyr 2021, cytunodd Gweinidogion i osod Cerrig Milltir ar gyfer 8 o'r dangosyddion hyn, y mae rhai ohonynt yn berthnasol i'r Amcan Llesiant hwn:

Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	Carreg Filltir Genedlaethol	Canlyniad cyfredol - Cymru	Canlyniad presennol - Sir Gaerfyrddin
Amcan Llesiant 17 - Gwahaniaeth cyflog ar gyfer rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd	Dileu'r bwlch cyflog ar gyfer rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050	<u>2021</u> Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau – £0.72 <u>2018</u> Gwahaniaeth cyflog anabledd - £1.10 Gwahaniaeth cyflog ethnigrwydd - £0.16	<u>2021</u> Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau – £0.96 <i>Nid yw gwahaniaeth cyflog anabledd nac ethnigrwydd ar gael ar hyn o bryd ar lefel ALI</i>
DLIC-21 - Canran y bobl mewn cyflogaeth	Gwaredu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur.	<u>Mawrth 2021</u> Cymru - 72.2% DU - 74.7%	<u>Mawrth 2021</u> Sir Gaerfyrddin - 68.6% DU - 74.7%

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun i gyflawni'r amcan hwn yw popeth rydym yn ei wneud yn ein Cynllun Adfer Economaidd

- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi 3,000 o bobl i gael gwaith, gan ddarparu 2,000 o gartrefi ychwanegol, manteisio i'r eithaf ar fudd cymunedol cynlluniau datblygu a chefnogi busnesau i fanteisio ar grantiau allweddol
- Ar gyfer pob un o'r canol trefi unigol, byddwn yn rheoli goruchwyliaeth y cynlluniau adfer, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb i randdeiliaid y trefi. Mae pob un o'r cynlluniau yn rhoi sylw i brif faterion a chyfleoedd, ac yn darparu fframwaith o ymyriadau penodol ar gyfer y canol trefi.
- Wrth symud ymlaen bydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol yn parhau i weithio gyda Chyflogwyr ar draws y rhanbarth i sicrhau bod y Bartneriaeth yn hysbysu Llywodraeth Cymru pa sgiliau sy'n ofynnol yn y rhanbarth a lle mae angen dyrannu cyllid Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r gofynion sgiliau a nodwyd gan gyflogwyr.



Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl ar gyfer ymrwymadau a thargedau](#) o ran yr amcan hwn am 2021/22.



Amcan Llesiant 6

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Rydym wedi darparu dros 1,400 o dai fforddiadwy ychwanegol

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy. Rydym wedi darparu 1,437 o dai fforddiadwy ychwanegol ers 2016 fel rhan o'r Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy a'r Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- ⊙ Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn hybu iechyd a llesiant, gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- ⊙ Mae tai fforddiadwy o ansawdd da, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, yn dda i'r Bobl a'r Amgylchedd – mae ein tai wedi'u hinswleiddio'n dda ac mae ganddynt y technolegau arloesol diweddaraf (paneli solar a batris i storio ynni) sydd nid yn unig yn lleihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol, ond yn hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy i'n tenantiaid. Gall yr arbedion cyfartalog i filiau tanwydd fod cymaint â 60% y flwyddyn.
- ⊙ Mae'n dda i'r Strwythur Cymdeithasol - mae codi tai fforddiadwy yn y mannau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol, mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- ⊙ Mae'n dda i'r Economi - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad hwylus i'w gweithlu. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eu cymuned.
- ⊙ Mae'n dda i'r Economi – bydd ein cynlluniau i gynyddu tai fforddiadwy yn golygu y bydd buddsoddiad o dros £300m dros y pum mlynedd nesaf yn y sir. Bydd hyn yn helpu i ysgogi'r economi leol, tyfu'r diwydiant adeiladu, y gadwyn gyflenwi leol a'r economi werdd. Bydd hyn hefyd yn creu swyddi i bobl leol yn ogystal â darparu rhagor o dai i helpu pobl leol i aros yn eu cymunedau.



Pa mor dda ydym yn gwneud (a sut ydym yn gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth


Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



308 o Dai Fforddiadwy Ychwanegol yn ystod 2021/22



Perfformiad o ran Tai Fforddiadwy – Perfformiad Cyffredinol o Ebrill 2016
1,437 o Dai Fforddiadwy wedi'u darparu



Cynyddu ar y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

- Trwy ein Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy roeddem wedi bwriadu darparu mwy na 1000 o dai fforddiadwy ychwanegol rhwng 2016 a 2021. Fe wnaethom ragori ar y targed hwn ac rydym yn parhau i ymrwymo i ddarparu tai mwy fforddiadwy drwy ein Cynllun Cyflawni Adfywio a Datblygu Tai newydd. Hyd yn hyn, rydym wedi darparu **1,437** o dai fforddiadwy ychwanegol drwy'r atebion canlynol:

31: Adeiladu Tai Newydd y Cyngor

(31: 21/22)

256: Asiantaeth Gosod Syml

(32: 16/17; 63: 17/18; 61: 18/19; 61: 19/20; 30 20/21; 9: 21/22)

321: Tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto

(28: 16/17; 63: 17/18; 67: 18/19; 64: 19/20; 34 20/21; 65: 21/22)

253: Prynu tai'r sector preifat


(45: 16/17; 69: 17/18; 81: 18/19; 43: 19/20; 7: 20/21; 8: 21/22)

433: Datblygiadau tai newydd Cymdeithasau Tai

(45: 16/17; 20: 17/18; 17: 18/19; 107: 19/20; 51: 20/21, 193: 21/22)

143: Cyfraniad Adran 106 gan Ddatblygwyr

(23: 16/17; 20: 17/18; 21: 18/19; 41: 19/20; 36 20/21; 2: 21/22)



- Ym mis Gorffennaf 2021 gofynnem i'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid allweddol am eu barn a'u blaenoriaethau ar sut y dylem ddarparu mwy o dai fforddiadwy yn y dyfodol. Derbyniwyd dros **2,500 o ymatebion i'r ymgynghoriad** ac mae'r negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad wedi'u crynhoi isod ac wedi llunio ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai pum mlynedd, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022.



Bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar lwyddiant y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy a'i nod yw cefnogi'r gwaith o ddarparu 2,000 o dai ychwanegol ledled y sir. Bydd y cynllun hwn hefyd yn cefnogi twf economaidd trwy fuddsoddi dros £300 miliwn yn ein cymunedau a chefnogi'r camau gweithredu yn ein Cynllun Cyflawni Economaidd yn uniongyrchol, gan gefnogi busnesau, pobl a lleoedd.

Mae ein tai fforddiadwy newydd sy'n effeithlon o ran ynni wedi'u hinswleiddio'n dda; mae ganddynt y technolegau arloesol diweddaraf ac maent yn cefnogi egwyddorion Carbon Sero Net y Cyngor. Byddant yn lleihau ein hallyriadau carbon 70% ar gyfartaledd ac yn lleihau biliau tanwydd i denantiaid hyd at 60% gan hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy, tyfu'r economi werdd a chreu cymunedau cynaliadwy.

- Mae ein 3 datblygiad adeiladu newydd cyntaf wedi eu cwblhau a'u gosod, ac mae'r rhain yn cynnwys: Garreglwyd, Maespiode a Glanamau. Rydym hefyd wedi cwblhau'r 4 o dai cyntaf ar Ddatblygiad Dylan. Mae'r datblygiadau hyn wedi darparu 31 o dai fforddiadwy newydd i bobl leol. Mae 24 safle arall lle mae gwaith yn cael ei wneud ar y safle, gwaith yn cael ei baratoi ar gyfer cynllunio, neu'n cael ei dendro. Mae hyn yn cynnwys 6 safle mewn ardaloedd gwledig a gaiff eu datblygu ar sail deiliadaeth gymysg ac a fydd yn darparu tai ar gyfer perchentyaeth cost isel.
- Rydym yn gwneud y mwyaf o'r holl gyfleoedd ariannu allanol sy'n ein helpu i ddarparu mwy o dai yn ein cymunedau gan gynnwys y Grant Tai Cymdeithasol, y Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Rhyddhau Tir a'r

Gronfa Tir ar gyfer Adeiladau. Yn 2022 sicrhawyd dros £19m o gyllid allanol gennym i gefnogi ein rhaglenni datblygu.

- ⦿ Mae gennym broses lywodraethu gadarn ar waith i sicrhau ein bod yn darparu cynifer ag sy'n bosib o dai fforddiadwy ledled y sir. Mae hyn yn cynnwys nifer o weithgorau ac is-weithgorau sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Strategol Tai ac Adfywio, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Cyngor.

Cefnogi darparu dros 2,000 o dai fforddiadwy yn ein cymunedau



Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun gweithredu i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Cam....		
1	Cyflwyno blwyddyn gyntaf y rhaglen bum mlynedd ar gyfer adfywio tai a datblygu (151332)	Mawrth 2023	Rachel Davies



Cliciwch [yma i gael ein hymrwymiaidau cynnydd manwl a'n targedau](#) o ran yr amcan hwn.



Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach
(mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

Gwnaed cynnydd rhagorol o ran gwella ein cynnig iechyd a llesiant i drigolion Sir Gaerfyrddin trwy ddatblygu cyfleoedd i ymgysylltu ar-lein wrth residents of Carmarthenshire by developing opportunities to engage online whilst fuddsoddi yn ein seilwaith ffisegol i annog a chefnogi pobl i

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- ⊙ Mae ein ffordd o fyw yn newid, mae pobl yn byw'n hwy ac mae eu hansawdd bywyd yn well.
- ⊙ Yr her yw atal salwch.
- ⊙ Mae byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.
- ⊙ Mae llawer o'r gwasanaethau ataliol a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant y tu allan i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
- ⊙ Mae salwch meddwl yn rhywbeth bydd un o bob pedwar oedolyn yn ei brofi yn ystod eu hoes.
- ⊙ Chwarae rhan yn darparu gwasanaethau hygyrch, cynhwysol, cyffrous a chynaliadwy sy'n hyrwyddo a hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden.



Pa mor dda ydym yn gwneud (a sut ydym yn gwybod)? ① Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



68.6% o

oedolion yn dweud bod eu hiechyd

cyffredinol yn Dda neu'n

Dda lawn (2021/22)

69.7% o'r blaen (2020/21)

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru



40.1% o

oedolion yn dweud bod

ganddynt salwch

hirdymor (2021/22)

51.2% o'r blaen (2020/21)

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru



Iechyd Meddwl
Oedolion sgôr o

48.8

(Allan o uchafswm o 70 Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh)

51.1 o'r blaen

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

92.4%

o oedolion â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd o fyw iach (2021/22)

87.6% o'r blaen

(2018/19 a 2019/20)

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru



Mae'r [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) canlynol yn dangos bod:

Iechyd Cyffredinol yn Dda neu'n Dda lawn

- ⊙ Dywedodd 68.6% o'r bobl gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin fod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda lawn, ac mae hyn wedi gostwng ychydig o 69.7% yn y flwyddyn flaenorol, ond rydym wedi aros yn y 18fed safle yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel Iechyd Cyhoeddus drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i hyrwyddo amgylchedd iach i drigolion Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys ymarfer corff, maeth ac aer glanach.

Salwch hirdymor

- ⊙ Dywedodd 40.1% o gyfranogwyr Sir Gaerfyrddin fod ganddyn nhw salwch, anabledd neu eiddilwch hirdymor, sydd wedi gostwng yn sylweddol ers canlyniadau'r arolwg blaenorol o oddeutu 50%. Mae'r cyfartaledd yng Nghymru hefyd wedi gostwng o 45.7% i 33.4%, ond rydym wedi symud o safle 17 i 20 yng Nghymru. Y gorau po leiaf sydd â salwch neu anabledd neu eiddilwch tymor hirdymor.

Iechyd Meddwl Oedolion

- ⦿ Mae ein hiechyd meddwl yn effeithio ar y ffordd yr ydym ni'n meddwl, yn teimlo ac yn gweithredu. Mae gofalu am ein hiechyd meddwl cyn bwysiced â'n hiechyd corfforol, mae pobl yn dod i ddeall mwyfwy drwy'r amser am y cysylltiad rhwng y ddau ffactor. Gall llesiant seicolegol ac emosiynol gwael fod yn rhwystr i gyfranogi'n llawn i gymdeithas. Gall pethau fel diffyg hyder, gorbryder, blinder llethol a stigma gyfyngu ar allu unigolyn i ryngweithio ag eraill neu ddod o hyd i waith er enghraifft.

Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei gasglu gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ac yn cael ei ddadansoddi yn ôl [Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh](#). Mae'n dangos bod Llesiant Meddwl yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng o sgôr o 51.1 (allan o sgôr posib o 60) yn 2018/19 i sgôr o 48.8 yn 2021/22. Mae'r dirywiad yn unol â gweddill y wlad ac yn gyson â chyfartaledd Cymru, sef 48.9.

Datblygwyd graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh i alluogi monitro llesiant meddwl ymysg y boblogaeth gyffredinol ac i werthuso prosiectau, rhaglenni a pholisïau sy'n anelu at wella llesiant meddwl. Mae'n seiliedig ar ddatganiadau am deimladau a meddyliau, lle byddai unigolion yn nodi beth sy'n disgrifio orau eu profiad o bob un dros y 2 wythnos ddiwethaf. Mae rhai o'r datganiadau'n cynnwys: *Rwyf wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol*; *Rwyf wedi bod ag egni i'w sbario*; *Rwyf wedi bod yn meddwl yn glir*; *Rwyf wedi teimlo fy mod yn cael fy ngharu*.

Dau neu fwy o ymddygiadau ffordd o fyw iach

- ⦿ Yn seiliedig ar gwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22, gofynnwyd i'r cyfranogwyr os oes ganddynt **ddau neu fwy o** ymddygiadau ffordd o fyw iach sy'n cynnwys:

- dim yn ysmegu
- dim yfed mwy na'r canllawiau wythnosol
- bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysïau y diwrnod cynt
- bod yn egnïol yn gorfforol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol
- cadw pwysau/mynegai màs y corff iach

Mae dewisiadau ffordd o fyw yn effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant yn y dyfodol. Mae trigolion Sir Gaerfyrddin yn cymharu'n dda â gweddill Cymru mewn rhai meysydd fel gweithgarwch corfforol, peidio ag yfed gormod a bwyta'n iach, fodd bynnag, mae nifer o ddewisiadau ffordd o fyw lle rydym yn cymharu'n wael fel bod dros bwysau neu'n ordew ac ysmegu. Mae gan 92.4% o'r cyfranogwyr yn Sir Gâr o leiaf ddwy ffordd iach o fyw, ac mae hyn wedi cynyddu ychydig ers y canlyniad blaenorol (87.6%). Rydym yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru sef 92.9%, ond rydym wedi codi o'r 18fed safle gorau i'r 13eg gorau yng Nghymru.

Cynnydd ar y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Yn bwyta ac yn anadlu'n iach

- ⦿ Mae Cynllun Cyflawni Ansawdd Aer wedi'i ddatblygu a'i fabwysiadu gan y Grŵp Llywio Gweithredu Ansawdd Aer. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddatgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer os nad yw'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn debygol o gael eu bodloni. Mae tair ardal o'r fath ar waith yn Sir Gaerfyrddin

Enw'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer	Llygryddion
Ffynhonnell: Defra, UK	
Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo	Nitrogen Deuocsid
Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli	Nitrogen Deuocsid
Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin	Nitrogen Deuocsid

- ⦿ Mae buddsoddiad ym Mharc Gwledig Pen-bre yn cynnwys maes chwarae newydd, ehangu'r trac pwmpio beicio, unedau arlwyio symudol newydd, podiau glampio, a gwelliannau i lwybrau a mannau bwyta yn ein safle gwrsylla a charafannau.

- ⊙ Mae Parc Coetir y Mynydd Mawr hefyd wedi sicrhau bron i £86k o fuddsoddiad cyllid allanol yn ddiweddar i wella llwybrau cerdded a bioamrywiaeth ar y safle hwnnw.
- ⊙ Rydym ni wedi buddsoddi dros £200k o gyllid mewnol ac allanol ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain, gan gynnwys ardal chwarae newydd i blant bach, gwell teithiau cerdded, a byrddau gwybodaeth.



Gweithgaredd Corfforol

- ⊙ Llwyddom i gynnal ras feicio broffesiynol Taith Prydain y Dynion 2021 ym mis Medi 2021, fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ddatblygu digwyddiadau a gweithgareddau chwaraeon ledled y sir i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i fyw bywydau iach ac egniol.
- ⊙ Mae prif gynllun Canolfan Hamdden Llanymddyfri wedi'i gwblhau ac mae ystafelloedd ffitrwydd ac aml-bwrpas newydd wedi'u creu i ategu'r pwll 20 metr presennol. Hefyd mae cyrtiau aml-ddefnydd yn cael eu cynnwys yng nghynnig y gymuned, gan weithio'n agos gydag Ysgol Gynradd Rhys Pritchard.
- ⊙ Rydym wedi sicrhau £2 filiwn o gyllid mewnol ac allanol, £1.7 miliwn o gyllid cyfalaf CSC /£300k o arian grant allanol i ddatblygu cam nesaf prif gynllun safle Canolfan Hamdden Dyffryn Aman. Bydd hyn yn darparu cae pob tywydd 3G artiffisial maint llawn hollol fodern dan lifoleuadau at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned, a chyfleusterau athletau gwell ar gyfer yr ysgol, y cyhoedd a defnyddwyr clwb.
- ⊙ Mae'r gwaith yn parhau ar ddatblygu ein platfform ar-lein Actif Unrhyw Le i ffrydio dosbarthiadau a gweithgareddau i gartrefi pobl; neuaddau cymunedol; cartrefi gofal; meddygfeydd; cymorth ffisio ysbyty (gan gysylltu â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Clefion i Wneud Ymarfer Corff); ac ysgolion (cynllun peilot o 18 o ysgolion wedi'u cwblhau gyda photensial i gyflwyno hyn ledled Cymru fel tâl am wasanaeth allgyrsiol, a'n pwynt gwerthu unigryw fydd darpariaeth ddwyieithog).
- ⊙ Rydym wedi penodi prif gontractwr i ddatblygu'r Ganolfan Hamdden newydd yn Llanelli fel rhan o ddatblygiad Pentre Awel.

Iechyd Meddwl

- ⊙ Mae Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin wedi cyflwyno gwasanaethau "Maker" digidol, technolegol a chreadigol newydd mewn mannau allweddol yn y Llyfrgell, lle anogir defnyddwyr a chymunedau i gymryd rhan mewn byd cynyddol ddigidol. Fel rhan o'n cynnig craidd llyfrgelloedd, mae gwasanaethau 'maker' yn hyrwyddo dysgu ymarferol, creadigrwydd a chydweithio, lle gall pobl o bob cefndir a gallu ddod at ei gilydd i rannu syniadau ac offer sy'n ysbrydoli hyder ac yn helpu defnyddwyr i ennill sgiliau newydd, gan greu ac ysgogi uchelgeisiau unigol ac annog dysgu am oes.
- ⊙ Mae'r Cyngor wedi buddsoddi adnoddau twf sylweddol i fynd i'r afael â hyn a fydd yn cael ei ddefnyddio i recriwtio mwy o staff gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar ddau faes penodol: ymyrraeth ac atal cynnar, ac ymateb mwy cadarn ac amserol i argyfwng.
- ⊙ Rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu mentrau yn hyn o beth i ddatblygu Un Pwynt Mynediad a gwasanaeth ymateb i argyfwng 24/7.
- ⊙ Mae'r Noddfa Min Nos sy'n ymateb i argyfyngau yn Llanelli, a gafodd ei arwain gan y Cyngor, yn mynd o nerth i nerth ac mae'r model bellach yn cael ei gyflwyno ledled y rhanbarth.
- ⊙ Rydym yn cychwyn ar raglen uchelgeisiol o newid mewn perthynas â llety. Ein gweledigaeth yw lleihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl a datblygu mwy o opsiynau llety cymunedol, sy'n hyrwyddo dewis ac annibyniaeth



Camddefnyddio Sylweddau

- Rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn y bwrdd iechyd a'r trydydd sector i wella mynediad ac ymyrraeth ar gyfer y rhai sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, a hefyd y rhai sydd â niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol.
- Mae'r Cynllun Bywydau Bodlon wedi bod yn gynllun peilot llwyddiannus sy'n helpu pobl sydd wedi cael Niwed i'r Ymennydd yn gysylltiedig ag Alcohol i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

AILGYCHWYN ACTIF – GRANT GAEAF LLAWN LLES



Nod y prosiect Ailgychwyn Actif yw gwella iechyd a llesiant cyffredinol y boblogaeth NEET a nodwyd wrth iddynt gael eu cefnogi ar daith i baratoi ar gyfer integreiddio i chwaraeon cymunedol, naill ai fel cyfranogwr neu wirfoddolwr /mewn swydd gyflogedig.

Drwy gydol y prosiect darparwyd cyfleoedd i'r cyfranogwyr wella sgiliau a rhinweddau sy'n seiliedig ar swyddi ymhellach fel hyder, cyfathrebu ac arweinyddiaeth, sy'n bethau fydd o fudd iddynt yn y dyfodol.

Elwodd cyfranogwyr y prosiect o'r canlynol:

Gweithdai Oedolion Actif	Gwobr arweinwyr tag
Profiad hyfforddi mewn gwyliau rygbi	Cyfleoedd datblygu hyfforddi
Integreiddio clybiau	Paratoi CV a chyfweliadau
Cyfleoedd gwaith â thâl o fewn Actif	Cysylltiadau â phrentisiaethau ac addysg bellach
Cyfleoedd i fyfrio ar y prosiect yn unigol ac fel grŵp	

Nodwyd yr angen am y prosiect ar ôl ymgynghori â sefydliadau lleol gyda phwyslais mawr ar baratoi pobl ifanc nad oeddent mewn Addysg a Chyflogaeth ar hyn o bryd ar gyfer gyrfaedd neu addysg bellach yn y dyfodol. Yna, cynhaliwyd trafodaethau eraill gyda phrosiect Dyfed Powys Intact ac adrannau CSC fel Gwasanaethau Ieuenctid a Chymorth Cyflogaeth. Mae'r data isod yn amlygu pa mor bwysig yw cysylltiadau â'r partneriaid rhestredig er mwyn rhoi modelau rôl positif i bobl ifanc a grwpiau cymorth i helpu i leihau risg trosedd yn yr ardal leol. Trwy gyflwyno cyfranogwyr i amgylcheddau cymdeithasol a diogel o fewn timau chwaraeon ac annog cysylltiad parhaus â chlybiau ar ôl y project, y nod yw helpu i leihau'r risg o unigolion yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd troseddol.

Trwy ymgynghoriadau unigol gyda chyfranogwyr, roedd yn bosibl nodi clybiau chwaraeon addas i'w cyfeirio nhw atynt fel chwaraewr neu wirfoddolwr. Roedd cyflwyno i dimau chwaraeon yn creu ymdeimlad o ymlyniad a pherthyn i'r cyfranogwyr Ailgychwyn Actif o fewn eu timau dewisol, gan roi amgylchedd cadarnhaol iddynt a phwysleisio rheolau a disgyblaeth wrth iddynt hyfforddi a chwarae gemau. Ar gyfer y grŵp targed hwn, roedd egwyddorion chwarae teg, gwaith tîm, a rhyngweithio â chyfoedion i gyd yn agweddau hynod werthfawr ar y prosiect, er mwyn i'r cyfranogwyr ddatblygu sgiliau bywyd pwysig a helpu i gryfhau hunangred. Mae cael profiadau cadarnhaol gyda'r clybiau chwaraeon hyn bellach wedi caniatáu i'r cyfranogwyr gynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol a'u hannog i ailgychwyn neu barhau â'u taith llythrennedd corfforol.

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun gweithredu i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
#			
1	Byddwn yn gweithio i leihau gwastraff a'n hól troed carbon ar draws ein gwasanaethau Hamdden a Diwylliannol, gan gynyddu'r cyfleoedd i fyw bywydau iach a bodlon (16119)	31/3/23	Ian Jones
2	Datblygu dogfen gyfeirio 10 mlynedd ar gyfer y dyfodol ar gyfer trafodaeth, mewnbwn, a chymeradwyaeth gan y weinyddiaeth wleidyddol newydd i'r Sir yn gynnar yn 2022/23 (16120)	1/9/23	Ian Jones
A	Yn bwyta ac yn anadlu'n iach		
1	Bydd cynnydd y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer a materion sy'n codi yn cael eu hadrodd drwy adroddiad y cynllun Carbon Sero Net (16131)	31/3/23	Rhodri Griffiths
B	Gweithgaredd Corfforol		
1	Gydag effeithiau pandemig Covid-19 yn newid ffordd o fyw ac arferion, her fwyaf y gwasanaeth fydd cyrraedd nifer yr aelodau a lefel yr incwm oedd yn bodoli cyn covid a rhagori arnynt. (13195)	31/3/23	Ian Jones
2	Byddwn ni'n datblygu cyfleusterau Canolfan Hamdden Rhydaman gydag uwchraddiadau i gyfleusterau newid ochr gwlyb mewnol (cam1 - wedi'i gwblhau); a gwelliannau i seilwaith parcio a chyfleusterau chwaraeon allanol sy'n gysylltiedig â chynllun meistr safle ehangach ysgolion (cam2) (14705)	30/03/23	Carl Daniels
3	Bydd angen i ni weithio tuag at adennill a rhagori ar aelodaeth ac incwm i lefelau cyn COVID - gydag effeithiau pandemig Covid-19 yn newid ffordd o fyw ac arferion y gwasanaethau, dyma fydd her fwyaf y gwasanaethau (16121)	31/3/23	Ian Jones
C	Iechyd Meddwl		
1	Gweithredu newidiadau cyflawni gwasanaethau ym maes Iechyd Meddwl fel rhan o'r Agenda trawsnewid Iechyd Meddwl (16122)	Mawrth 22	Avril Bracey
D	Camddefnyddio Sylweddau		
1	Gweler y cam Iechyd Meddwl	Mawrth 22	Avril Bracey



Cliciwch [yma i gael gweld ein hymrwymadau cynnydd manwl a'n targedau](#) o ran yr amcan hwn.

Heneiddio'n Dda






Amcan Llesiant 8

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da gyda ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel

Canlyniadau'r Arolwg Ymdeimlad o Gymuned wedi gostwng ychydig yn Sir Gaerfyrddin o 68.6% i 68.0%

Mae'r 'Ymdeimlad o Gymuned' yn deillio o dri chwestiwn; Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'.



Er gwaethaf canlyniad gwaeth, rydym yn symud lan o'r 13eg safle i'r 9fed safle yng Nghymru.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- Mae diogelwch a theimlad o berthyn yn bwysig i lesiant personol ac mae rhagor o bobl bellach yn gwerthfawrogi pwysigrwydd caredigrwydd a bod yn rhan o gymuned.
- Cymuned gydlynus yw un lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn rhannu perthnasoedd cadarnhaol, yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth, ac yn parchu ei gilydd a rhannu'r un gwerthoedd.
- [Mae Cydnerthedd Cymunedol](#) hefyd yn hanfodol er mwyn galluogi cymunedau i ymateb i sefyllfaoedd andwyol, eu gwrthsefyll a'u hadfer. Mae argyfwng COVID-19 wedi dangos beth gellir ei gyflawni pan fo cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd.



Pa mor dda ydym yn gwneud (a sut ydym yn gwybod)? ① Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

68% o bobl ag ymdeimlad o gymuned
(9^{fed} uchaf yng Nghymru)
68.6% (13^{eg}) yn flaenorol
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru



66.7% o bobl yn teimlo'n ddiogel
74.6% o'r blaen
11^{eg} uchaf yng Nghymru
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru



Ymdeimlad o gymuned

- Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) 2021/22, teimlai 68.0% o'r cyfranogwyr 'Ymdeimlad o Gymuned', sydd ychydig yn llai na'r canlyniad blaenorol o 68.6%. Deilliodd y canlyniad hwn o dri chwestiwn: Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch. Er y dirywiad bach, o gymharu â chanlyniadau eraill yng Nghymru, rydym wedi symud o'r 13eg safle i'r 9fed safle.
- Dangosodd ymgynghoriad diweddar yn 2020 (fel rhan o [Asesiad Llesiant](#) Sir Gâr) gyda chynrychiolwyr o nifer o sectorau'r gymuned, fod y farn gyffredinol yn gadarnhaol am gydlyniant cymunedol ar hyn o bryd yng

Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; dinasyddion (di-Gymreig) yr UE, cymunedau gwledig ac ynysig, siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, Cymunedau Sipsiwn / Teithwyr, Ffoaduriaid Syriaidd, pobl LGBTQ+, pobl anabl a/neu bobl sydd â chyflyrau iechyd a phobl ifanc. **Dywedodd 77% o'r rhai gafodd eu cyfwrdd fod cydlyniant cymunedol yn dda.** Cydnabuwyd bod potensial i wella a bod yna "densiynau" neu "broblemau" canfyddedig.

Teimlo'n Ddiogel

- Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22](#), mae nifer y cyfranogwyr sy'n teimlo'n ddiogel wedi gostwng o **74.6% i 66.7%**, ond yn aros ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 66%. I gymharu, rydym wedi symud o'r 6^{ed} safle i'r 11^{eg} safle. Deilliodd y canlyniad hwn o dri chwestiwn: *pobl yn teimlo'n ddiogel gartref; cerdded yn yr ardal leol; ac wrth deithio yn y tywyllwch.*
- Fel rhan o waith ymgynghori Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, roedd ein trigolion Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig yr un mor bryderus ynghylch bygythiadau eithafiaeth, rhagfarn a throseddau casineb. **O ran cydlyniant cymunedol, nododd ein cymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol bryder ynghylch adnoddau cymunedol yn cau, rhagfarn a diffyg buddsoddiad yn eu cymuned leol.** Mynegi pryder am driniaeth annheg a rhoi gwybod am drosedd casineb oedd y ddau beth mwyaf byddai trigolion Sir Gaerfyrddin yn ystyried eu gwneud i helpu i wneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned pan ofynnwyd iddyn nhw fel rhan o Arolwg Llesiant 2021.

Cynnydd ar y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Datblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

- Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llesiant Delta fel ein Un Pwynt Mynediad i iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol. Drwy arbenigedd y tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, lle bo modd, rydym yn cefnogi pobl drwy roi iddynt wybodaeth a chyngor heb fod angen eu cyfeirio at asesiad parhaus ffurfiol. Yn 2021/22, ar gyfartaledd, datryswyd 25% o'r ymholiadau yn y cam gwybodaeth a chyngor heb yr angen am gymorth statudol pellach.
- Rydym wedi cryfhau rôl Llesiant Delta yn ein hysbytai, ac erbyn hyn mae gennym Swyddogion Llesiant yn gweithio ar y wardiau sy'n gweithredu fel y cyswllt rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i gynorthwyo rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty.

Mwy o gydlyniant cymunedol

- !** Yn 2019 cynhaliodd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Adolygiad Gorchwyl a Gorffen o Unigrwydd**, a gyflwynodd argymhellion i'r Cyngor eu hystyried. Yng ngoleuni'r argymhellion hyn, mae cynlluniau ar y gweill i benodi Uwch-reolwr ar gyfer Atal a hefyd Strategaeth Atal a Chynllun Gweithredu traws-boblogaeth. Un o brif bileri'r cynllun hwn fydd Unigrwydd a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir i helpu'r boblogaeth ehangach i deimlo'n fwy cynwysedig yn gymdeithasol.
- Mae'r strategaeth dementia ranbarthol bellach yn ei drafft terfynol ac yn aros i gael ei chymeradwyo'n swyddogol gan y partneriaid ranbarthol. Mae'r Grŵp Llywio Dementia ranbarthol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn datblygu pob agwedd ar ffrydiau gwaith cyllid dementia. Mae Cydgysylltydd Strategaeth Dementia ranbarthol yn cael ei recriwtio ar hyn o bryd a bydd yn ei swydd cyn hir. Rydym yn gweithio tuag at ailagor gwasanaethau dydd gan gynnwys cleientiaid dementia.
- Mae llacio cyfyngiadau COVID-19 wedi arwain at gynnydd mawr mewn ymholiadau gan ystod eang o drefnwyr digwyddiadau - rhai cymunedol sy'n ceisio ailsefydlu digwyddiadau blynyddol a ganslwyd oherwydd y Pandemig, yn ogystal â rhai mwy masnachol sy'n ceisio creu brandiau newydd neu'r rhai sy'n ceisio aildechrau digwyddiad blaenorol.

Effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant ein poblogaeth a gwynnwch cymunedol

- Mae astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal yn Tyisha ar gyfer sefydlu Hwb Cymunedol. Ar sail yr astudiaeth ddichonoldeb, bydd cynllun busnes yn cael ei ddatblygu. Mae Hyfforddiant Datblygu Cymunedol sy'n seiliedig ar Asedau wedi'i gynllunio ar gyfer trigolion, swyddogion, a grwpiau lleol. Mae llawer iawn o weithgareddau cymunedol wedi cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn i ddatblygu perthnasoedd cymunedol cadarnhaol fel casglu sbwriel, sesiynau a digwyddiadau chwarae, sesiynau chwarae creadigol ar gyfer rhieni a phrosiectau garddio.

- ☉ Mae mentrau Hwyl yr Haf a Gaeaf Llawn Lles wedi cael eu darparu'n llwyddiannus drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru i wardiau allweddol ar draws y sir. Cafodd mentrau wedi'u targedu eu cyflawni mewn partneriaeth ag asiantaethau fel y Comisiynydd Heddlu a Throseddau, CYCA, *Inspire Recruitment* a'r Scarlets er mwyn cael Plant a Phobl Ifanc i aildechrau gwneud gweithgareddau corfforol. Roedd y cyllid yn ysgogydd i greu mentrau a phartneriaethau newydd a fydd yn ffurfio rhan o'n gwasanaeth wrth symud ymlaen.
- ☉ Cafodd pobl dros 60 oed yn Sir Gaerfyrddin fwy o opsiynau i fwynhau ymarfer corff wrth i'r wlad adfer ar ôl y pandemig, fel rhan o fuddsoddiad o £1m gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymgyrch i leihau anghydraddoldebau iechyd ac unigedd cymdeithasol fel rhan o Gynllun Gweithredu Pwysau Iach, Cymru Iach 2020-22 Llywodraeth Cymru, cafodd yr arian a ddyrannwyd i Chwaraeon Cymru ei rannu ymhlith y 22 awdurdod lleol, i'w ddefnyddio ar brosiectau. Roedd oedolion 60+ oed yn gallu cael mynediad at sesiynau chwaraeon a gweithgarwch corfforol am ddim ac am bris gostyngol mewn cyfleusterau ac yn y gymuned
- ☉ Fel rhan o Becyn Achub Chwaraeon Cymru cynhaliwyd nifer o weithdai a gweminarau gyda chlybiau cymunedol ar draws y Sir i gefnogi cynlluniau i adfer a datblygu clybiau, yn gysylltiedig ag adferiad Covid. Bu Swyddogion Cymunedau Actif yn cefnogi clybiau i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr, gan ehangu eu grwpiau oedran, asesiadau risg a phrotocolau dychwelyd i chwarae yn ogystal â chynigion ariannu a gefnogir.
- ☉ Gwobrau Chwaraeon Actif Sir Gâr yw un o'r seremonïau gwobrwyd mwyaf yn y sir, ac maent yn cydnabod ac yn dathlu llwyddiannau a chyfraniadau chwaraeon drwy gydol y flwyddyn. Yn absenoldeb seremoni yn 2021 oherwydd y Pandemig, roedd Ionawr 2022 yn gyfle i fyfyrwyr ar y 2 flynedd ddiwethaf, ac er gwaetha'r pandemig, dathlu llwyddiannau enfawr gan athletwyr unigol a thimau. Derbyniwyd enwebiadau gan Glybiau Chwaraeon, unigolion a Chynghorwyr Lleol, ar gyfer gwobrau am gymryd rhan, fel Chwaraewr y Flwyddyn a Chwaraewraig Ifanc, yn ogystal â gwobrau i'r rhai na all chwaraeon ddigwydd hebddynt megis Gwirfoddolwr y Flwyddyn a Hyfforddwr y Flwyddyn.

Cefnogi Cymunedau Mwy Diogel

- ☉ Mae'r pandemig wedi rhoi cyfleoedd i droseddwr fanteisio ar bobl a allai fod yn fwy agored i ddulliau twyllodrus oherwydd y cyfnod clo/gwarchod ac ynysu rhag rhwydweithiau cymorth. Unwaith eto mae cynnydd cyffredinol wedi bod yn nifer yr achosion o dwyll y rhoddir gwybod amdanynt yn genedlaethol, ac yn ôl Swyddfa Ystadegau Gwladol bu 5 miliwn o droseddau twyll yn y flwyddyn ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, sef cynnydd o 32% o gymharu â'r flwyddyn ddaeth i ben ym mis Mehefin 2019. Mae Dyfeisiau Blocio Galwadau Niwsans trueCall© Nuisance, sydd wedi'u gosod mewn cartrefi preswyl i bobl oedrannus ac agored i niwed yn y sir, wedi blocio 15,831 o alwadau niwsans yn 2021/22. Yn seiliedig ar ddeallusrwydd cenedlaethol nodwyd bod 4,340 o'r galwadau hynny o rifau a ddefnyddiwyd gan droseddwr hysbys.
- ☉ Mae system rybuddio arloesol *Seraphimbeta*©, a ddatblygwyd yn sgil y pandemig i roi gwybod i swyddogion yr awdurdod pryd roedd defnyddiwr trueCall yn cael nifer fawr o alwadau gan dwyllwyr tybiedig, wedi creu 94 o rybuddion lefel uchel am y flwyddyn 2021/22 (cynnydd o 28 ers y flwyddyn flaenorol). Mae'r rhybuddion wedi arwain at alwadau lles ac ymyrraeth gan swyddogion i atal pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu twyllo dros y ffôn. Mae'r cyllid a sicrhawyd i gynyddu nifer y dyfeisiau blocio galwadau o 220 wedi'i ddefnyddio i brynu 500 o ddyfeisiau blocio eraill ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gyda phartneriaid yr awdurdod, Llesiant Delta. Yn seiliedig ar niferoedd y galwadau niwsans ar gyfartaledd, rydym yn rhagweld bydd y potensial gan ein holl ddyfeisiau, at ei gilydd, i flocio tua 83,000 o alwadau niwsans yn Sir Gaerfyrddin yn flynyddol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Safonau Masnach.
- ☉ Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, helpodd y tîm Cydlyniant Cymunedol i gydlyn calendr rhanbarthol o ddigwyddiadau, gan gasglu cynnwys oddi wrth bartneriaid sy'n cynnwys Cymorth i Ddiodefwyr, Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Hil Cymru. Arweiniodd y tîm cydlyniant ar nifer o brosiectau yn ystod yr wythnos honno a thrwy gydol y flwyddyn gan gynnwys:
 - Prosiect ar y cyd â Chymorth i Ddiodefwyr a chlybiau ieuenctid lle mae pobl ifanc yn dylunio crys-T, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant.
 - Gweithdy Troseddau Casineb Ar-lein yn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â throseddau casineb a chyfryngau cymdeithasol.
 - Cyfres o ddigwyddiadau Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ar-lein, mewn cydweithrediad â Chymorth i Ddiodefwyr.

— Hyrwyddo ffilm Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb Cydlyniant Cymunedol

Arweiniodd y tîm ar nifer o gyfleoedd hyfforddi i weithwyr proffesiynol gan gynnwys cyfres o sesiynau sy'n canolbwyntio ar Ymwybyddiaeth o weithgarwch Asgell Dde a Gwrth-naratif ac Incel.

- Cynhaliodd y tîm Cydlyniant Cymunedol gronfa Grantiau Bach ar draws y rhanbarth i annog grwpiau a sefydliadau cymunedol i wneud cais am arian. Cynhaliwyd nifer o brosiectau llwyddiannus ar draws Sir Gaerfyrddin gan gynnwys:

- *Queering Wales. Representation as a means to inclusion - On your face collective*: Platform LGBTQ+ yw On your face i roi sylw blaenllaw i elfennau *queer* creadigol Cymru. Bu i'r tîm Cydlyniant gyllido digwyddiad yn Y Ganolfan Magu yng Nghaerfyrddin a bydd yn cynnwys arddangosfa gan amrywiol artistiaid, cerddoriaeth fyw, gweithdai, sgysiau, meic agored a stondin fwyd. Byddai'r arddangosfa'n para hyd at 3 wythnos ond byddai'r digwyddiad rhwng 10 ac 8 ar y diwrnod agoriadol.
- *Future Proof, the Well Together Community - Create Me Happy / Rivki Rose Training*: Mae'r prosiect yn cyfuno dau weithdy ar-lein i ofalwyr, er mwyn gwella gwytnwch unigol a chymunedol trwy Hyrwyddwyr Cymunedol Hunan-eiriolaeth / Dinasyddiaeth Weithredol. Cafodd y gweithdai eu cyflwyno i goffáu Diwrnod Hawliau Gofalwyr a Diwrnod Rhyngwladol pobl anabl.
- *Spoken Word Saturday, Community Connectivity Events - People Speak Up*: roedd y prosiect yn cynnwys 5 digwyddiad cysylltedd cymunedol digidol / wyneb yn wyneb llafar dwyieithog yn Y Ffwrnes Fach (hen Gapel Seion) yn Llanelli. Roedd y digwyddiadau'n gyfle i'r gymuned rannu eu straeon eu hunain a phrofiadau personol o orthrwm, datgysylltiad, unigrwydd, ac ymatebion ar ôl COVID-19. Roedd gan y digwyddiadau amseroedd sgwrsio cymunedol agored hefyd a oedd yn gyfle i unigolion sgwrsio, rhannu, a gwrandao dros gacen a phaned. Yn y digwyddiad cyntaf, cafodd y storiwr Phil Okwedy gyfle i rannu ei stori am ei dras Nigeria, cael ei fagu mewn cartref plant, a sut mae'n teimlo i fod yn ddyn du sy'n byw yng Nghymru.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

ENILLYDD GWIRFODDOLWR CHWARAEON IFANC

Cadw'r tîm yn hyfforddi gyda'i gilydd eto yn ddiogel

Joshua Edwards enillodd y wobr Gwirfoddolwr Chwaraeon Ifanc am ei rôl yng Nghlwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin. Mae Joshua wedi bod yn rhan allweddol o'r clwb ers blyneddau lawer. Pan oedd Josh yn 16 oed, fe sefydlodd grŵp pêl-droed cerdded ar gyfer pobl dros 50 oed yn yr ardal gan greu rhagor o gyfleoedd i bobl gymryd rhan.

Yn ystod y pandemig, fe wnaeth Josh yn siŵr fod yr holl asesiadau risg a gweithdrefnau ar waith er mwyn i'r tîm barhau i hyfforddi'n hyderus a dod yn weithgar yn gymdeithasol eto mewn modd diogel. Mae Josh hefyd wedi ymgymryd â rôl rheolwr carfan datblygu Cymru a hyfforddwr ar gyfer grŵp oedran dynion.'



Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun gweithredu i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Datblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth		
1	Gweithredu gofynion y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd yn unol â deddfwriaeth (16124)	Mawrth 2022	Avril Bracey
2	Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymateb i bryderon diogelu oedolion yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Rhan 7) a chanllawiau statudol sy'n datblygu. (16125)	Mawrth 2023	Avril Bracey
3	Byddwn ni'n datblygu cytundeb ffurfiol rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd, yn amlinellu cyfrifoldebau cyfunol tra'n cytuno ar strwythur staffio newydd mewn Gwasanaethau Integredig i gefnogi ein dull o ddatblygu cymunedau cryf, helpu pobl i helpu eu hunain a darparu cymorth pan fydd ei angen. (15101)	Rhagfyr 22	Alex Williams
B	Mwy o Gydlyniant Cymunedol		
1	Cyhoeddi Strategaeth a Chynllun Gweithredu Atal traws-boblogaeth, ac un o'r pileri allweddol fydd mynd i'r afael ag unigrwydd. (15101)	Mawrth 2023	Alex Williams
2	Byddwn yn parhau i ddatblygu dull mwy strategol o gryfhau a datblygu'r rhwydwaith ataliol o wasanaethau ac adeiladu gwytnwch cymunedol, yn enwedig mewn perthynas â'r trydydd sector, cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai a'r gymuned ehangach, gan gynnwys gofalwyr. (15083)	Mawrth 2023	Alison Watkins
C	Iechyd Meddwl a Gwytnwch		
1	Gweler Amcan Llesiant 7 Cam C1	Amherthnasol	Amherthnasol
D	Cymunedau Mwy Diogel		
1	Sicrhau bod y Cyngor yn ystyried ac yn ymateb yn llawn i ofynion y Ddyletswydd Gwrthderfysgaeth ar ôl ei chyhoeddi (disgwylir yn 2022-23). (15495)	Mawrth 2023	Kate Harrop
2	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran y Strategaeth Contest bresennol (gwrthderfysgaeth) ac yn ymateb i unrhyw ddyletswyddau wrth iddynt godi. (15494)	Mawrth 2023	Gwyneth Ayers



Cliciwch [yma i gael gweld ein hymrwymadau cynnydd manwl a'n targedau](#) o ran yr amcan hwn.



Amcan Llesiant 9

Heneiddio'n Dda - Cefnogi pobl hŷn i heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny

Rydym wedi parhau i gadw pobl hŷn yn ddiogel yn ein cymunedau yn ystod y cyfnod mwyaf heriol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, fel y profwyd yn genedlaethol, mae'r galw am ofal cymdeithasol llawer yn drech na'r gofal a'r cymorth cyfyngedig sydd ar gael yn ein cymunedau. Mae sicrhau ein bod yn targedu cefnogaeth lle mae ei angen fwyaf wedi caniatáu inni helpu pobl i heneiddio'n dda gan gynnal eu hurddas a'u hannibyniaeth. Wrth i ni ddod allan o bandemig COVID-19, y brif her yw sut i recriwtio a chadw nifer digonol o weithwyr gofal cymdeithasol medrus a phrofiadol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar ein cymunedau. Mae ymdrechion i wneud hyn yn brif ffocws ac yn brif flaenoriaeth i'n sefydliadau iechyd a chymdeithasol integredig.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- ⊙ Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfran uchel o drigolion dros 65 oed sy'n rhan hanfodol a bywiog o'r gymuned. Rydym am i'r sir fod yn lle i heneiddio'n dda.
- ⊙ Mae ymgynghoriadau wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig i bobl hŷn yw gallu bod mor annibynnol ac iach â phosibl am gyn hired â phosibl.
'Cael eich parchu fel person hŷn, heb gael eich ystyried yn faich ar y system iechyd a gofal cymdeithasol leol'
- ⊙ Dengys ymchwil fod cael pobl hŷn i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u parchu ac i gyfrannu'n gymdeithasol, yn ffactor hanfodol o ran heneiddio'n iach.
- ⊙ Mae pobl hŷn yn cyfrannu at yr economi yn Sir Gaerfyrddin drwy ofalu am eu hwyrion a'u hwyresau neu aelodau eraill o'r teulu.
- ⊙ Gall gwasanaethau ehangach wneud cyfraniad pwysig i gefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn a lleihau'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd.
- ⊙ Mae'r Cyngor wedi penderfynu gwneud Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n cefnogi pobl â dementia, tebyg i [Raglen Gymunedol Cefnogi Pobl â Dementia y Gymdeithas Alzheimer](#).
- ⊙ Effaith COVID-19 ar ein cartrefi gofal.



Pa mor dda ydym yn gwneud (a sut ydym yn gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



66% yn

cytuno bod gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal

(47.5% o'r blaen)

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ar gyfartaledd mae'n cymryd



259 o ddiwrnodau calendr i ni ddarparu

Grant Cyfleusterau i'r Anabl

(347 o ddiwrnodau o'r blaen)

15.4% o bobl yn teimlo'n unig yn Sir Gâr

(17.3% blaen)



o'r

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Da ar gael yn yr ardal

- ⊙ Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) 2020/21 roedd **66%** o'r cyfranogwyr yn credu bod **Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal**. Mae hwn yn welliant ar ganlyniad yr arolwg diwethaf o 47.5% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 63.9%.

Grant Cyfleusterau i'r Anabl

- ⊙ Mae cyflawni addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol oherwydd cyfyngiadau COVID-19 gydag oedi a'r anallu i gwblhau gwaith yn barhaus ar y safle. Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd gennym i gwblhau'r addasiadau hyn cyn COVID-19 oedd 176 o ddiwrnodau, sydd ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 204 diwrnod. Bu i hyn gynyddu'n fawr yn ystod 2020/21 i 347 o ddiwrnodau ac uwchlaw cyfartaledd Cymru o 261 diwrnod. Creodd y tarfu hwn ôl-groniad gyda'r nifer uchel o ddiwrnodau'n parhau yn ystod 2021/22, ond wrth i'r ôl-groniad gael sylw yn ystod y flwyddyn, mae nifer y diwrnodau ar gyfartaledd wedi gwella'n sylweddol i 259 diwrnod.

Teimlo'n Unig

- ⊙ Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) 2021/22, roedd **15.4%** o'r oedolion gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin yn **ystyried eu bod yn unig**, ac mae hyn wedi gostwng ers y canlyniad blaenorol o 17.3% ond mae'n parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 12.8%, ac i gymharu, rydym wedi symud o'r 19eg safle i'r 18fed safle yng Nghymru.

Cynnydd ar y camau rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Gwell iechyd a llesiant ymysg y boblogaeth

- ⊙ Bu i'n gwasanaeth Theatrau Sir Gâr ddarparu ffrydiad byw o Sioe Nadolig i 6 chartref gofal
- ⊙ Derbyniodd Actif £46k gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a darparu gweithgareddau corfforol am ddim ac am bris gostyngol i'r boblogaeth 60+ oed. Roedd y rhain yn cynnwys ystod o Chwaraeon Cerdded (rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd), 'Nordic Walking', Padlfyrddio, Curling, dosbarthiadau ffitrwydd, gweithgareddau campfa a chwaraeon raced.
- ⊙ Mae Swyddogion Oedolion Actif yn y tîm Cymunedau Actif wedi gweithio mewn partneriaeth gyda chlybiau a sefydliadau i hwyluso a sefydlu nifer o sesiynau a chlybiau chwaraeon cerdded ar draws y Sir.
- ⊙ Mae ein gwasanaeth Delta Connect wedi mynd o nerth i nerth dros y 12 mis diwethaf. Bellach mae dros 3,000 o unigolion wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth yn Sir Gaerfyrddin, ac mae elfen ymateb cyflym y gwasanaeth, lle gall tîm cofrestredig o ofalwyr ddarparu cymorth brys, wedi bod yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach gartref. Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i unigolion bron i 6,000 o weithiau ac yn aml wedi osgoi'r angen i gael mynediad i'r ysbyty neu leoliad brys mewn cartref gofal. Mae'r sicrwydd bod Llesiant Delta ar gael ar ddiwedd y ffôn i drigolion Sir Gaerfyrddin a'u teuluoedd yn gwneud cyfraniad aruthrol tuag at wella iechyd a llesiant poblogaeth.
- ⊙ Diolch i'r drefn, mae effaith y pandemig ar Bobl Hŷn wedi dechrau lleihau yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae llwyddiant y rhaglen frechu wedi golygu bod rheoli COVID-19 mewn lleoliadau gofal yn fwy mater o drefn, a bod risg marwolaeth neu salwch difrifol wedi gostwng i lefelau sy'n fwy cymaradwy ag afiechydon tymhorol eraill fel y fflw. Ni ellir tanbrizio'r effaith yn seicolegol fodd bynnag, ac mae llawer o bobl hŷn wedi mynd yn fwyfwy ynysig ac yn dal i fyw mewn ofn o'r risg o COVID-19. Mae mentrau fel Delta Connect yn hanfodol felly i helpu i gefnogi iechyd a llesiant emosiynol.

Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o well ansawdd ac sy'n fwy hygyrch

- ⊙ Mae prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol cymwys ac o staff gofal medrus a phrofiadol. Ar yr un pryd, rydym wedi gweld yr effaith y mae cyfnodau clo cysylltiedig â'r pandemig ac anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau arferol wedi'i chael ar gynyddu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth hŷn. Mae cyfuniad o'r ddau ffactor hyn wedi creu'r storom berffaith. O'r herwydd, mae nifer uwch o bobl hŷn angen asesiad gwaith cymdeithasol ac, o ganlyniad, gofal yn y cartref, tra bo llai o weithwyr cymdeithasol ar gael i gynnal yr asesiadau hynny a llai o oriau gofal ar gael i gefnogi pobl yn y gymuned.



 Arolygiaeth Gofal Cymru Care Inspectorate Wales	Crynodeb 'Mae pobl a'u perthnasau'n canmol y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn. Mae cofnodion gofal yn canolbwyntio ar y person ac yn adlewyrchu anghenion unigol pobl. Mae staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda, mae ganddyn nhw wybodaeth dda am y bobl maen nhw'n gofalu amdany'n nhw, ac maen nhw'n frwdfrydig ynghylch gweithio yn y gwasanaeth. Rheolwyr ymroddedig a gwybodus sy'n cael eu cefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol sy'n
Mai 2022	

Gwasanaeth gofal cartref mewnol Cyngor Sir Gâr	arwain y gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn hawdd ymwneud â nhw ac yn uchel eu parch gan bawb sy'n gysylltiedig. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth ac mae systemau cadarn ar waith i gefnogi hyn. Mae gan y tîm arwain berthynas waith dda a gweledigaeth glir am y gwasanaeth'.
--	---

- ⊙ Rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i flaenoriaethu'r rheiny y mae angen eu hasesu fwyaf a'r rhai sy'n aros am ofal. Fodd bynnag, mae'n golygu bod gennym restrau aros ar gyfer asesiadau a gofal, ac o ganlyniad mae pobl yn gorfod aros yn hirach nag yr hoffem i gael y gefnogaeth sydd ei hangen.
- ⊙ O gofio'r uchod, rydym wedi gorfod bod mor greadigol ag y gallwn ni i ddod o hyd i ffyrdd eraill o gefnogi pobl. Mae hyn wedi arwain atom yn ailystyried y ffordd rydym yn gweithio ac mae llwyddiant un fenter o'r fath, sef y Tîm Amlddisgyblaethol Gofal Canolradd, wedi'i gydnabod gan gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Trawsnewid Sector Cyhoeddus IESE 2022. Mae'r tîm yn mabwysiadu egwyddor 'Gartref Gyntaf' er mwyn helpu pobl i adael yr ysbyty'n gynt neu helpu i gadw pobl gartref, trwy ddarparu iechyd cymorth yn y tymor byr i helpu pobl i ddychwelyd neu aros gartref a byw mor annibynnol â phosib.



Iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch

	Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru ei llythyr Gwiriad Sicrwydd 2021 ar gyfer Cyngor Sir Gâr.
	<u>Sicrwydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion</u>
	• Cydweithio • Cyfathrebu da a chefnogaeth ar draws y sefydliad • Rhannu gweledigaeth o fynd i'r afael ag anghenion pobl • Rhoddwyd cyfle i bobl (gan gynnwys gofalwyr), deilwra a rheoli eu cymorth eu hunain • Ymagwedd integredig cadarnhaol at ddiwylliant o atal • Gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant pobl yng nghyfnod y pandemig

Risgiau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

- Marchnad y Darparwr
- Mae'r galw yn y system yn fwy na'r capasiti sydd ar gael
- Sefyllfa fregus i wasanaeth mewnol
- Darparu gofal a chymorth mewn rhai ardaloedd daearyddol

- ⊙ Yng nghyd-destun heriau'r gweithlu, mae gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau yn bwysicach nag erioed. Eleni rydym wedi mynd allan i dendro ar gyfer ein Fframwaith Gofal a Chymorth yn y Cartref newydd a fydd, er gwaethaf yr heriau recriwtio a chadw, yn caniatáu inni ddarparu gwasanaeth mwy teg ar draws y Sir.

Archwilio Mewnol 	Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad diweddar o'r grant: ENABLE - Cefnogaeth i Fyw'n Annibynnol	Daeth Archwiliad Mewnol i'r casgliad bod nodau ac amcanion y prosiect wedi'u cyrraedd, a bod yr arian grant wedi'i wario'n briodol yn unol â'r cynnig grant.
-----------------------------	---	--

- ⊙ Yn ogystal, rydym wedi defnyddio dulliau creadigol fel y Grant Cymorth Llesiant, i ad-dalu gofalwyr a theuluoedd yn ariannol i'w helpu i gefnogi eu hanwyliaid tra byddant yn aros i drefniadau gofal hirdymor gael eu rhoi ar waith.

Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy sydd â chymhelliant

- ⊙ Mae nifer cynyddol y swyddi gwag ym meysydd gwaith cymdeithasol a gofal, ynghyd â chynnydd yn y galw a phobl yn cyflwyno'u hunain â materion llawer mwy cymhleth i'w datrys, wedi gweld rhestrau aros yn tyfu i lefelau llawer uwch nag yr hoffem. Ein prif ffocws felly oedd datblygu a gweithredu ein Cynllun Recriwtio a Chadw Gofal Cymdeithasol er mwyn rhoi pob cyfle posibl i ni recriwtio a chadw staff i'r lefel sydd ei hangen arnom.

- Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi cynnal ymgyrchoedd recriwtio cynhwysfawr yn fewnol ac i gefnogi'r sector ehangach.
- Rydym hefyd wedi cynnig ystod o daliadau cadw staff i'n staff gofal cymdeithasol, i'w hannog i barhau i weithio i Sir Gaerfyrddin.
- Rydym yn datblygu llwybrau dilyniant gyrfa i staff fel y gallant ddatblygu eu gyrfaedd gyda ni, gan ein galluogi i gynllunio olyniaeth ar gyfer y dyfodol.
- Rydym wrthi'n lansio ein Academi Gofal a fydd yn darparu cyfleoedd i'r rheiny sy'n dymuno cael gyrfa mewn gofal gychwyn ar lwybrau proffesiynol fel gwaith cymdeithasol.
- Mae llawer o waith i'w wneud o hyd, ond roeddem yn dechrau gweld y sefyllfa'n gwella ychydig, yn enwedig mewn perthynas â swyddi gwag mewn gwaith cymdeithasol.



Mae Delta CONNECT wedi cynnig "cymorth gwerthfawr" i Edward yn ystod y cyfyngiadau symud

Ar ôl i *Edward Jones, sy'n 82 oed ac yn ŵr gweddwr ddychwelyd i'w gartref yn Llanyddryfri ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty ar ddiwedd 2019, byddai ei fab, a'i ferch yng nghyfraith a'u merch yn ymweld sawl gwaith y dydd i'w helpu â'i fywyd bob dydd a chadw llygad arno.

Fodd bynnag, newidiodd popeth pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud. Dechreuodd Edward warchod ei hun a bellach nid oedd ymweliadau cyson mor hawdd.

Dechreuodd Edward ddefnyddio Gwasanaeth Delta CONNECT ym mis Mawrth 2020 ac mae wedi bod yn werth y byd iddo. Roedd e'n teimlo'n isel iawn ar ôl ei arhosiad hir yn yr ysbyty ac roedd wedi colli llawer o bwysau a olygodd ei fod yn teimlo'n fregus ac yn agored i niwed.

Fel rhan o'r gwasanaeth CONNECT, roedd Louise, sef y Swyddog Llesiant Cymunedol a benodwyd i Edward, yn ei ffonio bob wythnos i ofyn sut oedd e'n teimlo ac a oedd angen unrhyw help arno. Yn ogystal, roedd ganddo uned gartref Llinell Gymorth i'w gwisgo o amgylch ei wdder er mwyn galw am gymorth mewn argyfwng.

"Bues i yn yr ysbyty am bedwar mis ac roeddwn i'n teimlo'n ddigalon iawn." Dywedodd Edward, "Roedd siarad â Louise yn gymaint o help. Rhoddodd Louise oibaith newydd i mi."

I nifer o gleientiaid, mae'r gwasanaeth yn cynnwys bwyd neu gyflenwadau meddygol ond roedd Edward yn ddigon ffodus i gael ei deulu'n byw yn lleol i'w helpu â hyn.

"Rwy' mor lwcus i gael teulu gwych gerllaw ac maen nhw wir yn edrych ar fy ôl i, ond weithiau mae'n haws siarad â rhywun y tu allan i'ch teulu - mae rhai pethau nad ydych chi eisiau dweud wrthyn nhw oherwydd dydych chi ddim eisiau iddyn nhw boeni mwy nag y maen nhw ar hyn o bryd."

"Ni allaf ganmol gwasanaeth CONNECT ddigon. Roedd gwybod bod rhywun ar ben arall y ffôn i mi yn meddwl gymaint ac yn cynnig tawelwch meddwl i'm teulu hefyd."

Mae'r Swyddogion Llesiant Cymunedol wedi'u hyfforddi i adnabod cleientiaid a allai fod angen cymorth ychwanegol, hyd yn oed pan nad yw'r cleient wedi adnabod yr angen hwnnw ei hun - mae hyn wedi helpu teulu Edward i wybod ei fod yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth yn y cartref hyd yn oed pan nad ydynt yn gallu bod yno.

Dywedodd *Jonathan, mab Edward: "Mae gwasanaeth Delta yn golygu llawer i fy nhad ac mae'n teimlo'n wirioneddol freintiedig i allu cael mynediad iddo. Mae'r system Llinell Bywyd yn werthfawr tu hwnt iddo ac er ein bod ni'n byw'n agos, mae'n rhoi tawelwch meddwl i'r teulu i wybod bod help wrth law petai angen."

"Mae'r galwadau llesiant wedi bod yn wych - mae e'n mwynhau siarad â rhywun gwahanol ac mae'n edrych ymlaen at y galwadau bob wythnos. Mewn ychydig flynyddoedd, bydda' i siŵr o fod yn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth fy hunan!" ***Mae'r enwau wedi'u newid**

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun gweithredu i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	amau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Gwell iechyd a llesiant ymysg y boblogaeth		
1	Byddwn yn darparu gofal rhagweithiol a chynlluniedig i bobl yn y gymuned sydd â chyflyrau iechyd hirdymor cronig/sy'n fwy eiddil, a'r rhai sydd angen cymorth ar ddiwedd eu hoes.	Mawrth 2023	Alex Williams
2	Byddwn ni'n datblygu a gweithredu Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin a fydd yn cynnwys parhau i weithio mewn partneriaeth â Delta Wellbeing i gefnogi ein trigolion (15342?)	Mawrth 2023	Rhian Dawson
3	Byddwn yn parhau i ail-lunio ein dull o gefnogi llif cleifion a chartref yn gyntaf drwy ddatblygu'r broses ryddhau er mwyn asesu llwybrau a sicrhau bod prosesau monitro ac uwchgyfeirio ar waith i sicrhau llif effeithiol i gleifion ar draws system Sir Gaerfyrddin.(15348)	Mawrth 2023	Alex Williams/Rhian Dawson
B	Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy sydd â chymhelliant		
1	Byddwn ni'n tyfu'r gweithlu Gwaith Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol proffesiynol drwy sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn lle deniadol i weithio, bod cyfleoedd am ddilyniant gyrfa, a bod llwybrau gyrfaol yn cael eu datblygu i staff ddod yn gymwys.	Mawrth 2023	Alex Williams



Cliciwch [yma i gael gweld ein hymrwymadau cynnydd manwl a'n targedau](#) o ran yr amcan hwn.

Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus





Amcan Llesiant 10 Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd yn awr ac ar gyfer y dyfodol

Mae gennym heriau Amgylcheddol sylweddol i fynd i'r afael â hwy

- ! Her fawr fydd cyflawni yn erbyn blaenoriaethau datgarboneiddio. Bydd angen i ni gynyddu arbedion carbon y dyfodol yn sylweddol i gyflawni ymrwymiad y Cyngor i fod yn awdurdod lleol Carbon Sero Net erbyn 2030.
- Roedd gan ein Gwasanaeth Cynllunio broblemau perfformiad sylweddol a hirsefydlog; daeth archwiliad allanol â hyn i'r amlwg ac mewn blwyddyn mae'r Cyngor wedi ymyrryd a gwneud cynnydd sylweddol.
- ! Mae ailgylchu cymaint ag y bo modd wedi bod yn anodd yn dilyn tân yn ein prif gyfleuster adfer deunyddiau a chyda llacio'r rheolau yn sgil COVID-19 yn ymwneud â bagiau du. Mae gennym gynllun gweithredu newydd i ymdrin â halogi deunyddiau ailgylchu a strategaeth wastraff newydd a fydd yn ein helpu i gyflawni perfformiad gwell.
- O gymharu â blynyddoedd blaenorol, nid yw 2021/22 wedi gweld cymaint o ddigwyddiadau llifogydd sylweddol a arweiniodd at fod nifer fawr o fusnesau a thrigolion Sir Gaerfyrddin yn dioddef yn sgil llifogydd mewnol.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- ⊙ Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol yn dda ar gyfer llesiant, gydag ecosystemau iach a gweithredol, sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.
- ⊙ Mae gwasanaeth cynllunio da yn hanfodol er mwyn gwireddu uchelgeisiau'r Cyngor.
- ⊙ Rydym wedi datgan argyfwng hinsawdd fel Cyngor, a ni oedd y cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi ein [Llwybr tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030](#)



Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



Gwnaethom gynhyrchu 1,059,364 kWh o ynni adnewyddadwy yn ystod 2020/21 (wedi cynyddu o 997,480 kWh yn y flwyddyn flaenorol)



Bu gostyngiad o **9.5% yn Nefnydd Ynni (kWh) y Cyngor** o 70,332,391 kWh yn 2019/20 i 63,684,340 kWh yn 2020/21



Ein cyfradd ailgylchu yw **61.68%** (Mae hyn yn ostyngiad ar ffigur y flwyddyn flaenorol sef 62.20%).

- ⊙ Yn 2020/21, bu gostyngiad o 9.5% yn ein Defnydd Ynni cyffredinol o gymharu â 2019/20, gyda'r pedwar maes yn dangos gostyngiad yn y defnydd o allyriadau defnydd a charbon h.y., Adeiladau annomestig; Goleuadau Stryd; Milltired Fflyd; a Milltired Busnes.
Er bod y gostyngiadau hyn i'w priodoli'n rhannol i effaith COVID-19, mae'n debygol y bydd parhad staff yn gweithio gartref, ynghyd â newidiadau mewn arferion gwaith megis mwy o ddefnydd o gyfleusterau fideo-gynadledda a chyfathrebu ar-lein, yn gweld gostyngiad parhaol mewn allyriadau carbon yn y tymor hwy.
- ⊙ Mae tân yng Nghyfleuster Ailgylchu Deunyddiau Nant-y-caws wedi golygu nad yw cyrraedd y targed o 64% ar gyfer cyfradd ailgylchu'r flwyddyn ariannol 2021/22 wedi bod yn bosibl. Mae hyn o ganlyniad i'r cyfyngiadau a sefyllfa anodd yn y farchnad sy'n wynebu Cwm Environmental a'r Cyngor yn dilyn y tân a pharhau i orfod dibynnu ar gyfleusterau trydydd parti drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn parhau i fod yn wir wrth fynd i mewn i 2022/23; fodd bynnag, mae gennym gynlluniau penodol ar gyfer gwella swm ac ansawdd yr hyn a gaiff ei ailgylchu wrth symud ymlaen.

Cynnydd ar y camau yr ydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Mynd i'r afael â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

🕒 Datganiad o Argyfwng Natur:

! Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng natur ac rydym yn sefydlu Panel Ymgynghorol ar Newid yn yr Hinsawdd ac Argyfwng Natur i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rydym yn cyflwyno sawl prosiect i sicrhau adferiad natur:

- Mae gennym gynefinoedd rhostir a chors yn Figyn, Mynydd Figyn a Charn Mynydd Ystyfflau.
- Rydym wedi adfer pwll ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain y gellir ei ddefnyddio nawr ar gyfer pilcota mewn pyllau.
- Rydym wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt i hyfforddi staff a defnyddio twneli olrhain ar gyfer monitro pathewod.
- Wedi prynu offer torri gwair i arbrofi gydag arferion cyfeillgar i bryfed peillio.

 Yn 2020/21, Cafodd 539 o goed eu torri* 62% o goed ynn oedd â chlefyd coed ynn, 30% fel rhan o fesurau atal llifogydd (mae'r coed hyn yn debygol o aildyfu), 8% o rywogaethau eraill a oedd yn fygythiad annerbyniol i bobl ac eiddo	 Yn 2021/22, Cafodd 994 o goed eu torri* 88% o goed ynn oedd â chlefyd coed ynn, 10% fel rhan o fesurau atal llifogydd (mae'r coed hyn yn debygol o aildyfu), 2% o rywogaethau eraill a oedd yn fygythiad annerbyniol i bobl ac eiddo	Rydym wedi plannu 2,167 o goed yn 2021/22 Mae hyn yn golygu ein bod wedi plannu 1,173 yn fwy o goed nag a gafodd eu torri yn 2021/22
Yn 2020/21, Cafodd 170 o goed eu plannu 	Yn 2021/22, Cafodd 2,167 o goed eu plannu 	

*Mae coed yn cael eu torri oherwydd clefyd coed ynn, difrod gan stormydd, am resymau diogelwch, a rhai gofynion datblygu

🕒 Ffosffad mewn Afonydd

! Mae tystiolaeth newydd ynghylch effeithiau niweidiol ffosffadau ar ecosystemau dŵr a rhywogaethau wedi arwain at gyhoeddi targedau newydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i leihau lefelau ffosffad afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ledled Cymru. Rydym wedi gweithredu sawl ymyrraeth gadarnhaol, a nodir rhai ohonynt isod:

- Datblygu a gweithredu'r Cyfrifydd Maetholion cyntaf a'r unig un yng Nghymru.
- Cyhoeddi [tudalen we ffosffadau](#) sydd wedi'i hefelychu gan awdurdodau eraill.

Cyflawni cynllunio yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

	Cyhoeddodd Archwilio Cymru'r adroddiad ' Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio ' ym mis Gorffennaf 2021 a oedd yn cynnwys 17 o argymhellion ac a oedd yn datgan: "Mae angen mynd i'r afael ar frys â materion arwyddocaol a hirsefydlog o ran perfformiad yn y gwasanaeth cynllunio i helpu i wireddu uchelgeisiau'r Cyngor". Gweithredwyd amrywiaeth o ymyriadau i ganolbwyntio ar gyflawni'r argymhellion ac mae newid mewn perfformiad wedi'i gyflawni.
---	--

🕒 Bu gwelliant sylweddol ynghylch penderfynu ar geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn. Dangosir hyn gan y canlyniadau Diwedd Blwyddyn 2021/22 canlynol:

	2020/21	2021/22	Gwelliant yn ôl
% y ceisiadau y penderfynwyd arnynt mewn pryd (PAM/018)	60.3% (735 o 1,219)	80.8% (1,536 o 1,900)	20.5%
% yr apeliadau cynllunio a gafodd eu gwrthod (PAM/019)	53.8% (7 o 13)	76.5% (13 o 17)	22.7%

Mae cymeradwyo ceisiadau cynllunio mawr yn cael effaith sylweddol ar greu swyddi ac mae'r gwelliannau a wnaed wrth gynllunio yn ystod 2021/22 wedi arwain at greu 539 o swyddi amser llawn a 52 o swyddi rhan-amser (gan gynnwys 300 a leolir gyda'r Sir) o'r 95 cais a gymeradwywyd. (Am ragor o wybodaeth gweler Amcan Llesiant 5 – Creu Mwy o Swyddi a Thwrf).

Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030

Cwblhawyd 2 Archwiliad Mewnol ar drefniadau Carbon Sero Net ac roedd eu sgoriau archwilio yn Uchel.

Archwiliad Mewnol	Sgôr	Systemau Da ar Waith	Llywodraethu Da
	Uchel	✓	✓
	Derbyniol		
	Isel		

- Mae ein prosiect Cam 1 Re:Fit Cymru bellach wedi ei gwblhau. Roedd hyn yn cynnwys amrywiol fesurau arbed ynni, gan gynnwys gosodiadau solar ffotofoltäig, yn 29 o'n hadeiladau annomestig gan gynnwys ysgolion. Disgwylir i Gam 1 arbed £315,726 | 675 tCO2e bob blwyddyn.

Wrth weithio tuag at Garbon Sero Net rydym yn ceisio lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau:

❶ Dolen i'r Adroddiad Blynyddol	2019/20	2020/21	2021/22	2020/21 o gymharu â 2021/22 % y newid
Adeiladau Annomestig				
Defnydd (kWh)	66,407,242	59,808,497	Data ddim ar gael	Data ddim ar gael
Allyriadau Carbon (tCO2e)	14,443	12,581	adeg ei gyhoeddi	adeg ei gyhoeddi
Goleuadau Stryd				
Defnydd (kWh)	3,925,149	3,875,843	3,599,124	7%
Allyriadau Carbon (tCO2e)	1,088	981	832	15%
Gostyngiad parhaus yn y defnydd blynyddol o drydan (kWh) yn 2021/22. Mae bron 100% o'r holl oleuadau stryd a reolir gan Cyngor Sir Caerfyrddin bellach wedi'u trosi i LED. Bydd arbedion yn y dyfodol yn gwastatáu nes bod technolegau mwy effeithlon o ynni ar gael a'u gosod.				
Milltired Fflyd				
Milltired (milltiroedd)	5,154,668	4,427,070	4,262,681	3.7%
Diesel a Ddefnyddir (Litrau)	1,419,336	1,267,437	1,320,551	4.2%
Allyriadau Carbon (tCO2e)	3,814	3,407	3,573	4.9%
Er bod cyfanswm y milltiroedd wedi lleihau fymryn, roedd yna gynnydd bach yng nghyfanswm y diesel a ddefnyddiwyd a arweiniodd at allyriadau uwch yn 2021/22 o gymharu â 2020/21. [Sylwer: Mae'r cyfrifiad BEIS yn offeryn amhenodol iawn sy'n tueddu at gyfartaledd cenedlaethol ar gyfer cerbydau fflyd. Gellid mireinio hyn trwy gyfrifo'r allyriadau carbon gwirioneddol ar gyfer pob cerbyd Cyngor Sir Caerfyrddin unigol. Deallaf y bydd Adolygiad Fflyd yn cael ei gwblhau erbyn Medi 2022 - mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at gaffael mwy o gerbydau trydan / allyriadau isel iawn (ULEV) a fydd yn lleihau allyriadau carbon yn sylweddol]				
Milltired busnes				
Milltired (milltiroedd)	3,971,513	2,251,986	2,511,091	11.5%
Allyriadau Carbon (tCO2e)	1,132	621	693	11.6%
Roedd yna ostyngiad sylweddol iawn mewn allyriadau yn 2020/21 o gymharu â 2019/20 (-45%). Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i effaith COVID-19 a arweiniodd at lawer mwy o weithio gartref a'r defnydd o TGCh a oedd yn lleihau'r angen am deithio. Er bod cynnydd ymylol wedi bod mewn milltired ac allyriadau carbon cysylltiedig yn 2021/22, nid yw'r allyriadau wedi dychwelyd i'r lefelau cyn COVID-19. [Sylwer: Mae'r cyfrifiad BEIS yn offeryn amhenodol iawn sy'n tueddu at gyfartaledd cenedlaethol ar gyfer cerbydau fflyd. Gellid mireinio hyn trwy gyfrifo'r allyriadau carbon gwirioneddol ar gyfer pob cerbyd unigol].				
Cyfanswm				
Defnydd (kWh)	70,332,391	63,684,340	Data ddim ar gael adeg ei gyhoeddi	
Milltired (milltiroedd)	9,126,181	6,679,056		
Ôl Troed Carbon (tCO2e)	20,477	17,590		

- Yn ogystal â chaffael yr holl drydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy, mae'r Cyngor wedi ymdrechu mewn ffyrdd eraill i leihau allyriadau carbon gan gynnwys newid goleuadau stryd i olau LED ynni isel ac uwchraddio ei fflyd i gynnwys ceir trydan a cherbydau sbwriel a graeanu sy'n fwy effeithlon o ran ynni.

	<u>Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Sero Carbon Net erbyn 2030:</u> Gorffennaf 2022 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am weithredu gan gyrrff cyhoeddus: <i>Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd trwy gydweithio'n effeithiol;</i> <i>Egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu eich cyflymder gweithredu;</i> <i>Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;</i> <i>Gwybod beth yw'r bylchau yn eich sgiliau a chynyddu eich capasiti; a</i> <i>Gwella ansawdd data a monitro i gefnogi'ch penderfyniadau</i>
---	--

DS: Mae'r adborth cynnar yn dangos ein bod yn un o'r ychydig awdurdodau yng Nghymru sydd â chynlluniau Net Sero Carbon yn eu lle

Prosiect Zero Sir Gâr 2030: Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgysylltu â miloedd o blant drwy'r fenter hon - ymdrech benodol i ddod â phobl ynghyd i gefnogi taith y Cyngor tuag at fod yn garbon sero net erbyn 2030. Mae plant ysgolion cynradd ledled y sir wedi cael eu herio i fod yn 'Archarwyr Prosiect Zero', gan rannu eu pwerau a'u syniadau gwych i helpu Sir Gaerfyrddin i fynd i'r afael â newid hinsawdd.



Y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a'r Cynllun Rheoli Traethlin

Archwilio Mewnol 	Amddiffyn rhag Llifogydd (Mai 2021) Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd fod yr Awdurdod yn rheoli perygl llifogydd yn unol â'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd.	Sgôr Sicrwydd: Uchel Derbyniol Isel Camau a gaiff eu holrhain i wella'r sgôr
--	--	--

- O gymharu â blynyddoedd blaenorol, nid yw 2021/22 wedi gweld cymaint o ddigwyddiadau llifogydd sylweddol a arweiniodd at fod nifer fawr o fusnesau a thrigolion Sir Gaerfyrddin yn dioddef yn sgil llifogydd mewnol. Wedi dweud hynny, arweiniodd gaeaf 2021/22 at lifogydd sylweddol mewn mannau ym mis Hydref; a dilynwyd hyn gan Stormydd Arwen a Barra ddiwedd Tachwedd a dechrau Rhagfyr. Nid oes gan y Cyngor gyfrifoldeb am lifogydd prif afonydd, mae hynny yn nwylo Cyfoeth Naturiol Cymru.
 - Mae ein gwaith o reoli digwyddiadau llifogydd wedi datblygu yn 2021 ac rydym yn defnyddio mwy o dechnoleg i gynghori ar berygl llifogydd a blaenoriaethu adnoddau.
 - Yn dilyn y digwyddiadau llifogydd yng Nghydsweli ym mis Hydref 2021, cawsom ymchwiliad ffurfiol ac rydym wedi gwneud cais llwyddiannus am arian grant Llywodraeth Cymru i wneud gwelliannau.
 - Rydym wedi cwrdd ag arweinwyr cymunedol ynghylch y risg bresennol o lifogydd a chynlluniau cyfalaf yn y dyfodol. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, i ddatblygu ymyriadau i reoli risg llifogydd lle bo hynny'n briodol.
 - Bydd symud o fesurau traddodiadol i amddiffyn rhag y môr i addasu'r arfordir yn allweddol yn y dyfodol. Yn ogystal, cafodd ein holl asedau arfordirol eu harchwilio, a chymerwyd camau i fynd i'r afael â diffygion yn unol â hynny.

- Yn 2021/22, ar ôl datblygu achosion busnes, cawsom £650,000 mewn grantiau refeniw a chyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Ar ben hynny, rydym wedi derbyn grantiau ar gyfer datblygu gwaith dichonoldeb ac achosion busnes ar gyfer amryw o weithiau lliniaru llifogydd penodol sydd werth tua £245,000.
- Eleni rydym wedi rheoli rhaglen waith gwerth £2.5 miliwn ar draws 15 o brosiectau lliniaru.

Tuag at Ddyfodol Diwastraff

	Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o'r Gwasanaethau Gwastraff a'r prif ganfyddiad oedd: "Mae'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol ac yn ddiweddar mae wedi drafftio strategaeth i wneud ei wasanaeth gwastraff yn fwy cynaliadwy, ond nid yw wedi cwblhau'r strategaeth na chael cynllun clir ar gyfer delio â'r nifer fawr o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn y sir" Mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael yn llawn ag argymhellion yr adroddiad wedi'i weithredu.
---	--

- Rydym wedi cwblhau ein [Strategaeth Wastraff](#). Mae'r strategaeth hon yn nodi'r ystyriaethau a'r mesurau a gynigir i wella'r gwasanaeth gwastraff yn y dyfodol er mwyn ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2024/25 a'r targed disgwylidig o 80% erbyn 2030.
- Cafodd ein gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ynglŷn â Strategaeth Wastraff y Dyfodol dros 4,000 o ymatebion gan lunio dyluniad ein gwasanaeth yn y dyfodol yn uniongyrchol. Rydym wedi gwrandao ar yr adborth hwnnw, ac o'r flwyddyn nesaf byddwn yn casglu cewynnau a gwydr ar wahân fel bod llai o wastraff i'w roi mewn bagiau du.

Ansawdd yr Amgylchedd Lleol

- Rydym ni wedi cyhoeddi [Cynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol 2022-2026](#) sy'n manylu ar gyfeiriad rheolaeth y Cyngor ar sbwriel yn y sir am y 4 blynedd nesaf.
- Rydym wedi ymateb i 5,026 o geisiadau ynglŷn â thipio anghyfreithlon gydag ymateb i glirio'r sbwriel o fewn 2.4 diwrnod ar gyfartaledd. Mae'r gyfradd ymateb hon wedi dychwelyd i'r cyfraddau fel yr oeddent cyn y pandemig.
- Rydym wedi gweithio gyda'n gwirfoddolwyr o gymunedau ledled Sir Gaerfyrddin i fynd i'r afael â materion Ansawdd yr Amgylchedd Lleol. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae'r cyngor, grwpiau cymunedol, ysgolion a phartneriaid wedi casglu dros 2,000 o fagiau o sbwriel a gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon o bob rhan o'r sir. Cyflawnwyd y canlyniad gwych hwn gyda chymorth bron i 1,400 o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed i helpu i gadw Sir Gaerfyrddin yn lân, gyda bron i 350 o sesiynau codi sbwriel wedi'u trefnu mewn partneriaeth â ni.



Data Perfformiad Glendid	2020/21	2021/22	Sylw
Mynegai Glendid Priffyrdd Cadw Cymru'n Daclus (STS/005a)	80.7% (740.5/918)	76.8% (903.5/1,176)	! Mae'r mesurau hyn yn unol â'r targed ond <u>maent wedi gostwng oddi ar y flwyddyn flaenorol</u> . Mae nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd eleni yn ôl i'r niferoedd cyn COVID ac rydym wedi rhagori ar nifer yr archwiliadau ac ardaloedd o leiniau problemus.
Byddwn yn cynnal lefel uchel o strydoedd yn lân (PAM/010)	98.1% (177/181)	94.1% (369/392) Mae'r canlyniad hwn yn uwch na'r Targed Cenedlaethol o 92%	

SIOP ETO

Agorodd Siop Eto ym mis Chwefror 2022 ac mae ymdeimlad o wefr go iawn yn ei nodweddu. Mae'n boblogaidd ymhlith pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd ac mae'n drysorfa o nwyddau domestig fforddiadwy o bob math, o offer chwaraeon, lluniau, addurniadau a llawer, llawer mwy. Mae'r rhain i gyd yn eitemau a fyddai fel arall wedi mynd i'r bin. Nawr maent yn cael ail-fywyd ac yn gallu bod o fudd i eraill.



Mae'r prosiect hwn yn ddechrau ar uchelgais hirdymor er mwyn i'r Cyngor sicrhau y gellir ailddefnyddio cymaint o'r eitemau hyn er budd yr amgylchedd a lleihau'r angen i greu rhagor o gynnyrch. Atal y gwastraff rhag mynd i mewn i'r ffrwd wastraff trwy drwsio ac ailddefnyddio yw'r nod cyffredinol fel bod pobl leol yn gallu elwa o'r prosiect.

Ers agor ddiwedd mis Chwefror mae dros 750 o eitemau wedi dod o hyd i gartrefi newydd, mae hyn yn cyfateb i ychydig llai na chwe thunnell o eitemau gwastraff yn cael eu hailddefnyddio yn hytrach na chael eu hanfon i safle tirlenwi. Mae staff y siop yn helpu siopwyr yn barhaus i chwilio am yr hyn sydd ei angen arnynt a nodi eitemau o sydd ddiddordeb iddynt neu yr hoffent eu gweld yn cael eu stocio yn y siop.

Mae gweithio ar y prosiect hwn mewn partneriaeth â CWM Environmental wedi caniatáu dull cydweithredol gyda thrigolion i ddarparu nwyddau y byddant yn elwa o'u prynu. Mae naws gymunedol i'r siop ac ein nod yw cysylltu gyda phobl tref Llanelli a'r Sir er mwyn gwneud i'r prosiect yma ddiwallu eu hanghenion a sicrhau eu bod yn gallu elwa ohono.



Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Mynd i'r afael â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016		
1	Cynghori a llunio ein hymateb i'r datganiad Argyfwng Natur a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021 Cam gweithredu rhif 15665	Mawrth 2023	Rosie Carmichael
2	Mae tair ardal newydd o goetir yn cael eu sefydlu ar gyfer creu cynefin bywyd gwyllt newydd a fydd yn cyfrannu tuag at adfer natur, dal a storio carbon, creu ardaloedd ar gyfer byd natur yn agos at y man lle mae pobl yn byw ac yn gweithio. Cam gweithredu rhif 15711	Mawrth 2023	Rosie Carmichael
3	Parhau i weithio gyda phartneriaid i ateb her niweidiol Ffosffad mewn Afonydd. Cam gweithredu rhif 15681	Mawrth 2023	Ian Llewellyn
B	Cyflawni cynllunio yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015		
1	Gweithredu'r CDLI mabwysiedig a monitro ei lwyddiant neu fel arall yn erbyn ei fesurau cyflawni a nodwyd gan sicrhau y cedwir at bolisiau, gweithdrefnau ac arferion. Cam gweithredu rhif 15674	Mawrth 2023	Ian Llewellyn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
2	Sicrhau bod penderfyniad ar bob Cais Cynllunio yn cael ei wneud o fewn amserlenni Llywodraeth Cymru y cytunwyd arnynt. Mesur PAM018	Mawrth 2023	Hugh Towns
3	Dysgu'r gwersi o'r adroddiad Cynllunio gan Archwilio Cymru a'r dull ymyrryd llwyddiannus a gymerwyd a'i ddefnyddio fel glasbrint os oes angen yn y dyfodol. Cam gweithredu 15682 (yn ymwneud â'r adroddiad archwilio yn unig)	Mawrth 2023	Rhodri Griffiths
C	Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030		
1	Datblygu Eco-Barc rhanbarthol strategol. Cam gweithredu rhif 15662	Mawrth 2023	Dan John
2	Llunio a rheoli'r gwaith o weithredu Cynllun Carbon Sero Net yr Awdurdod i gyflawni ymrwymiad y Cyngor i fod yn awdurdod lleol Cynllun Carbon Sero Net erbyn 2030. Cam gweithredu rhif 15699 + 15705	Mawrth 2023	Kendal Davies
D	Y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a'r Cynllun Rheoli Traethlin		
1	Rheoli a lliniaru perygl llifogydd o fewn ein cymunedau. Cam gweithredu rhif 15993	Hydref 2024	Ben Kathrens
E	– Tuag at Ddyfodol Diwastraff		
1	Cynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol drwy leihau llygredd sbwriel, gan greu amgylchedd iach a diogel. Cam gweithredu rhif 15689	Medi 2022	Geinor Lewis
2	Gwella'r ffordd yr ydym ni'n rheoli gwastraff yn Sir Gaerfyrddin, gan gynyddu faint o wastraff sy'n cael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Cyflawni yn erbyn strategaeth genedlaethol y tu hwnt i ailgylchu. Mesur PAM030	Mawrth 2024	Dan John



Cliciwch [yma i gael gweld ein hymrwymadau cynnydd manwl a'n targedau](#) o ran yr amcan hwn.



Amcan Llesiant 11

Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Dirywiad parhaus y seilwaith priffyrdd

Rydym wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg sydd wedi canolbwyntio ar fuddsoddiad mewn arwynebau ffyrdd yn bennaf ar y ffyrdd dosbarth uwch.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig


- Mae cludiant a phriffyrdd yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a chynnal ein cymunedau, mae'n darparu'r seilwaith hanfodol sy'n cysylltu pobl â'i gilydd, yn dod â chymunedau ynghyd ac yn galluogi busnesau i dyfu ac ehangu. Mae economi lwyddiannus a modern yn dibynnu ar symud pobl a nwyddau yn effeithlon ac yn ddiogel a rhoi cyfleoedd i bobl gael mynediad at gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden a siopa.



Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ① Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

Ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael:



3.6% o'n rhai Dosbarth A

(Gwelliant ar 4.1% yn 2020/21)

2.8% o'n rhai Dosbarth B

(Gwelliant ar 3.4% yn 2020/21)

11.8% o'n rhai Dosbarth C

(Gwelliant ar 12% yn 2020/21)

Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar

y ffyrdd yn ystod 2021 **81**

(2^{il} uchaf yng Nghymru)

(55 yn 2020)

Ffynhonnell: Stats Cymru

○ Mae cyflwr ein prif ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin wedi gwella yn ystod 2021/22.

Mae gan Sir Gaerfyrddin yr ail rwydwaith priffyrdd mwyaf yng Nghymru, mwy na dwbl cyfartaledd Cymru, ac er ein bod yn Sir wledig yn bennaf, mae gennym y trydydd swm uchaf o draffig. Trwy fuddsoddiad ychwanegol ac yn unol â'n dull sy'n seiliedig ar risg, rydym wedi gwella cyflwr ein prif ffyrdd, ac mae hyn o fudd i nifer fawr o ddefnyddwyr ffyrdd. O gymharu ag awdurdodau lleol eraill rydym yn dal o fewn y chwarter isaf ar gyfer cyflwr ffyrdd, felly mae angen mwy o fuddsoddiad i gynnal y seilwaith allweddol hwn nag sydd ar gael.

- Mae gan Sir Gaerfyrddin yr ail rwydwaith ffyrdd mwyaf yng Nghymru a'r lefelau traffig trydydd uchaf, sydd yn dylanwadu ar ystadegau gwrthdrawiadau ffyrdd. Yn 2020 gwnaeth y pandemig Covid atal lefelau teithio yng Nghymru yn gyffredinol, a gododd wedyn yn 2021 tuag at y lefelau cyn y pandemig. Mae hyn yn anffodus wedi arwain at gynnydd cysylltiedig yn nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd, o 55 yn 2020 i 81 yn 2021 (111 yn 2019). Mae'r tueddiadau cyffredinol yn parhau ar i lawr, ac mae ein Tîm Diogelwch Traffig a Ffyrdd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau brys i hyrwyddo gwell diogelwch ar y ffyrdd drwy addysg, gorfodi a pheirianeg. Mae mentrau penodol sy'n canolbwyntio ar feicwyr modur fel Dragon Rider yn darparu sesiynau hyfforddi i wella sgiliau reidio a'r fenter Bike Down sy'n darparu sesiynau hyfforddi i feicwyr modur er mwyn iddynt ddarparu sgiliau cymorth cyntaf mewn sefyllfaoedd brys i alluogi'r rheiny sy'n cyrraedd y safle gyntaf i gadw bywyd. Cynyddodd nifer y beicwyr modur a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd i 16 yn 2021 o 10 yn 2020 ond mae'n parhau i fod yn is na'r ffigurau cyn y pandemig o 25 yn 2019. Gostyngodd nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol i 5 yn 2021 (o 8 yn 2020 a 17 yn 2019). Mae ein gwaith gydag asiantaethau partner i ddylanwadau ar ostyngiadau pellach yn parhau gydag ystod o fesurau a digwyddiadau ymgysylltu, megis ein menter Pass Plus Cymru, lle rydym yn gweithio gyda hyfforddwyr gyrru i roi sgiliau gwell i'n gyrwyr ifanc wrth iddynt fynd ar ein ffyrdd ac mae ein menter Mega Drive yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16 - 18 oed i wella ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd a chaiff ei darparu mewn partneriaeth â Gan Bwyll a'n gwasanaethau brys.

Cynnydd ar y camau yr ydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Datblygu seilwaith priffyrdd

⦿ Prosiectau allweddol:

- **Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands** – bydd hon yn cael ei chwblhau yn ystod Haf 2022. Mae hyn yn cynrychioli penllanw blynyddoedd lawer o gynllunio ac adeiladu i ddarparu prosiect allweddol sy'n agor mynediad at gyflogaeth strategol ac ardaloedd economaidd yn Cross Hands a'r ardal ehangach a bydd yn gwella llif traffig yn yr ardal yn sylweddol. Mae llwybr defnydd cyfun hefyd yn cael ei greu ar hyd y ffordd gyswllt i annog a chefnogi mwy o gerdded a beicio yn yr ardal.
- **Gwelliannau i Gyffordd 48 yr M4** - gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, cwblhawyd y cynllun gwella priffyrdd mawr hwn yng ngaeaf 2021. Mae'r prosiect wedi gwella llif traffig yn sylweddol yn y gyffordd hollbwysig hon sy'n gwasanaethu ardal Llanelli ac mae wedi lleddfu tagfeydd traffig.
- **Llwybr Dyffryn Tywi** - bydd y prosiect uchelgeisiol hwn yn creu llwybr cerdded a beicio 20Km oddi ar y ffordd sy'n cysylltu Caerfyrddin â Llandeilo ar lan Afon Tywi. **Rydym wedi sicrhau £16.7m o gyllid Ffyniant Bro i alluogi'r gwaith o ddatblygu a gwireddu'r prosiect allweddol hwn.**

- ⦿ Ar gyfer Teithio Llesol, rydym wedi gosod gorsafoedd llogi beiciau mewn mannau teithio allweddol megis Gorsaf Fysiau Caerfyrddin a Gorsaf Reilffordd Llanelli.

- ! Yn fewnol, mae angen cysoni ac addasu ein gwasanaethau er mwyn sicrhau y gallwn ymateb i'r heriau mawr sydd o'n blaenau. Mae angen datblygu a moderneiddio sawl un o'n systemau TG a gwybodaeth, mae ein gweithlu wedi addasu a bydd angen iddynt addasu ymhellach ar gyfer y dyfodol, er mwyn ein galluogi i drawsnewid ein prosesau gweithredol yn ddigidol i wella profiad cwsmeriaid ac effeithlonrwydd.

- ⦿ Gwasanaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n rheoli rhwydwaith helaeth o lwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd.

Math o Lwybr	Nifer y Llwybrau	Hyd (km)
Llwybr Troed	2956	2282.0
Llwybr Ceffylau	138	166.06
Cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig	88	81.3
Cilffordd Gyfyngedig	1	1.6
Cyfansymiau	3183	2530.96

*Medi 2022

Rydym yn gwella'r Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan. Bellach mae gennym 41 pwynt gwefru cyflym ar draws y sir. Rydym wedi lansio ein Strategaeth Seilwaith Cerbydau Trydan deng mlynedd. Mae'r hwb gwefru cyflym iawn, a welir yn y llun, wedi'i leoli oddi ar yr A48 yn Cross Hands a bydd yn darparu pedwar pwynt gwefru cyflym 50KW ac un pwynt gwefru cyflym iawn 150KW. Mae'r pwyntiau gwefru yn tynnu pŵer o ffynonellau ynni 100% adnewyddadwy a bydd y celloedd ffotofoltäig ar y to canopi sydd wedi'u cysylltu â batris storio wrth gefn ar y safle yn helpu i leihau'r trydan a gaiff ei dynnu o'r grid cenedlaethol. Ariennir y prosiect drwy Gronfa Cerbydau Allyriadau Isel iawn Llywodraeth Cymru.



Ein hwb gwefru cerbydau trydan newydd, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn Cross

Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig

- ⦿ Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu prosiect trafndiaeth strategol i deithwyr, y cyfeirir ato fel Metro De-orllewin Cymru. Bydd hyn yn darparu teithio cynaliadwy gyda choridorau rheilffyrdd a bysiau drwy'r rhanbarth ar hyd llwybrau coridorau allweddol sy'n integreiddio â chysylltiadau lleol.
- ⦿ Rydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu'r gwaith o gyflwyno bysiau trydan ar y gwasanaeth bws T1 sefydledig rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth (gweler yr astudiaeth achos) ac archwilio rôl bosibl a dichonoldeb treialu bysiau wedi'u pweru gan hydrogen yn y rhanbarth. Gall y prosiect cyffrous hwn gynrychioli ffynhonnell danwydd amgen allweddol ar gyfer y dyfodol gyda goblygiadau sylweddol ar dtrafnidiaeth.

- ! Mae'r diwydiant cludiant teithwyr wedi mynd trwy gyfnod cythryblus iawn ac mae ffactorau parhaus yn effeithio ar y diwydiant. Mae COVID-19 wedi cael effaith sylfaenol ar niferoedd teithwyr gan effeithio felly ar refeniw ar gyfer gweithredwyr. Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r diwydiant bysiau trwy'r cyfnod anodd iawn hwn ac mae dylanwadau byd-eang pellach megis prisiau tanwydd uchel, prinder gyrwyr a salwch staff yn parhau i greu heriau o fewn y diwydiant. Mae ein Tîm Cludiant Teithwyr wedi gweithio gyda gweithredwyr i'w cynorthwyo drwy'r cyfnod anodd hwn i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i gwsmeriaid. Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn teimlo'r pwysau o golli trafndiaeth gyhoeddus.
- ⊙ Er mwyn gwella profiad y cwsmer, rydym wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i osod 42 o arddangosfeydd Gwybodaeth Amser Real, cysgodfannau bysiau o'r radd flaenaf, arwyddion cyfeirio, a gwelliannau sylweddol i'r seilwaith yng ngorsafoedd bysiau Caerfyrddin a Llanelli. Nod y gwelliannau hyn yw annog pobl i symud i ffwrdd o'r car preifat a thrwy hynny gyfrannu at leihau carbon, cynhwysiant cymdeithasol a gweithgarwch economaidd, yn ogystal â gwneud ein canolfannau economaidd yn fwy deniadol, hygyrch a bywiog.

Cefnogi Trafnidiaeth Gymunedol a Gwledig

- ⊙ Rydym yn rheoli'r prosiect LINC yn llwyddiannus ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y rhwydweithiau Fflecsi, Bwcabus a Trawscymru, ac rydym yn darparu rôl arweiniol ynddo. Darparodd y mentrau hyn wasanaethau cludiant hanfodol drwy gydol COVID-19, gan alluogi gweithwyr allweddol i barhau i fynd i'w gwaith. Parhaodd y gwasanaeth i fod ar gael 6 diwrnod yr wythnos rhwng 7am-7pm drwy gydol y pandemig. Mae Bwcabus wedi ffurfio partneriaeth newydd gyda Viavan a Thrafnidiaeth Cymru ym mis Mai 2021, gan ddefnyddio system archebu newydd Trafnidiaeth Cymru a lansio'r gwasanaeth wedi'i ail-frandio sef Fflecsi Bwcabus ym mis Hydref 2021. Mae Fflecsi Bwcabus bellach yn galluogi teithwyr i archebu a rheoli teithiau drwy Ap yn ogystal â thrwy ganolfan alwadau newydd.

Strategaeth Diogelwch Ffyrdd

- ⊙ Mae terfyn cyflymder newydd o 20mya wedi cael ei gyflwyno mewn ardaloedd helaeth o Ogledd a De Llanelli. Mae'r ddau brosiect hyn a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi golygu gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol, cynrychiolwyr etholedig ac ysgolion.

Moderneiddio ein fflyd cerbydau

- ! Mae ein fflyd cerbydau yn rhan hanfodol o'r gwasanaethau a ddarperir ar draws y Cyngor. Mae parhau i gynnal ein fflyd a dod â cherbydau ychwanegol i mewn i gynnal gwasanaethau drwy'r pandemig COVID-19 wedi bod yn arbennig o heriol ond er hynny cafodd ei gyflawni. Tra bod y pandemig yn awr yn cilio, mae heriau newydd yn dod i'r amlwg megis prisiau tanwydd uchel, prinder gyrwyr ar draws y diwydiant logisteg a phrinder gosodwyr cerbydau sy'n parhau i fod yn brawf llym.
- ⊙ Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein Strategaeth Adnewyddu'r Fflyd a fydd yn cynnwys trosglwyddo i gerbydau â ffynonellau tanwydd cynaliadwy. Rhaid i hyn gyd-fynd yn ofalus â chyflenwad y farchnad wrth iddi barhau i ddatblygu i sicrhau bod y risgiau technolegol a'r risgiau ariannol i'r Cyngor yn cael eu lleihau a bydd angen sicrhau bod seilwaith ategol ar gyfer rhoi tanwydd a chynnal a chadw ar waith.
- ⊙ Mae cyflenwad y farchnad ar gyfer cerbydau trydan, ac yn enwedig ar gyfer ceir a faniau bach, wedi datblygu'n gyflym ac mae bellach yn darparu opsiynau cerbydau trydan dibynadwy ar gyfer ein Fflyd Cyngor. Er mwyn cefnogi'r trawsnewid hwn, sicrhawyd cyllid Llywodraeth Cymru i gyflwyno 2 gar adrannol trydan ychwanegol yn 21/22.
- Mae gennym hefyd y rhaglen ganlynol i osod 6 peiriant gwefru chwim a 13 peiriant gwefru cyflym yn ein depos:
- Depo Trostre (Llanelli) – 3 pheiriant gwefru chwim (50kW) a 6 pheiriant gwefru cyflym (7-22kW)
 - Depo Cillefwr (Caerfyrddin) – 2 beiriant gwefru chwim (50kW) a 4 peiriant gwefru cyflym (7-22kW)
 - Depo Cwmaman (Glanaman) – 2 beiriant gwefru cyflym (7-22kW)
 - Neuadd y Sir (Caerfyrddin) – 1 peiriant gwefru chwim (50kW) ac 1 peiriant gwefru cyflym (7-22kW)

Mae cyflenwad y farchnad ar gyfer nwyddau mwy a thrwm yn llai datblygedig ac mae yna heriau gweithredol. Mae ffynonellau tanwydd amgen fel hydrogen yn debygol o fod yn rhan o ddatrysiad yn y dyfodol, ond mae angen datblygu'r maes hwn ymhellach.

Bysus Trydan ar gyfer Gwasanaeth T1 TrawsCymru: O Gaerfyrddin i Aberystwyth

Rydym yn cyflwyno prosiect cyffrous mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru i adnewyddu'r fflyd bysiau cyfredol sy'n gweithredu'r gwasanaeth T1 Caerfyrddin i Aberystwyth gyda fflyd o fysiau trydan newydd sbon. Mae'r prosiect £5m+ hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys adeiladu depo bws newydd pwrpasol wedi ei leoli wrth ymyl safle Parcio a Theithio Nant-y-ci yng Nghaerfyrddin, oddi ar yr A40.



Bydd y gwasanaeth yn gweithredu gyda fflyd o 8 bws trydan newydd sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Mae disgwyl i'r fflyd newydd o fysiau trydan ddod i wasanaeth ym mis Medi 2022. Bydd miloedd o gwsmeriaid bob blwyddyn yn elwa o daith o ansawdd gwell ar gerbydau manyleb uchel gyda chyfleusterau wi-fi, gan wybod bod y daith yn cael ei gwneud ar gerbyd dim allyriadau.

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed	Perchennog/Swyddog Cyfrifol
A	Seilwaith Priffyrdd		
1	Cyflawni cynlluniau seilwaith allweddol Camau gweithredu 15713+15714	Medi 2022	Adrian Harries
B	Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig		
1	Byddwn yn parhau i weithio gyda chyrrff cenedlaethol a rhanbarthol i ddatblygu Metro De-orllewin Cymru i gefnogi'r targed lleihau carbon a'r economi leol Cam gweithredu 15759	Mawrth 2025	Stephen Pilliner
2	Monitro'r farchnad gyflenwi ar gyfer cludiant teithwyr i addasu gwasanaethau lle bo angen i newid mewn amodau cyflenwi Cam gweithredu 15764	Mawrth 2023	Alwyn Evans
C	Rhwydwaith Cludiant Ysgol		
1	Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - ailgynllunio rhwydweithiau er mwyn hwyluso symudiad disgyblion fel y nodir yn ein polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol Cam gweithredu 15767	Mawrth 2023	Alwyn Evans
D	Cefnogi Trafnidiaeth Gymunedol a Gwledig		
1	Datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Gymunedol i alluogi mynediad at wasanaethau hanfodol o gymunedau gwledig Cam gweithredu 15773	Mawrth 2023	Alwyn Evans
E	Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig		
1	Byddwn ni'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gwireddu gorsaf reilffordd newydd yn Sanclêr Camau gweithredu 15787/15788/15789	Tach 2023	Simon Charles
F	Moderneiddio ein fflyd cerbydau		
1	Diweddarau'r Rhaglen a'r Strategaeth Adnewyddu Fflyd i drawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel iawn a Seilwaith Depo Camau gweithredu 15716/15717/15718/15719/15720/15721/15722/15723	Mawrth 2023	Antonia Jones



Cliciwch [yma i gael gweld ein hymrwymadau cynnydd manwl a'n targedau](#) o ran yr amcan hwn.



Amcan Llesiant 12

Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru

Yn dilyn 2 flynedd heriol yn sgil effeithiau COVID-19 ar gyfer ein gwasanaethau diwylliannol, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddiogelu a gwella ein cynnig diwylliannol ar draws y Sir gyda buddsoddiad mewn cyfleusterau a gwasanaethau strategol allweddol.

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- ⊙ Mae gennym y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn ein sir o gymharu â gweddill Cymru, sy'n gwneud Sir Gaerfyrddin yn gadarnle strategol allweddol i ddyfodol y Gymraeg; fodd bynnag, ni hefyd yw'r sir sydd â'r gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011, sy'n golygu bod cymryd camau cadarnhaol yn hanfodol. Cydnabyddir yn eang fuddion cymdeithasol ac economaidd dwyieithrwydd, ac mae ymchwil yn dangos bod 86% o unigolion yng Nghymru yn teimlo bod yr iaith yn fuddiol i'r economi ac i unigolion trwy fuddion gwybyddol a chymdeithasol.
- ⊙ Mae'n bwynt gwerthu unigryw. Mae diwydiannau twristiaeth a lletygarwch ledled Ewrop bellach yn sylweddoli pwysigrwydd cynnig profiadau unigryw. Mae cael dwy iaith a synnwyr o hanes a diwylliant Cymru yn golygu bod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gref.
- ⊙ Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac mae angen cymryd camau cyson i ddiogelu ei defnydd fel iaith fyw.
- ⊙ Mae cyfran y plant sy'n caffael y Gymraeg yn y cartref wedi gostwng yn sylweddol dros yr hanner canrif ddiwethaf. Mae angen cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod pob plentyn yn gallu bod yn ddwyieithog.
- ⊙ Mae ymchwil wedi dangos bod pobl yng Nghymru sy'n mynychu neu'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau diwylliannol yn fwy tebygol o adrodd am lesiant goddrychol uwch a bod manteision iechyd meddwl posibl i'w gweld.



Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

Mae gennym
41.6%
o bobl sy'n gallu
siarad Cymraeg
(I fyny o'r canlyniad
blaenorol sef 37.4%)



% y bobl a ymwelodd â: Digwyddiadau'r Celfyddydau/Lleoedd
Hanesyddol/Amgueddfeydd

68.3%



I fyny o'r flwyddyn flaenorol
sef 67.4%

68.7%



I fyny o'r flwyddyn
flaenorol sef 64.7%

42.1%



I fyny o'r flwyddyn
flaenorol sef 34.6%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (maint y sampl 600)

Pobl sy'n gallu siarad Cymraeg

- ⊙ Dangosodd data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 fod **41.6%** o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn gallu **siarad Cymraeg** (yn seiliedig ar sampl o 600 o drigolion), dyma'r 3^{ydd} uchaf yng Nghymru gan symud uwchben Ceredigion am y tro cyntaf yn yr arolwg hwn. Mae ein canlyniad hefyd yn dangos gwelliant ar ganlyniad yr arolwg blaenorol sef 37.4%. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn rhoi syniad blynyddol da o nifer y siaradwyr Cymraeg; fodd bynnag, y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell sy'n rhoi ffigur poblogaeth gyfan, gyda 43.9% (78,000 o siaradwyr) wedi'u nodi yn 2011, y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw sir. Cyhoeddwyd canfyddiadau cychwynnol Cyfrifiad 2021 ym mis Gorffennaf 2022 a'r prif ddatganiadau ddwy flynedd ar ôl y Cyfrifiad (Gwanwyn 2023). Bydd hyn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth gadarnaf ar gyfer sgiliau Cymraeg yn y Sir.

Pobl a ymwelodd â Digwyddiadau Celfyddydol, Lleoedd Hanesyddol ac Amgueddfeydd

- Roedd y data diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 ar gyfer cyfranogwyr o Sir Gaerfyrddin **sy'n mynychu digwyddiad celfyddydol, ymweld â lle hanesyddol neu ymweld ag amgueddfa** wedi cynyddu. Roedd ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol ac amgueddfeydd yn is na chyfartaledd Cymru o 70.4% a 42.5%, ond mae'r % sy'n ymweld â lleoedd hanesyddol yn uwch na chyfartaledd Cymru o 62.5. *Noder bod y cwestiynau'n gofyn a oeddent wedi bod yn y lleoedd hyn yng Nghymru, ac nid yn Sir Gaerfyrddin o reidrwydd.*

Cynnydd ar y camau yr ydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Gweithredu a monitro Safonau'r Gymraeg

- Mae 30 aelod o staff o wahanol adrannau wedi derbyn hyfforddiant, ac wedi ein galluogi i gryfhau ymhellach ein rhwydwaith o arweinwyr iaith Gymraeg sydd â gwybodaeth estynedig am Safonau'r Gymraeg o fewn adrannau'r Cyngor.
- Gwnaethom ddarparu llif parhaus o gyfathrebu mewnol i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb o dan y Safonau ynghyd â chyhoeddi canllawiau a siartiau llif newydd a diwygiedig i hyrwyddo arferion gweithio priodol.
- Gwnaethom sefydlu cyfle newydd, misol ar-lein (Y Clwb Clebran) i'r staff ddefnyddio eu Gymraeg i liniaru effaith niweidiol bosibl y ffyrdd newydd o weithio ar sgiliau Gymraeg staff a'u gallu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Datblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau Addysg i gyd

-  Gweler Amcan Llesiant 3 - Datblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau (Addysg) i gyd

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

- Gwnaed gwaith helaeth i gasglu gwybodaeth a sefydlu cyfres o fesurau gan sefydliadau partner i lunio adroddiad ar Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2016-21.
- Gwnaed gwaith paratoi, gan gynnwys ymgynghori â sefydliadau partner, i ffurfio cyfeiriad newydd a chynnwys Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer 2022-27.
- Rydym wedi hwyluso'r Fforwm Iaith Sirol amlasiantaeth, gan drefnu cyfarfodydd chwarterol i yrru gwaith y Strategaeth Hyrwyddo yn ei flaen.
- Gwnaed gwaith rhyngadrannol helaeth i sefydlu'r Gymraeg wrth graidd gwaith datblygu economaidd y Cyngor, i sicrhau bod ein rhaglen adfywio yn cael ei chynnal mewn ffordd a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Hyrwyddo ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig

- Mae ein buddsoddiad mewn oriel arddangosfeydd ar lawr cyntaf Amgueddfa Caerfyrddin wedi ein galluogi i sefydlu partneriaeth gydag Oriel Genedlaethol Llundain, i arddangos gwaith celf a chasgliadau byd-enwog yma yn Sir Gaerfyrddin, gan godi proffil ein cynnig diwylliannol a'n gwaith o ymgysylltu â'n poblogaeth leol a'n hymwelwyr.
- Buddsoddwyd £500k yn Amgueddfa Parc Howard i adnewyddu'r to a chreu caffi newydd at ddefnydd y gymuned dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf. Gan weithio'n agos gyda Chyfeillion Parc Howard, Cymdeithas Parc Howard a Chyngor Tref Llanelli, mae cynlluniau yn cael eu gwireddu i adleoli derbynfa ac ardal adwerthu hygyrch ar gyfer yr amgueddfa, yn ogystal â gwella'r dehongli a'r arddangosfeydd.
- Bydd yr Amgueddfa Cyflymder Tir newydd, sy'n rhan o Brosiect Denu Twristiaid Pentywyn ac sydd hefyd yn cynnwys gwesty newydd 44 gwely, yn cael ei gwblhau ddiwedd Haf 2022. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Pentywyn dros y 2 flynedd ddiwethaf, bydd y prosiect hwn yn gwella ein cynnig Diwylliannol a Thwristiaeth ymhellach yn y Sir, wrth adfywio'r gyrchfan arfordirol allweddol hon, ychydig filltiroedd i lawr yr arfordir o gartref eiconig Dylan Thomas, y Boathouse yn Nhalacharn.
- Mae Archif newydd sbon gwerth £2m wedi'i chwblhau ac mae disgwyl iddi agor ym mis Gorffennaf 2022 wrth i'n casgliadau amhrisiadwy ddychwelyd i'r storfa newydd yn Llyfrgell Caerfyrddin.
- Ymgwymerodd ein gwasanaeth Theatrau Sir Gâr â phrosiect ymchwil a datblygu ar gyfer comedi Gymraeg newydd

- Llyfrgelloedd 24/7 - Mae datrysiadau Loceri yn cael eu gosod yn Llyfrgelloedd Hendy-gwyn ar Daf, Brynman a Chastellnewydd Emlyn i ganiatáu mwy o fynediad a hyblygrwydd i ddefnyddwyr allu archebu, gadael a chasglu llyfrau mewn lleoliadau gwledig. Mae mannau hunanlofnodi i mewn/allan yn awr wedi'u sefydlu ym mhob Llyfrgell gyda'r ap Llyfrgell Cymru gyfan bellach yn weithredol ar draws rhwydwaith llyfrgelloedd y Sir.



Cefnogi ein Gwobrau Diwyllianol Blynnyddol a hyrwyddo Pentref a Thref Diwylliant Blynnyddol

- Mae ein rhaglen Tref a Phentref Diwylliant yn ailddechrau, yn dilyn dwy flynedd anodd yn sgil effeithiau COVID-19, tra bod ein noson Gwobrau Diwylliant flynyddol wedi'i hail-sefydlu yn gynnar yng ngwanwyn 2022 gyda noson wych yn ein lleoliad blaenllaw yn Theatr y Ffwrnes, Llanelli, i ddathlu ein cynnig diwyllianol gwych a gwaith ein partneriaid a'n gwirfoddolwyr ar draws y Sir.

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Rydym wedi cydweithio ag Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn i sicrhau cyllid allanol a buddsoddi dros £2 miliwn i ailddatblygu a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor Parc yr Esgob, tir Hen Balas yr Esgob a chartref Amgueddfa Sir Gaerfyrddin yn Abergwili, Caerfyrddin. Mae Canolfan Ymwelwyr newydd ar gyfer y parc gyda chaffi â tho gwydr wedi'i gwblhau, gan ddod â hen adeiladau allanol y palas i ddefnydd y cyhoedd. Mae gwaith tirlunio i wella mynediad, rheoli cynefinoedd a gwarchod bioamrywiaeth, gydag arwyddion dehongli ar hyd a lled y parc, yn helpu pobl i fwynhau a chysylltu â'u treftadaeth a'u hamgylchedd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys gwirfoddolwyr a'r gymuned leol fel rhan o'r buddsoddiad hirdymor i'r safle, sydd hefyd wedi gweld yr awdurdod lleol a chyllidwyr allanol yn buddsoddi dros £1m yn adeilad yr Amgueddfa Sirol. Rheolir yr amgueddfa gan CofGâr, Gwasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir Gaerfyrddin. Mae adfer yr amgueddfa hanesyddol, creu mynedfa hygyrch, ac ailwampio'r orielau yn diogelu ac yn hyrwyddo casgliadau treftadaeth ddiwyllianol unigryw ein Sir. Mae arddangosfeydd a rhaglenni arbennig yn archwilio themâu sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, lles, a materion cyfoes, gan helpu pobl i ddysgu o'r gorffennol er mwyn gwella heddiw a chynllunio ar gyfer yfory.

Mae datblygiad cyfannol y safle a elwir bellach yn **Amgueddfa Sir Gaerfyrddin a Pharc yr Esgob** yn gydweithrediad unigryw yng Nghymru rhwng awdurdod lleol ac elusen. Mae cysylltedd yn werth cyffredin, sy'n helpu i adeiladu cymunedau mwy cydlynol, cydnerth, gan greu cyfleoedd i bobl fyw bywydau iachach, mwy cysylltiedig.

Mae'r prosiect yn fyw ac mae elfennau newydd yn parhau i gael eu hychwanegu. Bydd ramp hygyrch i'r Ddôl Fawr yn cael ei osod, gan greu mynediad i gynefin unigryw a oedd gynt mewn perchnogaeth breifat. Mae grant wedi'i ddyfarnu i'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu cynlluniau a chostau manwl ar gyfer yr Ardd Furiog, prosiect sy'n canolbwyntio ar effaith gymdeithasol, cynhyrchu bwyd cynaliadwy, a datblygu sgiliau. Ac wrth i Amgueddfa Sir Gaerfyrddin a Pharc yr Esgob ddod yn ganolbwynt pwysig ar ddechrau Llwybr Dyffryn Tywi, bydd manteision cerdded a beicio i gymunedau lleol, busnesau a thwristiaeth yn cael eu gwireddu.



Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Gweithredu a monitro Safonau'r Gymraeg		
1	Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithredu Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod 2022/23 (13280)	Mehefin 2023	Llinos Evans
2	Byddwn yn adolygu'r Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg cyfredol ac yn paratoi fframwaith i gynorthwyo adrannau i gynyddu defnydd o'r iaith wrth weinyddu (15486)	Mawrth 2023	Gwyneth Ayers
3	Byddwn yn cyhoeddi ac yn mabwysiadu polisi ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg (16112)	Mawrth 2023	Gwyneth Ayers
4	% y staff ar Lefel 3 o'r fframwaith sgiliau Cymraeg (Gwaelodlin 2021/22= ? %)	Dim targed	Gwyneth Ayers
5	Y % o swyddi a recriwtiwyd ar lefel ofynnol y swydd a hysbysebwyd (Gwaelodlin 2021/22=? %)	Dim targed	Gwyneth Ayers
6	Nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau dysgu a gwella sgiliau Cymraeg (Gwaelodlin 2021/22=?)	Dim targed	Gwyneth Ayers
B	Datblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau Addysg i gyd		
1	Gweler Amcan Llesiant 3		
C	Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg		
1	Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Sir a'r Cynllun Gweithredu o ystyried y cynnydd hyd yma a chanlyniadau Cyfrifiad 2021 y disgwylir iddynt ddod yn ystod y flwyddyn (14896)	Mawrth 2023	Gwyneth Ayers
2	Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg bresennol (16113)	Mawrth 2023	Llinos Evans
3	Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partneriaeth ar hyrwyddo'r Gymraeg yn Llanelli (16115)	Mawrth 2023	Llinos Evans
4	Byddwn yn arwain ac yn gweinyddu'r Fforwm Iaith Sirol ac yn cychwyn y gwaith o wireddu'r cynllun gweithredu diwygiedig (16116)	Mawrth 2023	Llinos Evans
5	Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwaith adfywio'r sir yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg (16117)	Mawrth 2023	Llinos Evans
D	Hyrwyddo ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig		
1	Byddwn yn gweithio gyda'r Tîm Marchnata a'r Cyfryngau a gwasanaethau allweddol eraill i osod y sylfeini ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a'i chroesawu i Lanymddyfri yn 2023 (16118)	Mehefin 2023	Llinos Evans
2	Byddwn yn cyflawni cynllun trawsnewid ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o ran Amgueddfeydd yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili, Parc Howard, Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli ac Amgueddfa Cyflymder Pentywyn i wella'r ddarpariaeth ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr. (13289)	Ebrill 2023	Ian Jones



Cliciwch [yma i gael gweld ein hymrwymadau cynnydd manwl a'n targedau](#) o ran yr amcan hwn.

Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well





Amcan Llesiant 13

Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn Well

Llywodraethu yn Well

Rydym wedi gwella trefniadau rheoli perfformiad

Rydym wedi:

- ◆ cynhyrchu Fframwaith Rheoli Perfformiad
- ◆ gwella'r ymgysylltu a'r sicrwydd wrth gynllunio busnes i wella arferion hunanasesu
- ◆ cyflwyno dulliau mwy integredig o reoli perfformiad yn chwarterol, monitro ac asesu

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- ⊙ Pwrpas cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella Llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn gwneud i hyn weithio mae meysydd allweddol o newid corfforaethol yn ofynnol gan y Ddeddf.
- ⊙ Mae'r disgwyliadau a'r galwadau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni 'mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai'.
- ⊙ Mae angen i'r ffordd rydym yn gweithio ganolbwyntio ar y tymor hir, gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu, cynnwys pobl yn fwy, atal problemau cyn iddynt ddod i'r amlwg a sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd integredig i fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau a lleihau dyblygu; un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

- 1 Cynllunio Corfforaethol
- 2 Rheoli Perfformiad
- 3 Cynllunio'r Gweithlu

A gwmpesir gan
Llywodraethu
yn Well

- 4 Cynllunio Ariannol
- 5 Asedau
- 6 Caffael
- 7 Risg

A gwmpesir gan
Gwell Defnydd o
Adnoddau




Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ① Ffynonellau tystiolaeth

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau


Mae **71.2%** o bobl yn cytuno y gallant gael gafael ar wybodaeth amdanom yn y ffordd maent yn ei dymuno (72.4% o'r blaen) (Cyfartaledd Cymru 74.9%)

Mae **74.6%** o bobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae **35.5%** o bobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch rhedeg ein gwasanaethau (9% o'r blaen) (Cyfartaledd Cymru 33.8%)



Salwch staff **11.4** o



ddiwrnodau'r flwyddyn (7.7 o ddiwrnodau o'r blaen)

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 :

- ⊙ Roedd **71.2%** o'r cyfranogwyr yn cytuno y gallent gyrchu gwybodaeth amdanom ni yn y modd roeddent yn ei ffafrio, mae hyn islaw cyfartaledd Cymru o 74.9%, ac rydym yn yr 17^{eg} safle.
- ⊙ Roedd **74.6%** yn cytuno eu bod yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu, mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 75.8% ac rydym yn yr 13^{eg} safle yng Nghymru.
- ⊙ Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 yn dangos bod **35.5% yn cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir ynghylch rhedeg ein gwasanaethau**, mae hyn yn welliant enfawr ar ganlyniad 2019/20 o ddim ond 9% ac mae'n uwch na

chyfartaledd Cymru o 33.8%. Mae cynnydd cyffredinol wedi bod ar draws yr holl awdurdodau ac o gymharu, rydym wedi symud i fyny i'r 5^{ed} safle o'r 21^{ain} safle yn flaenorol.

Salwch staff

- ⦿ Mae'r **ffigurau salwch** ar ddiwedd 2021/22 o **11.4 diwrnod Cyfwerth ag Amser Llawn (CALL)** 3.7 diwrnod yn uwch na'r llynedd ac yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2019/20 sef 11.2 diwrnod CALL (roedd perfformiad yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 yn 10.74 diwrnod CALL). Dyma ein ffigur salwch uchaf ers 2008/09 (11.7 diwrnod). **Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod hyn wedi cael ei effeithio gan absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â COVID-19, a oedd yn cyfrif am 2 ddiwrnod CALL y gweithiwr yn ystod 2021/22.** Mae data meincnodi cenedlaethol yn dangos bod y cynnydd hwn i'w weld ar draws yr holl ddiwydiannau, yn enwedig sectorau sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen/gweithredol lle'r oedd gweithio o gartref yn gyfyngedig.
- ⦿ Y meysydd gwasanaeth sydd â'r ffigurau absenoldeb salwch uchaf yw Gwastraff a'r Amgylchedd, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Mynediad i Addysg ac Eiddo Tai a Phrosiectau Arbennig ac Ysgolion Arbennig, sydd yn wasanaethau gweithredol rheng flaen yn bennaf sydd wedi bod ar flaen y gad wrth gefnogi ein cymunedau yn ystod y pandemig. Mae achosion absenoldebau yn cael eu monitro ac mae effaith a gwaddol COVID-19 yn parhau. Mae'r is-adran Rheoli Pobl yn darparu cyngor a chefnogaeth i reolwyr, sydd â'r cyfrifoldeb o reoli presenoldeb, maent yn cael data a dadansoddiad salwch i gynllunio camau priodol i sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli a bod gweithwyr yn cael eu cefnogi, yn unol â'n polisiau a'n canllawiau salwch.

Cynnydd ar y camau yr rydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Cynllunio Corfforaethol

- ⦿ Er mwyn barnu cynnydd y Strategaeth Gorfforaethol rydym yn pennu tabl o 44 o fesurau llwyddiant. Er i'r Pandemig COVID-19 ein taro oddi ar ein hechel, dros y 5 mlynedd diwethaf mae 60% o'r mesurau hyn wedi gwella ers dechrau'r Strategaeth. **Gweler Atodiad 2.**
- ⦿ Cafodd y Strategaeth Gorfforaethol ei diweddarau ddwywaith yn ystod ei chwrs i wneud yn siŵr bod ein Hamcanion Llesiant yn dal yn berthnasol a gwnaethom ymgynghori arnynt bob blwyddyn i sicrhau cefnogaeth barhaus. Ar gyfer pob un o'n 13 Amcan Llesiant gwnaethom nodi'r camau allweddol yr oeddem yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion ac yna nodwyd camau gweithredu a mesurau allweddol ar gyfer pob cam drwy gynlluniau busnes.
- ⦿ Yn ystod 2021/22 roedd yn amlwg bod y Pwyllgorau Craffu am weld gwelliant yn y mesuriadau a'r camau gweithredu a nodwyd mewn cynlluniau busnes fel y gallent ddal y Gwasanaethau i gyfrif a gweld sut oedd llwyddiant yn edrych. O ganlyniad i'r adborth hwn, ac mewn ymateb i ofynion newydd y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau sy'n ymwneud â pherfformiad a llywodraethu, mae mesur Cynllun Busnes a chynlluniau gweithredu SMART wedi'u gwella.
- ⦿ Er mwyn cryfhau ymhellach y gwaith o ddatblygu cynlluniau busnes adrannol sefydlwyd **proses Ymgysylltu a Sicrhau** swyddogion yn ystod 2021/22 i drafod cynlluniau busnes adrannol gyda phob Tîm Rheoli Adrannol.

Rheoli Perfformiad

- ⦿ Yn ystod 2021/22 **cyflwynwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd**. Mae'r fframwaith hwn yn nodi dull y Cyngor o fonitro a rheoli perfformiad gwasanaethau'r Cyngor.
- ⦿ Caiff camau gweithredu a thargedau i gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol eu monitro bob chwarter. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Aelodau'r Cabinet a'r pwyllgorau Craffu yn cael adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol yn ogystal â'r adroddiad diwedd blwyddyn.
- ⦿ Yn ystod 2021/22 **datblygom dull monitro perfformiad chwarterol mwy integredig**. Ychwanegodd yr adroddiadau mwy dadansoddol hyn ganfyddiadau ymchwiliad Craffu Gorchwyl a Gorffen gan Aelodau, adborth gan gwsmeriaid (cwynion a chanmoliaeth), canfyddiadau archwilio ariannol mewnol ac allanol, rheoli risg, rheoli pobl, rheoli asedau a data perthnasol arall i greu darlun mwy cyflawn o gynnydd.

ARCHWILIO MEWNOL



ADOLYGIAD O REOLI PERFFORMIAD

Amcan cyffredinol yr adolygiad oedd asesu digonolrwydd y trefniadau perfformiad ac adrodd sydd ar waith.

CAM GWEITHREDU

Mae cynllun gweithredu wedi'i ddrafftio i wella'r sgôr hon.

GRADDAU Y SICRWYDD

UCHEL	
DERBYNIOL	✓
ISEL	

ADOLYGIAD CYMDEITHAS

LLYWODRAETH LEOL CYMRU



ADOLYGIAD O DREFNIADAU HUNANASESU

Fel rhan o'n hymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd 2021 gwnaethom ofyn am gymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i asesu a herio digonolrwydd trefniadau hunanasesu'r Cyngor ac i ddarparu cyngor ynglŷn â pha ddatblygiadau pellach fyddai'n annog diwylliant o welliant parhaus.

ADOLYGIAD PARHAUS

- Fel Cyngor, mae gennym eisoes lawer o ddata yr ydym yn ei adrodd ac mae angen harneisio a chyfuno hyn yn well. Rydym am ddefnyddio data'n well ac ym mis Chwefror 2022 sefydlom uned '*Dealltwriaeth Data*' i sicrhau'n gorfforaethol ein bod yn dod yn awdurdod sy'n cael ei lywio gan ddata.
- ! Rydym yn cymryd agwedd asesu mwy beirniadol tuag at gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol fel nad yw'n nodi pa drefniadau sydd gennym ar waith yn unig ond pa mor dda y maent yn gweithio, sut rydym yn gwybod a beth allwn ni ei wneud yn well. Byddwn hefyd yn gwella'r amserlenni ar gyfer ei gynhyrchu.

Cynllunio'r Gweithlu (Rheoli Pobl)

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin tua 8,000 o weithwyr ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu at gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol. Rydym yn sicrhau bod yr holl staff yn cael eu rheoli a'u datblygu mewn ffordd deg a chyson.

- Mae ein staff yn cael eu hannog i ddatblygu, ac rydym wedi ein hachredu gyda Buddsoddwyr mewn Pobl.
- Yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol, byddwn yn **sicrhau bod dysgu a datblygu'n cyd-fynd yn llawn â blaenoriaethau corfforaethol**, gydag anghenion a chynlluniau trawsnewid wedi'u hintegreiddio i'n Strategaeth Gorfforaethol newydd.
- Mae rheoli presenoldeb a chefnogi **llesiant staff** yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor. Mae fframwaith a pholisi cadarn ar waith o ran rheoli presenoldeb ac mae'r swyddogaeth Iechyd Galwedigaethol yn cynnig cymorth a chynghor ar lesiant gyda'r nod o gadw pobl mewn gwaith, rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch byw'n iach, rheoli straen ac iechyd meddwl yn y gweithle. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig COVID-19 lle mae cymorth i staff wedi cael ei gynyddu trwy fentrau llesiant a pholisïau penodol i COVID-19.
- Yn ystod 2021 cyflwynwyd polisi rheoli presenoldeb diwygiedig ac e-ddysgu cysylltiedig fel cymorth pellach i reolwyr reoli presenoldeb yn effeithiol. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor, ac mae gwybodaeth reoli yn cael ei darparu'n rheolaidd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a rheolwyr gwasanaethau at ddibenion monitro.
- Gan ddefnyddio'r trefniadau llywodraethu presennol (Grŵp Strategaeth Pobl) bydd angen i ni adolygu ein strategaeth gweithlu yng ngoleuni'r pandemig i helpu'r sefydliad i adfer.
- Yn ystod 2021 cynhaliom sesiynau cynllunio gweithlu pwrpasol wedi'u hwyluso gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth; a datblygu dangosfwrdd data'r gweithlu ar-lein ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth. Mae angen i ni yn awr adeiladu ar y dysgu hwn ac ystyried effaith COVID-19 ar ein gweithlu a datblygu Cynllun Gweithlu Strategol.
- Nid yw ein harchwiliad **cyflog cyfartal** blynnyddol yn awgrymu bod unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu yn y strwythurau cyflog, nac yn y lwfansau a delir. Fel rheol, mae'r gwahaniaethau mewn cyflog oherwydd rhannu'r rhywiau yn ôl y mathau o swyddi yn hytrach na gweithredu lwfansau. Fel sy'n ofynnol, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Polisi Tâl bob blwyddyn i fod yn dryloyw ynghylch y cyflog y mae'n ei bennu i'w weithwyr. Cytunir ar y Polisi Tâl gan y Cyngor Llawn a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Mae'r pandemig COVID-19 wedi cyflymu symudiad i **weithio ystwyth** a'r bwriad yw y bydd hyn yn llywio sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei weithlu yn y dyfodol trwy ffyrdd mwy clyfar a gwell o weithio. Bydd hyn yn effeithio ar y gofynion am adeiladau a bydd yn cyfrannu at ein huchelgais i fod yn garbon sero net erbyn



2030 drwy leihau'r angen i deithio. Bydd y Polisi Teithio Staff yn cael ei adolygu er mwyn adlewyrchu'r newid i ffyrdd newydd o weithio.

- ⊙ Mae ein Polisi Datgelu Camarfer yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr i roi gwybod am bryderon difrifol a allai fod er budd y cyhoedd. Mae dysgu ar-lein, hyrwyddo'r polisi a monitro cwynion datgelu camarfer yn parhau i sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol ohono.

Llamu Ymlaen - Rheoli'r gweithlu yn strategol



Cynhaliodd Archwilio Cymru brosiect ledled Cymru i archwilio'r trefniadau cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol a'r dull o drawsnewid, addasu, a chynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Ar gyfer Sir Gaerfyrddin canfuwyd - *Bod y Cyngor yn gwella'r gwaith cynllunio strategol ar gyfer ei weithlu ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion capasiti staff mewn meysydd gwasanaeth allweddol ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau'r gwaith o fonitro perfformiad rheoli'r gweithlu.*

Sicrhau Cyfathrebu Allanol Effeithiol

Ers cyflwyno cyfrif Fy Hwb (ar gyfer gwasanaethau a thaliadau ar-lein), mae 78,163 o drigolion wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth. Rydym yn ychwanegu mwy o wasanaethau ar-lein ac yn adolygu'r e-ffurflenni presennol i sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio.

- ⊙ Mae'r Hwb yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli yn cynnig apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw a chynghor galw heibio i 8,000 o breswylwyr y mis ar gyfartaledd, yn ogystal â rhoi cynghor a mynediad i gymorth hyfforddiant a chyflogaeth. Bu'n rhaid gwneud hyn mewn ffordd wahanol yn ystod 2020/21 oherwydd y cyfyngiadau COVID19 a bod y sefydliadau wedi gorfod cau. Mae cwsmeriaid wedi gallu cysylltu ar-lein ac mae cyfarfodydd ffôn a rhithwir wedi'u cynnal. Mae'r defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol wedi caniatáu ymgysylltu a sgysiau agored ag aelodau'r cyhoedd. Yn ogystal â hyn, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o hyrwyddo gwasanaethau'r Cyngor.
- ⊙ Drwy gydol 2021/22 rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y trigolion a busnesau sy'n cyrchu gwybodaeth, cymorth a gwasanaethau'r cynghor ar-lein; mae nifer yr ymweliadau â'n gwefan wedi cynyddu 7% unwaith eto eleni.
- ⊙ Yn ddiau, mae'r pandemig wedi cefnogi'r cynnydd hwn o ran ymweliadau â'r wefan ac mae'r ffordd rydym yn cyflwyno gwybodaeth yn ddwyieithog, yn aml ar fyr rybudd, wedi cael ei chroesawu a'i chanmol gan y cyhoedd.
- ⊙ Mae'n allweddol bod pobl yn gallu cyrchu gwybodaeth yn hawdd ac rydym yn falch o fod wedi cyrraedd y safon hygyrchedd eleni. Mae mor bwysig cofio bod trigolion, ymwelwyr a busnesau bellach yn cyrchu'r wefan mewn gwahanol ffyrdd ac, yn ddiddorol, mae 58.9% yn defnyddio eu dyfais symudol i wneud hynny. Mae hyn yn allweddol wrth ystyried sut i gyflwyno gwybodaeth i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chynulleidfa mor eang â phosibl.
 - ⊙ Ystadegau allweddol gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin 2021/2022
 - Tudalennau wedi'u gweld: 6,144,228
 - Sesiynau: 3017983
 - ⊙ Ystadegau allweddol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, marchnata drwy e-bost a fideo
 - 19.3m ar Twitter
 - 8.82m ar Facebook
 - Cyhoeddwyd 3259 o bostiadau
 - Ymdriniwyd â 4055 o bostiadau a 'ddaeth i mewn', ymholiadau drwy sylwadau, wedi'u hysgrifennu ar ein wal neu eu hanfon fel neges uniongyrchol
 - 53.3k o gliciau ar ddolenni
 - Facebook – Dilynwyr newydd – 1,201. Cyfanswm y dilynwyr: 20,451
 - Twitter – Dilynwyr newydd – 372. Cyfanswm y dilynwyr 11,151
 - 443,141 o negeseuon e-bost wedi'u hanfon at Fy Nghyfrif, busnesau a'r 3ydd sector. 267,018 o agoriadau unigryw.
 - Fideo - 115,800 o ymweliadau

Oes unrhyw un ar ei ennill?

Trechu Tlodi Gweithwyr

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi ei gyflogaion a'i weithwyr sydd ar y cyflogau isaf drwy **barhau i dalu tâl atodol y Cyflog Byw Gwirioneddol** i sicrhau bod ein gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf yn cael yr hyn sy'n cyfateb i £9.90 yr awr (gan gynnwys lwfansau sefydlog).

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Cynllunio Corfforaethol		
1	Yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 a chyhoeddi maniffesto'r weinyddiaeth newydd byddwn yn ailosod y Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant (15488)	Gorffennaf 2022	Gwyneth Ayers
2	Byddwn yn datblygu ymhellach brosesau cynllunio busnes a dulliau ymgysylltu a sicrwydd. (15496)	Gorffennaf 2022	Gwyneth Ayers
B	Rheoli Perfformiad		
1	Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a'n prosesau hunanasesu (15496 + 15487)	Mawrth 2023	Rob James
2	Byddwn yn parhau i ddatblygu ein hadroddiadau ar Arsylwadau Rheoli Perfformiad Chwarterol Integredig (15496)	Mawrth 2023	Rob James
3	Byddwn yn gwella'r amserlen ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol (16134)	Mawrth 2023	Helen Pugh
4	Datblygu cynllun ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer yr awdurdod (15580)	Mawrth 2023	Deina Hockenhull
C	Cynllunio'r Gweithlu (Rheoli Pobl)		
1	Byddwn yn datblygu Strategaeth Trawsnewid newydd; yn sicrhau bod blaenoriaethau a rhaglenni Dysgu a Datblygu yn cyd-fynd yn llwyr â blaenoriaethau ac anghenion corfforaethol; gan ddatblygu Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Cyngor ymhellach i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol allweddol (15516)	Medi 2022	Jon Owen
2	Gwella ein prosesau recriwtio ymhellach drwy gyflwyno system TG integredig newydd ar gyfer recriwtio. (IIP) #(15512+15507)	Mawrth 2023	Alison Wood / Jon Owen
3	Byddwn yn gwerthuso profiad y gweithwyr ac yn gwneud gwaith ymchwil i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â'r Gweithlu a fydd yn sail i'r strategaeth gweithlu newydd (15499+15500+15501)	Mehefin 2022	Cheryl Reynolds
4	Byddwn yn datblygu atebion ataliol mwy rhagweithiol megis hybu iechyd da ac addysgu gweithwyr ar ddewisiadau ffordd iach o fyw. (15502)	Mawrth 2023	Heidi Font
5	Datblygu cyfres o fesurau perfformiad a chanlyniadau sy'n adlewyrchu uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer ei weithlu (16135)	Mawrth 2023	Cheryl Reynolds
D	Sicrhau Cyfathrebu Allanol Effeithiol		
1	Cyflawni strategaeth gyfathrebu gorfforaethol y cyngor gan ddilyn yr egwyddor allweddol <i>Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais</i> . Fel rhan o lansio'r strategaeth hon, cyfathrebu a gwreiddio safon cyfathrebu corfforaethol ar draws pob adran i sicrhau bod egwyddorion sylfaenol cyfathrebu yn cael eu deall a'u defnyddio gan bawb - er enghraifft, mae cyfathrebu bob amser yn hygyrch, yn ddwyieithog, yn gyfeillgar a chyda galwad glir i weithredu. (15569)	Awst 2023	Deina Hockenhull

Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Drwy gynllunio ariannol gofalus, rydym wedi gallu pennu cyllideb gytbwys a fydd yn cefnogi'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a bydd yn caniatáu i ni barhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i drigolion a busnesau Sir Gaerfyrddin

Pam mae'r Amcan Llesiant hwn yn bwysig

- ☉ Mae'r disgwyliadau a'r galwadau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni 'mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai'.

Pwrpas cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella Llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn gwneud i hyn weithio mae **7 o feysydd allweddol** o newid corfforaethol yn ofynnol gan y Ddeddf.

- 4 Cynllunio Ariannol
- 5 Asedau
- 6 Caffael
- 7 Risg

**Gwell
Defnydd o
Adnoddau**



How well are we doing (and how do we know)? ⓘ Sources of evidence

Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



5.85% o gynnydd taliadau ar-lein (O 53,454 i 56,582 o drafodion)

Yr Effaith Ariannol:

Rydym wedi gweinyddu ac wedi talu:



£78m o grantiau i gefnogi busnesau lleol

£3.4m o daliadau Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf.

£397.6k o Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai.

Dros £4m o Daliadau Cymorth Hunanynysu a chafwyd 10,754 o geisiadau.



Wrth i ni ddarparu Budd i'r

Gymuned darparwyd **548 o wythnosau person o** hyfforddiant recriwtio wedi'i dargedu

Mae **9.9%** o bobl yn cytuno ein bod yn gofyn am eu barn cyn pennu ein cyllideb (11.3% o'r blaen) (Cyfartaledd Cymru 9.2% ac yn y 9^{fed} safle) (Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru)



Taliadau ar-lein

- ☉ Oherwydd Pandemig COVID-19 a chan fod mwy o fynediad at y gwasanaethau ar-lein, mae hyn wedi creu newid naturiol gyda llawer o gwsmeriaid yn cysylltu â ni, yn cyflwyno ffurflenni a dogfennau, ac yn talu am ein gwasanaethau'n electronig gyda chynnydd o 5.85% yn nifer y taliadau ar-lein o 53,454 yn 2020/21 i 56,582 o drafodion yn ystod 2021/22.

'Costau cynnal' y sefydliad

- ☉ Rydym wedi gweinyddu cyfanswm o £78 miliwn o Grantiau Llywodraeth Cymru i Gymuned Fusnes Sir Gaerfyrddin i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnod heriol hwn.
- ☉ Ers mis Tachwedd 2021, rydym wedi gweinyddu'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf ac wedi prosesu 9,480 o achosion ac rydym wedi talu £3,409,200 i gefnogi trigolion Sir Gaerfyrddin.
- ☉ Rydym wedi talu £397,584 o Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai a hyd at ganol mis Mawrth cafwyd 10,754 o geisiadau Taliadau Cymorth Hunanynysu a thalwyd dros £4 miliwn i hawlwyd cymwys.


- Drwy ddarparu Buddion Cymunedol, cyflwynwyd dros 548 wythnos person o recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu gennym yn 2021/22 drwy brosiect Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor ar draws y Sir.
- Rydym wedi hawlio £27.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru drwy geisiadau caledi i gefnogi gwasanaethau COVID-19 ychwanegol. Rydym hefyd wedi hawlio £4.5miliwn yn ymwneud â cheisiadau oherwydd colli incwm.
- Er gwaethaf pwysau chwyddiant ar raddfa wirioneddol ddigynsail, llwyddodd y Cyngor i osod cyllideb gytbwys o £416 miliwn a oedd yn darparu digon o arian i gynnal lefelau gwasanaeth, gwireddu arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl, a chwtogi ar y dreth gyngor gymaint â phosibl i 2.5%.

Mae pobl yn cytuno bod y Cyngor yn gofyn am eu barn ac fel rhan o ymgynghoriad Cyngor Sir Gaerfyrddin ynghylch y gyllideb, rydym yn didoli barn aelodau a'r cyhoedd cyn pennu'r gyllideb

- Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 yn dangos bod nifer y cyfranogwyr a gytunai *ein bod yn gofyn am eu barn cyn pennu ein cyllideb* yn 9% (cyfartaledd Cymru 9.2%). Mae hwn yn ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol pan oedd yn 11.3% a bellach rydym yn y 9^{fed} safle (7^{fed} o'r blaen). Oherwydd COVID-19 nid oes data wedi'i ddiweddararu ar gael ar gyfer y mesur, er ein bod wedi parhau i gynnal ein hymgyngoriad cyllideb blyneddol ac ymgysylltu â chynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Cynnydd ar y camau yr ydym yn eu cymryd i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn

Cynllunio Ariannol



- Mae gan Sir Gaerfyrddin y cynnydd canrannol blyneddol 11^{eg} isaf sef 2.90% ac sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.67%. Dyma'r cynnydd canrannol isaf ers 2012/13 sef 2.38%. Lefelau Treth Gyngor Sir Gaerfyrddin yw'r 9^{fed} isaf yng Nghymru (Band D) sef £1,799.92 sydd bron £320 yn llai na'r lefel uchaf yng Nghymru ac sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o £1,777.18.
- Archwiliad o Ddatganiad Ariannol** – Cafwyd adroddiad Archwilio diamed gan Archwilio Cymru ar bob datganiad (blwyddyn ariannol 2020-21) ac ni ddaeth yr archwiliad o hyd i unrhyw fater o bwys ar wahân i faterion cyffredinol Cymru gyfan, o ystyried ein bod wedi ymgymryd â £140 miliwn o gyllid ychwanegol yn gysylltiedig â COVID-19 ar draws dwsinau o grantiau penodol.
- Cynhaliwyd dull cymysg o ganfod safbwyntiau ar gyllideb 2022-25 a rhoddwyd cyhoeddusrwydd i hyn yn y wasg leol a rhanbarthol, hysbysebion radio lleol a thrwy grwpiau cydraddoldeb gan gynnwys Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin, Fforwm Heneiddio'n Dda, Clymblaid Gweithredu dros Anabledd Sir Gaerfyrddin a thrwy Gyngorau Tref a Chymuned. Roedd y gyfradd ymateb yn isel, o bosibl oherwydd cyfyngiadau a phryderon yn ymwneud â COVID-19. Derbyniwyd ymatebion trwy dudalen ymgynghori ar-lein y Cyngor ar y wefan, cyflwynwyd negeseuon e-bost ynghyd ag ymatebion ar y cyfryngau cymdeithasol drwy Facebook a Twitter, a rhoddwyd ystyriaeth i bob sylw a safbwynt. [CYLLIDEB REFENIW 2020 i 2023 \(llyw.cymru\)](#)



- ⊙ Cwblhawyd 3 Archwiliad Mewnol yn ystod 2021-22 a oedd yn edrych ar y meysydd canlynol a dyma'r canfyddiadau archwilio:

ARCHWILIAD MEWNOL



SGÔR	Y DRETH GYNGOR	ARDRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL	DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL (DLLB)
UCHEL			
DERBYNIOL	✓	✓	✓
ISEL			

Rydym yn olrhain cynlluniau gweithredu i wella'r sgoriau hyn

Asedau

- ⊙ Cynhyrchwyd ychydig o dan £2.9m o dderbyniadau cyfalaf yn ystod 2021/22 sy'n rhagori ar ein targed o bron i £0.75m, ac mae hyn yn cwmpasu rhywfaint o'r diffyg o £0.4m yn 2019/20 a'r diffyg o £1.8m yn 2020/21.



LLAMU YMLAEN - RHEOLI ASEDAU YN STRATEGOL

Cynhaliodd Archwilio Cymru brosiect ledled Cymru i archwilio'r trefniadau cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol a'r dull o drawsnewid, addasu, a chynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Yn gyffredinol, canfuwyd: *Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli asedau ac yn cydnabod bod cyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o'r egwyddor datblygu cynaliadwy i wella'r gwaith hwn ac y gellid gwella'r modd y caiff perfformiad asedau ei reoli.*

Caffael

- ⊙ Rydym wedi mynd i'r afael â'r canfyddiadau allweddol, gan dynnu sylw at arferion da ac argymhellion o'r adroddiad 'Caffael Llesiant yng Nghymru' (cyhoeddwyd 25/02/2021) gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru [caffael-llesiant-yng-nghymru/](https://www.caffael-llesiant-yng-nghymru/).



- ⊙ Rydym wedi diwygio ein templed Asesiad Risg Cynaliadwy sy'n sicrhau bod modd ffactora'r materion cynaliadwyedd megis materion amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn y fanyleb ar gyfer tendrau unigol er mwyn ymgorffori elfennau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau yn ymwneud â'r 5 ffordd o weithio h.y. Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys. Rydym wedi llunio Polisi Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac wedi drafftio datganiad ysgrifenedig blynyddol cyntaf y Cyngor ar y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein sefydliad a'n cadwyni cyflenwi.

Risgiau

- ⊙ Mae'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob 6 mis, a chaiff ei hadolygu gan y Tîm Rheoli Corfforaethol bob chwarter fel rhan o'r wybodaeth rheoli perfformiad ac yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn defnyddio "**Meddalwedd ar y we ar gyfer Cofrestru Risgiau**", sy'n caniatáu i adrannau fewnbynnu, cyrchu, diweddarau a rheoli gwybodaeth ynghylch Risgiau Corfforaethol, Gwasanaethau a Phrosiectau.



Nododd adolygiad TIC (Trawsnewid i Wneud Cynnydd) a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021 'Er bod pandemig COVID-19 wedi effeithio i ddechrau ar y gallu i weithredu'r argymhellion yn Adolygiad y Swyddfa Archwilio a'r Adolygiad Archwilio Mewnol dilynol, mae nifer o gamau gweithredu allweddol bellach wedi'u rhoi ar waith ac mae cynnydd da wedi'i wneud ar draws y cynllun gweithredu yn gyffredinol.'



Sell2Wales

GwerthwchiGymru

Mae ein holl gyfleoedd caffael dros £25K wedi'u rhestru ar wefan GwerthwchiGymru.



Budd i'r Gymuned

Mae Budd i'r Gymuned wrth Gaffael yn y Sector Cyhoeddus yn sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yn cael eu hystyried yn ein gweithgarwch tendro.



Gwasanaeth Dod o hyd i Dendro

Mae'r Gwasanaeth Dod o hyd i Dendro yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ac yn arddangos gwybodaeth am gyfleoedd contract y sector cyhoeddus yn y DU.



Busnes Cymru | Business Wales

Busnes Cymru

Gall Busnes Cymru helpu busnesau bach a chanolig eu maint (sy'n cyflogi hyd at 250 o bobl), sydd am wella eu siawns o ennill contractau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.



Telerau ac Amodau

Mae'r telerau ac amodau hyn yn gosod allan Sylfaen y berthynas rhwng y Cyngor a'r cyflenwr llwyddiannus.

Mae busnes yn ymwneud â phobl

Rydym yn gwerthfawrogi ein hystod amrywiol o gyflenwyr ac yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i gael mynediad at amrywiol gyflenwyr o safon, gan gydnabod bod **busnes yn ymwneud â phobl trwy siarad â hwy, gwrando arnynt a'u deall**. I'r perwyl hwn, rydym wedi cynnal 7 Gweminar Fyw rithwir ar Dendro drwy gyfrwng Teams gyda chyfanswm o 164 o gyflenwyr yn bresennol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nod y sesiynau hyn oedd rhoi gwybod i ddarpar dendrwy am y cyfleoedd tendro sydd i ddod a gofynion y gwasanaeth/nwyddau hyn.

Rydym hefyd yn deall y gall y posibilrwydd o dendro am fusnes gyda ni weithiau ymddangos yn dasg frawychus. Felly, rydym wedi mynd ati i ymgysylltu â 63 o gyflenwyr trwy gyfres o sesiynau pwynt cyswllt cyntaf (cyfarfodydd 1-2-1) dros yr un cyfnod, gan ymgysylltu â chyflenwyr sydd â diddordeb mewn gweithio gyda'r Cyngor.

Trefnwyd digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr gan y prif contractwr a benodwyd sef Bouygues ar gyfer Datblygiad Parth 1 Pentre Awel a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets, Llanelli. Daeth cyfanswm o 107 o gyflenwyr/contractwyr i'r digwyddiad drwy gydol y dydd gyda Swyddogion Caffael a Budd i'r Gymuned yn cynrychioli'r Uned Caffael Corfforaethol yn y digwyddiad. Nod y digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr hwn oedd rhoi cyfle i gyflenwyr lleol ail haen ddysgu am gyfleoedd is-contractio posibl.

Rydym wedi datblygu Canllaw i Gyflenwyr ar gyfer darpar contractwyr, cyflenwyr a darparwyr a'r rhai presennol gyda'r nod o helpu i roi dealltwriaeth glir i sefydliadau sydd am weithio gyda ni ynglŷn â sut i wneud cynnig am gontractau a'r hyn sy'n ofynnol yn ystod y broses o gyflwyno dyfynbris neu dendr. Mae hwn bellach ar gael yn electronig ac mae'n ymddangos ar ein gwefan [Canllaw i Gyflenwyr ar Dendro \(llyw.cymru\)](#). Mae'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth, cyngor, ac arweiniad defnyddiol mewn perthynas â chaffael a "Sut i Dendro" gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.

Canllaw i Gyflenwyr ar Dendro

Yn yr adran hon

→ 1. Cyflwyniad

→ 2. Ar beth yr ydym ni'n gwario ein harian?

→ 3. Ble a gyda phwy mae ein harian yn cael ei wario?

→ 4. Sut yr ydym ni'n prynu

→ 5. Pa reolau, rheoliadau a gweithdrefnau caffael yr ydym yn eu dilyn?

→ 6. Sut mae'r broses dendro yn gweithio?

→ 7. Ble yr ydym yn hysbysebu ein cyfleoedd contract?

→ 8. Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Dogfennau Tendro?

→ 9. Awgrymiadau ar Dendro - Pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud

→ 10. Digwyddiadau Ymgysylltu â Chyflenwyr

→ 11. Beth alla i ei baratoi'n rhagweithiol ar gyfer Tendre?

→ 12. Geirfa Caffael

→ 13. Cyngor a chymorth

Beth a sut gallwn ni wneud yn well

Ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed	Perchennog/ Swyddog Cyfrifol
A	Cynllunio Ariannol		
1	Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i fuddsoddi yn y Sir a chefnogi datblygiad yn y dyfodol (Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin) (16063)	Mawrth 2023	Chris Moore/Randal Hemingway
2	Sicrhau bod y Cyngor yn rheoli ei gyllidebau'n effeithiol ac yn ddoeth (Symud ymlaen yn Sir Gaerfyrddin) (16064)	Mawrth 2023	Chris Moore/Randal Hemingway
3	Byddwn yn cau ac yn Archwilio'r Cyfrifon o fewn yr amserlenni priodol (16061)	Mehefin 2023	Chris Moore/Randal Hemingway
B	Asedau		
1	Byddwn ni'n dechrau gwaith ar drawsnewid hen Siop Debenhams i ddarparu canolfan aml-wasanaeth sy'n cwmpasu iechyd, addysg a hamdden	Mawrth 2023	Jason Jones/ Stephen Morgan
2	Gwireddu Cam 1 Pentre Awel i ddarparu cyfleusterau busnes, ymchwil, addysg, gofal iechyd cymunedol a hamdden modern (15155+12985)	Mawrth 2023	Jason Jones/ Stephen Morgan
3	Byddwn ni'n cymhwyso ac yn gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd y mae'n cynllunio, yn darparu ac yn monitro rheolaeth ei hasedau # Argymhelliad Archwilio Cymru - Llamu Ymlaen 16136	Mawrth 2023	Jason Jones/ Stephen Morgan
4	Byddwn ni'n gwella rheolaeth perfformiad ein hasedau. - datblygu cyfres o fesurau perfformiad a chanlyniadau sy'n adlewyrchu uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer ei hasedau ac yn monitro'r mesurau hyn ar lefel gorfforaethol, gan gynnwys adrodd i bwyllgor trosolwg a chraffu - meincnodi perfformiad ar reoli asedau gyda sefydliadau eraill # Argymhelliad Archwilio Cymru - Llamu Ymlaen 16137	Mawrth 2023	Jason Jones/ Stephen Morgan
5	Byddwn yn adolygu ac yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor yn ffurfiol erbyn mis Mawrth 2023. 15541	Mawrth 2023	Jason Jones/ Stephen Morgan
C	Caffael		
1	Byddwn yn gweithio gydag adrannau i ddarparu ymarferion tendro sy'n cydymffurfio trwy weithredu dull rheoli categorïau. (15286)	Mawrth 2023	Chris Moore/Helen Pugh/Clare Jones a Gemma Clutterbuck
2	Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o ymgysylltu'n gynnar â busnesau lleol – i wybod rhagor am hyn gweler y nodiadau. (15288)	Mawrth 2023	Chris Moore/Helen Pugh/Clare Jones a Gemma Clutterbuck
D	Risgiau		
1	Parhau i roi'r cynlluniau gweithredu ar waith a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru/Archwilio Mewnol, gan roi blaenoriaeth i sicrhau bod y Pecyn Cymorth Risg yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol a'i ddefnyddio i lywio sesiynau datblygu ar gyfer rheolwyr ar lefel is-adrannol a sesiynau datblygu penodol ar gyfer Hyrwyddwyr Risg Adrannol. (15292 (Is-gamau gweithredu: 14302, 14303 a 16040))	Mawrth 2023	Chris Moore/Helen Pugh/Julie Standeven



Cliciwch [yma i gael gweld ein hymrwymadau cynnydd manwl a'n targedau](#) o ran yr amcan hwn.

ATODIADAU




Gofynion statudol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn ôl y gyfraith: -

- Mae'n rhaidd i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw
'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'
- Mae'n rhaidd i ni ddangos defnydd o'r 5 ffordd o weithio:
Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol
- Mae'n rhaidd i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gweledigaeth a rennir y gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i ni, yn unol â'r Ddeddf, bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant oedd yn mwychau ein cyfraniad i'r Amcanion Llesiant.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'n disodli Mesur Llywodraeth Leol 2009. [Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn amlinellu dyletswyddau newydd mewn perthynas â Pherfformiad a Llywodraethu Prif Gyngorau](#) ac mae'n cynnwys dyletswyddau penodol ar gyfer y Cyngor:

- Dyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus;
- Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad;
- Dyletswydd i adrodd ar berfformiad – yn seiliedig ar ddull hunanasesu;
- Dyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel;
- Dyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ar y graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu sydd eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

Y gofynion perfformiad yw i ba raddau:

- yr ydym yn arfer ein swyddogaethau'n effeithiol.
- yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.
y mae ein llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Amcanion Llesiant 2021/22 Sir Gaerfyrddin			7 Nod Llesiant Cenedlaethol						
			Llewyrch	Cydnorthedd	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog a'r	Cyfrifoldeb Bydeang
Dechrau'n Dda	1	Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.	✓		✓	✓	✓		
	2	Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	✓		✓	✓	✓	✓	
	3	Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau i'r holl ddysgwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Byw'n Dda	4	Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	✓		✓	✓	✓		
	5	Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	✓		✓	✓	✓	✓	
	6	Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	7	Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	✓		✓	✓	✓	✓	
Heneiddio'n Dda	8	Cefnogi cydlyniant cymunedol, gwydnwch a diogelwch	✓	✓	✓	✓	✓		✓
	9	Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny	✓		✓	✓	✓	✓	
	10	Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus	11	Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	✓	✓	✓	✓	✓		
	12	Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	✓	✓		✓	✓	✓	
	13	Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Mesurau Llwyddiant ar gyfer ein Hamcanion Llesiant

Mae manylion ac esboniad o berfformiad ar gyfer pob un o'r mesurau llwyddiant hyn i'w gweld o dan yr Amcan Llesiant perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Mae'r golofn Canlyniad yn seiliedig ar y ddau ganlyniad diweddaraf.

Amcanion Llesiant a Mesurau Llwyddiant	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	Canlyniad	
WBO1 - Cychwyn Gorau mewn Bywyd								
Plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy (PAM/029)	9.2%	8.8%	10.4%	8.6%	4.7%	6.6%	Gostwng	
WBO2 - Plant – Ffyrdd iach o fyw								
Gordewdra yn ystod plentynodod (Rhaglen Mesuriadau Plant GIG)	29.4%	26.6%	30.4%				Gostwng	
WBO3 - Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniadau a deilliannau'r holl ddysgwyr								
Cyrhaeddiad addysgol - Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio (Disgyblion Blwyddyn 11) (PAM/032)			363.1	367.2			Gwell	
Cyfraddau presenoldeb ysgolion (Cynradd) (PAM/007)	94.8%	94.4%	93.9%	93.9%			Cyson	
Cyfraddau presenoldeb ysgolion (Uwchradd) (PAM/008)	94.5%	94.3%	93.8%	93.5%			Gostwng	
Bodlonrwydd ar ysgol gynradd plentyn (ACC)	93%	90%	84%	95%			Gwell	
Nifer y gadawyr nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs)	Blwyddyn 11 (PAM/009)	2.1%	1.4%	1.8%	1.5%	1.8%	1.1%	Gwell
	Blwyddyn 13 (5.1.0.2)	2.0%	3.0%	4.9%		3.5%	2.7%	Gwell
WBO4 - Taclo Tlodi								
Bwlch yn y sgôr 9 pwynt cyfartalog wedi'i chapio (Disgyblion Blwyddyn 11) ar gyfer y rheiny sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys (DLIC)			19.7%	17.9%			Gwell	
Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd (PAM/012)	64%	65.1%	59.4%	46.4%	46.4%	50.5%	Gwell	
Aelwydydd ag amddifadedd sylweddol (DLIC)	15.3%	15.8%	13.5%	11.3%		12.0%	Gostwng	
Aelwydydd sy'n byw mewn Tlodi (Data CACI's 'PayCheck')			35.5%	33.7%	33.8%	35.6%	Gostwng	
WBO5 - Creu Swyddi a Thwf								
Ffigurau cyflogaeth (SYG – Arolwg Poblogaeth Blynnyddol) (DLIC)	75.2%	73.7%	71.6%	71.7%	68.1%	69.6%	Gwell	
Tâl wythnosol gros cyfartalog (SYG – Arolwg Blynnyddol o oriau ac enillion)	£494.5	£517.8	£511.3	£536.2	£574.5	£566.9	Gostwng	
Nifer â chymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu'n uwch (StatsCymru) (DLIC)	37.4%	37.8%	38.0%	41.4%	39.9%	37.7%	Gostwng	
Pobl yn fodlon iawn neu'n lled fodlon ar eu swyddi (ACC) (DLIC)	80.0%	82.5%		78.9%			Gostwng	
WBO6 - Tai Fforddiadwy								
Nifer y tai fforddiadwy yn y Sir (7.3.2.24)	173	235	247	315	158	308	Gwell	
WBO7 - Bywydau Iach								
Oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda iawn (ACC)		69.0%	66.0%	69.6%	69.7%	68.6%	Gostwng	
Oedolion sy'n dweud bod ganddynt salwch hirdymor (ACC)		50.0%	53.0%	50.5%	51.2%	40.1%	Gwell	
Sgôr Llesiant meddwl oedolion (ACC) (DLIC) (Sgôr allan o 70)	50.2		51.1			48.8	Gostwng	
Oedolion sydd â llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach (CNC) (DLIC) (Dim ysmegu, yfed 14 o unedau neu lai, bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, meddu ar fynegai mäs corff iach, bod yn gorfforol egniol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol).		91.8%	91.2%	87.6%		92.4%	Gwell	

Mae manylion ac esboniad o berfformiad ar gyfer pob un o'r mesurau llwyddiant hyn i'w gweld o dan yr Amcan Llesiant perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Mae'r golofn Canlyniad yn seiliedig ar y ddau ganlyniad diweddaraf

Amcanion Llesiant a Mesurau Llwyddiant	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	Canlyniad
WBO8 - Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnherthedd a diogelwch							
% sy'n dweud bod ganddynt ymdeimlad o gymuned (ACC) (DLIC) (Yn deillio o deimlad o berthyn; gwahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, trin â pharch'.)	47.7%		51.6%		68.6%	68.0%	Gostwng
Pobl yn teimlo'n ddiogel (ACC) (DLIC) (Yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a theithio)	76.9%		76.1%		74.6%	66.7%	Gostwng
WBO9 - Heneiddio'n dda							
Cytuno bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal (ACC)	56.2%		47.5%		66.0%		Gwell
Nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PAM/015)	167 diwrnod	161 diwrnod	157 diwrnod	176 diwrnod	347 diwrnod	259 diwrnod	Gwell
Pobl sy'n unig (ACC) (DLIC)	17.1%	16.6%		17.3%		15.4%	Gwell
WBO10 - Amgylchedd Iach a Diogel							
Yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir (kWh)	670,400 kWh	937,330 kWh	979,071 kWh	997,480 kWh	1,059,364 kWh	Data ddim ar gael adeg ei gyhoeddi	
Defnydd Ynni'r Cyngor (kWh)			69,059,743 kWh	70,332,391 kWh	63,684,340 kWh		Gwell
Cyfraddau ailgylchu (PAM/030)	66.23%	63.64%	58.95%	64.66%	66.08%	61.68%	Gostwng
WBO11 - Priffyrdd a Thrafnidiaeth							
Cyflwr y ffyrdd PAM/020 Ffyrdd A	4.3%	4.1%	5.2%	5.4%	4.1%	3.6%	Gwell
PAM/021 Ffyrdd B	3.5%	3.1%	4.2%	4.7%	3.4%	2.8%	Gwell
PAM/022 Ffyrdd C	11.6%	11.9%	12.5%	12.5%	12.0%	11.7%	Gwell
Nifer a laddwyd/anafwyd mewn damweiniau ar y ffyrdd (5.5.2.21)	102	83	97	111	55	81	Gostwng
WBO12 - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru							
Medru siarad Cymraeg (ACC) (DLIC)	40.1%	43.6%	37.8%	37.4%		41.6%	Gwell
Pobl a fu mewn digwyddiadau ym maes y celfyddydau yng Nghymru y llynedd (ACC)	69.3%	67.4%		68.3%			Gwell
Pobl a wnaeth ymweld â lleoedd hanesyddol yng Nghymru y llynedd (ACC)	63.8%	64.7%		68.7%			Gwell
Pobl a wnaeth ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru y llynedd (ACC)	36.0%	34.6%		42.1%			Gwell
WBO13 - Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well							
Taliadau 'Ar-lein Amdani'	29,020	34,494	39,321	46,044	53,454	56,582	Gwell
Pobl yn cytuno y gallant gyrchu gwybodaeth am yr Awdurdod yn y ffordd y byddent yn ei dymuno. (ACC)		70.8%	72.4%	71.2%			Gostwng
Pobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu (ACC)		71.9%	72.1%	74.6%			Gwell
Pobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhedeg gwasanaethau'r awdurdod lleol. (ACC)		11.4%		9.0%		35.5%	Gwell
Lefelau absenoldeb oherwydd salwch staff (PAM/001)	10.8 diwrnod	10.1 diwrnod	9.8 diwrnod	10.7 diwrnod	7.7 diwrnod	11.4 diwrnod	Gostwng
Pobl yn cytuno bod y Cyngor yn gofyn am eu barn cyn pennu ei gyllideb. (ACC)		8.0%	11.3%	9.9%			Gostwng

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 yw'r canlynol, sydd ar gael ar lefel awdurdod lleol, ond ni ellir priodoli'r rhain i gyd i berfformiad y Cyngor

Lle bo'r un cwestiwn wedi cael ei ofyn mewn arolwg blaenorol, mae'r tabl isod yn dangos a ydym wedi gwella ein perfformiad a'n safle.

Yn yr AF	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}	
		Canlyniad blaenorol	Canlyniad arolwg 2021/22	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng↓	Canlyniadau Gwaethaf										Canlyniadau Gorau												
					Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol at ein sefyllfa 2021/22																						
1	✓	% Cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhedeg gwasanaethau awdurdodau lleol.	9.0	35.5	↑	18.0																					38.5
2	✓	Pobl yn cytuno y gall ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal (DLIC/23)	18.8	31.6	↑	14.6																					33.4
3		% o bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt (o fewn 15 i 20 munud o waith cerdded o'u cartref) (DLIC/24)	91.0	85.2	↓	72.5																					92.1
4		% Yn fodlon â'u gallu i gyrraedd gwasanaethau lleol y mae arnynt eu hangen	79.6	85.2	↑	72.5																					92.1
5		% Yn fodlon bod gwasanaethau a chyfleusterau da ar gael yn eu hardal leol (taith gerdded 15 i 20 munud o'u cartref).	64.4	65.8	↑	48.6																					86.9
6		% Yn fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw (DLIC/26)	88.4	90.3	↑	68.5																					96.4
7	✓	Gallu siarad Cymraeg (DLIC/37)	37.4	41.6	↑	O dan 8.2																					68.8
8		% o bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg. (DLIC/36)	30.4	32.1	↑	O dan 5.4																					60.4
9		% o oedolion sy'n gallu deall Cymraeg llafar	50.3	60.1	↑	12.2																					80.5
10		% o oedolion sy'n gallu darllen Cymraeg	38.9	46.0	↑	O dan 10.4																					69.1

Yn yr AF	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}
		Canlyniad blaenorol	Canlyniad arolwg 2021/22	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	Canlyniadau Gwaethaf											Canlyniadau Gorau										
					Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol											at ein sefyllfa 2021/22										
11	% o oedolion sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg	35.2	41.9	↑	O dan 9.5																		Yr un fath			66.6
12	✓ A oes gan y cartref fynediad i'r rhyngwrwyd*	92.7	91.5	↓	87.0																					94.9
13	% a ddefnyddiodd y rhyngwrwyd (gan gynnwys Smart TV a dyfeisiau llaw)	92.4	91.3	↓	89.4																					96.7
14	% a gyflawnodd 5 sgil digidol yn ystod y 3 mis diwethaf**	73.1	72.0	↓	67.0																					83.7
15	% o bobl sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd chwaraeon neu weithgaredd corfforol	62.6	56.7	↓	43.4																					66.3
16	% o bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (DLIC/38)	35.1	35.2	↑	22.3																					42.6
17	✓ % o bobl sy'n teimlo'n ddiogel (DLIC/25) (yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac yn teithio)	74.6	66.7	↓	46.6																					85.0
18	% o bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn ei chartrefi ar ôl iddi dywyllu	96.8	95.3	↓	90.5																					99.0
19	% o bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn ei ardal leol ar ôl iddi dywyllu	84.4	80.7	↓	58.7																					89.9
20	% o bobl sy'n teimlo'n ddiogel ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu	82.5	76.2	↓	59.7																					89.9
21	% o bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn teithio yn y car ar ôl iddi dywyllu	96.6	97.3	↑	95.1																					99.4
22	✓ % o bobl sy'n cytuno bod cydlyniant cymunedol dda yn eu hardal leol (DLIC/27)	68.6	68.0	↓	38.9																					77.6
23	% o bobl sy'n teimlo ei bod yn perthyn i ardal leol	84.6	81.5	↓	70.6																					89.4
24	✓ % o bobl sy'n unig (DLIC/30)	17.3	15.4	↑	17.8																					7.0

Yn yr AF	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}	
		Canlyniad blaenorol	Canlyniad arolwg 2021/22	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng↓	Canlyniadau Gwaethaf											Canlyniadau Gorau											
					Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol at ein sefyllfa 2021/22 																						
25	Sgôr boddhad cyfartalog i'r system addysg yng Nghymru (graddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn 'eithriadol o ddrwg' a 10 yn 'eithriadol o dda')	6.0	6.9	↑	6.0																						7.2
26	% o'r bobl sydd ag unrhyw gynlluniau i ddechrau cwrs addysg neu hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf	23.1	23.2	↑	16.9																						33.8
27	% o'r bobl wnaeth gysylltu gyda'u cynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf. (h.y. gydag ymholiad, cwyn neu broblem)	12.9	15.7	↑	10.0																						24.2
28	% o bobl oedd yn cytuno fod eu cynghorydd lleol weithio'n agos gyda'u cymuned.	Cwestiwn newydd	38.8	Cwestiwn newydd	25.3																						58.1
29	% o bobl sydd â dealltwriaeth dda o beth mae eu cynghorydd lleol yn ei wneud ar gyfer eu cymuned leol.	Cwestiwn newydd	40.3	Cwestiwn newydd	32.6																						59.0
30	✓ % Oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda lawn	69.7	68.6	↓	64.1																						79.3
31	✓ % Oedolion sy'n dweud bod ganddynt salwch hirdymor	51.2	40.1	↑	41.1																						26.9
32	✓ % Oedolion sydd â fwy na dau ymddygiad ffordd o fyw iach ddim yn ysmygu / ddim yn yfed uwchben canllawiau wythnosol / bwyta pum neu fwy o rannau o ffrwythau a llysiau y diwrnod cynt / yn gorfforol weithgar am o leiaf 150 munud yn yr wythnos flaenorol /cynnal mynegai màs pwysau/corff iach	87.6	92.4	↑	83.1																						97.5
33	% o oedolion sy'n Smygu	16.2	15.7	↑	19.8																						6.3
34	% o oedolion sydd yn defnyddio e-sigarét	6.7	6.4	↑	10.3																						0.9
35	% o oedolion a defnydd alcohol wythnosol - dros 14 uned	21.5	15.1	↑	23.3																						8.9

Yn yr AF	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}	1 ^{af}		
		Canlyniad blaenorol	Canlyniad arolwg 2021/22	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng↓	Canlyniadau Gwaethaf											Canlyniadau Gorau												
					Mae'r saethau yn dechrau o'n sefyllfa blaenorol   at ein sefyllfa 2021/22 																							
36	% o oedolion sydd yn bwyta 5 dogn o lysiau a ffrwythau y diwrnod	21.7	33.5	↑	14.3																							42.4
37	% o oedolion sydd yn egnïol 150 munud yr wythnos	55.6	64.8	↑	38.3																							69.5
38	% o oedolion sydd yn egnïol llai na 30 munud yr wythnos	27.6	21.7	↑	50.1																						17.3	
39	% o oedolion sydd yn dros bwysau neu ordew (BMI 25+)	63.6	68.2	↓	79.9																						50.0	
40	% o oedolion sydd yn ordew (BMI 30+)	28.2	28.4	↓	36.5																						17.9	
41	✓ Graddfa Lles Meddyliol Oedolyn - cyfanswm sgôr (DLIC/29) (Allan o sgôr uwch rif o 70)	51.1	48.8	↓	46.1																						51.6	
42	✓ Aelwydydd lle ceir amddifadedd materol (DLIC/19)	11.3	12.0	↓	14.1																						7.1	
					* Aelwydydd â mynediad i'r rhyngrwyd: NODYN - Roedd arolwg 2021/22 yn seiliedig ar sampl o 12,500 yng Nghymru o'i gymharu â sampl llawer llai yn 2020/21 o ddim ond 3,500, ac mae'n bosib iawn eu bod wedi effeithio'r canlyniad ** Mae 5 sgiliau digidol yn 1. Bod yn ddiogel ac yn gyfreithiol ar-lein; 2. Datrys problemau; 3. Trawsactio; 4. Cyfathrebu; 5. Trin gwybodaeth a chynnwys.																							

Adroddiadau Rheoleiddiol 2021/22

Cyhoeddwyd sawl adroddiad rheoleiddiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

- Ceir rhai adroddiadau lleol sy'n benodol i Sir Gaerfyrddin, nodir y rhain mewn **print bras** isod.
- Mae adroddiadau Cenedlaethol/Thematis yn cael eu gwneud gan reoleiddwyr i edrych ar yr holl gynghorau yng Nghymru (mewn rhaglen integredig o waith yr ymgynghorwyd ac y cytunwyd arno gyda llywodraeth leol) i nodi arfer gorau.
 - Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion. Weithiau mae'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth Leol neu randdeiliaid eraill.
 - Efallai nad yw pob argymhelliad mewn adroddiadau yn berthnasol i Sir Gaerfyrddin oherwydd, mewn rhai achosion, efallai mai ni yw'r ardal o arfer gorau a gynigir, ein bod eisoes yn gwneud yr hyn a nodir neu efallai nad yw'n berthnasol.

Cyhoeddwyd y rhestr ganlynol o adroddiadau rheoleiddiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf:



<u>Awst 2021</u>	<u>Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio - Cyngor Sir Gaerfyrddin</u>
<u>Medi 2021</u>	<u>Adolygiad o Wasanaethau Gwastraff – Cyngor Sir Gaerfyrddin</u>
<u>Medi 2021</u>	<u>Adfywio Canol Trefi yng Nghymru</u>
<u>Medi 2021</u>	<u>Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021</u>
<u>Medi 2021</u>	<u>Darlun o Lywodraeth Leol</u>
<u>Hydref 2021</u>	<u>Darlun o Addysg Uwch ac Addysg Bellach</u>
<u>Hydref 2021</u>	<u>Darlun o Ysgolion</u>
<u>Medi 2021</u>	<u>Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Lleol - Effaith COVID-19, Adferiad a Heriau yn y Dyfodol</u>
<u>Tachwedd 2021</u>	<u>Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol - Cyngor Sir Gaerfyrddin</u>
<u>Tachwedd 2021</u>	<u>The Welsh Government's Warm Homes Programme</u>
<u>Rhagfyr 2021</u>	<u>Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn</u>
<u>Ionawr 2022</u>	<u>Cydweithio Rhwng y Gwasanaethau Brys</u>
<u>Ionawr 2022</u>	<u>Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2021 - Cyngor Sir Gaerfyrddin</u>
<u>Ebrill 2022</u>	<u>Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion</u>



<u>Tachwedd 2021</u>	<u>Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Sir Gar</u>
<u>Mai 2022</u>	<u>Adroddiad Arolygu ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cartref Mewnol - Cyngor Sir Gaerfyrddin</u>

<u>Mai 2021</u>	<u>Troi dysgwyr yn ddefnyddwyr y Gymraeg</u>
<u>Mai 2021</u>	<u>Creu platfform digidol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion</u>
<u>Mehefin 2021</u>	<u>Sut defnyddiodd ysgolion a cholegau'r grant recriwtio, adfer a chodi safonau (RACHS) neu'r grant dal i fyny ar gyfer dysgwyr ôl-16</u>
<u>Gorffennaf 2021</u>	<u>Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiadau thematig cenedlaethol 2020/2021</u>
<u>Gorffennaf 2021</u>	<u>Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig</u>
<u>Hydref 2021</u>	<u>Datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion</u>
<u>Rhagfyr 2021</u>	<u>Adnoddau Ategol: "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon"</u> <u>Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru - Adnoddau atodol</u>
<u>Ionawr 2022</u>	<u>Ysgolion pob oed yng Nghymru - Adroddiad ar heriau a llwyddiannau sefydlu ysgolion pob oed</u>
<u>Chwefror 2022</u>	<u>Crynodeb o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion ac UC Dau – hydref 2021</u>
<u>Chwefror 2022</u>	<u>Addysg Drochi Cymraeg - Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed</u>
<u>Mawrth 2022</u>	<u>Y Cwricwlwm i Gymru – sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?</u>
<u>Ebrill 2022</u>	<u>Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon, ond mae angen i ysgolion wybod – adroddiad i ddysgwyr</u>
<u>Mai 2022</u>	<u>Rhoi plant wrth wraidd dysgu</u>

Asesiad Perfformiad o ran i ba raddau yr ydym yn:

- arfer ein swyddogaethau'n effeithiol;
- defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; ac
- y mae ein llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ddyletswydd arnom i barhau i adolygu i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r 'gofynion perfformiad' uchod

Mae ein hunanasesiad yn defnyddio'r Amcanion Llesiant a nodir yng nghorff yr adroddiad hwn i fwrw golwg fwy cyfannol ar berfformiad y Cyngor.

Fodd bynnag, rydym hefyd wedi edrych ar berfformiad fesul adran i sicrhau asesiad cynhwysfawr.

Adran y Prif Weithredwr

Dyletswydd i Adolygu Perfformiad yn Barhaus Gofynion Perfformiad	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny? Sut gallwn ni wneud yn well? (gweler y pwyntiau bwled)
1. arfer swyddogaethau'n effeithiol,	<u>Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn cynnwys y Gwasanaethau Democrataidd</u> Mae'r gwasanaeth wedi perfformio'n dda yn ystod y cyfnod hwn er gwaethaf heriau sylweddol. Mae swyddogion wedi parhau i weithio'n agos gyda'r adrannau sy'n gleientiaid iddynt ac aelodau etholedig, a'u cefnogi Mae nifer y cwynion sydd wedi cael eu derbyn am y gwasanaeth yn parhau i fod yn isel iawn. • Diffyg capasiti ar gyfer cytundebau Adran 106. Mae adnoddau staff ychwanegol wedi'u sicrhau i fynd i'r afael â hyn. • Datblygu cynllun cyfranogi a deiseb i'r Gwasanaethau Democrataidd <u>TGCh a Pholisi Corfforaethol</u> Roedd ein Strategaeth Trawsnewid Digidol gyntaf ar gyfer 2017-2020 yn nodi blaenoriaethau a dyheadau digidol strategol y Cyngor ac yn sicrhau, pan ddechreuodd pandemig COVID-19, ein bod ni fel awdurdod a'n gwasanaeth mewn sefyllfa gref iawn i ymateb ac adfer. Mae'r adrodd blynyddol ynghylch y Strategaeth Trawsnewid Digidol yn dangos cynnydd da. Mae cynnydd da wedi bod o ran ein gwaith gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae Cynllun Llesiant wedi cael ei lunio. Mae cynnydd da wedi bod o ran Adroddiadau Blynyddol Allweddol y Cyngor ynghylch Cydraddoldeb, y Gymraeg a chynnydd cyffredinol y Cyngor ar Strategaeth Gorfforaethol. • Mae adnoddau a chapasiti TG yn gyfyngedig i ateb y galw cynyddol am drawsnewid. • Gellir gwneud mwy o ran gwella ein Diogelwch (Seiber) ac Adfer mewn Argyfwng. • Parhau i wella'r ymagwedd at ymgorffori monitro perfformiad chwarterol integredig.

arfer
swyddogaethau'n
effeithiol,
(Parhad)

Rheoli Pobl

Parhaodd COVID-19 i gyflwyno heriau i'n gweithlu yn ystod 2021. Fodd bynnag, parhaodd ein gweithwyr i gamu i'r adwy i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl, gyda bron i fil o weithwyr yn barod i ailhyfforddi a chamu i mewn a helpu eu cydweithwyr, gan wneud swyddi gwahanol iawn mewn modd cadarnhaol a hynod gefnogol. Mae ein staff yn cael eu hannog i ddatblygu, ac rydym wedi ein hachredu gyda Buddsoddwyr mewn Pobl.



Un o'r pethau sydd wedi deillio o'r pandemig, ac sy'n risg sylweddol, yw gallu'r Is-adran i reoli mwy o swyddi gwag a'r galw am ein gwasanaethau; mae Brexiit wedi gwneud y sefyllfa'n waeth.

Mae problemau recriwtio helaeth wedi bod ym meysydd Gofal Cymdeithasol ac Addysgu.

Achrediad Iechyd Corfforaethol Platinwm ac wedi'i achredu i lechyd a Safonau Galwedigaethol (SEQHS).

Bu i adroddiad gan Archwilio Cymru ym Mehefin 2022 ganfod:

Bod y Cyngor yn gwella'r gwaith cynllunio strategol ar gyfer ei weithlu ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion capasiti staff mewn meysydd gwasanaeth allweddol ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau'r gwaith o fonitro perfformiad rheoli'r gweithlu. Llamu Ymlaen Rheoli'r Gweithlu - Cyngor Sir Caerfyrddin

- Datblygu Strategaeth Pobl newydd, gan sicrhau bod blaenoriaethau a rhaglenni Dysgu a Datblygu yn cyd-fynd yn llwyr â blaenoriaethau ac anghenion corfforaethol.
- Mae'r pandemig COVID-19 wedi cyflymu symudiad i weithio ystwyth a'r bwriad yw y bydd hyn yn llywio sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei weithlu yn y dyfodol
- Cytuno ar gyfres o Fesurau Perfformiad Rheoli Pobl a chryfhau'r egwyddor cynaliadwyedd.

Is-adran Adfywio

Mae pandemig COVID-19 a Brexit wedi effeithio'n sylweddol ar economi Sir Gaerfyrddin. Er mwyn ennill dealltwriaeth dda o'r sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin, cysylltom â thros 1,000 o fusnesau i gasglu tystiolaeth am effaith y pandemig ar ein busnesau, ar ddiweithdra ac ar economïau ein trefi gwledig a'n prif drefi. Fe wnaeth hyn ein helpu i sefydlu [Cynllun Adfer Economaidd](#) clir (ni oedd y cyntaf yng Nghymru i wneud hynny) gan roi blaenoriaeth yn syth i ddiogelu swyddi a chefnogi ein mentrau bach a chanolig i gynyddu. Rydym yn monitro'r cynllun gweithredu bob chwarter ac mae ar y trywydd iawn.

- Ym mhob un o'r canol trefi unigol, byddwn yn trosglwyddo'r gwaith o oruchwylio'r adfer i'r rhanddeiliaid yn y trefi. Mae pob un o'r cynlluniau yn rhoi sylw i brif faterion a chyfleoedd ac yn darparu fframwaith cyflawni o ymyriadau penodol ar gyfer y canol trefi.

Cymorth Busnes a Chabinet

Parhaodd yr Uned Fusnes i ymateb a chyfrannu at ymateb yr Awdurdod i'r pandemig mewn ffordd bragmataidd, gan sicrhau bod yr holl wasanaethau hanfodol i staff ac Aelodau yn cael eu blaenoriaethu a'u darparu, er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau craidd.

Cefnogodd yr Uned bob cyfarfod Gorchymyn Aur ar gyfer COVID-19 a llifogydd mawr. Rydym hefyd wedi cefnogi'r Bwrdd Sicrwydd Cynllunio a'r Bwrdd Ymyrraeth Cynllunio sy'n cyfarfod yn wythnosol.

- Fel rhan o well ffyrdd o weithio, byddwn yn parhau i weithio gyda rheolwyr unedau

busnes i ddatblygu prosesau a systemau di-bapur ymhellach.

- Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022, mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r weinyddiaeth newydd i ddatblygu Datganiad Gweledigaeth Cabinet a chytuno ar bortffolios aelodau.

Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestryddion

Mae'r Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil yn wasanaethau statudol. Mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn cynnwys cofrestru genedigaethau, marwolaethau, marw-enedigaethau, priodasau a phartneriaethau sifil, darparu gwasanaeth tystysgrifau a darparu Seremonïau Dinasyddiaeth. Y Gwasanaethau Etholiadol sy'n gyfrifol am ddiweddarau a chynnal a chadw'r Gofrestr Etholwyr a chynnal pob etholiad sy'n berthnasol i Sir Gaerfyrddin. Mae gwaith y *Gwasanaeth Cofrestru* wedi bod o dan y chwyddwydr mor barhaus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil y pandemig byd-eang. Rydym yn rhedeg etholiadau'n llwyddiannus.

- I benderfynu a yw ein hamseroedd agor yn dal i fodloni tueddiadau cwsmeriaid ac anghenion busnes drwy gymryd rhan mewn ymgynghoriad perthnasol gyda'n cwsmeriaid, staff a rhanddeiliaid allweddol i geisio barn a fydd yn helpu i wneud penderfyniad ar wella gwasanaethau.
- Byddwn yn dadansoddi ein dangosyddion perfformiad, yn fewnol ac yn allanol.

Marchnata a'r Cyfryngau

Unwaith eto mae'r gwasanaeth Marchnata a'r Cyfryngau wedi chwarae rhan allweddol eleni yn y gwaith o gefnogi pob is-adran ar draws yr awdurdod i gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg wybodaeth berthnasol i drigolion, busnesau a rhanddeiliaid ledled y sir, gan sicrhau cysondeb a pherthnasedd ar draws pob gohebiaeth.

Yn ogystal â'r deunydd cyfathrebu allanol ychwanegol y mae wedi bod yn ofynnol i ni ei gyhoeddi, mae'r tîm wedi darparu amrywiaeth eang o gyfathrebu mewnol ychwanegol i gefnogi staff sydd wedi gorfod newid y ffordd maent yn gweithio gan gynnwys galw cynyddol am gyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod democrataidd rhithwir.

Mae'r Hwb yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli yn cynnig apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw a chynghor galw heibio i 8,000 o breswylwyr y mis ar gyfartaledd, yn ogystal â rhoi cynghor a mynediad i gymorth hyfforddiant a chyflogaeth. Bu'n rhaid gwneud hyn mewn ffordd wahanol yn ystod 2020/21 oherwydd y cyfyngiadau COVID19 a bod y sefydliadau wedi gorfod cau. Mae cwsmeriaid wedi gallu cysylltu ar-lein ac mae cyfarfodydd ffôn a rhithwir wedi'u cynnal. Mae'r defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol wedi caniatáu ymgysylltu a sgysiau agored ag aelodau'r cyhoedd. Yn ogystal â hyn, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o hyrwyddo gwasanaethau'r Cyngor.

Pasiom y *safon hygyrchedd* ar gyfer ein gwefan.

Ystadegau allweddol ar gyfer gwefan Cyngor 2021 / 2022:

- Tudalennau wedi'u gweld: 6,144,228
- Sesiynau: 3,017,983

Ystadegau allweddol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, marchnata drwy e-bost a fideo:

- | | |
|--------------------------------|--|
| - Cyrraedd 19.3m ar Twitter | - Cyrraedd 8.82m ar Facebook |
| - Cyhoeddwyd 3,259 o bostiadau | - Ymdriniwyd â 4,055 o bostiadau a 'ddaeth i mewn', ymholiadau drwy sylwadau, wedi'u hysgrifennu ar ein wal neu eu hanfon fel neges uniongyrchol |

	- 53.3k o gliciau ar ddolenni - Twitter: Dilynwy'r newydd – 372. Cyfanswm y dilynwy'r 11,151. - Fideo - 115,800 o ymweliadau - Facebook: Dilynwy'r newydd – 1,201. Cyfanswm y dilynwy'r: 20,451 - 443,141 o negeseuon e-bost wedi'u hanfon at Fy Nghyfrif, busnesau a'r 3ydd sector. 267,018 o agoriadau unigryw. • I gyflawni egwyddor allweddol y Cyngor sef Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais. Bydd y blaenoriaethau, y gwasanaethau a'r gweithgarwch a amlinellir yn y cynlluniau corfforaethol yn ysgogi'r modd y symudir y gwasanaeth ymlaen, a byddwn yn defnyddio ein hadnoddau ac yn canolbwyntio ar gyrraedd y blaenoriaethau hyn. • Nodi gwasanaethau eraill lle gellid ymdrin â'r ymholiadau cyswllt cyntaf drwy ddefnyddio'r Ganolfan Gyswllt/dull Hwb.
2 defnyddio adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;	<u>Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn cynnwys y Gwasanaethau Democrataidd</u> Mae Gwasanaethau'r Gyfraith yn defnyddio data rheoli i nodi ble mae diffyg capasiti o fewn y gwasanaeth, ac os oes angen, ble mae gwaith yn cael ei allanoli. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy'r broses ddemocrataidd yn amserol. Mae asesiad effaith integredig newydd a thempled ar gyfer adroddiadau pwyllgor yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno yn 2022. Mae adroddiadau rheoleiddio ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Craffu ac Archwilio wedi cael sylw. • Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Gwasanaethau'r Gyfraith a'r gwasanaeth Pridiannau Tir <u>TGCh a Pholisi Corfforaethol</u> Rydym yn llunio Adroddiad Blynnyddol ar ein Strategaeth Trawsnewid Digidol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Bydd TGCh yn sail i fentrau Gwell Ffyrdd o Weithio. Mae ein Hadroddiadau Blynnyddol ar Gydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg yn dangos cynnydd da yn y meysydd hyn. Roedd gan ein Hadroddiad Blynnyddol ar ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant dystysgrif gydymffurfio gan ein rheoleiddwyr, Archwilio Cymru. Cafodd Fframwaith Rheoli Perfformiad ei gyflwyno, a chomisiynwyd CLILC gennym i gynnal adolygiad o'n parodrwydd o ran Gofynion Perfformiad, a oedd yn nodi meysydd i'w gwella. Datblygwyd gennym adroddiad monitro perfformiad mwy integredig, gan ychwanegu ystod ehangach o dystiolaeth i'r broses. Rydym hefyd yn gwella trefniadau ymgysylltu a sicrwydd ar gyfer Cynlluniau Busnes Adrannol a Rhanbarthol. Daeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod ein trefniadau Perfformio yn Dderbyniol • Bu i'r adborth Craffu ofyn am ragor o fesurau a chynllunio gweithredu CAMPUS • Rydym am ddefnyddio gwybodaeth a data'n well, ac o ganlyniad rydym wedi sefydlu Tîm <i>Data Insight</i> i ddod yn gorff sy'n cael ei lywio'n fwy gan ddata. • Byddwn yn mynd i'r afael ag argymhellion adolygiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'n trefniadau hunanasesu. • Byddwn yn gwella ymgysylltu ac ymgynghori ar ein trefniadau hunanasesu. • Byddwn yn datblygu ymhellach ein trefniadau monitro perfformiad chwarterol integredig a'n trefniadau ymgysylltu a sicrwydd ar gyfer cynllunio busnes.

Rheoli Pobl

Mae 96 aelod o staff yn darparu cymorth rheoli pobl i'r sefydliad cyfan (tua 8,500 o weithwyr)

Mae Ffigwr Salwch y Cyngor ar ddiwedd 2021/22 o 11.4 diwrnod Cyfwerth ag Amser Llawn (CALL) 3.7 diwrnod yn uwch na'r llynedd ac yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2019/20 sef 11.2 diwrnod CALL (roedd perfformiad yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 yn 10.74 diwrnod CALL). Dyma ein ffigwr salwch uchaf ers 2008/09 (11.7 diwrnod). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod absenoldeb salwch cysylltiedig â COVID-19 wedi effeithio ar hyn, a oedd yn cyfrif am 2 ddiwrnod CALL fesul gweithiwr yn ystod 2021/22

Mae achosion absenoldeb yn cael eu monitro ac mae effaith a gwaddol COVID-19 yn parhau.

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi ei gyflogaeion a'i weithwyr sydd ar y cyflogau isaf drwy barhau i dalu tâl atodol y Cyflog Byw Gwirioneddol, ac mae hyn yn cefnogi ein Hamcan Llesiant Trechu Tlodi.

- Datblygu Strategaeth Trawsnewid sy'n adeiladu ar y Prosiect Gwell Ffyrdd o Weithio er mwyn gwella defnydd economaidd o adnoddau, Gwerth am Arian, cynhyrchiant, bywydau gwaith a ffocws ar gwsmeriaid.
- Gwella ein prosesau recriwtio ymhellach drwy gyflwyno system TG integredig newydd ar gyfer recriwtio. (Buddsoddwyr mewn Pobl)
- Byddwn yn gwerthuso profiad y gweithwyr ac yn gwneud gwaith ymchwil i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â'r Gweithlu a fydd yn sail i'r strategaeth gweithlu newydd
- Rydym yn datblygu rhagor o atebion ataliol rhagweithiol megis hybu iechyd da ac addysgu gweithwyr ar ddewisiadau ffordd iach o fyw.
- Cymorth pellach ac annog Cynllunio'r Gweithlu mewn Adrannau
- Datblygu mesurau perfformiad

Is-adran Adfywio

Mae dros 1,100 o swyddi eisoes wedi'u creu a thros 700 o swyddi wedi'u diogelu Rydym wedi dyfarnu contractau i fusnesau lleol, gan ddarparu cyfleoedd gwaith medrus yn yr economi leol a diogelu swyddi

Rydym wedi ymgysylltu ag ymhell dros 3,200 o fusnesau lleol ac wedi darparu cymorth hyfforddi i 900 o bobl.

Rydym wedi darparu dros £66 miliwn o Gronfeydd Adfer Busnes COVID-19 ar ran Llywodraeth Cymru

Rydym wedi llwyddo i ddarparu chwe ffair swyddi ym mhob un o'r prif drefi, i gefnogi sectorau lle mae heriau recriwtio difrifol.

% y bobl mewn cyflogaeth -	Y DU:	Cymru:	Sir Gaerfyrddin:
	74.7%	72.2%	68.6%

Mae Pentre Awel - sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe - yn dwyn ynghyd busnes, ymchwil, addysg, gofal iechyd cymunedol a chyfleusterau hamdden modern mewn un lleoliad gwyb ar hyd arfordir Llanelli. Yn ogystal â gwella iechyd a llesiant, bydd y prosiect yn creu bron i 2,000 o swyddi.

- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi 3,000 o bobl i gael gwaith, gan ddarparu 2,000 o gartrefi ychwanegol, manteisio i'r eithaf ar fudd cymunedol cynlluniau datblygu a chefnogi busnesau i fanteisio ar grantiau allweddol

- Wrth edych i'r dyfodol, bydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol yn parhau i weithio gyda Chyflogwyr ar draws y rhanbarth i sicrhau bod y Bartneriaeth yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru pa sgiliau sydd eu hangen yn y rhanbarth, a lle mae angen dyrannu cyllid LLC er mwyn cyrraedd y gofynion sgiliau a nodwyd gan gyflogwyr.

Cymorth Busnes a Chabinet

Gweithio ar y flaenraglen waith i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, gan sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno ar yr amseru priodol ac yn unol â chylch y pwyllgor democrataidd.

Mae'r Uned yn cefnogi rheolwyr yn rhagweithiol mewn nifer o swyddogaethau, megis prosesau Adnoddau Dynol, rheoliadau ariannol, caffael

- Cynhyrchu blaenraglen waith ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol.

Etholiadol a Cofrestru

O dan y trefniadau llywodraethu, mae Gwasanaeth Cofrestru Sir Gâr wedi ymrwymo i'r safonau cyflenwi gwasanaethau a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO) ac mae'n cadw at y canllawiau arfer da a'r codau ymarfer. Mae canllawiau'r GRO yn darparu gwybodaeth am safonau cenedlaethol penodol y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol eu cyrraedd, ynghyd â safonau i ddyheu iddynt

Mae trafodaethau dilynol gyda Swyddogion Cydymffurfio y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol wedi cadarnhau bod Gwasanaeth Cofrestru Sir Gaerfyrddin yn parhau i ddarparu gwasanaethau hyd at lefel ardderchog.

- Cymryd mantais ar bob cyfle i ymgysylltu, cyfrannu a chefnogi cadw'r hawddfreintiau presennol, gan barhau o ran galluogi marwolaethau i gael eu cofrestru dros y ffôn a thrwy drosglwyddo dogfennau'n electronig.
- Er mwyn adeiladu ar a chryfhau'r partneriaethau a sefydlwyd yn ystod y pandemig h.y. ysbytai, Arholwyr Meddygol, Trefnwyr Angladdau, y Crwner, y Bwrdd Iechyd a'n grŵp prosiect marwolaethau torfol i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n dyletswydd statudol ac i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth trwy eu taith gofrestru.

Marchnata a'r Cyfryngau

Mae'r galw ychwanegol am wasanaethau cwsmeriaid yn ystod y 12 mis diwethaf wedi bod yn ddramatig. Mae darparu gwasanaeth wedi bod yn heriol oherwydd y cynnydd yn y galw gan wasanaethau. Mae'r cynnydd mewn amseroedd aros a nifer y galwadau sy'n cael eu gadael wedi bod yn anochel.

Mae prosesau newydd a thrafodaethau pellach gyda gwasanaethau penodol yn digwydd i leihau hyn orau y gallwn ni. Mae recriwtio wedi bod yn anodd, ac rydym yn parhau i chwilio am staff ychwanegol i ymuno â'r tîm i adeiladu gwytnwch i'r strwythur staffio.

Llwyddodd y tîm hefyd i dreialu trefniant wrth gefn i gynorthwyo gyda chyfathrebu y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae hyn wedi bod yn hollbwysig yn ystod digwyddiadau diweddar

- Bydd y tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn ailstrwythuro i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu darparu a chyflawni anghenion cyfathrebu a marchnata'r Awdurdod ac adeiladu ar y gwasanaeth o'r radd flaenaf i'w gwsmeriaid mewnol ac allanol.
- Gwthio a gwella'r gwasanaeth '*hawliwch beth sy'n ddyledus i chi*' a datblygu dull cyson o fewn y Cyngor i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn rheoli cwsmeriaid sydd â phryderon ariannol a llesiant yn yr un modd, er mwyn osgoi dryswch ac i fagu hyder ac eglurder.
- Datblygu dangosydd perfformiad Cyfryngau Cymdeithasol newydd

Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn cynnwys y Gwasanaethau Democrataidd

Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Llywodraethu ac yn cynhyrchu Datganiad Llywodraethiant Blynyddol fel rhan o'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae'r Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn sicrhau'r Cyfansoddiad a'i ddatblygiad.

- Yn flaenorol roedd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu oedd ar waith. Eleni rydym wedi cwestiynu pa mor dda yw'r trefniadau hyn, sut rydyn ni'n gwybod a sut gallwn ni wneud yn well. Byddwn yn adolygu sut mae'r broses hon wedi mynd

TGCh a Pholisi Corfforaethol

Rydym wedi dechrau her cynllun busnes uwch drwy Broses Ymgysylltu a Sicrwydd.

Mae rhan sylweddol o'n Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn gwerthuso ein Trefniadau Rheoli Perfformiad a Pholisi Corfforaethol

Mae Grwpiau Llywio ar gyfer Tlodi a'r Sir Gâr Wledig yn rhoi cyfeiriad i flaenoriaethau allweddol ac yn eu harolygu.

- Parhau i wella fformat y cynllun busnes ac ymgysylltu a sicrwydd.
- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ac adrodd am berfformiad - dull gweithredu a chynnwys.
- Wrth i'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant gael eu nodi, byddwn ni'n sicrhau bod grwpiau llywio/paneli cyngori priodol yn cael eu creu er mwyn sicrhau cyfeiriad a chynnydd
- Mynd i'r afael â chanfyddiadau Archwilio Mewnol ar Reoli Perfformiad.

Rheoli Pobl

Mae ein Grŵp Llywio Strategaeth Pobl yn arolygu'r Strategaeth Rheoli Pobl.

Y Strategaeth Trawsnewid fydd y prif ysgogydd o ran sicrhau bod trefniadau'n cael eu darparu.

Bydd Cylch Gorchwyl Bwrdd rhaglen TIC yn cael ei adolygu, a bydd y trefniadau llywodraethu'n cael eu cryfhau.

Mae rhan sylweddol o'n Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn gwerthuso ein Swyddogaeth Rheoli Pobl.

Mae'r achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl yn rhoi Sicrwydd Ansawdd ynghylch ein prosesau.

Nid yw ein harchwiliad cyflog cyfartal blynyddol yn awgrymu bod unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu o fewn y strwythurau cyflog

Adolygiadau Archwilio Mewnol Cyson

Rôl sylweddol wrth gefnogi Diogelu Corfforaethol

Adroddiad Blynyddol Llesiant Gweithwyr i'r Tîm Rheoli Corfforaethol bob blwyddyn

- Drwy ddefnyddio trefniadau llywodraethu presennol (Grŵp Llywio Strategaeth Pobl) bydd angen i ni adolygu ein strategaeth gweithlu yn sgil y pandemig i helpu'r sefydliad i adfer.
- Rydym yn dechrau gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol, yn enwedig atgyfeiriadau at ein Gwasanaethau Cymorth Llesiant. I arafu'r cynnydd hwn, mae angen i ni fuddsoddi mwy o amser i ddatblygu atebion ataliol rhagweithiol megis hybu iechyd da ac addysgu gweithwyr ar ddewisiadau ffordd iach o fyw.

	<u>Is-adran Adfywio</u> Sefydlwyd grŵp busnes, economi ac adfer cymunedol i gydlyn datblygiad a chyflawniad camau gweithredu sydd wedi'u halinio i'n cynllun adfer a chyflawni economaidd (ERP), a sefydlwyd grŵp cynghori cyffredinol, sy'n cynnwys arweinwyr allweddol o'r sector preifat hefyd. Sefydlwyd dangosfwrdd i fonitro'r gwaith o gyflawni ein 'Cynllun Adfer Economaidd' • Ar gyfer pob un o'r canol trefi unigol, byddwn yn rheoli arolygiaeth dros y cynlluniau adfer, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r rhanddeiliaid yn y trefi perthnasol. Mae pob un o'r cynlluniau yn rhoi sylw i brif faterion a chyfluoedd ac yn darparu fframwaith cyflawni o ymyriadau penodol ar gyfer y canol trefi. <u>Cymorth Busnes a Chabinet</u> Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet yn cefnogi adborth <u>Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestryddion</u> Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r Canllaw Arferion Da, gan gyflawni hyd at y Safon Genedlaethol man lleiaf. Mesurir pob Prif Ddangosydd Perfformiad ar gyfer Safonau Statudol a Safonau Cyflawni Gweithredol o fewn y canllaw. Adroddir ynghylch cyflawniad i'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol. Mae'n ofynnol i'r Gwasanaethau Etholiadol gydymffurfio â phrawf paru data y gofrestr etholiadol genedlaethol, yna dadansoddi canlyniadau a gweithredu ar y canlyniadau hynny. Rhoddodd Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 bwerau i'r Comisiwn Etholiadol osod a monitro safonau perfformiad ar gyfer y gwasanaethau etholiadol. • Cyflawni cyfrifoldebau statudol cynyddol y Cyngor, sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a diwygiadau etholiadol arfaethedig yn y dyfodol, o fewn cyd-destun cyfyngiadau ariannol eithriadol. <u>Marchnata a'r Cyfryngau</u> Proffil o fewn DLIB Paragraff 2.3.2.4 <i>Sicrhau Cyfathrebu Allanol</i> (o dan yr egwyddor <i>Bod yn Agored ac Ymgysylltu - Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid</i>).
Dyletswydd i Ymgynghori	
<i>Ymgynghoriad ar asesu perfformiad?</i>	<u>TGCh a Pholisi Corfforaethol</u> Ymgynghoriad fel rhan o asesiad llesiant. Cynhaliwyd arolwg trigolion. Adborth cŵyn Pan fydd ar gael, mae'r Awdurdod yn gwneud defnydd helaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru, sef arolwg blynnyddol a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y canlyniadau i helpu'r Awdurdod i hunanasesu ei wasanaethau ac maent yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiad Blynnyddol. Fodd bynnag, mae Pandemig COVID-19 wedi effeithio ar rannau o'r arolwg hwn ac nid yw'r un lefel o fanylder ar gael ag mewn blynnyddoedd blaenorol. <u>Rheoli Pobl</u> Y Fforwm Cysylltiadau â'r Gweithwyr - y llynedd, fe wnaethom ddyblu faint o amser cyfleusterau cyflogedig a gynigiwyd gennym i'n Hundebau Llafur cydnabyddedig ac rydym wedi parhau i ymgynghori'n rheolaidd â chydweithwyr o'r Undeb ar

amrywiaeth o bolisiâu a meysydd eraill
Cynhaliwyd arolwg staff fis Mehefin-Awst 2022 gydag adran ar berfformiad.

Is-adran Adfywio

Bu i ni gysylltu â thros 1,000 o fusnesau i gasglu tystiolaeth am effaith y pandemig ar ein busnesau

Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestryddion

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn gofyn yn rheolaidd i gwsmeriaid gwblhau arolygon bodlonrwydd fel y gallwn ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda ac sy'n cwrdd â'r disgwyliadau, a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda ac y gellid ei wella
Roedd etholiadau'n gweithio ar y cyd gyda'r Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru i sicrhau etholiad diogel a theg ym mis Mai 2021. Sefydlwyd grŵp prosiect etholiadau a oedd yn sicrhau bod pob elfen o gynllunio'r etholiad yn cael ei reoli a'i rannu gan y prif chwaraewyr.

Marchnata a'r Cyfryngau

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynnydd wedi bod yn nifer yr ymgynghoriadau ar-lein. Yn benodol, wrth werthuso ymgynghoriadau cymaradwy. Er enghraifft, cafwyd 21 o ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch cynllun strategol y Gymraeg mewn Addysg yn 2017 ond yn 2021 cafwyd 854 o ymatebion. Yn ogystal, cyflwynwyd 2522 o arolygon wedi'u cwblhau fel rhan o brif gynllun tai ac adfywio diweddar o gymharu â 189 a gyflwynwyd mewn arolwg tebyg a gynhaliwyd yn 2018. Priodolir y cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan i'r berthynas agosach a ddatblygwyd gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau gan sicrhau bod ymgynghoriadau'n cael eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan gorfforaethol a'u bod yn cael eu hanfon at yr holl randdeiliaid allweddol. Ond rydym yn bwriadu aildddechrau dadansoddiad llawn pan fydd ar gael

Adran y Gwasanaethau Corfforaethol

Dyletswydd i Adolygu Perfformiad yn Barhaus	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny? Sut gallwn ni wneud yn well?
Gofynion Perfformiad	
1. <i>arfer swyddogaethau'n effeithiol,</i>	Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system Rheoli Mewnol a'r trefniadau Llywodraethu yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, sy'n rhoi sicrwydd i'r Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflawni ei waith yn unol â'r safonau a nodwyd yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a sefydlwyd yn 2013. Y rhain yw'r safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Y farn gyffredinol yw bod yr Awdurdod yn gweithredu amgylchedd rheoli 'Derbyniol'. Ceir trefniadau Llywodraethu clir sydd â chyfrifoldebau Rheoli a Strwythurau Pwyllgorau pendant ar waith. Mae Rheoli Risg a'r fframwaith rheoli yn gadarn ar y cyfan ac yn cael eu gweithredu'n eithaf cyson. Mae gan yr Awdurdod Gyfansoddiad sefydledig, ac mae wedi datblygu Polisiâu a chymeradwyo Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r holl staff ac aelodau. Mae gwaith sicrwydd digonol wedi ei gyflawni i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod. Lle bo gwendidau wedi eu clustnodi drwy adolygiadau, mae Archwilio Mewnol wedi gweithio gyda'r rheolwyr i gytuno ar gamau unioni priodol ac amserlen ar gyfer gwella. Cyflwyno Cynlluniau Archwilio Strategol a Blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng nghyfarfodydd mis Mawrth. Darperir diweddariadau chwarterol ar y gwaith a wnaed a chyflwyno'r Adroddiad Blynyddol bob mis Gorffennaf. Mae'r camau i gyflawni argymhellion a wnaed yn Asesiad Ansawdd 2018 wedi'u cwblhau. Byddem yn ystyried unrhyw welliannau a nodwyd drwy'r asesiad allanol o drefniadau Archwilio Mewnol. Rydym yn cyflwyno dangosyddion perfformiad newydd ar gyfer 2022/23 gyda'r nod o helpu'r gwasanaeth i fod yn fwy effeithlon.
2. <i>defnyddio adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;</i>	Mae'n debyg mai monitro cyllideb 2020/21 yw'r mwyaf cymhleth erioed, oherwydd gwerth ac effaith hollbresennol COVID-19 ar wasanaethau. Rydym wedi hawlio dros £27 miliwn gan Lywodraeth Cymru drwy'r hawliadau caledi i gefnogi gwasanaethau COVID-19 ychwanegol ac rydym hefyd wedi hawlio £4.5 miliwn yn ymwneud â cheisiadau am golli incwm. Mae'r Gwasanaeth Corfforaethol wedi ymateb i'r her i gefnogi penderfyniadau gwariant adrannol, yr hawliadau drwy gynllun caledi Llywodraeth Cymru, yn ogystal â nodi gwariant anghymwys posibl - mae'r darlun hwn wedi esblygu drwy'r flwyddyn gyda natur newidiol y pandemig yn ogystal â mwy o eglurder ynghylch rheolau'r cynllun caledi. Rydym wedi parhau i ymchwilio a datblygu ffyrdd newydd o weithio a fydd yn arwain at ddarparu gwasanaeth hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm Trawsnewid i wneud Cynnydd yn eu 6 maes gwaith strategol y cytunwyd arnynt (Incwm, Gwariant, Trawsnewid Digidol, Galwadau a gwastraff, gwella gwasanaethau, Cefnogi trawsnewid a newid mewn Ysgolion a Chefnogi Gwell Ffyrdd o Weithio). Fel rhan o'r maes strategol Incwm, mae ein tîm Dyledwyr wedi bod yn gweithio gyda TIC a thîm y Gyfraith i edrych ar ba mor dda rydym yn adennill dyledion. Rydym yn gweithio'n agos gyda maes strategol Gwell Ffyrdd o Weithio, er enghraifft ar y prosiect E-lofnodion, gan werthuso potensial defnyddio Adobe a DocuSign i osgoi'r angen i staff deithio i mewn i swyddfeydd i ychwanegu llofnodion gwlyb i ddogfennau a'r Prosiect Anfonebau, ac ymchwilio i leihau anfonebau copi caled gyda'r Peilot Cydymffurfio Gorchymyn Prynu sydd wedi dechrau.

3. <i>Llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod</i>	Mae trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn dderbyniol. Mae'n bwysig bod Datganiad Llywodraethu yn cynnwys gwerthusiad a chasgliad ac yn rhoi barn glir ynghylch a yw'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn addas i'r diben. I alluogi'r farn hon, cynhaliodd ein gwasanaeth Archwiliad Mewnol adolygiad o'n trefniadau yn erbyn y safonau a fabwysiadwyd. <table border="1" data-bbox="400 271 1497 719"> <tr> <th colspan="2" data-bbox="400 271 1497 371"> Canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a Llywodraethu Corfforaethol </th></tr> <tr> <th data-bbox="400 371 643 483"> Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad </th><th data-bbox="643 371 1497 483"> Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd </th></tr> <tr> <td data-bbox="400 483 643 640"> Derbyniol </td><td data-bbox="643 483 1497 640"> Rheolaethau cymedrol, rhai meysydd lle mae diffyg cydymffurfio o ran rheolaethau y cytunwyd arnynt Risg ganolig/isel o beidio â chyflawni'r amcanion Risg ganolig/isel o dwyll, esgeulustod, colled, niwed i enw da </td></tr> <tr> <td colspan="2" data-bbox="400 640 1497 719"> Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw. </td></tr> </table> Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o'r Llywodraethu Corfforaethol, ac mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol. Mae gan yr Awdurdod Grŵp Llywio Rheoli Risg sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cabinet, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac i Dîm Rheoli y Prif Swyddogion. Mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn archwilio'r modd y gellir datblygu Rheoli Risg a sicrhau bod Rheoli Risg yn rhan annatod o holl benderfyniadau'r sefydliad. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob tri mis ac yn cael ei gefnogi gan waith ei Is-grwpiau h.y. Risgiau Eiddo ac Atebolrwydd, Risgiau'r Ffilyd Gerbydau, a Chynlluniau Wrth Gefn. Daeth yr adolygiad TIC ym mis Rhagfyr 2021 i'r casgliad: <i>'Mae Cylch Gwaith y Grwpiau Llywio Rheoli Risg a'i is-grwpiau amrywiol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Bydd hyn yn caniatáu i'r Grŵp Strategol fabwysiadu dull mwy strategol o ystyried materion rheoli risg, megis cynnal adolygiadau rheolaidd o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.'</i> Gellid cryfhau rôl y Grŵp Llywio o ran dyrannu'r £250k o gyllid rheoli risg drwy gyflwyno meini prawf cliriach ar gyfer sut y caiff y cyllid hwn ei flaenoriaethu a'i wario'n flynyddol.	Canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a Llywodraethu Corfforaethol		Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad	Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd	Derbyniol	Rheolaethau cymedrol, rhai meysydd lle mae diffyg cydymffurfio o ran rheolaethau y cytunwyd arnynt Risg ganolig/isel o beidio â chyflawni'r amcanion Risg ganolig/isel o dwyll, esgeulustod, colled, niwed i enw da	Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw.	
Canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a Llywodraethu Corfforaethol									
Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad	Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd								
Derbyniol	Rheolaethau cymedrol, rhai meysydd lle mae diffyg cydymffurfio o ran rheolaethau y cytunwyd arnynt Risg ganolig/isel o beidio â chyflawni'r amcanion Risg ganolig/isel o dwyll, esgeulustod, colled, niwed i enw da								
Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw.									
Dyletswydd i Ymgynghori									
<i>A oes unrhyw ymgynghori ynghylch eich asesiad o berfformiad?</i>	Cafwyd agwedd gymysg at ganfod barn ar gyllideb 2022-25. Bu inni wahodd trigolion, busnesau, a sefydliadau cymunedol a gwirfoddol i fynegi eu barn ynghylch y gyllideb ddrafft er mwyn i'r Cynghorwyr allu ystyried adborth cyn gwneud penderfyniad terfynol. Cynhaliwyd cyfres o seminarau adrannol ar gyfer pob un o'r Cynghorwyr Sir dros gyfnod o bum diwrnod: 17 tan 21 Ionawr 2022. Cafodd yr holl arbedion effeithlonrwydd ar draws pob adran eu hystyried yn fanwl a cheisiwyd adborth. Yn ogystal ag ymgysylltu â Chynghorwyr, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus drwy arolwg ar-lein. Cynhaliwyd yr arolwg yn electronig trwy dudalen ymgynghori ar-lein y Cyngor ar ein gwefan. Cyflwynwyd e-byst hefyd, a defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i annog trigolion i gwblhau'r arolwg ar-lein a rhoddodd rai sylwadau ar Facebook a Twitter. Ystyriwyd canlyniadau'r ymgynghoriadau ac fe'u cyflwynwyd i'r Cabinet a'r Cyngor Sir yn rhan o Adroddiad Strategaeth y Gyllideb.								

Dyletswydd i Adolygu Perfformiad yn Barhaus	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny?
Gofynion Perfformiad	Sut gallwn ni wneud yn well? (gweler y pwyntiau bwled)
1 arfer swyddogaethau'n effeithiol,	Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chomisiynu O fewn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chomisiynu, mae heriau sylweddol wedi bod, a gwelwyd achosion niferus o COVID-19 mewn llawer o gartrefi gofal a phwysau difrifol ar y gweithlu mewn sawl cartref. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu darparu gan wasanaethau mewnol, drwy gyd-gymorth ac iechyd. Mae ymdrechion enfawr ar y cyd â'n sefydliadau partner, sydd wedi gweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd, wedi canolbwyntio ar ddiogelwch preswylwyr a helpu cartrefi gofal i ymdopi. Mae'r adborth o'r sector wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r berthynas â'r sector wedi gwella yn sgil hynny. Cafwyd tystiolaeth o hyn gan adolygiad annibynnol ynghylch cynnal urddas a pharch yn y cartrefi gofal yn ystod y pandemig. Mae effaith y pandemig a'r gofynion parhaus yn sylweddol ond mae rhai meysydd cynnydd nodedig: 1. O ran Diogelu Oedolion, mae fforymau Aml-asiantaeth wedi parhau i gyfarfod yn rhithwir, a sefydlwyd fforwm rhanbarthol ychwanegol i gael sicrwydd bod prosesau diogelu yn cael eu dilyn yn ystod y pandemig. 2. Derbyniodd y gwasanaeth adroddiad cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn ymweliad sicrwydd ym mis Chwefror 2021, sy'n eithaf rhyfeddol yn ystod pandemig. 3. Mae adroddiad Statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod i'r casgliad bod y swyddogaethau hyn yn gweithredu'n effeithiol. O fewn Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel: • Gwnaethom ymateb i argyfwng COVID-19 drwy ein tîm TTP (Profi, Orlhain, Diogelu) sydd wedi rhoi hyder i ni fod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y Sir ac y gallwn ymateb yn gyflym pan fydd amgylchiadau'n newid, fel clystyrau COVID-19 newydd neu achosion mewn Cartref Gofal ac ati. Daw hyn o safbwynt rheoli heintiau yn ogystal ag o safbwynt cyngor a gorfodi. • Mae ein gofal mewnol yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol iawn gan ein rheoleiddiwr AGC, yn ogystal â chan yr arolygon i breswylwyr, teulu a gweithwyr proffesiynol. Rydym hefyd wedi dechrau edrych ar raglen i fuddsoddi'n sylweddol mewn cartrefi gofal er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn cyfateb i safon y gofal a ddarperir. • Mae ein tîm Datblygu a Buddsoddi wedi parhau i gyflawni, er gwaethaf COVID-19, ac rydym yn parhau i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol ac mae gennym gynllun cyflawni tair blynedd clir wrth symud ymlaen. Bydd hyn yn cysylltu â blaenoriaethau corfforaethol ac adrannol ehangach megis Canol Trefi, Cynllun y Deg Tref, a phrosiectau adfywio allweddol e.e. Pentre Awel, Tyisha, Brynmefys (Llanelli) a Thŷ Wauniago (Caerfyrddin). Rydym wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i fentrau'r DU a LIC ynghylch rhaglenni adsefydlu, a ni oedd y cyntaf yng Nghymru i gartrefu teuluoedd o Affganistan ym mis Mai 2021. • Mae gwasanaethau Diogelu'r Amgylchedd a Materion Defnyddwyr a Busnes wedi parhau i gyflawni mewn blwyddyn a oedd yn arbennig o heriol i ddiogelu'r cyhoedd. Rydym wedi gorfod cydbwysu ein hymateb i COVID-19 gan barhau i gynnal gwasanaethau craidd wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn hynod heriol wrth i'r disgwyliadau a'r gofynion gynyddu.

Rydym mewn sefyllfa gymharol gref o ran Safonau Bwyd a Hylendid, lechyd Anifeiliaid ac Elw Troseddau (POCA). Rydym hefyd wedi cael ein canmol am ein gwaith ar Gamfanteisio Ariannol ac wedi cael llwyddiant nodedig o ran bridio cŵn anghyfreithlon.

- Mae ein gwasanaeth rheoli tai yn parhau i berfformio'n eithaf da (a dangosir hyn yn yr Arolwg Tenantiaid a gynhaliwyd yn hydref 2021). Rydym yn perfformio ar yr un lefel â sefydliadau tai eraill. Rydym hefyd mewn sefyllfa eithaf da o ran ein dull o gasglu incwm tenantiaid presennol ac wedi datblygu cyn-lety cryf sy'n helpu i gynnal tenantiaethau. Ar hyn o bryd mae'r tîm wedi cyrraedd rhestr fer gwobr genedlaethol, mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Ieuencid, o ganlyniad i'r dull arloesol sy'n cael ei arddel.
- Er ein bod wedi gwneud yn dda iawn i ymateb yn gyflym i'r newid yn y ddeddfwriaeth digartrefedd o ganlyniad i COVID-19, mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwneud yr ymateb hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Angen adolygu prosesau ac arferion gwaith, a pherfformiad ei hun (e.e. dangosydd perfformiad Atal Digartrefedd, chwarterl gwaelod) er mwyn i ni allu cefnogi'r rhai mwyaf anghenus yn llawn, a'r staff eu hunain. Mae Adroddiad Hunanfenter y Gwasanaethau Cyhoeddus (Medi 2021) yn dechrau amlinellu rhai materion cyfredol y mae angen amlwg i fynd i'r afael â nhw. Mae pethau positif yn dechrau deillio'n barod o'n dull newydd a'n "Hwb" Tai.
- Adroddiadau Archwilio Mewnol ynghylch caffael gwaith atgyweirio i asiantaeth gosodiadau cymdeithasol/llety dros dro.

Tai, Eiddo a Phrosiectau Strategol

O fewn y Prosiectau Tai, Eiddo a Phrosiectau Strategol, cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar ein gwasanaethau wrth i waith cynnal a chadw nad oedd yn hanfodol gael ei atal. O ganlyniad, mae gwaith cynnal a chadw cudd sylweddol ac ôl-groniad o ymholiadau rydym yn gweithio drwyddynt ar hyn o bryd. Mae'r amseroedd ymateb ar gyfer y gwaith cynnal a chadw hanfodol rydym wedi gallu ei gyflawni wedi parhau i wella, er bod yr amser cyfartalog i ymateb i waith nad yw'n hanfodol wedi gwaethygu. Mae'r 4 Tŷ hefyd wedi eu dymchwel fel cam cyntaf adfywio'r ardal yn ffisegol. Rydym bellach wedi cwblhau proses ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar a fydd yn cyfrannu at ein proses o ddewis datblygwr partner ac i baratoi safleoedd allweddol i'w datblygu. Mae adroddiad Archwilio Mewnol ynghylch caffael rheoli contractau gwaith atgyweirio a gwelliannau Cronfa Galluogi Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol wedi cael eu gwneud.

Hamdden

Mae llawer o feysydd o fewn Hamdden yn parhau i weithredu dan gyfyngiadau gan gynnwys ein cynnig Addysg Awyr Agored, Theatrau, a dosbarthiadau Hamdden o ran niferoedd. Wrth i lawer o swyddi barhau'n wag a nifer fawr o staff gael eu hail-leoli, mae ail-lunio ein gwasanaethau wedi bod yn heriol drwy'r cyfnodau clo, ac wrth i gyfyngiadau gwahanol gael eu cyflwyno a'u codi. Mae'r gweithdrefnau gweithredu, yr arferion gweithio diogel, a'r asesiadau risg mewn perthynas â phob lleoliad, gweithgaredd ac ymgysylltiad â chwsmeriaid wedi gorfod cael eu hail-ysgrifennu sawl gwaith drwy gydol y flwyddyn, ac mae ein ffocws ni bob amser wedi bod ar gynnal diogelwch a hyder y cyhoedd i sicrhau bod pobl yn dychwelyd yn y tymor hir, a bod clybiau a sefydliadau partner yn goroesi ac yn ffynnu i'r dyfodol.

Mae gennym achrediad uchel iawn ar gyfer ein gwasanaeth Llyfrgelloedd, gan gyrraedd yr holl dargedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru drwy 'Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru'. Hefyd, sefydlu cysylltiadau cryfach ar draws yr Adran Cymunedau, gan ddatblygu mwy o ffocws ar atal salwch, tra'n hyrwyddo

llesiant cyffredinol a chynaliadwyedd hirdymor ar y cyd ar gyfer y timau Hamdden, Tai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

O safbwynt iechyd cyhoeddus, er bod Hamdden yn gyfrannwr cadarnhaol sylweddol iawn i'r agenda hon, rhaid inni ddylanwadu a gweithio mewn partneriaeth i wneud cynnydd o ran y mater hwn gyda phartneriaid yn y sector iechyd. Er mai dim ond un metrig cenedlaethol ydyw, mae tua thraean ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu dosbarthu'n rhai sydd dros bwysau neu'n ordew yn y sir, sef un o'r ffigyrau uchaf yng Nghymru. Rhaid i'r maes hwn barhau i fod yn ffocws i'n gwaith o newid arferion gydol oes ac o ymyrryd mor gynnar ag y gallwn.

Camau Gweithredu Adrannol wrth Symud Ymlaen

Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chomisiynu

Mae heriau gweithredol wedi ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i'r lle a'r amser i gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhaglen waith wedi'i hatal ac mae angen ei hatgyfodi.

Mae cynnydd yn y cymhlethdod a'r galw wedi bod, ac er mwyn rheoli'r galw wrth symud ymlaen, mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym strategaeth atal gadarn i ddarparu cyngor, gwybodaeth, cymorth, ymyrraeth gynnar ac ymateb amserol i'r rhai sydd mewn argyfwng. Bydd hyn yn caniatáu i ni, lle bynnag y bo modd, helpu pobl i fod yn annibynnol am gyn hired â phosib ac i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a gofal preswyl. Bydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth wraidd popeth a wnawn, yn ogystal â helpu gofalwyr i aros yn eu rôl ofalu. Cael hyn yn iawn fydd ein prif ffocws ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Byddwn yn:

- datblygu Strategaeth 10 Mlynedd ar gyfer Gofal Cymdeithasol sy'n cynnwys Gwasanaethau Oedolion a Phlant.
- datblygu a gweithredu Strategaeth Trawsnewid Digidol ar gyfer yr adran.
- datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithlu er mwyn recriwtio, cadw a datblygu staff i sicrhau gweithlu cynaliadwy i'r dyfodol.
- sicrhau ein bod yn gweithredu'r Fframwaith Gofal Cartref newydd sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â diffyg argaeledd gofal cartref i gefnogi oedolion sy'n agored i niwed.
- ail-fodelu a thyfu gwasanaeth Gofal Cartref safonol, cynaliadwy ac effeithlon ochr yn ochr â sector preifat a micro fentrau effeithiol.
- datblygu a gweithredu Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin a fydd yn cynnwys parhau i weithio mewn partneriaeth â Llesiant Delta i gefnogi ein trigolion.

Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel

O fewn Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel a Thai, Eiddo a Phrosiectau Strategol byddwn yn gweithio i:

- Adolygu ein gwaith atal digartrefedd, gwaith achos digartrefedd, a gwasanaethau llety dros dro. Mae angen canolbwyntio'n benodol ar hyn o ganlyniad i dystiolaeth o'r broses ail-strwythuro, adroddiad Hunanfenter yr Ombwdsmon, ac adroddiad Archwiliad Mewnol am gaffael rhai gwasanaethau. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar:
 - Arferion gwaith a phrosesau; a
 - Gwella perfformiad
- Gwella'r ffocws ar niferoedd y tai Cyngor sy'n wag a lleihau'r amser maent yn wag
- Gwella perfformiad o ran amser cyflawni gwaith Addasiadau a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Cynnal adolygiad o'r Tîm Cartrefi Newydd yn Chwefror – Ebrill 2022

	• Cyflawni Camau Gweithredu Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer yr Is-adran: - Adolygu'r trefniadau ar gyfer tai cymdeithasol yn Heol yr Orsaf, Llanelli - Cynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar gyfer pob eiddo sy'n berchen i'r Cyngor • Datblygu prosiect peilot yn ward Tyisha Gwasanaethau Hamdden Yn y Gwasanaethau Hamdden, y canlynol yw'r blaenoriaethau: • Strategaeth Hamdden 10 Mlynedd: Datblygu dogfen cyfeiriad 10 mlynedd i'w thrafod a'i chymeradwyo gan y weinyddiaeth wleidyddol newydd ar gyfer y Sir ar ddechrau 2022/23 • Incwm ac aelodaeth/adfer gweithgarwch: Gydag effeithiau pandemig COVID-19 yn newid ffordd o fyw ac arferion, her fwyaf y gwasanaeth fydd adennill lefel yr aelodaeth a'r incwm i'r hyn a fodolai cyn COVID-19, a rhagori ar hynny. Er bod cyllid caledi'r llywodraeth wedi helpu yn ystod cyfnodau o agor cyfyngedig, bydd ein cynllun busnes am 2022/23 yn canolbwyntio'n llawn ar y broses adfer incwm ac ymgysylltu hon. • Prosiectau Cyfalaf: Cwblhau/datblygu ymhellach brosiectau cyfalaf parhaus yn: Oriel Myrddin; Dyffryn Aman; Amgueddfa Abergwili; Parc Howard; Parc Gwledig Pen-bre; Parc Gwledig Llyn Llech Owain; Archifau Caerfyrddin; Pentre Awel; Safle Denu Pentywyn a'r Amgueddfa Cyflymder Dros Dir; siop yr Amgueddfa Genedlaethol ac elfennau ystafell ffitrwydd 24/7 o gais llwyddiannus Ffyniant Bro Canol Tref Caerfyrddin; • Cynnig Addysg Awyr Agored newydd ar gyfer y Sir: Cyflwyno model newydd ar gyfer cynnig Addysg Awyr Agored preswyl a di-breswyl ar draws y Sir i gael sylwadau a chymeradwyaeth ar gefn arfarniad asedau o'r seilwaith presennol a heriau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 i ysgolion, gan gyd-fynd â chwricwlwm newydd Donaldson. • Cynyddu ein Gwerth Cymdeithasol:: Datblygu ein gwaith a'n dylanwad ymhellach ar yr agenda atal iechyd, gan ddangos effaith a gwerth gweithio integredig a chydweithredol megis cynlluniau fel y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a chynllun atgyfeirio Iechyd Meddwl, a sut gall y rhain brif ffrydio gweithgarwch hamdden tra'n lleihau costau gwasanaethau iechyd craidd. • Bydd y canlynol hefyd yn ategu'r holl waith wrth symud ymlaen: - Cynllun datblygu'r gweithlu: ail-ymweld â chynllun gweithlu drafft yr Adran Cymunedau i greu camau penodol ar gyfer yr is-adran, gan ganolbwyntio ar recriwtio, cadw, hyfforddiant, cymwyseddau, a hyfforddi, gyda'r nod o dyfu ein gweithlu ein hunain a chreu cynnig deniadol i bobl ifanc. - Lleihau ein gwastraff ac Ôl Troed Carbon: Fel rhan o nod y Cyngor Sir i fod yn garbon niwtral erbyn 2030, rydym yn cydnabod yr ôl troed defnydd ynni sylweddol sydd gan lawer o'n hadeiladau mawr a byddwn yn parhau i weithio i leihau a gwrthbwysu'r ôl troed hwn. • Datblygu ein cynnig ar-lein: Mae ein gallu i ddarlledu cynhyrchion yn ddigidol ac i gysylltu safleoedd a gwasanaethau gyda defnyddwyr hefyd yn dod yn bwysicach nag erioed, gan gynnwys ein cysylltiadau â'r sectorau addysg ac iechyd. Mae'r datblygiad hwn yn caniatáu mwy o ddewis i ddefnyddwyr ar sut a ble gallant ymgysylltu â'n gwasanaethau a gwella eu llesiant.
2 <i>defnyddio adnoddau yn</i>	Rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio Adnoddau mewn modd sy'n effeithlon yn economaidd drwy:

<i>economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;</i>	• monitro'r gyllideb • modelu costau o fewn gwasanaethau Comisiynu • monitro recriwtio a chadw, bob pythefnos. • monitro salwch, swyddi gwag a rhestrau aros am asesiadau a gofal fel rhan o'r cyfarfod recriwtio a chadw. • cynnal ymgyrch farchnata recriwtio gadarn ar gyfer gofal cymdeithasol i liniaru'r diffygion o fewn yr Adran. • buddsoddi mewn systemau TG digidol newydd ynghyd â Wifi mewn Cartrefi Gofal, ac mae staff rheng flaen wedi cael dyfeisiau electronig. Rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio Adnoddau mewn ffordd effeithlon drwy: • gael cyfarfodydd Fframwaith Rheoli Perfformiad cadarn i fesur gweithgarwch a chyllidebau'n effeithiol, a gynhelir yn fisol. • monitro camau rheoli risg a chynlluniau busnes fel rhan o'r broses hon. • llunio Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr a sicrhau hunanasesiad o swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. • cael blaen-raglenni gwaith a chynlluniau gweithredu. • cyfathrebu'n rheolaidd o fewn yr Adran a gweithio gyda'n cydweithwyr Marchnata a'r Cyfryngau. Rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio Adnoddau yn effeithiol • Rydym yn cynnal ymgyngoriad ar gyfer Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gwneud arolwg o farn preswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau mewn Cartrefi Gofal a Gofal Cartref o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu AGC. Yn ôl barn preswylwyr Cartrefi Gofal, roedd safon gyffredinol y gwasanaeth mewn cartrefi gofal yn Arbennig (cyfrifir hyn trwy fetrig NPS) • O fewn y gwasanaethau Hamdden, rydym wedi cynnal arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid NPS. • Rydym wedi gwneud arolwg o 6,000 o denantiaid tai fel rhan o'n hamodau grant, mewn perthynas â chais a grant MRA Llywodraeth Cymru, sydd wedi dangos bod 77% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y Gwasanaeth yn gyffredinol. • Rydym yn cynnal arolwg staff blynyddol o fewn yr adran, a gyfrifir drwy fetrig NPS a dangosodd hyn fod ein sgôr cyffredinol yn Dda. • Rydym yn cynnal cyfarfod Bwrdd Gwella ynghylch Anghenion Tai yn wythnosol. • Rydym yn cael adborth gan AGC, adborth gan Archwilio Cymru, ac adborth archwilio wedi'i gomisiynu'n lleol.
3 <i>llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod</i>	Mae'r canlynol yn sicrhau ein bod yn llywodraethu ein gwasanaethau'n briodol. • Rydym yn llunio Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ac yn sicrhau bod hunan-asesiad o swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn digwydd, sy'n cael ei archwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru. • Mae gennym Fwrdd Diogelu Corfforaethol wedi'i reoleiddio gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddir y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gan AGC a Llywodraeth Cymru lle bo strwythur llywodraethu'n goruchwyllo polisïau a gweithdrefnau. Yn ystod 2021/22, adolygwyd Diogelu mewn ○ Gwasanaethau Plant gan Archwilio Mewnol - canfuwyd bod trefniadau yn dderbyniol ○ a Gwasanaethau Oedolion – canfyddiadau heb eu gorffen • Fframwaith Rheoli Perfformiad a chyfarfodydd penodol ar gyfer Perfformiad wedi'u trefnu

	• Grŵp Gweithredol Integredig ynghyd â'r Bwrdd Iechyd • Cyfarfodydd undebau llafur • Grŵp Comisiynu a Rhaglenni • Recriwtio a chadw • Y Tîm Uwch-reolwyr/ Tîm Rheoli Adrannol/Craffu/Cabinet Llawn/Gwefan • Aelod Cabinet - Gwobr Tîm Rhagorol – • Goruchwyliaeth/Arfarniadau / 1 i 1 • Bwrdd yr Iaith Gymraeg • Bwrdd Llesiant Delta • Cyfarfodydd Cenedlaethol – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Cymdeithasol Cymru/AWASH/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus • Cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a chyrff amrywiol ar gyfer gwasanaethau perthnasol fel Chwaraeon Cymru ar gyfer Gwasanaethau Hamdden. • Grŵp Llywodraethu Corfforaethol • Cynllunio Busnes a Rheoli Risg • Darparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu ac Archwilio.
Dyletswydd i Ymgynghori	
<i>Ymgynghoriad ar asesu perfformiad?</i>	Ymgynghorir yn rheolaidd gyda staff, defnyddwyr gwasanaethau a thenantiaid. Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar gyfer Llywodraeth Cymru ar swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gwneud arolwg o farn preswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau mewn Cartrefi Gofal a Gofal Cartref o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu AGC. Yn y gwasanaethau Hamdden maent yn cynnal arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid yr NPS. Rydym yn gwneud arolwg o'n tenantiaid yn rheolaidd o fewn ein His-adran Dai. Rydym yn monitro canmoliaeth a chwynion o fewn yr adran. Cyfarfod misol gydag AGC ar ein swyddogaeth statudol yn ogystal ag Estyn sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Plant.

Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant

Dyletswydd i Adolygu Perfformiad yn Barhaus	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny? Sut gallwn ni wneud yn well? (gweler y pwyntiau bwled)
Gofynion Perfformiad	
1. <i>arfer swyddogae thau'n effeithiol,</i>	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny? Mae gweledigaeth, blaenoriaethau a Chynllun Busnes yr Adran yn cael eu cyd-lunio gan grŵp pwrpasol o swyddogion a phenaethiaid, ac maent yn cael eu rhannu'n ddefnyddiol a'u trafod gyda rhanddeiliaid e.e. Pwyllgor Craffu, Grwpiau Penaethiaid, drwy sesiynau briffio gan staff a Llywodraethwyr. Rydym yn ymdrechu i sicrhau edefyn euraidd drwy ein prosesau cynllunio busnes ar bob lefel o'n 'cacen briodas' gorfforaethol. Mae gan CSC gylch busnes blynyddol sydd wedi'i hen sefydlu. Bob hydref, mae'n cael ei ddrafftio wrth ystyried blaenoriaethau corfforaethol a hunanwerthuso adrannol, gan sicrhau dull o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr. Gwneir cysylltiadau â'r broses gyllidebol yn gynnar ac mae'r fersiwn derfynol yn destun craffu gan aelodau etholedig. Mae cynllunio tymor hir yn cael ei ddylanwadu gan y cynllun adrannol hyd at 2032, ac mae wedi'i drefnu, yn ddefnyddiol iawn, o dan 20 o 'ddarnau pwrpasol' penodol. Mae Swyddog Perfformiad a Gwybodaeth yr Adran yn rhoi cymorth defnyddiol dros ben i sicrhau bod y Cynllun Busnes yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a metrigau perfformiad lefel gwasanaeth. Mae adrodd chwarterol (system PIMS) yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif o ran cynnydd ac ansawdd darparu gwasanaethau mewn perthynas â blaenoriaethau. Mae adroddiadau craffu yn graff ac yn gynhwysfawr ac yn cael eu herio'n effeithiol, gan hyrwyddo trafodaeth weithredol. Mae holiadur Penaethiaid bob dwy flynedd yn rhoi adborth pwysig ac awgrymiadau adeiladol ar gyfer addasu a datblygu darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Ymgynghorir hefyd â disgyblion a rhieni, ac mae'r holl wybodaeth yn cael ei chroesgyfeirio a'i rhannu yn erbyn blaenoriaethau corfforaethol, yn erbyn gwybodaeth sy'n deillio o grwpiau ffocws megis sawl fforwm Penaethiaid, undebau, a grwpiau o swyddogion staff. Mae'r wyth Grŵp Ffocws Strategol yn nodwedd o'r strwythur adrannol: • Dysgu ac Addysgu; • Arweinyddiaeth; • Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu; • Cymraeg; • Llesiant; • Dysgu Digidol; • Cefnogi Grŵp Dysgwyr sy'n Agored i Niwed; • Plant a Theuluoedd; sy'n darparu cyfleoedd pwysig i weithredu materion allweddol i ysgolion. Mae'r grwpiau hyn yn cael effaith gadarn o ran cyflawni materion pwysig a nodwyd ar lefel ysgol gan Benaethiaid a'r tîm gwella ysgolion, tra hefyd yn cadw llygad am ddatblygiadau strategol ar lefelau sirol, rhanbarthol, cenedlaethol, a rhyngwladol.

Mae cynllunio gwella yn datblygu'n dda ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar benderfynu ar nifer llai o flaenoriaethau allweddol. Mae uned ddata yr Adran yn cael ei hatgyfnerthu drwy greu swyddi newydd pwysig i wella ein dadansoddiad a'n dehongliad o dueddiadau data dros amser.

Mae'r System Rheoli Gwybodaeth Perfformiad (PIMS) wedi hen sefydlu. Mae targedau CAMPUS yn cael eu monitro'n chwarterol ac mae angen diweddariadau ansoddol a meintiol.

Mae ymateb COVID-19 yr Adran yn cael ei ystyried yn ganmoladwy iawn ac wedi cael ei ganmol gan reoleiddwyr. Cafodd cynllun Parhad Dysgu ei roi ar waith a'i weithredu'n gyflym. Ategwyd adnoddau i gefnogi hybiau gofal a llesiant mewn ysgolion gan fewnbwn allanol gan yr Athro Barry Carpenter. Yn ogystal cynorthwywyd y cwricwlwm adfer, a'r rheidrwydd i gefnogi addysgu a dysgu disgyblion agored i niwed, gan yr Athro Lee Elliot Major. Yn wythnosol (ac weithiau'n ddyddiol) roedd sesiynau briffio lechyd a Diogelwch yn darparu cefnogaeth hanfodol, a gafodd eu hategu gan sesiynau galw heibio ar bynciau amrywiol sy'n ymwneud ag ymateb brys.

Mae pob aelod o staff yn cael Arfarniad blynyddol. Mae'r rhain yn gyfleoedd strwythuredig i ystyried beth sy'n mynd yn dda ac a oes unrhyw gyfyngiadau neu rwystrau o ran agweddau ar ddarparu gwasanaethau. Mae'r ymagwedd 'Cydnabod, Tyfu, Gyda'n Gilydd' yn canolbwyntio ar gryfderau ac yn helpu meysydd gwasanaeth i dyfu drwy archwilio'r hyn sydd wedi cael ei wneud yn dda a sut gall pobl weithio gyda'i gilydd i gyflawni ein syniadau.

Mae'r broses graffu wedi cael ei hen sefydlu yn CSC ac wedi ei gyfeirio uchod. Mae cyfleoedd i Benaethiaid Gwasanaeth gwrdd â deilydd y Portffolio. Mae'r holl brif gyfarwydddebau polisi yn rhan o'r broses gorfforaethol ac yn cael eu trafod yn y Tîm Rheoli Adrannol, y Tîm Rheoli Corfforaethol, Rhag-gyfarfod y Cabinet, a'r cabinet, gyda nifer yn symud ymlaen i'r Pwyllgor Craffu a'r Cyngor llawn.

meysydd arolygu i'w datblygu 2012

Mae adroddiadau thematig Estyn yn cael eu nodi ar daenlen ac maent i gyd yn cael eu neilltuo i'r Grŵp strategol perthnasol i'w gweithredu. Mae rheoleiddwyr eraill yn dylanwadu ar gynllunio busnes mewn modd cadarnhaol iawn megis agweddau ar y Gwasanaethau Plant a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Mae gwelliannau amlwg i'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi datblygu'n dda iawn dros y pum mlynedd diwethaf, fel y mae ennill ystod o wobrau allanol ac ennill cydnabyddiaeth genedlaethol yn ei dystio bellach. Yn yr un modd, mae'r gwasanaeth ymddygiad ac ymgysylltu wedi datblygu'n dda.

Mae cwynion a chanmoliaethau yn cael eu hystyried yn y Tîm Rheoli Adrannol yn chwarterol a gweithredir ynghylch yr adroddiad blynyddol yn brydlon. Mae'r adroddiadau hyn yn aml yn graff ac yn ysgogi camau penodol.

Mae adolygiadau gwasanaeth wedi'u cwblhau ar gyfer y Tîm Rheoli Adrannol, a gwahoddir rheolwyr trydedd haen i drafod perfformiad.

Mae proses Adroddiad Hunanwerthuso gynhwysfawr a oedd yn cynnwys 2 ddiwrnod i ffwrdd yn ystod haf 2022, a phroses adolygu a gwerthuso barhaus.

Derbyniadau Disgyblion - cyrhaeddwyd pob targed statudol ac ar hyn o bryd mae ceisiadau ar gyfer ffoaduriaid yn cael eu trefnu, ynghyd â phob cais derbyn arall i ysgolion.

Côd Trefniadaeth Ysgolion - Mae'r holl newidiadau i ysgolion sydd angen proses ymgynghori

	statudol o dan y Côt Trefniadaeth Ysgolion wedi'u cwblhau yn unol â gofynion y Côt. Mae Arlwyio Ysgolion wedi addasu'n dda i ffyrdd newydd o weithio ac wedi parhau i ddarparu gwasanaeth prydau twym ym mhob ysgol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i gydymffurfiaeth o ran diogelwch bwyd ac alergenau. Sut gallwn ni wneud yn well? • Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad o brosesau Cynllunio a Monitro Busnes yr Adran, ac un o'r argymhellion yw gallu cynhyrchu Cynlluniau Busnes yn unol â'n Grwpiau Ffocws Strategol yn hytrach na Chynlluniau Busnes Is-adrannol. • Mae ein Adolygiadau Gwasanaeth yn nodi sut gall pob gwasanaeth wella (gormod o enghreifftiau i'w rhestru) ac rydym yn defnyddio'r rhestr hon i lywio ein rownd nesaf o Gynlluniau Busnes.
2. defnyddio adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol; .	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny? Mae'r modd mae'r Cyngor yn dyrannu adnoddau yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i wasanaethau addysg. Mae'r awdurdod lleol yn gwario'n uwch na'r asesiad seiliedig ar ddangosyddion ar gyfer y gwasanaethau addysg ac wedi cynyddu a gwarchod cyllidebau ysgolion yn erbyn cefndir o bwysau ariannol ar draws y cyngor. Mae gan yr awdurdod lleol hefyd raglen gyfalaf sylweddol mewn perthynas ag ysgolion o ran adeiladau ysgol newydd a buddsoddi yn stad ei ysgolion presennol. Yn 2021/22 dirprwywyd 87.9% o'r gyllideb addysg gan Sir Gaerfyrddin (heb gynnwys cludiant ysgol) i ysgolion, a oedd yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig o 87.3%. Mae gan yr awdurdod ystod eang o gytundebau lefel gwasanaeth ar waith, wrth i bob ysgol bron fod yn rhan o'r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth. Am y 5 mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor Sir wedi gwarchod cyllidebau ysgolion ac nid yw wedi ei gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud arbedion effeithlonrwydd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae cyllid twf wedi'i ddyrannu i fynd i'r afael â phwysau o fewn ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen, gan gynnwys cynrychiolwyr ysgolion i ystyried pwysau allweddol a sut y gellir addasu'r fformiwla a defnyddio cyllid twf. Er enghraifft, yn 2022/23, yn dilyn ymgynghori â'n Penaethiaid, cyllid atodol yn ogystal ag anrhydeddu codiadau cyflog a chwyddiant, dyrannwyd £500k i gefnogi llesiant ac ymddygiad yn ein Hysgolion Uwchradd, £500k i gefnogi ADY mewn ysgolion cynradd, a £1 miliwn i gyllid fformiwla ysgolion cynradd i gefnogi cost cynnal y ddarpariaeth bresennol. Mae disgwyl i'r adolygiad o'n rhaglen fuddsoddi mewn ysgolion ddarparu cyngor ac argymhellion i'r Cabinet er mwyn mynd i'r afael â phwysau cyllidebol a heriau o ran y ddarpariaeth mewn ysgolion cynradd. Mae'r awdurdod yn ymwybodol o'r risgiau ariannol presennol a'r rhai sydd ar y gorwel. Maent yn cydnabod bydd angen ymateb i heriau cynyddol, gan gynnwys cynnydd posib mewn costau sy'n ymwneud â chyflogau a phensiynau staff, ynni a thrafnidiaeth. Mae cyllid ychwanegol wedi ei roi i ysgolion yn rheolaidd i adlewyrchu'r gofynion. Caiff y Fformiwla Cyllido Ysgolion ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y fformiwla'n parhau i fod yn briodol, o ystyried y newidiadau o ran darparu gwasanaethau addysg a heriau cyd-destunol ysgolion unigol. Gwnaed addasiadau i fynd i'r afael â phwysau sy'n dod i'r amlwg a blaenoriaethau newydd e.e. adolygiad o gyllid ADY. Mae trafodaethau adeiladol yn digwydd ar Fforwm y Gyllideb Ysgolion, sydd â chynrychiolwyr o sectorau gwahanol, ac mae'r fforwm yn helpu i lywio penderfyniadau o ran dyrannu adnoddau. Mae trefniadau ar waith gan yr awdurdod lleol i weithio gyda'r ysgolion sydd mewn diffyg ariannol ac mae wedi ymyrryd yn briodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yr ysgolion sydd mewn sefyllfa o ddiffyg ariannol wedi gostwng o 47 yn 2019 i 20 yn 2022. Mae cronfeydd wrth gefn wedi symud o ddiffyg ariannol o £1.9m yn 2019 i warged o £15.2m yn

2022. Mae hyn oherwydd proses gadarn o ddwyn ysgolion i gyfrif, dyfarnu cyllid ychwanegol i ysgolion o'r gyllideb gorfforaethol, ac arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i ddeall sefyllfa ariannol bresennol a rhagamcanol ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Yn ystod 2021/22:

- gwelwyd cynnydd o £3.2m mewn balansau ysgolion cynradd cyfanredol (tua 5% o'r cyllid fformiwla),
- roedd gan 19 ysgol gynradd ddiffyg 'mewn blwyddyn' ac o'u plith roedd gan 13 o'r rhain 80 neu lai o ddisgyblion, gyda gorwariant o 13% yn y flwyddyn ar gyfartaledd.

2022/23:

- Mae llai nag 80 disgybl yn 13 o'r 20 ysgol (65%) sydd angen trwydded diffyg.
- Rhagwelir mai'r diffyg ariannol cyfartalog â thrwydded ar gyfer yr ysgolion hyn fydd 32% o'u cyllid fformiwla.

Mae ysgolion wedi manteisio ar gyllid grant ychwanegol sylweddol sydd wedi'i ryddhau yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar nifer o gyllidebau ysgolion eleni ac i'r flwyddyn nesaf:

- Arian grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn ystod y flwyddyn (e.e. Dysgu Ychwanegol, Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau) yn ogystal â grantiau penodol yn hwyr yn y flwyddyn ariannol (e.e. ADY COVID-19 a dderbyniwyd ym mis Chwefror, cyllid grant Gofalu a Glanhau)
- Llai o weithgareddau a gyllidir fel arfer gan gyllidebau nad ydynt yn rhai cyllid y pen e.e. tripiâu ysgol
- Mae yswiriant absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cael ei hawlio o gronfa galedi Llywodraeth Cymru.

Mae'r awdurdod wedi derbyn cynlluniau priodol gan ysgolion sy'n nodi sut byddant yn mynd i'r afael â diffygion ac yn defnyddio'r balansau ychwanegol.

Mae'r cyllid grant sylweddol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a chyllid ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cael ei groesawu a'i ddirprwyo i ysgolion, tra hefyd yn ariannu rhai gwasanaethau cymorth craidd i wella ysgolion. Mae'r cyllid a ddyrennir i Partneriaeth, y consortiwm rhanbarthol, yn cael ei ddosbarthu i bwy bynnag sydd yn y sefyllfa orau i fodloni amodau'r grant h.y. Partneriaeth neu'r Awdurdod Lleol. Mae systemau monitro cadarn ar waith ac mae systemau, prosesau, a gwariant yn destun archwilio mewnol yn rheolaidd, i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgwyr.

Mae'r Awdurdod Lleol yn helpu ysgolion i sicrhau cyllid allanol e.e. Taith ac wedi manteisio ar arian Ewropeaidd i roi cymorth i ddysgwyr agored i niwed. Mae'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid wedi cael mynediad at gyllid sylweddol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ddarparu atebion pwrpasol i gefnogi pobl ifanc a lleihau NEETS.

Mae'r Cyngor Sir wedi sicrhau cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ysgolion i fynd i'r afael â heriau COVID-19. Er mwyn galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu, cafodd grantiau allweddol fel Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau eu dirprwyo i ysgolion tra bo'r Cyngor Sir wedi gwneud y penderfyniad strategol i reoli darpariaethau allweddol canolog fel glanhau ychwanegol, Cyfarpar Diogelu Personol a Profi, Orlhain, Diogelu.

Mae ysgolion yn cael cefnogaeth dda i sicrhau bod cymaint o incwm ag y bo modd yn cael ei greu, ac mae Swyddog TIC yr Ysgolion wedi helpu i leihau costau a rhannu arfer gorau. Cafodd y Gronfa Datblygu Ysgolion ei chyflwyno yn 2018 ac mae wedi darparu cyllid sbarduno i ysgolion gyflwyno cynigion gwerth am arian.

Mae'r awdurdod lleol yn cymharu ei gostau a'i ganlyniadau gyda rhai awdurdodau tebyg eraill, ond mae'n anodd cymharu oherwydd materion fel nifer yr ysgolion, pa mor wledig ydynt, iaith a niferoedd disgyblion.

	<u>Rydym yn darparu'r Prif Swyddog ar gyfer y Gwasanaeth Cwnsela Annibynnol i Ysgolion a'r Gymuned, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n manteisio i'r eithaf ar fynediad a chanlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n profi gofid emosiynol ac sydd am geisio cefnogaeth gan gwnselydd annibynnol.</u> Effeithlonrwydd Gan elwa ar fanteision cydweithio a gweithio mewn partneriaethau, roedd Sir Gâr yn allweddol o ran sefydlu Partneriaeth er mwyn darparu gwasanaethau i ysgolion ar draws y rhanbarth newydd. Yn ystod Haf 2022 fe wnaeth Estyn ddarn o waith ffocws ar y trefniant rhanbarthol newydd, gan nodi Bod gan Partneriaeth strwythur llywodraethu cadarn a thryloyw dan arweiniad Cyd-bwyllgor sy'n cynnwys Arweinydd pob Cyngor Sir a'r Aelodau Cabinet dros Addysg. Ceir Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chynghorau i ddarparu gwasanaethau allweddol e.e. Cyllid, Adnoddau Dynol, y Gyfraith. Mae'r Byrddau Strategol yn cefnogi'r Cyd-bwyllgor i sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn cwrdd â gofynion yr Awdurdod Lleol. Mae Cyfarfod Sicrhau Ansawdd Awdurdod Lleol/Partneriaeth rheolaidd yn caniatáu i swyddogion Sir Gaerfyrddin drafod materion a heriau lleol a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Archwilir Partneriaeth drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Penfro. Mae Sir Gaerfyrddin yn gweithio gydag ystod o awdurdodau/partneriaid lleol eraill ar amrywiaeth o fentrau. Gwnaeth Sir Gaerfyrddin, ynghyd ag Abertawe a Sir Benfro, sefydlu Partneriaeth, sef consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol newydd i ddarparu cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer ein hysgolion. Ar draws meysydd gwasanaeth eraill rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru gan sicrhau'r gwerth gorau am arian a rhannu arferion effeithiol e.e. CYSUR - gwaith Diogelu Plant a Thrawsnewid ADY Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.
3 <i>llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod</i>	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny? Pwyllgor Craffu Bwrdd Diogelu Fforwm Derbyniadau – yn cwrdd yn rheolaidd i oruchwylio'r broses o dderbyn ysgolion, er mwyn craffu ar y trefniadau derbyn Byrddau Llywodraethu Prosiectau a Rhaglen Gorfforaethol (e.e. Rhaglen Moderneiddio Addysg a Chymunedau) Sut gallwn ni wneud yn well? Cyfathrebu cryfach gydag ysgolion fel eu bod yn deall eu rôl yn y broses dderbyn.
Dyletswydd i Ymgynghori	
<i>A oes unrhyw ymgynghori ynghylch eich asesiad o berfformiad?</i>	Mae'r adran yn ymdrechu i ymgynghori â rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o ymgynghoriadau. Tarfwyd ar rai o'r prosesau hyn yn ystod y pandemig ond wrth i ysgolion a gwasanaethau Adrannol ddychwelyd i ffordd fwy arferol o weithio, mae'r prosesau hyn wedi dychwelyd. Wrth i ddiwedd tymor yr haf agosáu, cynhaliwyd arolygon ar wahân gyda Phenaethiaid, disgyblion a rhieni i ganfod eu barn am y gwasanaethau rydym yn eu cynnig drwy ysgolion a gwasanaethau adrannol eraill, sydd yn eu tro yn cael eu hadlewyrchu yn ein Hadroddiad Gwerthuso Gwasanaethau. Cynhaliodd Estyn nifer o arolygiadau ysgolion drwy gydol y flwyddyn academaidd ac mae argymhellion Estyn yn cael eu mabwysiadu gan gyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Tîm Gwella Ysgolion fel rhan o'u cynllun gwaith. Cynhelir ymweliadau rhithwir Arolygydd Cyswllt Awdurdodau Lleol Estyn (LALI) drwy gydol

y flwyddyn, sy'n rhoi cyfle i Arolygwyr ganolbwyntio ar flaenoriaethau cyfredol, er enghraifft Hunan-werthuso a blaenoriaethau gwella'r dyfodol. Mae cyfle hefyd i'r Awdurdodau Lleol rannu unrhyw faterion cyfredol. Yn yr un modd, gall Estyn drafod datblygiadau arolygu gydag arweinwyr ysgolion. Gall yr arolygydd cyswllt ein helpu i fyfyrion ar gryfderau a meysydd gwella a'u mireinio.

Mae gan yr Adran raglen dreigl o Adroddiadau Archwilio Mewnol, lle mae Rheolwyr Gwasanaethau yn cynhyrchu adroddiad ar eu meysydd cyfrifoldeb ac yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod Tîm Rheoli Adrannol sy'n adolygu ac yn herio'r adroddiad. Os bernir bod hynny'n angenrheidiol, mae'r adroddiadau'n cael eu hanfon ymlaen at bwyllgorau corfforaethol, y Tîm Rheoli Corfforaethol, Rhag-gyfarfod y Cabinet, Craffu ac ati i'w harchwilio ymhellach.



Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru ei llythyr Gwiriad Sicrwydd 2021 ar gyfer Cyngor Sir Gâr

[211104-carmarthenshire-en.pdf \(careinspectorate.wales\)](https://www.careinspectorate.wales/211104-carmarthenshire-en.pdf)

Roedd hwn yn adroddiad positif iawn

Sicrwydd Gofal Cymdeithasol i Blant

- Arweinwyr agos-atoch a chefnogol
- Diwylliant o gyd-gynhyrchu a chanlyniadau personol yn cael eu datblygu gyda phobl
- Eglurder mewn methodoleg weithredol
- Cydweithredu aml-asiantaeth cryf
- Ymagwedd integredig cadarnhaol at ddiwylliant o atal drwy gydweithio
- Poblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal isel
- Gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant pobl yng nghyfnod y pandemig

Risgiau Gofal Cymdeithasol i Blant - ni nododd AGC unrhyw feysydd risg sylweddol:

Bu i'r Gwiriad Sicrwydd nodi anghysondeb yn achos rhai gadawyr gofal o ran eu Hymgyngorwyr Personol.

Camau Nesaf Nododd AGC gryfderau a meysydd blaenoriaeth i'w gwella a bydd yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad gyda'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Mae AGC yn disgwyl i'r meysydd i'w gwella a nodwyd gael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol.

Sicrwydd Addysg Plant

- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o broblemau yn yr awdurdod, gan gynnwys yr ysgolion sy'n achosi pryder
- Cafodd y cyfathrebu da rhwng adrannau ei gynnal gan arweinwyr drwy gydol y pandemig i sicrhau bod cymorth i ysgolion a darparwyr eraill ar gael yn gyflym
- Mae nifer sylweddol o ysgolion cynradd wedi eu tynnu o restr Adolygu Estyn.
- Dengys adroddiadau cyn-arolygiad fod yr awdurdod yn adnabod ei ysgolion yn dda ar y cyfan
- Mae'r ALL yn rhagweithiol wrth gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd
- Mae'n ymddangos bod gan swyddogion yr ALL gynlluniau addas ar waith i ddelio â'r problemau o ran arweinyddiaeth ysgolion llai, er enghraifft drwy ffedereiddio neu uno.
- Mae'r awdurdod wedi helpu ysgolion a darparwyr i ddeall a gwreiddio'r ddeddf ADY newydd
- Trefniadau craffu effeithiol

Pryderon

- Prin iawn yw'r ysgolion cynradd yn y categori statudol.
- Gan fod yr awdurdod lleol wedi gadael ERW, mae ansicrwydd ynghylch rhai trefniadau gyda Partneriaeth
- Mae recriwtio penaethiaid i arwain ambell ysgol gynradd yn peri pryder
- Er bod nifer y disgyblion ar y cyfan na symudodd o flwyddyn 10 i 11 yn Sir Gaerfyrddin ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfraddau'r disgyblion na ellir eu paru â lleoliad yn uchel mewn lleiafrif o ysgolion dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Balansau cyllidebau mewn ysgolion

Dyletswydd i Adolygu Perfformiad yn Barhaus	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny? Sut gallwn ni wneud yn well? (gweler y pwyntiau bwled)
Gofynion Perfformiad	
<i>1 arfer swyddogaethau'n effeithiol</i>	Lle a Chynaliadwyedd Roedd y gwasanaeth Cynllunio yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru yn 2021/22, a ganfu bod problemau perfformiad sylweddol a hirsefydlog yn y gwasanaeth cynllunio yr oedd angen mynd i'r afael ar frys â nhw er mwyn helpu i gyrraedd uchelgeisiau'r Cyngor. <i>Ystyriodd y Cyngor y canfyddiadau a'r argymhellion a pharatoi cynllun ymateb a gweithredu manwl sy'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd. Mae newid wedi bod o ran % y ceisiadau cynllunio y penderfynir arnynt mewn pryd.</i> Carbon Sero Net - mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd a'r Cyngor oedd y cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi Cynllun Gweithredu. Daeth adolygiadau Archwilio Mewnol ynghylch Carbon Sero Net i'r casgliad bod systemau a rheolaethau lefel uchel ar waith. Gwastraff Bu gwastraff yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru yn 2021/22 <i>Canfu fod y Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol ac yn ddiweddar wedi drafftio strategaeth i wneud ei wasanaeth gwastraff yn fwy cynaliadwy, ond nid yw wedi cwblhau'r strategaeth nac wedi cael cynllun clir ar gyfer delio â'r nifer fawr o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn y sir.</i> Mae 8 o argymhellion wedi cael sylw. <i>Mae'r Strategaeth Wastraff bellach wedi'i chymeradwyo. Mae angen cynllun gweithredu clir sy'n canolbwyntio ar y camau y cytunwyd arnynt i adennill cyfraddau'r sir i 65% ac yna'r camau i gyrraedd 70%. Mae'r perfformiad o ran clirio tipio anghyfreithlon yn ôl i'r lefelau cyn COVID-19, er gwaethaf cynnydd o 33% yn nifer yr achosion gafodd eu clirio.</i> Priffyrdd a Thrafnidiaeth Mae'r Is-adran yn cynhyrchu Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Blyneddol sy'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu. Nid oes llawer o wybodaeth am Berfformiad ar gael. Gwella Gwasanaethau Rydym wedi llwyddo i gael hwb i weithio o fewn Lle a Chynaliadwyedd i gefnogi'r Swyddogion Gorfodi a Rheoli Datblygu. Mae'r cydweithio rhwng y Gwasanaethau Glanhau ac Addysg wedi bod yn ganolog i'r Gwasanaethau Glanhau ac Eiddo mewn perthynas â COVID-19, PPE a Chynnal a Chadw. Sut gallwn ni wneud yn well? • Gwella Cynllunio Busnes • Gwella cynllunio gweithredu CAMPUS a Dangosyddion Perfformiad • Cyflwyno gwell penderfyniadau ar sail data • Gwella mynediad i'r we a defnyddio'r dangosfyrddau perfformiad • Blaenoriaethu meysydd gwella sy'n seiliedig ar dystiolaeth • Sicrhau bod mwy o integreiddio o ran adrodd perfformiad ar lefelau adrannol a chorfforaethol.
<i>2. defnyddio adnoddau yn economaidd,</i>	Economaidd • Mae'r adran wedi addasu i flynyddoedd lawer o ostyngiadau yn eu cyllideb tra'n cynnal gwasanaethau.

<i>yn effeithlon ac yn effeithiol.</i>	• Ymgynghorir ynghylch strategaeth y Gyllideb Refeniw bob blwyddyn gyda Chraffu. <u>Effeithlonrwydd</u> • Mae'r adran wedi cryfhau ei chynllunio busnes ac ymestyn ei dangosyddion perfformiad. • Mae'r adran yn monitro cynnwys y cynllun busnes adrannol a rhanbarthol • Mae'r Cyfarwyddwr wedi cynyddu prosesau her y gwasanaeth yn yr adran. • Caiff Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf eu monitro gan Craffu bob tri mis o'r flwyddyn. <u>Effeithiol</u> • Cymerodd 4,034 o drigolion ran yn yr ymgysylltu ynghylch y strategaeth wastraff newydd • Ymgynghoriad ar gynlluniau amrywiol e.e. Coridor Heol y Sandy 334 o gyfranogwyr • Canfu fod yr Archwiliad mewnol o'r Clefyd Coed Ynn, Gwariant Adrannol, Amddiffyn Llifogydd a Diogelu'r Arfordir yn dderbyniol. Sut gallwn ni wneud yn well? <u>Economaidd</u> • Mae angen gwneud gwell defnydd o ddata a gwybodaeth er mwyn helpu i lywio gofynion datblygu'r gweithlu yn y dyfodol. Sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb ymhellach i'r heriau recriwtio a chadw staff parhaus, yn enwedig o fewn rhai o'r meysydd sy'n cystadlu â'r sector preifat fel Cynllunio, Dylunio Eiddo. <u>Effeithlon</u> • Mae'r diffyg capasiti yn yr Adran i gefnogi newid ac amcanion trawsnewid wedi'u hamlygu fel maes sylweddol i ni ganolbwyntio arno, ac mae gan hyn y potensial i effeithio ar allu'r adran i ddatblygu nifer o flaenoriaethau allweddol megis gwelliannau i wasanaethau, sy'n hanfodol wrth symud ymlaen. • Bydd yr Adran yn adolygu ei threfniadau Monitro Perfformiad er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Fframwaith Monitro Perfformiad Corfforaethol newydd er mwyn cael darlun llawn o'r perfformiad Strategol a Gweithredol. • Byddwn ni'n datblygu ac yn sefydlu mesurau sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau a Dangosyddion Perfformiad i gefnogi gwella gwasanaethau a nodi bylchau yn ein trefniadau monitro. <u>Effeithiol</u> • Mae datblygu ein cynnwys gwe yn allweddol i'n hadran wrth symud ymlaen. Ein nod yw gwella'r wybodaeth sydd ar gael a datblygu ffurflenni gwe pellach sy'n integreiddio â systemau cefn swyddfa i ddileu'r angen am gael mewnbwn â llaw a cheisiadau papur. Ein nod yw ychwanegu taliadau electronig at gynifer o'n prosesau ymgeisio ag sy'n bosib, a phroses o'r dechrau i'r diwedd lle mae'r cwsmer yn derbyn diweddariadau ar ei ymholiad/archeb/adroddiad. Rydym wedi nodi rhai meysydd o ddatblygiad gwe a fydd yn allweddol i wella boddhad cwsmeriaid a lleihau'r galw yn sgil methiant, fel ceisiadau cynllunio.
3. <i>Ilywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod</i>	Pa mor dda rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwybod hynny? • Mae Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf yn cael eu hadrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor Craffu. • Mae Cynlluniau Busnes Adrannol yn cael eu cynhyrchu a'u hadolygu bob blwyddyn. Maent yn cael eu cyflwyno i amryw bwyllgorau craffu. • Mae'r holl ganlyniadau'n cael eu monitro drwy adroddiadau chwarterol i'r Tîm Rheoli Adrannol a'r Pwyllgor Craffu.

	Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o'r Llywodraethu Corfforaethol ac mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol. Mae gan yr Awdurdod Grŵp Llywio Rheoli Risg sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cabinet, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac i'r Tîm Prif Swyddogion (Tîm Rheoli Corfforaethol). Mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn archwilio'r modd y gellir datblygu Rheoli Risg ac yn sicrhau bod Rheoli Risg yn rhan annatod o holl benderfyniadau'r sefydliad. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob tri mis ac yn cael ei gefnogi gan waith ei Is-grwpiau h.y. Risgiau Eiddo ac Atebolrwydd, Risgiau'r Fflyd Gerbydau, a Chynlluniau Wrth Gefn. Daeth yr adolygiad TIC ym mis Rhagfyr 2021 i'r casgliad: <i>'Mae Cylch Gwaith y Grwpiau Llywio Rheoli Risg a'i is-grwpiau amrywiol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Bydd hyn yn caniatáu i'r Grŵp Strategol fabwysiadu dull mwy strategol o ystyried materion rheoli risg, megis cynnal adolygiadau rheolaidd o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.'</i> Gellid cryfhau rôl y Grŵp Llywio o ran dyrannu'r £250k o gyllid rheoli risg drwy gyflwyno meini prawf cliriach ar gyfer sut y caiff y cyllid hwn ei flaenoriaethu a'i wario'n flynyddol <u>Panelau Ymgynghorol y Cabinet</u> • Datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol - Cymryd perchenogaeth wleidyddol ar y CDLI a sicrhau bod proses y CDLI yn cael ei rheoli yn unol â'r Cytundeb Datblygu. • Panel Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Newid Hinsawdd – i'w sefydlu. Sut gallwn ni wneud yn well? • Ailstrwythuro i wella llywodraethu a chydymffurfio
Dyletswydd i Ymgynghori	
<i>A oes unrhyw ymgynghori ynghylch eich asesiad o berfformiad?</i>	<u>Priffyrdd a Thrafnidiaeth</u> • Mae ein timau dylunio yn gweithio gydag ystod o gleientiaid allweddol ac mae sicrhau bod eu dyluniadau'n diwallu anghenion cleientiaid a defnyddwyr gwasanaethau yn ofyniad sylfaenol. • Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan hanfodol o ddatblygiad ein prosiectau peirianeg. Mae datblygu cynlluniau ar gyfer gwella priffyrdd a newidiadau i reoli traffig yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus. • Mae cynnwys cymunedau lleol ac ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig sy'n newid terfynau cyflymder, newid darpariaeth parcio neu reoli traffig yn ddyletswydd statudol yr ydym yn ei chyflawni ar raddfa sylweddol. • Mae'r Is-adran yn gweithio'n agos gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar ystod o faterion gan gynnwys rheoli goleuadau cyhoeddus, cyflwyno goleuadau LED yn ddiweddar, ymgynghori allweddol ar welliannau traffig a phriffyrdd, datblygu rheoli a chynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus, a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer terfynau cyflymder, parcio a gwelliannau rheoli traffig eraill. • Mae'r Is-adran yn cefnogi hyrwyddo digwyddiadau ein sefydliadau partner i hyrwyddo llefydd, gweithgareddau a digwyddiadau yn y Sir megis Taith Prydain, Llanelli Pride, Marchnadoedd Nadolig ac mae hyn hefyd yn cynnwys cynigion parcio am ddim. • Mae'r Cyngor Sir yn bartner yn Ardal Gwella Busnes Llanelli a Chaerfyrddin sy'n darparu cymorth ariannol ac yn gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o randdeiliaid a busnesau. • Mae'r Is-adran yn gweithio gyda grwpiau gwirfoddol ar faterion fel cynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar y cyd â Cherddwyr, a threfnwyd swyddogion 'Llwybrau at Lesiant'

- Mae ein Tîm Cludiant Teithwyr yn parhau i ymgynghori â defnyddwyr a rhanddeiliaid gwasanaethau ac yn gweithio'n rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru/Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdodau cyfagos i ddeall y galw am wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus mewn amgylchedd ôl-COVID-19 sy'n newid.
- Mae ein Tîm Cynllunio Trafnidiaeth hefyd yn hyrwyddo Cynlluniau Teithio Ysgolion yn ein hysgolion i gynnwys disgyblion wrth gyfrannu ac annog patrymau teithio ieuchyd, ac mae ein Tîmau Diogelwch Ffyrdd yn atgyfnerthu hyn gyda Kerbcraft a hyfforddiant beicio.
- Yn ystod pandemig COVID-19, cyflwynodd yr Is-adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth newidiadau o ran tir y cyhoedd i gefnogi adferiad canol trefi a chynnal ymarfer ymgynghori eang, lle cafwyd sylwadau gan 52 o fusnesau a 286 aelod o'r cyhoedd, a gynhwyswyd mewn adolygiad o fesurau.

Lle a Chynaliadwyedd

- Hwyluso Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin
- Gall y wybodaeth a gasglwyd gan yr hwb cynllunio nodi gwelliannau i wasanaethau.
- Ymgynghoriad ffocysedig a chyhoeddus llawn wedi'i gynnal yn ystod paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a dogfennau polisi eraill ac ymyriadau cynllunio fel Gorchmynion Datblygu Lleol.
- Fforymau rhanddeiliaid allweddol a fforymau eraill (gan gynnwys fforwm datblygwr/hyfywedd).
- Hwyluso, cyfrannu, ac arwain ar grwpiau thematig lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Sefydlu grŵp ymgynghori gweithredu hinsawdd ysgolion a gweithredu'r manifestio ar gyfer Carbon Sero Net.
- Darparu cyfleoedd i'r trigolion ymgysylltu â ni yn ystod proses cais cynllunio.

Gwastraff

- Mae ein gwaith ymgynghori ynghylch y gyllideb wedi cael ei glustnodi fel arfer gorau yng Nghymru ac rydym yn ei ddefnyddio fel sail. Byddwn yn datblygu ymhellach ymagweddau ymgynghori ac ymgysylltu y Cyngor yn ystod 2021.
- Cafodd ein gwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu ynglŷn â Strategaeth Wastraff y Dyfodol dros 4,000 o ymatebion gan lunio dyluniad ein gwasanaeth yn y dyfodol yn uniongyrchol.
- Y Tîm Ailgylchu Cymunedol i ailddechrau'r Arolygon Cyfranogiad Ailgylchu (o ddrws i ddrws) pan fydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu, gyda golwg ar gynyddu'r niferoedd sy'n rhan o'r cynlluniau ailgylchu gwahanol. Canlyniadau i'w cynnwys wrth ddarparu'r gwasanaethau gwastraff yn y dyfodol.

Cynnal a Chadw Eiddo

- Rydym yn ymgynghori'n rheolaidd â'n cwsmeriaid mewnol. Gall yr ymgynghoriad gynnwys cynnal a chadw adeiladau, cydymffurfiaeth a chyflwr adeiladau, a dylunio eiddo.

Datblygu'r Gwasanaeth

- Ni sy'n arwain o ran rhoi cefnogaeth ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig yn ein hadran, fodd bynnag dim ond hyn a hyn o adnoddau sydd gennym.

Ymateb y Cyngor i bandemig COVID-19 – trawsnewid heb ei gynllunio

Ym Mawrth 2020, roedd Cyngor Sir Caerfyrddin ar fin cychwyn un o'r cyfnodau mwyaf heriol wynebodd llywodraeth leol erioed. O achos effaith pandemig COVID-19, bu'n rhaid i'r wlad gyfan wynebu set unigryw o heriau, a derbyniwyd byddai angen i Gynghorau fod wrth wraidd yr ymateb lleol i'r argyfwng.

Pan ddechreuodd y Cyngor, ym mis Gorffennaf 2020, i ddechrau dod allan yn raddol bach o'r argyfwng gwaethaf, roedd pawb yn sylweddoli 'na fyddai pethau byth union yr un peth' ac nad yr un sefydliad oeddem bellach â phum mis ynghynt.

Roedd y Cyngor yn awyddus felly i fanteisio ar yr hyn ddysgwyd yn ystod ei ymateb i'r pandemig; beth weithiodd yn dda / beth oedd heb weithio cystal, a sut gallai hyn o bosib newid 'beth rydym yn ei wneud' a 'sut rydym yn ei wneud' yn y dyfodol.

Golygodd argyfwng COVID-19 fod yn rhaid i wasanaethau addasu'n gyflym er mwyn rhoi trefniadau amgen ar waith i ddefnyddwyr a staff i sicrhau parhad y ddarpariaeth. Roedd hyn yn aml yn gofyn am feddwl yn arloesol a chreadigol ac am fabwysiadu ymagwedd aml-dîm rhwng gwasanaethau o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, a gall y profiad hwn ond helpu'r ffordd rydym yn llunio ac yn darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r gwasanaethau hefyd wedi dangos eu bod yn hynod wydn a bod ganddynt bellach gynlluniau parhad gwasanaeth mwy cadarn ac ymagwedd fwy aeddfed at risg - mae hyn yn golygu y gallant fod yn fwy hyderus ac uchelgeisiol wrth chwilio am ffyrdd o ddatblygu gwasanaethau mwy pwrpasol.

Bydd symud i drefn lle mae pobl yn gweithio o bell yn amlach ac yn dibynnu llai ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb a phrosesau papur, ochr yn ochr â disgwyliadau a gofynion newidiol y cwsmeriaid, yn gyfle i'r Cyngor ystyried y math o wasanaethau mae'n eu darparu yn y dyfodol a sut mae'n gwneud hynny. Efallai bydd y pandemig hefyd wedi newid disgwyliadau cwsmeriaid o ran 'sut' a 'phryd' maent yn defnyddio gwasanaethau, ac felly mae'n bosib bydd angen i'r Cyngor ystyried mabwysiadu modelau darparu gwasanaethau mwy hyblyg e.e. gweithio 7 diwrnod/24 awr.

Fodd bynnag, bydd angen i ni sicrhau hefyd fod gwasanaethau'n parhau i ymateb i ddisgwyliadau ac anghenion cwsmeriaid. Yn ystod amgylchiadau mwy arferol, efallai na fydd cwsmeriaid eisiau'r modelau cyflawni eraill a roddwyd mewn lle fel rhan o ymateb i bandemig. Felly, dylai cyd-gynhyrchu fod yn nodwedd ganolog o ymagwedd y Cyngor at adolygu ac ail-ddylunio ei wasanaethau wrth symud ymlaen.

Mae hwn hefyd yn gyfle nawr i ailosod neu fynd yn ôl i'r pethau syml wrth ddefnyddio rhai egwyddorion craidd sy'n sail i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Nid oes rhaid i ni bob amser ailfodelu gwasanaethau'n helaeth na gwario symiau sylweddol o arian er mwyn darparu gwasanaethau gwell. Mae newidiadau syml i ymddygiad a phrosesau o ran ffordd rydym yn trin cwsmeriaid yn gallu arwain at welliannau mawr o ran darparu gwasanaethau - nid oes rhaid cael buddsoddiad mawr mewn staff a systemau i gyflawni hyn bob amser.

Bydd manteision cael gweithlu mwy hyblyg, deinamig a grymusol bellach yr un mor bwysig i gefnogi ein rhaglen drawsnewid, ac i helpu'r Cyngor i gyflawni ei nodau a'i amcanion ehangach. Y tebygolrwydd yw bod ein heriau recriwtio staff yn debygol o fod gyda ni am y tymor canolig o leiaf, ac felly bydd angen mwy o ffocws ar ddatblygu a chadw staff, a fydd yn flaenoriaeth i'n Strategaeth Gweithlu wrth symud ymlaen. Mae'r Cyngor yn ceisio datblygu dull mwy cynaliadwy er mwyn diwallu anghenion ei weithlu yn y dyfodol drwy fabwysiadu strategaeth 'tyfu eich hun'. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd ar fin lansio rhaglen 'Gweithlu'r Dyfodol' a fydd yn ceisio cynyddu cyfleoedd i raddedigion, prentisiaethau a phrofiad gwaith.

Mae angen cryn ffocws hefyd ar yr agenda llesiant wrth symud ymlaen, gan gynnwys datblygu dull cynaliadwy o weithio o bell ac ail-gysylltu'r sefydliad â chenhedlaeth gyfan o ddechreuwyd newydd na fyddant wedi cwrdd â'u cydweithwyr o gwbl wyneb yn wyneb.

Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u nodi ar gyfer cam nesaf taith drawsnewidiol y Cyngor

Blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg	Nodau Trawsnewid
Pobl	Goruchwyllo datblygiad Strategaeth Gweithlu a chyflawni blaenoriaethau allweddol y gweithlu er mwyn galluogi'r Cyngor i fod yn sefydliad mwy modern ac ymatebol ac yn 'Gyflogwr Dewis'.
Dylunio a Gwella'r Gwasanaeth	Darparu ar gyfer dull mwy cynaliadwy a chreadigol o adolygu, ailfodelu a gwella gwasanaethau'r Cyngor
Arbedion Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian	Parhau i wneud arbedion ariannol drwy effeithlonrwydd neu ostyngiadau mewn costau a ffyrdd clyfrach o weithio.
Incwm a Masnacheiddio	Datblygu agwedd fwy masnachol tuag at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda'r nod o gynyddu lefel yr incwm sy'n cael ei gynhyrchu.
Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol	Parhau i wneud gwell defnydd o dechnoleg i ddarparu prosesau gwasanaeth clyfrach, effeithlon ac i roi profiad gwell i gwsmeriaid
Adeiladau	Manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir trwy symud i weithio hybrid i resymoli ad-drefnu portffolio adeiladau'r Cyngor ymhellach ac i foderneiddio a gwella'r amgylchedd gwaith yn yr adeiladau craidd sy'n weddill.
Carbon Sero Net	Helpu'r Cyngor i sicrhau trawsnewid i gefnogi targedau Carbon Sero Net allweddol
Ysgolion	Cynorthwyo ysgolion i nodi gostyngiadau mewn costau a ffyrdd gwell o weithio a chefnogi datblygu cyllidebau ysgolion mwy cynaliadwy a helpu i ddiogelu darpariaeth academiaidd rheng flaen.

Ymgynghori ar Ofynion Perfformiad

Buom yn ymgynghori ar ein perfformiad fel Cyngor gyda thrigolion, busnesau, staff ac Undebau Llafur. Mae'n bwysig bod ein hunanasesiad o berfformiad mor realistig â phosibl ac nad ydym yn 'marcio ein papurau ein hunain' ond yn rhannu ein hasesiad rhwng data perfformiad, canfyddiadau rheoleiddio a barn ein cwsmeriaid. Mae ymatebion yr ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a byddant yn cael eu hadrodd maes o law gyda chynigion ar gyfer gwella o'r canfyddiadau, er mwyn dylanwadu ar ein gwaith datblygu o ran cynllunio busnes a gwella sefydliadol yn y dyfodol.

Ymgynghori â'r Trigolion

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod y cyfnod rhwng 23 Mehefin 2022 a 5 Awst 2022 a derbyniwyd cyfanswm o 2,195 o ymatebion. Wrth gynnal yr arolwg hwn, gofynnwyd cyfres o 5 datganiad i drigolion a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â pherfformiad y Cyngor.

Ar y cyfan, roedd trigolion yn gytûn bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau da. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i sicrhau bod trigolion yn deall sut y gallan nhw gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan drigolion fynediad at wybodaeth gyfoes am berfformiad y Cyngor ac yn cael gwybod sut i gael mynediad i'r wybodaeth hon.

Mae'n amlwg y byddai o fudd i'r Cyngor a thrigolion bod mwy o wybodaeth yn cael ei darparu o ran sut y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ariannol a pham fod y buddsoddiad wedi'i ganolbwyntio mewn ardaloedd penodol.

Bydd argymhellion ar gyfer gwella yn hyn o beth yn cael eu cytuno a byddant yn parhau i ddylanwadu ar ein gwaith datblygu o ran cynllunio busnes a gwella sefydliadol yn y dyfodol.

Ymgynghori â Busnesau

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod y cyfnod rhwng 26 Awst a 30 Medi a chafwyd cyfanswm o 36 ymateb. Wrth gynnal yr arolwg hwn, gofynnwyd cyfres o 8 datganiad i berchnogion busnes a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â pherfformiad y Cyngor.

Mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i sicrhau bod busnesau yn deall sut maen nhw'n gallu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth hawdd, hygyrch ac amserol am berfformiad y Cyngor ar gael a bod busnesau yn cael gwybod sut i gael mynediad i'r wybodaeth hon.

Mae'n amlwg y byddai o fudd i'r Cyngor ac i fusnesau bod mwy o wybodaeth yn cael ei darparu o ran sut y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ariannol a pham fod y buddsoddiad wedi'i ganolbwyntio mewn ardaloedd penodol. Byddai hyn yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth perchnogion busnes o ran sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio a beth mae hynny'n ei olygu i'r sector preifat yn y sir.

Mae argymhellion ar gyfer gwella yn hyn o beth wedi cael eu paratoi a byddant yn parhau i ddylanwadu ar ein gwaith datblygu o ran cynllunio busnes a gwella sefydliadol yn y dyfodol.

Ymgynghori â'r Staff

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod y cyfnod rhwng 27 Mehefin 2022 a 5 Awst 2022 a derbyniwyd 1,733 o ymatebion sy'n cyfateb i 22% o staff Cyngor Sir Caerfyrddin.

Wrth gynnal yr arolwg staff hwn, gofynnwyd cyfres o 11 o ddatganiadau i'r staff a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â pherfformiad y Cyngor. Cafodd y rhain eu geirio mewn ffordd fel bo'r sawl oedd yn ymateb yn ateb y cwestiynau hyn o safbwynt eu maes gwasanaeth yn hytrach na'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.

Ar y cyfan, roedd y staff yn gadarnhaol o ran perfformiad eu gwasanaeth. Fodd bynnag, byddai'n deg dweud y byddai'n fuddiol cynyddu'r graddau y rhennir gwybodaeth am berfformiad ar draws y sefydliad. Byddai hyn yn cynyddu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gan staff mewn perthynas â'r prosesau corfforaethol sydd ar waith i sicrhau bod y broses o fesur perfformiad yn deg ac yn gytbwys.

Mae argymhellion ar gyfer gwella yn hyn o beth wedi cael eu paratoi a byddant yn parhau i ddylanwadu ar ein gwaith datblygu o ran cynllunio busnes a gwella sefydliadol yn y dyfodol.

Undebau Llafur

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod y cyfnod rhwng 12 Awst a 23 Medi a derbyniwyd cyfanswm o 5 ymateb.

Gofynnwyd cyfres o bum datganiad gan ganolbwyntio ar y ffordd mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau, ei wasanaethau a llywodraethu. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiadau, sy'n dangos bod angen gwneud mwy i ddangos sut y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu tryloywder o ran trefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Bydd argymhellion ar gyfer gwella yn hyn o beth yn cael eu cytuno a byddant yn parhau i ddylanwadu ar ein gwaith datblygu o ran cynllunio busnes a gwella sefydliadol yn y dyfodol.



Byddem yn croesawu adborth gennych - anfonwch eich sylwadau a'ch safbwyntiau atom i:



Rheoli Perfformiad

TGCh a Pholisi Corfforaethol
Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin SA31 1JP



Ffôn: 01267 234567

E-bost: performance@sirgar.gov.uk



Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor



Dilynwch y cynllun hwn ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein tudalen Twitter - [#AdroddiadSirGar](#)